Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adroddiad a Chyfrifon ar gyfer

y Flwyddyn a Ddaeth i Ben

26 Mawrth 2006

Mae Grŵp y Post Brenhinol yn cynnig gwasanaeth unigryw sy'n cyrraedd pawb yn y DG drwy ei fusnesau post, Swyddfa'r Post® a pharseli – sy'n cyflogi tua 193,000 o bobl yn uniongyrchol yn y DG.

Bob diwrnod gwaith mae'r Post Brenhinol yn casglu, yn prosesu ac yn dosbarthu tua 84 miliwn o eitemau i 27 miliwn o gyfeiriadau am brisiau sydd ymhlith yr isaf yn Ewrop; bob wythnos, rydym yn gwasanaethu bron 28 miliwn o gwsmeriaid drwy ein rhwydwaith o 14,376 o ganghennau Swyddfa'r Post® a phob blwyddyn mae ein busnesau parseli cartref ac Ewropeaidd – General Logistics Systems a Parcelforce Worldwide – yn dosbarthu tua 337 miliwn o barseli.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Cynnwys

Datganiad y Cadeirydd 4
Datganiad y Prif Weithredwr 6
Adolygiad Blynyddol 2005-06 8
Adolygiad Gweithredol ac Ariannol 11
Bwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc 27
Adroddiad y Cyfarwyddwyr 29
Llywodraethu Corfforaethol 31
Rheolaeth fewnol 36
Adroddiad Taliad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr 37
Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â chyfrifon y Grŵp 44
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i aelodau Daliadau'r Post Brenhinol ccc 45
Datganiad incwm y Grŵp ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005 46
Datganiad incwm a gwariant cydnabyddedig y Grŵp ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005 47
Mantolen y Grŵp ar 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005 48
Datganiad llif arian parod y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005 49
Nodiadau i gyfrifon y Grŵp 51
1. Awdurdodi datganiadau ariannol a'r datganiad o gydymffurfiaeth ag IFRS 51
2. Polisïau cyfrifyddu 51
3. Gwybodaeth gylchrannol 58
4. Costau pobl a thaliadau Cyfarwyddwyr 62
5. Refeniw a threuliau 62
6. Eitemau eithriadol gweithredol 64
7. Treth Incwm 64
8. Eiddo, offer a chyfarpar 66
9. Ewyllys da 67
10. Asedau anniriaethol 68
11. Cyfuniadau busnes 69
12. Buddsoddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt drwy ddefnyddio'r dull ecwiti 69
13. Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu 72
14. Buddiannau i gyflogeion - pensiynau 73
15. Buddiannau i gyflogeion - gwyliau blynyddol 77
16. Stocrestrau 77
17. Masnach gyfredol a symiau derbyniadwy eraill 77
18. Symiau derbyniadwy eraill nad ydynt yn gyfredol 77
19. Arian parod ac arian parod cyfatebol 78
20. Cyfalaf cyfranddaliadau 78
21. Cyfanswm yr ecwiti 79
22. Rhwymedigaethau ariannol 81
23. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau 83
24. Masnach gyfredol a symiau eraill sy'n daladwy 84
25. Masnach nad yw'n gyfredol a symiau eraill sy'n daladwy 84
26. Ymrwymiadau a rhwymedigaethau amodol 84
27. Trafodion â phartion cysylltiedig 86
28. Amcanion a pholisïau rheoli risg ariannol 87
29. Offerynnau Ariannol 89
30. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen 95
31. Newid i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 96
Mantolen y Grŵp ar 29 Mawrth 2004 99
Datganiad incwm y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005 100
Datganiad incwm a threuliau cydnabyddedig y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005 100
Mantolen y Grŵp ar 27 Mawrth 2005 101
Datganiad llif arian parod y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005 102
Mantolen y Grŵp ar 28 Mawrth 2005 103
Crynodeb pum mlynedd y Grŵp 104
Cyfrifon y Rhiant-Gwmni 105
Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â chyfrifon y rhiant-Gwmni 105
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i aelodau'r Cwmni Daliadau'r Post Brenhinol ccc 106
Mantolen y Rhiant-Gwmni 107
Nodiadau i gyfrifon y rhiant-Gwmni 108
Datganiadau sy'n edrych i'r Dyfodol 109
Gwybodaeth gorfforaethol 109

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad y Cadeirydd

Blwyddyn lwyddiannus ar gyfer gwasanaeth i gwsmeriaid - ond mae heriau mawr ar y gorwel

Mae'r Post Brenhinol wedi cyflawni blwyddyn lwyddiannus o wasanaeth o safon uchel i'w gwsmeriaid. Bu perfformiad ariannol yn eithriadol hefyd, yn enwedig yn wyneb cystadleuaeth, gydag elw gweithredol o £355 miliwn - cynnydd o 17.5% o gymharu â'r llynedd - y refeniwiau uchaf erioed o fwy na £9 biliwn.

Mae Parcelforce Worldwide wedi gwneud elw blwyddyn lawn am y tro cyntaf erioed ac mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi perfformio'n gadarn i fynd i'r afael â'i cholledion mewn blwyddyn a ddaeth â therfyn o'r diwedd i lyfrau pensiwn a budd-daliadau. Gwnaeth General Logistics Systems (GLS), busnes parseli Ewropeaidd y Post Brenhinol yr elw gorau erioed a gwelodd gynnydd yn ei refeniwiau mewn marchnad lle cafwyd cystadleuaeth gynyddol.

Er mwyn cydnabod ein hymrwymiad i rannu llwyddiant gyda'n pobl a'u gwobrwyo am eu perfformiad ardderchog rhoddwyd taliad Cyfran o'r Llwyddiant o £418 i bobl ar draws y cwmni, gan gynnwys, am y tro cyntaf, is-bostfeistri, sef asgwrn cefn ein rhwydwaith manwerthu. Mae'r wobr, a gaiff ei thalu'r mis hwn, yn cyfateb i daliad o bron £100 miliwn ac yn dilyn taliad y llynedd o £1,074 i'n pobl am ddarparu'r Cynllun Adnewyddu tair blynedd yn llwyddiannus. Er hyn, roedd pobl yn amau'r cwmni hyd yn ddiweddar, am ei fod yn colli ymhell dros £1 filiwn y diwrnod yn 2002, ac yn tybio p'un a fyddai'n llwyddo i fod yn broffidiol eto neu p'un a allai gyflawni targedau gwasanaeth cwsmeriaid.

Mae gennym fynydd i'w ddringo o hyd. Serch hynny, dangoswyd y llynedd bod Grŵp y Post Brenhinol a'i bobl wedi cyfnerthu'r enillion a wnaethom yn ystod y Cynllun Adnewyddu. Roedd perygl bob amser y gallem fod wedi llithro yn ôl, y gallai'r enillion yr ymdrechwyd mor galed i'w sicrhau ddechrau diflannu - ond rydym wedi cynnal ein gweithdroad a rhaid i ni barhau i wneud hynny. Mae hynny'n gyflawniad mawr ynddo'i hun.

Yn hanfodol, rhaid i ni fynd ati ar unwaith i foderneiddio'r Post Brenhinol. Dyma'r her allweddol y mae'r sefydliad cyfan yn ei hwynebu. Mae'n dasg sydd hyd yn oed yn anoddach na'r Cynllun Adnewyddu a gyflawnwyd gennym, a bydd yn profi pob un ohonom.

Defnyddio technoleg newydd a gosod offer newydd yn lle hen offer, o fewn amser ac o fewn y gyllideb; symleiddio ein gweithrediadau ymhellach ac ystyried ein pobl ar bob adeg; canolbwyntio fwy ar gwsmeriaid fel ein bod yn darparu gwasanaeth sydd hyn yn oed yn well mewn marchnad lle ceir cystadleuaeth fawr - bydd hyn oll yn waith heriol iawn. Bydd yn golygu cryn dipyn o waith caled.

Eto, mae'n rhaid i ni barhau i roi arian yn ein cronfa bensiwn - efallai cymaint â £750 miliwn y flwyddyn - er mwyn ariannu ein hymrwymiadau pensiwn i gyflogeion a chlirio diffyg sydd bellach wedi cyrraedd £5.6 biliwn. I amlygu pa mor ddifrifol yw'r diffyg, mae'n £3.3 biliwn yn fwy na gwerth ased net y Grŵp cyn y diffyg, sef £2.3 biliwn. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i arian i glirio'r diffyg. Mae'n her na all un ohonom yn y cwmni ei hanwybyddu.

A waeth pa mor galed yw'r dasg, rhaid mynd i'r afael â'r gwaith o ailstrwythuro rhwydwaith Swyddfa'r Post er mwyn delio â cholledion difrifol o tua £2 filiwn yr wythnos ar weithrediadau. Mae'n golygu creu dyfodol cynaliadwy ar gyfer y gwasanaeth gwledig, lle y mae'r mwyafrif o'r 7,854 o ganghennau yn gwneud colled yn sylfaenol ac wedi bod angen bob ceiniog o'r £150 miliwn o gyllid a roddwyd gan y Llywodraeth er mwyn iddynt aros ar agor. Rydym yn aros am benderfyniad ar gyllid yn y dyfodol gan y Llywodraeth ond ein cyfrifoldeb ni yw darparu sylfaen ariannol llawer cryfach ar gyfer y 500 o ganghennau a reolir yn uniongyrchol ar y stryd fawr ac mewn allfeydd siopa - sy'n colli £50 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd - yn ogystal â gwneud y canghennau trefol prysuraf - a reolir yn uniongyrchol neu sy'n eiddo preifat - yn llawer mwy deniadol i'n cwsmeriaid.

Mae'r cyfan yn mynd i fod yn anodd iawn. Ond mae'n galonogol bod y blociau adeiladu sydd eu hangen arnom yn dechrau syrthio i'w lle. Rhan hanfodol o'n cynlluniau, ar ôl trafodaethau hir gyda Postcomm, oedd sicrhau dull o reoli prisiau sy'n caniatáu buddsoddiad sylweddol yn y busnes ac sy'n rhoi'r gallu i ni gynyddu'r taliadau ariannol i'r gronfa bensiwn y mae ei diffyg bellach yn £5.6 biliwn.

Rydym wedi gwneud cynnydd aruthrol mewn trafodaethau gyda'r Llywodraeth - cyfranddeiliad Grŵp y Post Brenhinol - ar ein hachos buddsoddi ar gyfer y dyfodol. Bu i ni gyflwyno cynllun masnachol i'r Llywodraeth, ac rydym yn hyderus y bydd yn codi gwerth y sefydliad i'r cyfranddeiliad. Nid cymorthdaliad gan y Llywodraeth mohono, ond achos buddsoddi clir ar gyfer ein cyfranddeiliad ac mae'n bleser gennyf ddatgan ein bod wedi dod i gytundeb mewn egwyddor gyda'r Llywodraeth ar yr achos buddsoddi hwn yn gyfan gwbl. Yn anochel, mae swm sylweddol o waith i'w wneud o hyd dros yr wythnosau i ddod, yn cynnwys sicrhau ein bod yn rhoi'r cynllun cymhelliant cywir ar waith ar gyfer ein pobl. Gwyddom fod cynnwys ein pobl ar bob adeg yn ganolog i'n cynlluniau. Credwn y byddai rhoi cyfran iddynt yn y cwmni yn gymhelliant enfawr i'n pobl gyflawni'r enillion effeithlonrwydd sy'n hanfodol er mwyn i ni allu cystadlu'n llwyddiannus i gadw ac ennill cwsmeriaid yn wyneb cystadleuaeth gadarn ac yn bwysicach oll, gwyddom fod hyn yn rhywbeth y byddent yn ei ddymuno ac yn ymateb iddo. Bydd y buddsoddiad masnachol hwn gan ein cyfranddeiliad yn rhoi'r cyfle i ni foderneiddio a thrawsnewid busnes sy'n hanfodol i lwyddiant ccc y DG.

Ni allwn gymryd unrhyw beth yn ganiataol. Wynebodd y farchnad bost gystadleuaeth lawn ac mae swmp-bostmyn, sydd eisoes ar waith, wedi delio â dros biliwn o lythyrau o dan gytundebau mynediad gyda'r Post Brenhinol dros y 12 mis diwethaf. Mae ein postmyn a'n postwragedd yn parhau i ddosbarthu'r post hwn ond rydym wedi colli refeniw oherwydd caiff ei gludo'n uniongyrchol i'n canolfannau post. Rydyn yn wynebu'r posibilrwydd y bydd swm y post a dderbynnir yn cyrraedd tri biliwn o eitemau'r flwyddyn o fewn y ddwy flynedd nesaf, a fyddai'n cyfateb i tua un o bob saith o'r llythyrau yr ydym yn delio â hwy ar hyn o bryd.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad y Cadeirydd (parhad)

Mae angen i ni fod yn fwy effeithlon. O ran y busnes llythyrau, mae angen rhaglen fuddsoddi £2 biliwn arnom gyda chyllid gan y llywodraeth ac o'r refeniwiau rydym yn eu cynhyrchu o drosiant i osod offer newydd yn lle hen offer a rhoi technegol newydd ar waith i roi effeithlonrwydd, gallu a sylfaen cost fwy hyblyg i ni er mwyn cystadlu'n llwyddiannus a darparu'r gwasanaeth sydd ei angen ar ein cwsmeriaid.

Mae angen buddsoddiad ar y rhwydwaith Swyddfa'r Post hefyd er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy. Rydym yn gweld refeniwiau newydd yn deillio o'r ystod o gynnyrch newydd a gyflwynwyd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn y rhwydwaith - megis y cyfrif a'r cerdyn credyd Instant Saver a gyflwynwyd yn ddiweddar - ond rydym hefyd wedi colli refeniwiau blynyddol a oedd werth £327 miliwn o ganlyniad i golli taliadau budd-daliadau traddodiadol. Caiff Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post, a ddefnyddir gan 4.2 miliwn o bensiynwyr a'r sawl sy'n cael budd-daliadau, ei ddileu yn raddol erbyn 2010, ac mae dyfodol y rhwydwaith gwledig a lefel y cyllid a fydd ar gael yn y dyfodol ar ôl 2008 yn nwylo'r Llywodraeth. Rydym yn parhau i drafod gyda'n cyfranddeiliad y ffordd orau o sicrhau bod gwasanaethau Swyddfa'r Post yn datblygu. Mae cydbwyso'r angen i gynnal y rhwydwaith mor effeithlon â phosibl ynghyd â diwallu angen cymdeithasol canghennau mewn cymunedau ledled y wlad yn her anodd, ond mae'n un yr ydym yn ymateb iddi.

Daeth marchnad parseli'r DG hyd yn oed yn fwy cystadleuol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ond mae'r gwaith caled a gyflawnwyd gan y busnes a'i bobl i ailstrwythuro'i weithrediadau a'r ffocws ar ddarparu gwasanaethau o safon uchel i'w 21,000 o gwsmeriaid busnes wedi dwyn ffrwyth gan arwain at flwyddyn lawn gyntaf broffidiol. Bydd yn rhaid i Parcelforce Worldwide barhau i weithio'n galed i sicrhau ei fod yn parhau'n broffidiol mewn marchnad lle mae'r gystadleuaeth yn tyfu bob blwyddyn.

Cafwyd y perfformiad gorau yn y Grŵp o ran proffidioldeb gan GLS a welodd 37% o gynnydd mewn elw i £100 miliwn ar refeniwiau a dyfodd yn gadarn i fwy na £1 biliwn. Mae'n enghraifft eithriadol o'r cyflawniadau a all ddeillio o ffocws penodol ar gwsmeriaid ac effeithlonrwydd.

Mewn gwirionedd, dyma nod cyffredinol y Post Brenhinol. Ein prif flaenoriaeth o hyd yw darparu gwasanaeth cyson o safon ardderchog i'n cwsmeriaid. Yn sail i hynny mae ymdrech ddi-baid i gynnal ein holl weithrediadau mor effeithlon â phosibl - a bydd gwneud y buddsoddiadau cywir yn ein gweithrediadau yn hanfodol i gyflawni cynhyrchiant uwch. Ein pobl yw'r allwedd i bopeth a wnawn. Credwn y bydd rhoi cyfran real iddynt yn y busnes yn gymhelliant pwerus i gynyddu eu hymrwymiad a'u hymroddiad ymhellach. Rydym wedi gwneud cynnydd aruthrol ac wedi dod i gytundeb mewn egwyddor gyda'r Llywodraeth ar yr achos buddsoddi er mwyn cyflawni hyn oll. Bydd yr achos buddsoddi yn ein helpu i adeiladu dyfodol llwyddiannus. Yna, bydd angen i bawb yn y Post Brenhinol ddringo'r mynydd hwnnw.

Allan Leighton

Cadeirydd

17 Mai 2006

Mae'r ffigurau a ddyfynnwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan o ganlyniad i'r trawsnewid i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Mae'r holl gyfeiriadau at elw gweithredol cyn eitemau eithriadol.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad y Prif Weithredwr

Sylfaen gadarn i lansio'r trawsnewid

Dengys perfformiad arbennig Grŵp y Post Brenhinol y llynedd bod gennym yn awr y sylfaen gadarn sydd ei hangen i lansio'r broses o drawsnewid y cwmni.

Mae llawer o waith i'w wneud o'r sylfaen a osodwyd gennym a bydd yn hanfodol ein bod yn cynnwys ein pobl ar bob cam ar hyd y daith. Bydd yn her gadarn iawn, ac yn anos nag unrhyw beth yr ydym wedi'i gyflawni hyd yma. Ond gwyddom y gallwn sicrhau llwyddiant. Ein tasg yn awr yw mynd ati i weithredu'r newidiadau enfawr sydd eu hangen i sicrhau ein bod yn cystadlu'n llwyddiannus mewn marchnadoedd lle y mae llawer o gystadleuaeth eisoes. Bydd yn gofyn am ymrwymiad enfawr gan bob un ohonom.

Mae'r gystadleuaeth a'r bygythiad a gyflwyna yn rhan o fywyd dyddiol ar draws y Post Brenhinol erbyn hyn. Bu i ni ddarparu'r gwasanaeth cwsmeriaid gorau erioed y llynedd ond mae'n rhaid i ni wneud yn well. Dylai ffocws llwyr ar ein cwsmeriaid, a darparu'r gwasanaeth maent yn ei ddisgwyl yn barhaus a gwneud pob ymdrech i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i'w hanghenion a'u pryderon, fod yn rhan elfennol o fywyd dyddiol pawb er mwyn i ni allu cystadlu'n llwyddiannus. Byddwn yn datblygu ein cynnyrch a'n gwasanaethau ac yn creu rhai newydd er budd i'n cwsmeriaid. Ond rydym yn parhau i fod yn gwmni sy'n canolbwyntio ar bobl a bydd ein llwyddiant yn dibynnu ar berfformiad ac ymrwymiad pob un ohonom.

Dylid canmol ein pobl felly am eu perfformiad arbennig yn 2005-06. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cyrhaeddodd 94.1% o lythyrau Dosbarth Cyntaf y diwrnod ar ôl eu postio, y perfformiad gorau erioed sy'n well nag unrhyw beth a gyflawnwyd gennym yn flaenorol ac ychydig dros bwynt canran llawn yn uwch na'r targed, sef 93.0%. Roedd post Ail Ddosbarth yn uwch na'r targed hefyd gyda pherfformiad 98.8% a llwyddodd nifer helaeth o wasanaethau post busnes hefyd i gyflawni eu targedau neu ragori arnynt. Mae'n berfformiad o'r radd flaenaf gan ein pobl a gallant ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi'i gyflawni. Rwy'n falch ohonynt.

Roedd hefyd yn berfformiad ariannol eithriadol o ran yr elw gweithredol £355 miliwn - cynnydd o 17.5% o gymharu â'r llynedd - a arweiniodd at £418 o daliad Cyfran o'r Llwyddiant i'n pobl. Maent wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol i sicrhau bod y newidiadau gweithredol a wnaethom yn ystod y Cynllun Adnewyddu tair blynedd wedi'u hymgorffori'n gadarn erbyn hyn. A deallant, gyda'r gystadleuaeth gynyddol, na allwn fforddio llithro'n ôl.

Llwyddodd pob un o fusnesau Grŵp y Post Brenhinol i wella eu perfformiad ariannol y llynedd. O ran Llythyrau, cafwyd dirywiad yn y post â chyfeiriadau mewndirol ac roedd yr effaith yn fwy o ganlyniad i'r ffaith bod rhai cwsmeriaid swmp-bost wedi newid i wasanaethau rhatach. Cafodd yr effeithiau andwyol hyn eu gwrthbwyso gan gynnydd mewn prisiau a oedd yn is na chwyddiant a gwnaeth y busnes £344 miliwn o elw gweithredol, £1 filiwn o welliant ar y llynedd. Mae'r perfformiad hwn yn cuddio'r colledion y mae'r Post Brenhinol yn parhau i'w gwneud wrth gyflawni ei Rwymedigaeth Gwasanaeth Byd-eang "dosbarthu i bob cyfeiriad am bris safonol unffurf" wrth i ni barhau i golli arian ar lythyrau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth.

Gyda'r gystadleuaeth yn poethi ac arwyddion clir y gallai'r farchnad llythyrau ddirywio ymhellach, mae gwir angen i'r Post Brenhinol lywio newidiadau effeithlon. Mae gwella effeithlonrwydd mewn marchnad sy'n dirywio yn llawer anoddach na gwneud enillion o ran cynhyrchiant mewn marchnad sy'n tyfu. Her allweddol a wynebwn yw gwneud cynnydd cyflym drwy fuddsoddi mewn technoleg newydd a moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio.

Rydym yn ymrwymedig i roi blaenoriaeth uchel i sicrhau cyfanrwydd y post. Rydym wedi cyflwyno prosesau rheoli newydd eleni, drwy gynnwys ein cyfanrwydd post yn ein cardiau sgorio rheoli perfformiad, penodi cyfarwyddwr atebol a diwygio a diweddaru polisïau. Y llynedd oedd y flwyddyn lawn gyntaf i ni gymhwyso pwerau fetio, y cafodd y Post Brenhinol ganiatâd i'w defnyddio i wirio p'un a oedd ymgeiswyr yn ceisio cuddio unrhyw gollfarnau troseddol blaenorol. Mae wedi rhoi haen ychwanegol o ddiogelwch i ni. Rydym hefyd wedi lleihau nifer y cyflogeion achlysurol i tua 500 - mewn cyferbyniad llwyr i oddeutu'r 20,000 a gyflogwyd yn ystod hydref 2004, a chynhaliwn archwiliad chwarterol newydd o ddiogelwch y post yn ein holl ganolfannau post a swyddfeydd dosbarthu. Mae ein polisi yn parhau - peidio â goddef unrhyw fath o gamwedd.

Bu i'r Swyddfa Post Cyf wneud colled weithredol o £111 miliwn ond roedd hyn yn £12 miliwn o welliant ar y flwyddyn flaenorol. Roedd hefyd yn gyflawniad mawr am ei fod yn dangos y cynnydd cadarn yn ymgyrch y busnes i osod incwm cynyddol o gynnyrch amgen fel yswiriant teithio, car a chartref, HomePhone, arian tramor, cynnyrch cardiau credyd a benthyciadau a chynilion yn lle'r refeniw a gollwyd o daliadau llyfrau pensiwn a budd-daliadau. Ond ni ellir cynnal colledion o tua £2 filiwn yr wythnos yn Rhwydwaith Swyddfa'r Post yn yr hirdymor. Mae ailstrwythuro yn hanfodol ac rydym yn parhau i drafod gyda'r Llywodraeth y ffyrdd gorau o greu rhwydwaith sefydlog, cynaliadwy; gobeithiwn y bydd y trafodaethau hyn yn dwyn ffrwyth yn ystod yr hydref eleni.

Mae elw gweithredol o £5 miliwn Parcelforce Worldwide - y flwyddyn lawn gyntaf o elw gweithredol y mae'r busnes erioed wedi'i wneud - yn ganlyniad cyfnod hir a oedd yn cynnwys canolbwyntio ar gwsmeriaid busnes, cael gwared ar gontractau sy'n creu colledion a lleihau costau, gan ganolbwyntio drwy'r amser ar ddarparu gwasanaeth o safon gan bobl llawn cymhelliant. Mae'n gyflawniad gwych ond nid ydym yn hunanfodlon mewn unrhyw ffordd gan fod cynnal proffidioldeb mewn marchnad gynyddol gystadleuol yn her anodd arall y mae'r busnes yn ei hwynebu.

Mae'r gwelliant o 37% mewn elw gweithredol gan General Logistics Systems (GLS) i £100 miliwn gyda ffin o 9.6% ar refeniw a gynyddodd 13.6% yn berfformiad gwych arall gan gwmni a gydnabyddir yn gyffredinol yn gystadleuydd aruthrol yn y farchnad parseli Ewropeaidd. Mae'r busnes bellach yn cyfrannu'n sylweddol at elw'r Grŵp ond gwyddom y gall wella ei berfformiad ymhellach a dyma'r her a wyneba.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad y Prif Weithredwr (parhad)

Roedd elw gweithredol cyffredinol y Grŵp o £355 miliwn yn gyflawniad arbennig ond dylid nodi hefyd, er y cafwyd ffin gymeradwy o 3.9% ar ein refeniw, mae'n is o lawer na'r enillion y mae llawer o'n cystadleuwyr mwyaf yn eu cyflawni.

Mae'r blociau adeiladu ar gyfer moderneiddio Grŵp y Post Brenhinol yn dechrau syrthio i'w lle. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth sicrhau'r arian sydd ei angen arnom i foderneiddio'r busnes hwn, ymdrin â diffyg y gronfa bensiwn sydd angen tua £750 miliwn o arian parod bob blwyddyn ac ailstrwythuro'r rhwydwaith Swyddfa'r Post sy'n colli tua £100 miliwn y flwyddyn. Rydym wedi dod i gytundeb gyda'r Llywodraeth mewn egwyddor ar ein hachos buddsoddi cyffredinol ac rydym wedi sicrhau cytundeb rheoli prisiau gyda Postcomm. Gyda'i gilydd, byddai hyn yn caniatáu i ni foderneiddio'r busnes a gwneud taliadau uwch i'r gronfa bensiwn o dan gynllun ariannu sy'n bodloni ymddiriedolwyr y gronfa bensiwn annibynnol. Rydym hefyd yn cael deialog adeiladol gyda'r Llywodraeth ar ailstrwythuro'r rhwydwaith Swyddfa'r Post, yn erbyn y rhagwelediad y bydd busnes y Llywodraeth ar draws ein cownteri yn dirywio i lai na 10% o fusnes cyffredinol yn ein canghennau ymhen tair blynedd.

Bydd y blynyddoedd o'n blaenau yn anoddach nag unrhyw beth yr ydym wedi'i brofi o'r blaen. Mae pob maes o'n busnes – llythyrau, parseli a'r gwasanaethau a ddarparwn yng nghanghennau Swyddfa'r Post – o dan bwysau cystadleuol cynyddol. Mae'r diwrnodau lle y gellid dibynnu ar gwsmeriaid i heidio i swyddfa'r post wedi hen ddiflannu.

Dyna'r rheswm pam ei bod mor bwysig bod Grŵp y Post Brenhinol wedi sicrhau cytundeb ein cyfranddeiliad, mewn egwyddor, i'n cynllun buddsoddi. Byddwn yn gweithio i gytuno ar y manylion dros yr wythnosau nesaf, gan gynnwys rhoi'r cymhelliant priodol ar waith i wobrwyo ein pobl am lwyddiant yn y dyfodol. Credwn y bydd cyfran yn Grŵp y Post Brenhinol – cyfran gyfartal i bawb – yn cymell ein pobl ac yn helpu i ddarparu'r trawsnewid sydd ei angen arnom. Mae ein pobl yn hanfodol i'n cynlluniau moderneiddio ac rydym wedi pwysleisio eu rôl yn y cynllun buddsoddi masnachol yr ydym wedi'i gyflwyno i'r cyfranddeiliad.

Rwyf hefyd yn benderfynol iawn ein bod yn gwneud gwelliannau pellach er budd iddynt hwy. Rwyf am i bawb fwynhau gweithio i'r cwmni ac mae hynny'n golygu sicrhau eu bod yn llawn cymhelliant, bod ganddynt yr amgylchedd gwaith priodol, yr offer i wneud y swydd a'u bod yn cael eu trin yn briodol ar bob adeg. Mae sicrhau y gallwn fynd i'r afael â'r diffyg pensiwn hefyd yn sylfaenol i'n strategaeth ac mae'n parhau i fod yn bwynt gweithredu allweddol. Mae gwobrwyon, buddiannau a chyfran go iawn yn llwyddiant y dyfodol yn hanfodol – ond mae'n rhaid bod pobl yn haeddu'r rhain. Ni fydd yn hawdd.

Ond mae ein gweledigaeth yn parhau – dangos mai ni yw'r cwmni post gorau a'r un y gellir ymddiried fwyaf ynddo yn y byd. Mae'r heriau yn enfawr ond y llynedd bu i ni gymryd cam arall tuag at gyflawni ein nod.

Adam Crozier

Prif Weithredwr

17 Mai 2006

Mae'r ffigurau a ddyfynnwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan o ganlyniad i'r trawsnewid i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Mae'r holl gyfeiriadau at elw gweithredol cyn eitemau eithriadol.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adolygiad Blynyddol 2005-06

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu i'r farchnad bost yn y DG newid am byth - ers 1 Ionawr 2006, mae'r Post Brenhinol wedi bod yn wynebu cystadleuaeth gref. Mae ein llwyddiant yn y dyfodol yn dibynnu bellach ar gystadlu'n effeithiol mewn marchnad lle mae gan gwsmeriaid ddewis go iawn.

Mae cystadleuaeth yn newid popeth ond ni allwn fforddio colli'r momentwm yr ydym wedi'i adeiladu dros ein Cynllun Adnewyddu tair blynedd ac wedi'i gynnal dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae gwella'r gwasanaeth i'n cwsmeriaid wedi parhau i fod yn brif flaenoriaeth i bawb yn y Cwmni yn ystod 2005-06. Bu ansawdd perfformiad y gwasanaeth ar gyfer post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn uwch na'r lefelau targed am dros flwyddyn - gyda 94.1% o bost Dosbarth Cyntaf yn cyrraedd y diwrnod ar ôl ei bostio. Bydd darparu gwasanaeth cyson o safon uchel i gwsmeriaid a rhoi gwerth am arian iddynt yn parhau i fod yn brif flaenoriaethau yn y flwyddyn gyfredol gan fod y rhain yn allweddol i gadw cwsmeriaid, a denu rhai newydd, mewn marchnad gystadleuol.

Mae'r Post Brenhinol yn rhoi sylw i bob llythyr ac yn rhoi pwys mawr ar ddiogelwch y post. Mae'r mwyafrif helaeth o'n pobl yn onest ac yn gwbl ddibynadwy, ac mae dros 99.93% o'n bag postio blynyddol o 22 biliwn o eitemau yn cyrraedd eu cyrchfan gywir yn ddiogel.

Ein pobl - ein hased mwyaf

Pobl y Post Brenhinol yw ein hased mwyaf ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y Post Brenhinol yn lle arbennig i weithio. Mae ymgysylltu â'n pobl a'u cynnwys yn allweddol i hyn a dyna pam rydym am iddynt gael cyfran yn y Cwmni. Cynhaliwn sesiynau Gwrando a Dysgu rheolaidd yn ystod Oriau Gwaith i glywed safbwyntiau pobl ac i drafod sut yr ydym yn mynd i'r afael â'r heriau a wynebwn ac i ba gyfeiriad mae'r Cwmni yn symud yn ogystal â chodi materion sydd o bwys i bobl.

Rydym wedi gwella cyflog sylfaenol i bostmyn a phostwragedd i dros £310 yr wythnos ac ym mis Mawrth 2006 gwnaethom gytuno ar gynllun cynhyrchiant chwyldroadol gydag Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu a fydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer cyflog sylfaenol uwch. Mae'r cynllun yn golygu y bydd y cyflog yn cynyddu wrth i effeithlonrwydd wella, gan roi cyfle i bostmyn a phostwragedd, am y tro cyntaf, ddylanwadu ar faint eu pecyn cyflog. Yn ogystal, rydym wedi gweithredu cynnydd o 2.9% yn eu cyflog pensiynadwy sylfaenol.

Gwnaethom barhau i fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu yn ystod y 12 mis diwethaf. Erbyn mis Mehefin 2005, gwnaethom gyflawni ein targed o ddarparu hyfforddiant amrywiaeth ar gyfer 175,000 o bobl o fewn ychydig dros 18 mis. Dyma'r ymgymeriad mwyaf o'i fath gan gyflogwr yn y DG. Cafodd ein hymdrechion i greu diwylliant cynhwysol ar draws y Cwmni lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu eu cydnabod ym mis Gorffennaf 2005 pan ddyfarnwyd gwobr Amrywiaeth Centrica i'r Post Brenhinol yn y Gwobrau Busnes yn y Gymuned Cenedlaethol er Rhagoriaeth. Mae'r Post Brenhinol hefyd wedi ennill gwobr efydd gan Race for Opportunity er mwyn cydnabod ei ymdrechion i gynnal a chadw doniau'r cymysgedd amrywiol o bobl a gyflogwn a sicrhau cyfle cyfartal i bawb yn y busnes.

Rydym yn parhau i fynd i'r afael ag absenoldeb ar draws y busnes, gyda mwy o gymorth ar gyfer pobl sydd i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch a gwobrwyo'r bobl hynny nad ydynt yn cymryd unrhyw absenoldeb salwch heb ei gynllunio. Yn dilyn llwyddiant ein mentrau y llynedd, yn cynnwys cystadleuaeth i gydnabod presenoldeb da, gwelsom gynnydd sylweddol yn nifer y bobl oedd yn y gwaith o ddydd i ddydd. Bwriadwn gynnal cynllun tebyg er mwyn codi lefelau presenoldeb ymhellach.

Rydym hefyd yn cydnabod ein pobl sy'n gwneud ymdrech ychwanegol yn eu swyddi drwy wahodd cwsmeriaid i enwebu postmyn a phostwragedd y Post Brenhinol sy'n haeddu clod yn eu cymuned leol. Gallai'r unigolion hyn fod yn bobl sy'n codi arian i elusennau yn eu hamser rhydd, wedi gweithredu er lles y cyhoedd mewn rhyw ffordd neu wedi ymdrin ag argyfwng tra eu bod yn dosbarthu neu'n casglu'r post. Gallent hefyd fod yn bobl sydd wedi dangos ymrwymiad arbennig i ddarparu gwasanaeth o safon i gwsmeriaid. Helen MacKenzie o'r Alban oedd yr enillydd cyffredinol yn 2005-06, a helpodd i achub bywyd dyn yr oedd ei fraich wedi'i ddal mewn peiriant.

Cefnogi achosion da

Mae gan bobl y Post Brenhinol hanes hir o roi o'u hamser i godi arian ar gyfer achosion da ac ym mis Mawrth 2005 dewiswyd Help the Hospices fel prif elusen fawr gyntaf y sefydliad, yn dilyn pleidlais ar draws y Cwmni. Fel rhan o bartneriaeth dwy flynedd gydag elusen genedlaethol mudiad hosbis y DG, mae'r Post Brenhinol wedi addo cyfateb yr arian a godir gan ei bobl, hyd at derfyn o £250,000. Gyda chymorth ei bobl, mae'r Post Brenhinol yn gobeithio codi cyfanswm o £1m ar gyfer Help the Hospices dros gyfnod y bartneriaeth.

Ymhlith y mentrau codi arian a gynhaliwyd hyd yma mae gwerthu addurniadau angel Nadolig drwy ganghennau mwy Swyddfa'r Post®, a chyhoeddi 'Unseen UK', sef casgliad unigryw o luniau a dynnwyd gan bostmyn a phostwragedd ar draws y wlad. Mae'r lluniau yn amrywio o bethau bob dydd i bethau rhyfedd - o adeiladau, blychau llythyrau a thirliniau i fywyd gwyllt a phobl, ac wrth gwrs, cŵn. Mae'r arian a wneir o werthu'r llyfr yn mynd at Help the Hospices.

Mae pob safle ar draws y busnes wedi gefeillio â hosbis gerllaw fel bod pobl y Post Brenhinol yn cymryd rhan uniongyrchol yn eu cymunedau lleol drwy eu gweithgareddau codi arian a gwirfoddoli. Penodwyd rhwydwaith o gydlynwyr cymunedol ar draws y busnes i sicrhau ei bod yn hawdd i'n pobl gymryd rhan fel y dymunant, p'un a ydynt yn gweithio gyda'u hosbis leol yn rheolaidd neu'n gweithio yno ar un adeg yn unig.

Codir arian ychwanegol ar gyfer mudiad yr hosbis drwy gynllun rhoi o'r gyflogres y Post Brenhinol. Dyma'r cynllun mwyaf o'i fath yn y DG ac mae wedi ennill llawer o wobrau. Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae postmyn a phostwragedd y Post Brenhinol wedi rhoi dros £27.5m i ystod eang o elusennau drwy roi o'r gyflogres yn rheolaidd.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adolygiad Blynyddol (parhad)

Cyfleoedd newydd drwy siopa ar-lein

Mae siopa ar-lein wedi parhau i dyfu dros y 12 mis diwethaf, ac mae'r Post Brenhinol yn parhau i ddarparu ystod o wasanaethau i gefnogi'r farchnad siopa o adref, o gyfleusterau storio ac arbenigedd marchnata uniongyrchol i wasanaeth dosbarthu i bob un o'r 27 miliwn o gyfeiriadau ledled y DG ynghyd â gwasanaethau dychwelyd. Y Nadolig diwethaf, dosbarthodd y Post Brenhinol tua 2 biliwn o eitemau i gwsmeriaid yn ystod y cyfnod yn arwain at 25 Rhagfyr, gan gynnwys 70 miliwn o eitemau a archebwyd dros y rhyngrwyd - y swm uchaf erioed a 15 miliwn yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

O ganlyniad i boblogrwydd cynyddol siopa ar-lein mae manwerthwyr wedi adolygu eu defnydd o gatalogau fel offeryn gwerthu. Datgelodd arolwg gan y Post Brenhinol y llynedd o 20 o brif fanwerthwyr fod catalogau yn cael eu defnyddio'n gynyddol i greu archebion ar-lein yn ogystal â gwerthiannau traddodiadol. Roedd bron dwy ran o dair o'r manwerthwyr a arolygwyd yn anfon catalogau neu lyfrynnau i lywio gwerthiannau ar-lein - dwywaith y nifer a oedd yn gwneud hynny bum mlynedd yn ôl.

Dathliadau stamp

Mae stampiau'r Post Brenhinol wedi dathlu ystod eang o achlysuron dros y 12 mis diwethaf. Dathlwyd priodas Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Charles a Mrs Camilla Parker Bowles ym mis Ebrill drwy gyhoeddi taflen fach a oedd yn cynnwys dau lun anffurfiol o'r cwpl. Roedd hon yn gofrodd boblogaidd o'r digwyddiad, a gwerthwyd y nifer fwyaf erioed o stampiau ar ddydd Sadwrn, diwrnod y briodas.

Dathlwyd buddugoliaethau o fyd chwaraeon ar stampiau yn ystod y flwyddyn hefyd. Dathlwyd cynnig llwyddiannus Llundain i gynnal y digwyddiad chwaraeon mwyaf yn y byd yn 2012, y Gemau Olympaidd, drwy gyhoeddi cyfres o stampiau yn dangos lluniau o athletwyr yn cystadlu.

Dathlwyd buddugoliaeth tîm criced Lloegr yng nghystadleuaeth y Lludw drwy gyhoeddi pedwar stamp yn cynnwys lluniau o'r sgwad. Dyma'r tro cyntaf i bobl fyw ar wahân i'r Teulu Brenhinol ymddangos mewn dull mor amlwg ar gyfres o stampiau arbennig y Post Brenhinol.

Ymunodd y Post Brenhinol â Gwasanaeth Post yr Unol Daleithiau i lansio cyfres o stampiau yn cynnwys cymeriadau clasurol o storïau plant poblogaidd. Ymhlith y rhain roedd 'Paddington Bear', 'the Enormous Crocodile' a'r 'Very Hungry Caterpillar', a gymerodd ddau 'gnoad' o'r stamp yr ymddangosodd arno - y tro cyntaf i'r Post Brenhinol gyhoeddi stamp â thyllau ynddo.

Ysgrifenwyr llythyrau ifanc

Mae cystadleuaeth ysgrifenwyr llythyrau ifanc y Post Brenhinol wedi denu dros 5 miliwn o ymgeiswyr ers iddi ddechrau 29 mlynedd yn ôl - y gystadleuaeth ysgrifennu llythyrau fwyaf o'i bath yn y DG. Gwahoddir plant o ysgolion cynradd ledled y DG i roi cynnig ar y gystadleuaeth, ac eleni gofynnwyd i'r plant ysgrifennu llythyr o safon uchel i unrhyw berson, yn unrhyw le. Mae'r panel beirniadu yn cynnwys arbenigwyr llythrennedd ac addysg sy'n cyflawni'r dasg anodd o ddewis enillydd.

Swyddfa'r Post Cyfyngedig - dyfodol heriol

Mae'r 14,400 o ganghennau Swyddfa'r Post® wedi parhau i ehangu'r ystod o wasanaethau a chynnyrch y maent yn eu cynnig i'r 28 miliwn o gwsmeriaid wythnosol, yn ogystal â thrwy werthiannau drwy wefan Swyddfa'r Post® ac archebion dros y ffôn, wrth i swm o fusnes y Llywodraeth yr ymdrinnir ag ef drwy Swyddfa'r Post® ddirywio. Rydym hefyd wedi cynnal rhaglen o hyfforddiant gwerthiannau ar gyfer ein pobl i roi'r sgiliau iddynt werthu mwy o gynnyrch.

Mae Swyddfa'r Post®, mewn ymateb i gais gan yr Adran Masnach a Diwydiant, wedi profi ystod o ffyrdd arloesol - ar wahân i'r swyddfa cangen bentref draddodiadol - o ddarparu gwasanaethau Swyddfa'r Post® mewn ardaloedd gwledig. Maent wedi cynnwys partneriaethau gyda darparwyr gwasanaethau lleol megis yr heddlu, gwasanaethau symudol yn ogystal â threfniadau 'both ac olwyn' lle y mae is-bostfeistr sy'n rhedeg cangen mewn pentref fwy yn darparu gwasanaethau Swyddfa'r Post® mewn cymunedau llai mewn mannau fel tafarn neu neuadd bentref.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Swyddfa'r Post® wedi ehangu ei chynnyrch gwasanaethau ariannol drwy lansio cyfrif 'instant saver' newydd yn ogystal â'i cherdyn credyd 'two in one'. Un o nodweddion unigryw'r cerdyn yw cyfleuster sy'n debyg i fenthyciad, sy'n cynnig yr hyblygrwydd i gwsmeriaid wneud pryniannau mwy, am gyfradd llog sefydlog ostyngol, ynghyd â chyfradd llog gystadleuol ar gyfer pryniannau rheolaidd. Mae hyn yn adeiladu ar ein llwyddiant mewn gwasanaethau ariannol eraill - y llynedd gwnaethom ymdrin â 14 miliwn o drafodion arian tramor, sy'n golygu mai ni yw prif ddarparwr gwasanaethau cyfnewid arian tramor y DG. Ni hefyd yw'r darparwr yswiriant teithio annibynnol mwyaf, ac rydym yn gwerthu dros un filiwn o bolisïau'r flwyddyn.

Ers mis Tachwedd, gall cwsmeriaid cyfrif cyfredol personol 'Flexaccount' Nationwide godi eu harian parod ac edrych ar eu balansau mewn unrhyw un o ganghennau'r Swyddfa'r Post® am ddim. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i weithio'n agos gyda banciau a chymdeithasau adeiladu er mwyn ei gwneud yn haws defnyddio eu gwasanaethau drwy ein canghennau. Ar hyn o bryd, mae dros un filiwn o gwsmeriaid yn codi arian parod drwy rwydwaith Swyddfa'r Post® bob dydd. Erbyn hyn mae Swyddfa'r Post® yn darparu gwasanaethau bancio cyfrif cyfredol i 10 o fanciau'r DG - a gall dros 22 filiwn o ddeiliaid cyfrifon cyfredol gael gafael ar eu harian parod, am ddim, mewn cangen Swyddfa'r Post®. Ein gweledigaeth ni yw sicrhau y gall pob deiliaid cyfrif cyfredol gael gafael ar eu harian parod am ddim.

Gall cwsmeriaid Swyddfa'r Post® brynu talebau ar gyfer ystod eang o fanwerthwyr ar y stryd fawr drwy bartneriaeth gyda 'The Gift Voucher Shop'. Gellir prynu'r talebau, sy'n cynnwys rhai ar gyfer diwrnodau 'mwynhad' a 'phrofiad' o unrhyw gangen Swyddfa'r Post® neu eu harchebu dros y ffôn a'r rhyngrwyd. Mae hyn yn ei gwneud yn hawdd i gwsmeriaid ddod o hyd i anrheg y gallant fod yn sicr y bydd eu teulu a'u ffrindiau yn ei ddymuno.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adolygiad Blynyddol (parhad)

Ymunodd Swyddfa'r Post® â'r farchnad teleffoni cartref ym mis Ionawr 2005 gyda'i gwasanaeth HomePhone. Ddeuddeg mis ar ôl ei lansio, roedd dros 260,000 o gwsmeriaid wedi cofrestru â'r gwasanaeth preswyl llinell sefydlog ac ar hyn o bryd mae dros 4,000 o gwsmeriaid yn cofrestru â'r gwasanaeth bob diwrnod. Gan adeiladu ar y poblogrwydd hwn yn y farchnad telathrebu, lansiodd Swyddfa'r Post® wasanaeth ymholiadau cyfeirlyfr ym mis Ionawr 2006 - gyda chostau galwadau yn rhatach na'r ddau rif mwyaf yn y farchnad o ran galwad un funud o'r rhan fwyaf o linellau daear yn y DG.

Parseli – yn y DG a ledled y byd

Yn y farchnad barseli, mae Parcelforce Worldwide wedi parhau i sefydlu ei hun fel cystadleuydd allweddol yn y gwasanaeth dosbarthu parseli cyflym cystadleuol heb ei reoleiddio. Mae'n dosbarthu tua 45 miliwn o barseli'r flwyddyn, i gwsmeriaid mewn 239 o wledydd a thiriogaethau ar draws y byd. Roedd sicrhau £5 miliwn o elw gweithredol blwyddyn lawn am y tro cyntaf yn gyflawniad arbennig gan y busnes.

Parcelforce Worldwide yw partner General Logistics Systems (GLS) yn y DG, sef ein busnes parseli Ewropeaidd. Mae GLS yn delio â dros 1 filiwn o barseli'r diwrnod drwy ei rwydwaith o bron 700 o ddepos a phwyntiau trawslwytho canolog. Ei brif weithrediad yw dosbarthu parseli busnes i fusnes ac mae ganddo 220,000 o gwsmeriaid mewn 34 o daleithiau ar draws Ewrop. Roedd y gwelliant o 37% mewn elw gweithredol gan GLS yn berfformiad ardderchog arall, a oedd yn tanlinellu enw da'r busnes fel un o'r cwmnïau parseli mwyaf llwyddiannus yn Ewrop.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol

Cyflwyniad

Mae Daliadau'r Post Brenhinol ccc (y Rhiant) yn gwmni cyfyngedig cyhoeddus sydd dan berchenogaeth lawn Llywodraeth y DG. Daeth yn ccc ar 26 Mawrth 2001. Y fframwaith ar gyfer newid oedd Deddf Gwasanaethau Post 2000 a greodd gwmni â ffocws masnachol oedd â chydberthynas fwy strategol â'r Llywodraeth. Sefydlodd y Ddeddf Gwasanaethau Post gyfundrefn reoliadol newydd hefyd gyda Rheoleiddiwr annibynnol, Postcomm, a chorff diwygiedig ar gyfer defnyddwyr, Golwg ar Bost. Mae'r Grŵp yn cynnwys Daliadau'r Post Brenhinol ccc ynghyd â'i is-gwmnïau, cwmnïau cyswllt a chyd-fentrau.

Mae gan y Grŵp dros 370 blynedd o brofiad o ddarparu gwasanaethau post i'r cyhoedd - drwy ein brandiau dibynadwy rydym yn cyrraedd pawb bob diwrnod gwaith drwy wasanaethau post, parseli a gwasanaethau cyflym a thrwy ein canghennau Swyddfa'r Post®. Fodd bynnag, mae ein marchnad yn newid yn gyflym: mae refeniw'r Llywodraeth, megis taliadau budd-dal yn cael ei golli o Swyddfa'r Post Cyfyngedig tra bod marchnad bost y DG wedi'i rhyddfrydoli'n llawn ers mis Ionawr 2006, gan arwain at gystadleuaeth lawn.

Rydym yn darparu gwasanaethau newydd i ymateb i'r heriau hyn - o ystod o wasanaethau ariannol newydd Swyddfa'r Post® yn cynnwys benthyciadau personol a cherdyn credyd 'two-in-one', i 'stampiau' electronig, cyfleuster siopa ar-lein ac offer data sy'n gysylltiedig â phost i helpu cwmnïau i wella eu perfformiad marchnata. Ein nod parhaus yw rhoi'r cwsmer wrth wraidd popeth a wnawn drwy - gynyddu gwerth drwy safon gwasanaeth ardderchog, ein dull unigryw o gyrraedd pob cyfeiriad yn y DG, gwella ein brandiau dibynadwy, bod yn haws i fusnesau ddelio â ni, cynnal ein busnes proffidiol, a datblygu cynnyrch arloesol a gwasanaethau i'n cwsmeriaid.

Uchafbwyntiau Perfformiad

Yn y dadansoddiad canlynol, mae pob cyfeiriad at elw gweithredol cyn eitemau eithriadol.

Uchafbwyntiau ariannol

Crynodeb o'r canlyniadau £m oni nodir fel arall	**2006**	**2005**
Trosiant allanol	**9,056**	**8,956**
Elw gweithredol*	**355**	**302**
Adenillion ar werthiannau (%)*	**3.9%**	**3.4%**
Eitemau eithriadol:	**(143)**	**(210)**
Costau Cyfran o'r Llwyddiant	**(91)**	**(218)**
Arall	**(52)**	**8**
Elw cyn llog a threthiant	**212**	**92**
Incwm cyllid net	**100**	**75**
Elw cyn trethiant	**312**	**167**
Credyd/(tâl) trethiant	**83**	**(16)**
Elw ar ôl trethiant	**395**	**151**

*cyn eitemau eithriadol.

Uchafbwyntiau allweddol nad ydynt yn ariannol

Ardal	**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**	**2006**	2005
Gwasanaeth Cwsmeriaid	Stamp Dosbarth1[af] a Mesurydd	**94.1%**	92.8%
	Nifer y Cwynion (miliynau)	**1.63**	1.94
	Mynegai Gwasanaeth Cwsmeriaid Swyddfa'r Post Cyfyngedig	**94%**	94%
Lle Gwych i Weithio	Arolwg Cyflogeion "Lle Gwych i Weithio"	**64%**	62%
	RIDDOR Damweiniau/1000 o staff	**26.7**	**28.6**
	Absenoldeb oherwydd salwch	**4.9%**	5.6%
Dinesydd corfforaethol da	Allyriadau CO2/1000 o eitemau	**19.9**	21.8
	Rhoddion (£m)	**1.3**	1.9

Llywodraethu

Mae Cyfarwyddeb Moderneiddio Cyfrifon yr UE (AMD) yn gofyn am ychwanegiad mandadol i Adroddiad presennol y Cyfarwyddwyr er mwyn darparu adolygiad gwell o fusnes cwmni ar gyfer y blynyddoedd cyfrifyddu sy'n dechrau o 1 Ebrill 2005. Mae'r Gyfarwyddeb yn datgan y dylai'r adolygiad ddarparu dadansoddiad cytbwys a chynhwysfawr o ddatblygiad, perfformiad a sefyllfa busnes y Cwmni. Dylai'r dadansoddiad gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol ariannol a, lle y bo'n briodol, rhai nad ydynt yn ariannol, sy'n berthnasol i'r busnes penodol. Cydnabyddir, cyhyd â bod y wybodaeth hon yn ymddangos yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (OFR), nid oes angen ei thrafod yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Er bod ein dyddiadau cofnodi yn golygu nad oes yn rhaid i'r Grŵp gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb nes 2007, yn unol â'n hymrwymiad i gydymffurfio ag arfer gorau a chyflawni'r safonau uchaf o Lywodraethu Corfforaethol, mae'r Grŵp wedi symud tuag at gydymffurfiaeth lawn â'r gofyniad newydd drwy wella'r OFR. Mae'r adroddiad yn rhoi 'cipolwg' o'r Cwmni ar adeg benodol gan fynd i'r afael â gofynion AMD yr UE, gan gynnwys y prif risgiau a'r ansicrwydd sy'n wynebu'r sefydliad.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Strwythur Cyfreithiol

Mae Daliadau'r Post Brenhinol ccc yn eiddo'n uniongyrchol i'r Adran Masnach a Diwydiant ac yn rhiant gwmni eithaf. Mae'n gweithredu'n bennaf o fewn y Deyrnas Gyfunol, yn cynnwys nifer o is-gwmnïau ac yn cyfrannu at lawer o gyd-fentrau, ond mae ganddo bresenoldeb hefyd yn y rhan fwyaf o wledydd Ewropeaidd, yn bennaf drwy ei uned fusnes General Logistics Systems. Fe'i trefnir yn bedair prif uned weithredu - Post Brenhinol, Swyddfa'r Post Cyfyngedig, General Logistics Systems a Parcelforce Worldwide. Mae ei strwythur cyfreithiol sylfaenol fel a ganlyn:



(1) Yn cynnwys Post Brenhinol a Parcelforce Worldwide
2) Mae Arall yn cynnwys Ymddiriedolwyr Pensiwn Cyfyngedig y Post Brenhinol (100% o berchenogaeth), Romec Limited (51% o berchenogaeth), NDC 2000 Limited (51% o berchenogaeth), Quadrant Catering Limited (51% o berchenogaeth), Grŵp Camelot ccc (20% o berchenogaeth) a Gwasanaethau Rhyngwladol Cyfyngedig Camelot (20% o berchenogaeth) yn ogystal â busnesau canolog eraill nad ydynt yn masnachu
(3) Yn berchen ar Midasgrange Limited (menter â 50% o berchenogaeth gyda Banc Iwerddon) a First Rate Travel Holdings Limited (50% o berchenogaeth)
(4) Grŵp y Post Brenhinol ccc yw'r cyflogwr noddi ar gyfer Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol, cynllun pensiwn Uwch Swyddogion Gweithredol y Post Brenhinol a Chynllun Cynilion Ymddeol y Post Brenhinol.

Ein Hunedau Gweithredu

Post Brenhinol

Mae'r Post Brenhinol yn casglu ac yn dosbarthu dros 84 miliwn o lythyrau a phecynnau i 27 miliwn o gyfeiriadau bob diwrnod gwaith, yn unol â'i Rwymedigaeth Gwasanaeth Byd-eang unigryw. Mae hefyd yn gyfrifol am gynllunio a chynhyrchu stampiau a chynnyrch ffilatelig y DG.

Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Mae rhwydwaith cenedlaethol o ganghennau Swyddfa'r Post® wrth wraidd cymunedau ar draws y wlad. Maent yn darparu pwynt mynediad dibynadwy ar gyfer cynnyrch pob dydd, gwasanaethau a gwybodaeth am: wasanaethau post, gwasanaethau ariannol, teithio, bancio, teleffoni, taliadau biliau, gwybodaeth y Llywodraeth, manwerthu a'r broses o gludo arian parod yn ddiogel.

General Logistics Systems B.V (GLS)

Cwmni Ewropeaidd sy'n darparu gwasanaeth parseli a gwasanaeth cyflym dibynadwy o safon uchel yn ogystal ag atebion logisteg gwerth ychwanegol yw GLS.

Parcelforce Worldwide

Mae Parcelforce Worldwide yn un o'r prif ddarparwyr gwasanaethau casglu a dosbarthu ar gyfer pecynnau a pharseli brys o fewn y DG ac ar draws y byd, ac mae'n darparu ystod o opsiynau dosbarthu prydlon i gyfeiriadau busnes a chyfeiriadau preifat.

Arall

Mae busnesau eraill y Grŵp yn cynnwys Postcap (Guernsey), ein hyswiriwr sefydlog (100% o berchenogaeth), Ymddiriedolwyr Pensiwn y Post Brenhinol, ein gweinyddwyr pensiwn (100% o berchenogaeth), Romec, ein gweithrediad rheoli cyfleusterau (51% yn is-gwmni), NDC, ein gweithrediad gwasanaethau peirianneg adeiladu (51% yn is-gwmni), Quadrant, ein gwasanaethau arlwyo (51% yn gwmni cyswllt), a Camelot, gweithredwr loteri cenedlaethol y DG (20% yn gwmni cyswllt).

Ein cynlluniau pensiwn

Mae asedau a dyledion pensiwn Grŵp y Post Brenhinol yn sylweddol fwy na'i asedau gweithredol eraill ac mae'n un o'r corfforaethau yn y DG sy'n fwyaf agored i lefelau cyfnewidiol o ran cynlluniau pensiwn, yn enwedig o ran newidiadau mewn gwerthoedd ecwiti a chyfraddau bond.

Grŵp y Post Brenhinol ccc yw'r cyflogwr noddi ar gyfer Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol, Cynllun Pensiwn Uwch Swyddogion Gweithredol y Post Brenhinol a Chynllun Cynilion Ymddeol y Post Brenhinol. Mae'r cynlluniau hyn, gyda'i gilydd, yn cyfateb i'r chweched cynllun pensiwn mwyaf yn y DG. Mae'r ffeithiau a'r ffigurau allweddol yn cynnwys:

- 170,000 o aelodau gweithredol; 105,000 wedi'u gohirio; 174,000 wedi ymddeol;
- Diffyg cyfrifyddu o ran IAS19 'Buddiannau cyflogeion' o £5.6bn;
- £21.8bn o asedau - yn cynnwys £17.2bn o ecwitïau, £2.7bn o fondiau, £1.8bn o eiddo, £0.1bn o bethau eraill a £27.4bn o ddyledion.
- £2.7bn o gyflogres bensiynadwy;
- Tybiaethau cyfrifyddu allweddol:
    - Cyfradd ddisgownt 4.9%
    - Chwyddiant 2.8%
    - Cynnydd mewn cyflogau 3.8%
    - Adenillion disgwyliedig cyffredinol ar asedau 7.1%
    - Cynnydd mewn pensiynau 2.8%

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Ffeithiau a ffigurau'r Uned Weithredu

Uned a % o refeniw allanol y Grŵp	Nifer y cyflogeion	Rhanbarth	Refeniw (£m) Elw (£m)* Ffin (%)	Ffeithiau a Ffigurau	Gweledigaeth
Post Brenhinol Royal Mail® 75.7% o refeniw allanol y Grŵp	174,202	DG	**Refeniw** £6,859m **Elw** £344m **Ffin** 5.0%	• 113,000 o flychau postio • 70 o Ganolfannau Post • 1,400 o swyddfeydd dosbarthu • Dros 30,000 o gerbydau • 33,000 o feiciau • Ymdrin â dros 84 miliwn o eitemau bob dydd • Dosbarthu i 27 miliwn o gyfeiriadau bob dydd • Ansawdd Gwasanaeth Dosbarth 1af – 94.1% • Ansawdd Gwasanaeth 2il Ddosbarth - 98.8%	.....i fod 'y cwmni gwasanaethau post gorau a mwyaf dibynadwy yn y byd'
SWYDDFA'R POST 9.3% o refeniw allanol y Grŵp	11,327	DG	**Refeniw** £838m **Colled** (£111m) **Ffin** (13.2%)	• Yn ymdrin â'r hyn sy'n cyfateb i 17c ym mhob £1 a drafodir yn y DG drwy rwydwaith Swyddfa'r Post • 14,376 o ganghennau, y mae 6,522 ohonynt yn ganghennau trefol (gan gynnwys 495 a gaiff eu rheoli'n uniongyrchol) a 7,854 o ganghennau gwledig • Tua 61,000 o gydweithwyr sy'n wynebu cwsmeriaid - gan gynnwys y rhai a gaiff eu cyflogi gan Swyddfa'r Post Cyf, gan isbostfeistri a/neu gan fasnachfreintiau • 3.7bn o drafodion y flwyddyn • Bron 28 miliwn o gwsmeriaid yr wythnos, yn cynnal dros 45 miliwn o ymweliadau yr wythnos • Prif ddarparwr arian tramor y DG • Mynegai Boddhad Cwsmeriaid - 93.9%	...i 'werthu cynnyrch a gwasanaethau sy'n bwysig i'n cwsmeriaid ac yn gwneud elw' wedi'i sy'n symlategu gan ymagwedd fusnes sy'n ymwneud â 'bod yn ystyriol o'r gymuned a chael ein llywio gan elw, a rhoi cwsmeriaid wrth wraidd y busnes'
GLS General Logistics Systems 11.5% o refeniw allanol y Grŵp	11,045	Ewrop	**Refeniw** £1,037m **Elw** £100m **Ffin** 9.6%	• 29 o ganolfannau • 667 o ddepos • 17,700 o gerbydau • Ymdrin â dros 1 filiwn o barseli bob dydd	...i ddarparu 'gwasanaeth, hyblygrwydd, ansawdd a dibynadwyedd', gydag arbenigedd lleol a gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau sy'n hanfodol i'r gwasanaeth cyfan
PARCELFORCE WORLDWIDE 3.5% o refeniw allanol y Grŵp	4,092	DG	**Refeniw** £314m **Elw** £5m **Ffin** 1.6%	• 2 ganolfan genedlaethol • 48 o ddepos • 1,600 o gerbydau • Dosbarthu 160,000 o barseli bob dydd, 250,000 bob dydd ym mis Rhagfyr • Ansawdd y Gwasanaeth Parcelforce 24 – 96.1%, dosbarthwyd ar amser a chyda phrawf electronig o ddosbarthu	I fod y cludwr mwyaf dibynadwy yn y DG ar gyfer cludo o amgylch y byd
Arall	3,348 Perche-nogaeth lawn 4,852 Perche-nogaeth rannol	DG	**Refeniw*** £8m **Elw** £17m *Ar gyfer is-gwmnïau yn unig	PostCap (Guernsey) - yswirwyr sefydlog (100% yn is-gwmni) Ymddiriedolwyr Pensiwn y Post Brenhinol - gweinyddwyr pensiynau (100% yn is-gwmni) Romec - gweithrediad rheoli cyfleusterau (51% yn is-gwmni) NDC - gweithrediad gwasanaethau peirianneg adeiladu (51% yn is-gwmni) Quadrant - gwasanaethau arlwyo (51% yn gwmni cyswllt) Camelot, gweithredwr loteri cenedlaethol y DG (20% yn gwmni cyswllt).	

* cyn eitemau eithriadol

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Dadansoddiad ariannol y Grŵp

Yn y dadansoddiad canlynol, mae pob cyfeiriad at elw gweithredol cyn eitemau eithriadol.

Eleni rydym yn cofnodi elw gweithredol o £355m o gymharu â £302m ar gyfer 2004-05, cynnydd o £53m neu 17.5% a ysgogwyd yn bennaf gan berfformiad ein busnesau parseli nad ydynt wedi'u rheoleiddio. Cyfrannodd pob uned fusnes weithredol at y cynnydd hwn, a bu i General Logistics Systems sicrhau £27m (37.0%) o welliant mewn proffidioldeb, sicrhawyd £12m (9.8%) o welliant gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig, £11m (>100%) gan Parcelforce Worldwide a £1m (0.3%) gan Lythyrau y Post Brenhinol.

Elw/(colled) gweithredol yn ôl uned fusnes - £m



Twf mewn elw/(colled)gweithredol yn ôl uned fusnes - £m



Refeniw allanol

Cafwyd cynnydd o £100m (1.1%) yn refeniw allanol y Grŵp, o £8,956m i £9,056m a ysgogwyd yn bennaf gan gynnydd gan y Post Brenhinol a GLS.

Cafwyd cynnydd o £96m (1.4%) yn refeniw'r Post Brenhinol y deilliodd £118m ohono o gy nnydd o 1.7% mewn prisiau post cartref, £95m (1.4%) o gynnyrch heb gyfeiriad a chynnyrch rhyngwladol, wedi'i wrthbwyso gan ddirywiad o £50m (0.7%) yn swm y post sylfaenol â chyfeiriadau mewndirol, £5m (0.1%) o effaith cymysg negyddol a £62m (0.9%) o effaith negyddol yn ymwneud â chwsmeriaid yn newid i'r cynnyrch Downstream Access rhatach.

Cafwyd cynnydd o £124m (13.6%) yn refeniw'r General Logistics Systems, o £913m i £1,037m, yn bennaf o ganlyniad i dwf yn swm y post. Cafwyd cynnydd o £16m (5.4%) yn refeniw Parcelforce Worldwide, o £298m i £314m a oedd yn adlewyrchu symiau uwch o ganlyniad i gynnydd mewn cynnyrch cyfrif cenedlaethol a chymysgedd ffafriol o gynnyrch. Nododd Swyddfa'r Post Cyfyngedig ostyngiad o £138 m(14.1%) mewn refeniw o £976m i £838m, yn bennaf o ganlyniad i'r gostyngiad disgwyliedig mewn symiau budd-daliadau traddodiadol, wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan refeniwiau newydd.

Costau (ac eithrio eitemau eithriadol)

Mae costau cyffredinol o £8,733m wedi cynyddu £51m (0.6%), sy'n llawer is na chwyddiant.

Cost yn ôl math - %



Twf mewn costau yn ôl math - £m



Mae £5,968m o gostau pobl yn cynrychioli 68.3% o sylfaen costau'r Grŵp ac maent wedi cynyddu £129m (2.2%) o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i gynnydd o 3.8% yng

nghyflog y rhan fwyaf o'n pobl yn y rheng flaen o 1 Ebrill 2005, wedi'i wrthbwyso gan ostyngiad mewn goramser, llafur contrac t a chostau isbostfeistri. Yn ystod mis Rhagfyr 2004, newidiodd statws Romec Limited o fenter ar y cyd i is-gwmni, a effeithiodd ar y ffordd yr oeddem yn rhoi cyfrif am gostau Romec. Bu i'r newid hwn gynyddu costau pobl yn y flwyddyn gyfredol tua £70m o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (a oedd yn cyfrif am 54% o'r £129m o gynnydd), gyda gostyngiad cyfatebol mewn costau nad oeddent yn ymwneud â phobl.

Bu i £1,218m o gostau dosbarthu a thrawsgludo, sy'n cyfateb i 13.9% o sylfaen costau'r Grŵp, gynyddu £35m (3.0%), a ysgogwyd yn bennaf gan symiau cynyddol GLS.

Bu i £1,547m o gostau gweithredu eraill a oedd yn cyfateb i 17.7% o sylfaen costau'r Grŵp ostwng £113m (6.8%) o ganlyniad i welliannau effeithlonrwydd parhaus mewn nifer o feysydd, yn cynnwys swyddogaethau cymorth canolog a chostau eiddo.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Pensiynau

Taliadau pensiwn o fewn elw gweithredol	2006 £m	2005 £m
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	**529**	489
Eitemau eithriadol (yn ymwneud â dileu swydd)	**24**	22
Elw gweithredol	**553**	511

Bu i'r prisiad teirblwydd llawn diwethaf o'r cynlluniau pensiwn ym mis Mawrth 2003 gadarnhau diffyg cyllid sylweddol yn bennaf o ganlyniad i newidiadau mewn prisiadau ased, cyfraddau disgownt llai, gostyngiad yn yr adenillion buddsoddi hirdymor disgwyliedig a disgwyliad oes uwch i gyflogeion a phensiynwyr. Mae'r diffyg IAS 19 wedi cynyddu eleni o ddyled o £3,958m yn 2005 i £5,588m. Mae'r cynnydd yn y diffyg o £1,630m yn ystod y flwyddyn yn ymwneud yn bennaf â cholled actiwaraidd o £1,659m, a ddeilliodd yn bennaf o'r dybiaeth o gyfradd ddisgownt is a thybiaethau marwoldeb diwygiedig. Gweir datgeliadau pensiwn llawn yn nodyn 14 i'r cyfrifon.

Arian parod pensiynau: Cyfraniadau'r Grŵp	2006 £m	2005 £m
Cyfraniadau pensiwn rheolaidd	**343**	187
Ariannu diffyg pensiwn	**113**	138
Taliadau yn ymwneud â dileu swydd	**209**	5
Taliadau arian parod net	**665**	330

Bu i daliadau i'n cynllun pensiwn fwy na dyblu o £330m yn 2005 i £665m yn 2006, a ysgogwyd yn bennaf gan gynnydd o £156m (83%) mewn cyfraniadau rheolaidd a £204m yn ymwneud â dileu swydd. Yn ogystal, gwnaed taliadau pellach o £44m yn ymwneud â dileu swydd a £34m yn ymwneud â diffyg - a gynyddodd y cyfraniad diffyg cyffredinol i £147m - yn ystod wythnos gyntaf 2006-07.

Cyfran yr elw mewn cwmnïau cyswllt a cyd-fentrau

Mae cyfran elw'r Grŵp mewn cwmnïau cyswllt a cyd-fentrau o £32m (£28m yn 2005) yn cynnwys elw o £41m (£39m yn 2005) gan Camelot, cyd-fenter Bureau de Change POL (First Rate Exchange Services Limited), Quadrant, ein cwmni arlwyo cyswllt a G3 Worldwide Mail N.V. (Spring), wedi'i wrthbwyso gan golled o £9m (colled o £11m yn 2005) gan fenter gwasanaethau ariannol Banc Iwerddon gyda Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Roedd y colledion o Wasanaethau Ariannol Swyddfa'r Post yn ddisgwyliedig ac maent o ganlyniad i werthiannau a gwariant ar farchnata i hyrwyddo cynnyrch newydd.

Eitemau eithriadol net (yn cynnwys eitemau eithriadol gweithredol ac elw/(colledion) yn ymwneud â gwaredu busnes ac eiddo)

Mae costau eithriadol net o £143m (£210m yn 2005) yn cynnwys £91m (£218m yn 2005) sy'n ymwneud â thaliadau Cyfran o'r Llwyddiant, £44m (£23m yn 2005) ar gyfer namau a £75m (£36m yn 2005) ar gyfer costau dileu swydd, wedi'u gwrthbwyso gan elw o £67m (£67m yn 2005) o waredu eiddo a busnes.

Incwm cyllid net

Mae incwm cyllid net o £100m (£75m yn 2005) yn cynnwys llog pensiwn tybiannol o £101m (£59m yn 2005), llog a enillwyd ar fuddsoddiadau o £48m (£55m yn 2005) a llog arall derbyniadwy o £3m (£3m yn 2005), wedi'u gwrthbwyso gan log sy'n daladwy ar fenthyciadau o £48m (£36m yn 2005) a llog arall sy'n daladwy o £4m (£6m yn 2005). Cafwyd gostyngiad o £7m mewn llog a enillwyd ar fuddsoddiadau o ganlyniad i falansau buddsoddi cyfartalog is, oherwydd y broses o ariannu rhwydwaith cymdeithasol POL sy'n gwneud colled, wedi'i wrthbwyso gan gyfraddau llog uwch. Cafwyd cynnydd yn y llog sy'n daladwy, yn bennaf o ganlyniad i fenthyciadau cyfartalog uwch yn ein rhwydwaith Swyddfa'r Post® y mae eu hangen i ariannu taliadau budd-daliadau. Mae'r incwm cyllid pensiwn tybiannol wedi cynyddu £42m o ganlyniad i adenillion uwch ar asedau cynllun pensiwn sy'n gwneud mwy na gwrthbwyso cost llog ar ddyledion cynllun pensiwn uwch.

Trethiant

Mae'r credyd trethiant o £83m (cyfradd gofnodedig - £27%) yn cynnwys £25m o dreth gyfredol sy'n daladwy ar elw tramor; £7m o gredyd treth ohiriedig o ran gweithrediadau tramor; £11m o dâl treth gyfredol yn y DG a £112m o gredyd treth ohiriedig yn y DG. Y llynedd, cofnodwyd tâl o £16m yn cynnwys £8m o dâl treth gyfredol o ran gweithrediadau yn y DG; £12m o dâl treth gyfredol ar elw tramor; £19m o dâl treth ohiriedig yn y DG a £23m o gredyd treth ohiriedig tramor. Mae'r gyfradd gofnodedig negyddol yn bennaf o ganlyniad i'w swm uwch o ased treth ohiriedig a gydnabuwyd.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Llif arian a gwariant cyfalaf

Gwnaeth y Grŵp daliadau sylweddol o ran costau cofnodedig yn 2004-05, blwyddyn olaf y Cynllun Adnewyddu, sef £486m, yn bennaf £218m o'r cynllun Cyfran o'r Llwyddiant, a £208m o ychwanegiadau pensiwn. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o ddatganiad llif arian y Grŵp.

Crynodeb o'r llifau arian	2006 £m	2005 £m
Arian parod a ddefnyddir mewn gweithrediadau	(10)	(220)
Difidendau o gyd-fentrau a chwmnïau cyswllt	30	19
Gwariant cyfalaf a gwarediadau	(170)	(132)
Treth, llog ac arall	4	23
Caffaeliadau a gwarediadau busnes	(17)	(2)
Newidiadau o ran benthyca	(16)	287
All-lif arian net	(179)	(25)
Ychwanegu yn ôl:		
Cyfran o'r Llwyddiant o ran y flwyddyn flaenorol	218	-
Eitemau eithriadol eraill o ran y flwyddyn flaenorol	268	243
Llif arian yn ystod y flwyddyn	307	218

£10m yw swm yr arian parod a ddefnyddir mewn gweithrediadau (£220m yn 2005), sy'n cynnwys:

- Enillion Cyn Llog, Treth, Mewnlifau Dibrisiad ac Amorteiddiad (EBITDA) o £497m (£422m yn 2005);
- £17m o fewnlifau cyfalaf gweithio (£387m o all-lif yn 2005);
- £218m o daliadau Cyfran o'r Llwyddiant yn ymwneud â Chynllun Adnewyddu'r llynedd;
- £306m o daliadau eraill yn ymwneud ag eitemau eithriadol (£255m yn 2005), yn cynnwys £209m o ychwanegiadau pensiwn (£5m yn 2005) a £97m o gostau rhesymoli pellach (£250m yn 2005).

Daw'r difidendau a dderbyniwyd gan gyd-fentrau a chwmnïau cyswllt sef £30m (£19m yn 2005) yn bennaf o First Rate Travel Services Limited £17m (£10m yn 2005) Quadrant, (£4m (£2m yn 2005) a Camelot, £7m (£5m yn 2005).

Mae gwariant cyfalaf net o £170m (£132m yn 2005) o warediadau yn cynnwys £243m (£227m yn 2005) o wariant, yn cynnwys £56m o gerbydau modur, taliadau pellach mewn perthynas â'r Ganolfan Post Ryngwladol ger Heathrow sef £36m, £42m ar gyfer prosiectau GLS, a £76m ar gyfer gwelliannau i eiddo ac offer gyda'r £33m sy'n weddill yn cael ei wario ar feddalwedd ac eitemau anniriaethol eraill, wedi'u gwrthbwyso gan fewnlifau o £73m (£95m yn 2005) , yn bennaf o warediadau eiddo dros ben. Mae £4m o dreth, llog a mewnlifau eraill yn ystod y flwyddyn (£23m yn 2005) yn cynnwys £1m o fewnlifau llog net (£10m yn 2005), £4m o dreth a adferwyd (£13m yn 2005) wedi'i wrthbwyso gan £1m o asedau ariannol eraill a brynwyd yn net (£dim yn 2005). Mae'r £17m o all-lif net o gaffaeliadau a gwarediadau busnes (£2m o all-lif yn 2005), yn ymwneud â thaliadau ystyriaeth gohiriedig o £22m ac £1m o daliad ar gaffael gweddill GLS Stafetten A/S, wedi'i wrthbwyso gan fewnlifau o werthu RM Netherlands am £2m a derbyniadau o £4m mewn perthynas â gosod gweithrediadau TG allan ar gontract i'r Prism Alliance.

Darpariaethau

£111m oedd y darpariaethau ar ddiwedd mis Mawrth 2006 (£172m ym Mawrth 2005). Mae'r gostyngiad o £61m yn cynnwys £99m o wariant arian parod, a £48m o drosglwyddiadau i gredydwyr pensiwn byrdymor, wedi'i wrthbwyso gan £86m o ddarpariaethau newydd yn ymwneud â rhesymoli a chontractau eiddo beichus.

Cronfeydd wrth gefn arbennig

Yn ystod y cyfnod, mae £147m o gronfa wrth gefn y Rhwydwaith Wledig wedi'i ddefnyddio gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig, sy'n cynrychioli'r arian sydd ei angen yn ystod y cyfnod i gynnal rhwydwaith wledig canghennau Swyddfa'r Post®.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Strategaeth grŵp

Mae'r canlynol yn cefnogi amcanion ein Hunedau Gweithredu:

Cwsmeriaid

Mae ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn. Yr allwedd i ennill a chadw cwsmeriaid yw darparu gwasanaeth o ansawdd uchel parhaus - dyma fu prif flaenoriaeth pawb yn y busnes dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae wrth wraidd ein strategaeth ar gyfer y dyfodol. Mae hynny'n golygu darparu gwasanaeth o ansawdd uchel a chyfanrwydd o ran y gwasanaeth post, gan ddatblygu cynnyrch sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid yn wirioneddol a darparu gwerth am arian, yn ogystal â sicrhau ei bod yn hawdd cynnal busnes â ni.

Pobl

Mae'r fenter 'Lle Gwych i Weithio', a sefydlwyd o fewn y sefydliad ers 2003, yn gweithredu ar y sail mai dim ond os byddwn yn cynnwys ein pobl yn y broses o gyflawni newidiadau y gallwn ddatblygu a llwyddo fel busnes. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl a'u cynnwys yn y gwaith o reoli a gwella eu gweithle.

Proffidioldeb a llif arian

Mae sicrhau lefel gynaliadwy a rhesymol o broffidioldeb a llif arian yn allweddol er mwyn i ni allu ail-fuddsoddi yn ein dyfodol a sicrhau elw masnachol i'n cyfranddeiliad yn y pen draw. Mae'r Grŵp yn ceisio mynd i'r afael â'r tanfuddsoddiad hanesyddol a welodd yn ei fusnes Llythyrau, ynghyd â pharhau i ddatblygu dulliau gwell a mwy effeithlon o weithio. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn ddigon hyblyg ac effeithlon i lwyddo mewn marchnad gystadleuol.

Dinasyddiaeth gorfforaethol

Mae Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol yn y Grŵp yn gwneud y peth iawn ar gyfer ein pobl, ein busnes a'r cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt.

Gwnawn y peth iawn oherwydd bod:

- cwsmeriaid am brynu gan gwmnïau sy'n rhannu eu gwerthoedd:
- cydweithwyr am weithio i gwmnïau sy'n darparu amgylchedd iach a diogel ac sy'n arddel yr un gwerthoedd â hwy;
- cymunedau am gael cwmnïau sy'n creu'r incymau, y swyddi ac sy'n cyfrannu at y cydlyniad sy'n creu'r cymdogaethau lle y mae pobl am fyw a gweithio.

Caiff y strategaethau a'r amcanion allweddol hyn eu cyfleu'n gyffredinol ar draws y Grŵp, cânt eu hymgorffori yn ei weithgareddau o ddydd i ddydd a'u mesur ar sail amserol gan ddangosyddion perfformiad allweddol a'u monitro gan Fwrdd Daliadau'r Post Brenhinol a'i is-Bwyllgor. Nodir y prif ddangosyddion perfformiad allweddol isod:

Gwasanaeth Cwsmeriaid	Lle Gwych i Weithio	Proffidioldeb a Llif arian	Dinesydd Corfforaethol Da
Cwsmeriaid	**Pobl**	**Ariannol**	**Amgylcheddol**
Targedau Ansawdd y Gwasanaeth	Arolwg Cyflogeion	Trosiant	Allyriadau CO_2 /1000 o eitemau
Nifer y cwynion	**Iechyd a Diogelwch**	Elw gweithredol*	**Cymdeithasol a Chymuned**
Mynegai Gwasanaethau Cwsmeriaid	RIDDOR/1000 o staff	Adenillion ar werthiannau*	Rhoddion busnes a chyflogeion
	Absenoldeb oherwydd salwch	Llif arian gweithredol	

* cyn eitemau eithriadol

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Rheoli'r Drysorlys

Mae'r Grŵp yn gweithredu swyddogaeth Trysorlys ganolog sy'n rheoli tua £1bn o fuddsoddiadau asedau cyfredol, £866m o fenthyciadau ac £829m o arian parod yn bennaf yn rhwydwaith Swyddfa'r Post®, yn unol â chyfyngiadau buddsoddi a bennwyd gan y Llywodraeth. Mae hefyd yn fancwr mewnol ar gyfer unedau busnes y Grŵp. Mae'r Grŵp yn ariannu ei weithrediadau'n bennaf drwy elw a benthyciadau argadwedig.

Mae Trysorlys y Grŵp yn atebol i Fwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc, ac mae'n darparu adroddiadau monitro chwarterol er mwyn iddynt eu hadolygu. Mae gan y Trysorlys awdurdod i gynnal trafodion ariannol sy'n ymwneud â rheoli risgiau busnes sylfaenol yn unig ac nid yw'n ymwneud â thrafodion hapfasnachol nac yn gweithredu fel canolfan elw. Mae pob strategaeth yn wrth risg, ac mae polisi'r trysorlys wedi parhau'n ddigyfnewid yn ystod y flwyddyn. Y prif offerynnau ariannol ar gyfer rheoli hylifedd yw adneuon a benthyciadau byrdymor; a'r prif rai ar gyfer rhagfantoli nwyddau ac arian tramor yw pryniadau yn ôl y galw/blaen bryniadau a chyfnewidiadau.

Caiff y Grŵp ei ariannu gan y cyfleusterau canlynol a ddarperir gan yr Adran Masnach a Diwydiant a Thrysorlys EM:

Benthycwr	Diben	Dyddiad gorffen y cyfleuster	Cyfleuster £m	Ddefnyddiwyd £m	Dyddiad diwedd y benthyciad ar gyfartaledd
Grŵp y Post Brenhinol ccc	Arian caffael	2021-2025	500	500	2023
Grŵp y Post Brenhinol ccc	Cyfalaf ailstrwythuro a chyfalaf gweithio	2007-2009	844	Dim	-
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	Arian parod y rhwydwaith sy'n ad-daladwy ar gais	2010	1,150	360	2006

Mae telerau cyfleuster benthyca'r Llywodraeth a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig yn gosod cyfyngiadau llym ar wahanu cronfeydd arian parod o fewn Grŵp y Post Brenhinol ac at ba ddibenion y gellir eu defnyddio.

Y prif risgiau i'r trysorlys sy'n deillio o weithgareddau'r Grŵp yw risgiau'n ymwneud ag arian tramor, gwrthbartïon, nwyddau (tanwydd) a hylifedd. Caiff y rhain eu rheoli fel a ganlyn:

- mae'r Grŵp yn agored i risg arian tramor o ganlyniad i Royal Mail International i dalu gweithredwyr post tramor am gludo post y DG dramor, ail-werthuso'r balansau arian tramor a ddelir i weithredu gwasanaethau'r Bureau de Change o fewn Swyddfa'r Post Cyfyngedig a chontractau gwerthu a phrynu amrywiol a roddir mewn arian tramor. Mae rhaglenni rhagfantoli a reolir gan Grŵp y Trysorlys yn lliniaru'r risgiau hyn. Lle y bo'n bosibl, caiff datgeliadau eu dwyn yn fewnol a chaiff unrhyw ddatgeliadau sy'n weddill eu rhagfantoli gan ddefnyddio cyfuniad o gontractau allanol ar y pryd neu flaen gontractau;
- caiff rhwymedigaeth y Grŵp i dalu gweithredwyr post tramor ei rhoi mewn Hawliau Tynnu Arbennig (SRDs) - arian tramor basged sy'n cynnwys y Ddoler yn yr UD (USD), Yen yn Siapan, Sterling a'r ewro. Mae gan y Grŵp bolisi o gyfateb derbyniadau a thaliadau ar gyfer arian tramor unigol lle y bo'n bosibl ac yna rhagfantoli unrhyw ddatgeliad net sylweddol. Y polisi yw bod hyd at 80% o'r datgeliad net rhagamcanedig yn cael ei ragfantoli â chytundeb yr uned fusnes fewnol. Mae Trysorlys y Grŵp yn gweithredu rhaglen dreigl 18 mis, a gaiff ei hadolygu bob chwarter. Ni fu dull allanol o ragfantoli ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol 2005-06 oherwydd nad oedd unrhyw ddatgeliad net sylweddol;
- Caiff balansau'r Bureau de Change eu grŵp io'n fasgedi o arian tramor sy'n perthyn yn agos i'w gilydd. Caiff pob basged o arian tramor (e.e. USD neu'r ewro) ei werthu ymlaen yn dilyn hynny gan greu dyled sy'n cyfateb i'r ased sylfaenol;
- gallai risg arian tramor sylweddol sy'n deillio o gontractau gwerthu a phrynu, yn bennaf mewn USD ac ewro, gael ei rhagfantoli hyd at 100% yn dibynnu ar ddibynadwyedd y rhagolwg o'r llifau arian sylfaenol;
- nid yw'r Grŵp yn rhagfantoli'r datgeliad a grëwyd gan asedau net ei is-gwmnïau tramor;
- mae'r Grŵp yn agored i risg tanwydd sy'n deillio o weithredu un o'r fflydoedd cerbydau mwyaf yn Ewrop, sy'n defnyddio dros 150 miliwn litr o danwydd y flwyddyn, a risg tanwydd jet o ganlyniad i brynu gwasanaethau cludiant awyr. Nod strategaeth rheoli risg tanwydd y Grŵp yw lleihau'r ansicrwydd a grëwyd gan newidiadau yn y farchnad olew ac arian tramor. Mae'r strategaeth yn gweithredu o fewn y paramedrau a osodir gan y Bwrdd, sy'n caniatáu'r defnydd o gynnyrch deilliadol dros y cownter i reoli'r datgeliadau hyn;
- rheolir risg gwrthbartïon drwy gyfyngu ar ddatgeliad agregau i unrhyw wrthbarti unigol yn seiliedig ar eu cryfder ariannol.

Caiff y datgeliadau hyn eu hadolygu'n rheolaidd a'u haddasu fel y bo'n briodol.

Nodir y polisïau ar gyfer asedau ariannol - buddsoddiadau ac offerynnau ariannol deilliadol yn nodyn 2.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Amgylchedd busnes

Rheoleiddio

Hyd yn ddiweddar, roedd y Post Brenhinol wedi mwynhau statws monopoli yn niwydiant llythyrau'r DG. Fodd bynnag, yn 2000 creodd y Ddeddf Gwasanaethau Post Reoleiddiwr post annibynnol - Postcomm - a chaniataodd i'r Post Brenhinol gael mwy o ryddid masnachol. Mae Postcomm yn rheoleiddio prisiau bron 90% o fusnes llythyrau'r Post Brenhinol, yn rheoli'r telerau ac amodau ar gyfer bron ei holl wasanaethau, yn gosod targedau ansawdd y gwasanaeth yn ei Drwydded gyda Grŵp y Post Brenhinol ccc ac yn penderfynu ar drefniadau iawndal.

Ceir trosolwg o'r digwyddiadau rheoleiddio arwyddocaol ers creu Postcomm isod:



Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn gynyddol yn destun rheoleiddio mewn gwasanaethau ariannol a theleffoni. Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn gynrychiolydd penodedig Banc Iwerddon, a chaiff Banc Iwerddon ei reoleiddio'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol.

Polisi'r Grŵp yw cydymffurfio'n llawn â'r fframwaith rheoliadol yr ydym yn gweithredu ynddo. Yn ystod 2005-06 rydym wedi parhau i atgyfnerthu ein gweithgareddau cydymffurfiaeth gan weithio mewn cysylltiad agos â'n Rheoleiddwyr.

Cystadleuaeth

Mae pob un o unedau busnes y Grŵp yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol erbyn hyn.

- Bu Parcelforce Worldwide a GLS yn gweithredu mewn marchnad agored ers eu sefydlu;
- Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig, o ganlyniad i ostyngiad mewn incwm o daliadau budd-dal a gostyngiad sylweddol a pharhaus yn y defnydd o'r Llywodraeth, wedi datblygu llifau refeniw newydd o gynnyrch gwasanaethau ariannol (yn cynnwys yswiriant car, cerdyn credyd 'two-in-one', benthyciad personol ac ati), ei wasanaethau HomePhone ac ymholiadau ffôn ac ati. Fodd bynnag, mae'r cynhyrchion hyn mewn cystadleuaeth uniongyrchol â gwasanaethau a gynigir gan fanciau, cwmnïau yswiriant a theleffoni, felly llawer o'r gwasanaethau y mae wedi'u cynnig yn draddodiadol, e.e. taliadau bil, adnewyddu treth car, gwasanaethau teithio ac ati;
- Mae'r Post Brenhinol wedi wynebu cystadleuaeth drwy gyfrwng cytundebau 'Downstream Access' (DSA) gyda chwmnïau ers mis Chwefror 2004. Mae DSA yn caniatáu i gystadleuwyr gasglu a threfnu dros 4,000 neu fwy o eitemau post, cyn eu trosglwyddo i ni drwy gyfrwng ein canolfannau post. Yn dilyn hyn mae ein postmyn a'n postwragedd yn dosbarthu'r eitemau hyn dros y 'filltir olaf' a'r llynedd, gwnaethom ddosbarthu dros 1 biliwn o eitemau DSA - y swm yr oedd Postcomm wedi rhagweld y byddai'r Post Brenhinol yn ei gyrraedd o fewn pedair blynedd. Ers mis Ionawr 2006, mae marchnad bost y DG wedi ei rhyddfrydoli fel y gall cystadleuwyr gynnig y cyfle i gwsmeriaid dderbyn gwasanaeth cyflawn ar gyfer casglu, trefnu a dosbarthu eu post. Er bod yn rhaid i'r Post Brenhinol gynnal ei rwymedigaeth gwasanaeth byd-eang, nid oes rhwymedigaeth o'r fath ar gystadleuwyr ac felly gallant dargedu'r meysydd mwyaf proffidiol o'r busnes llythyrau;
- Mae sefyllfa fonopoli flaenorol y Post Brenhinol wedi creu anghydbwysedd mewn prisiau, nad ydynt yn adlewyrchu'r gost o ymdrin â'r post. Er mwyn i'r Post Brenhinol gystadlu'n effeithiol mewn marchnad agored, mae angen i'w brisiau postio adlewyrchu ei gostau. Bydd ail-gydbwyso'r prisiau hyn o fudd i rai defnyddwyr yn fwy nag eraill ond byddai'n ysgogi strwythurau prisio arloesol gan ystyried y sylfaen cwsmeriaid, cyflwyniad, amseriad a chynllun y broses bostio, lleoliad y postio a'i dosbarthiad, cyflymder y postio a'r dull o bostio.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Marchnadoedd newidiol

Yn ychwanegol at y rhyddfrydoli hyn, mae'r farchnad yn wynebu newidiadau gan gynnwys:

- e-amnewid - mae rôl y post yn newid wrth i bobl ddefnyddio nifer ehangach o sianeli i gyfathrebu, gan gynnwys ebost, galwadau ffôn symudol a negeseuon testun ac ati. Mae hyn yn darparu cyfle yn ogystal â her i sicrhau bod y post yn parhau i fod yn berthnasol i gwsmeriaid;
- e-fodloni - mae'r defnydd o'r Rhyngrwyd fel dull o werthu wedi cynyddu'r galw am broses gyflawn o ddosbarthu pecynnau a pharseli am brisiau fforddiadwy, ac mae'n parhau i wneud hynny;
- hysbysebu/Post Uniongyrchol - mae'r defnydd o ymgyrchoedd hysbysebu post ar raddfa fawr yn dueddol o adlewyrchu cyflwr economi'r DG. Mae cwmnïau hefyd yn datblygu ymgyrchoedd mwy arloesol, wedi'u targedu, yn seiliedig ar well gwybodaeth o werthiannau a gwell dull o integreiddio â chyfryngau eraill.

Er bod y newidiadau hyn yn cyflwyno risgiau a heriau i'r Post Brenhinol maent hefyd yn cyflwyno cyfleoedd sylweddol i weithio gyda'n cwsmeriaid i ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen ar eu cwmnïau er mwyn iddynt lwyddo.

Macroeconomeg

Mae nifer o faterion macro-economeg a fydd yn effeithio ar y Grŵp dros 2006-07:

- Rhagwelir y bydd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) yn 2006-07 yn llai na'r duedd, ar 2%. Gallai'r cyfraddau isel hyn o gynnydd effeithio ar y twf mewn llythyrau dros y 2 flynedd nesaf;
- mae chwyddiant cyffredinol yn isel, a bydd hyn yn effeithio ar ein prisiau, gan fod ein prisiau yn seiliedig ar fformiwla RPI-x, ond hefyd ar ein costau;
- rhagwelir y bydd prisiau nwy, trydan ac olew yn parhau'n uchel, a fydd yn ychwanegu at gostau'r Grŵp;
- er gwaethaf lefelau diweithdra sy'n cynyddu a rhagolwg economaidd gwael mewn rhai ardaloedd o'r wlad, bydd cyflogaeth lawn yn parhau mewn mannau eraill - gan arwain at her i gynnal cyfraddau trosiant naturiol uchel ein pobl.

Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Mae Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR) yn elfen allweddol o'r gwaith o sicrhau bod y busnes yn cael ei gydnabod fel sefydliad cyfrifol sy'n ceisio creu'r effeithiau mwyaf buddiol posibl a lleihau'r effeithiau negyddol. Drwy wella ein perfformiad CSR a sicrhau y caiff ei integreiddio yn y ffordd yr ydym yn gweithio, gallwn sicrhau ein bod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol, ein bod yn gweithio i leihau nifer y damweiniau, lleihau lefel y CO_2 a gynhyrchir gennym a gwneud ein pobl yn iachach. Cydnabyddwn mai trwy ein pobl a'n cydberthynas â'n cwsmeriaid, partneriaid busnes, cyflenwyr, cymunedau a rhanddeiliaid eraill y mae'r llwybr i gyflawni a chynnal ein nodau.

Ceir trosolwg mwy cynhwysfawr o'n CSR yn adroddiad Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol 2006, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2006.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Cydberthnasau Allweddol

Mae gan y Post Brenhinol lawer o gydberthnasau allweddol sy'n hanfodol i'w weithgareddau o ddydd i ddydd a'i lwyddiant cyffredinol.

Pobl - Ein pobl yw calon y sefydliad a'r brandiau. Heb eu cymorth a'u hymrwymiad parhaus bydd yn amhosibl gweithredu ac ymgorffori'r newid o fewn ein marchnadoedd. Mae darparu hyfforddiant, amrywiaeth, adnoddau hyblyg a gwneud y busnes yn lle gwych i weithio yn rhai o'r ffyrdd yr ydym yn parhau i wella'r gydberthynas hon.

Unedau - Mae Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) yn cynrychioli staff nad ydynt yn rheolwyr, ac mae Cymdeithas y Rheolwyr Cyfathrebu (CMA) yn cynrychioli staff sy'n rheolwyr. Polisi'r Cwmni yw gweithio gyda'r CMU a'r CMA i gynnwys staff yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu penderfyniadau busnes.

Ymddiriedolwyr Pensiwn - Mae ein hymddiriedolwyr pensiwn yn cynnwys corff annibynnol o 10 o bobl yn cynnwys cyflogeion, cynrychiolwyr undebau, pensiynwyr ac aelodau annibynnol. Maent yn derbyn cyngor proffesiynol, gan gynnwys cyngor gan Watson Wyatt LLP (actiwari) a PricewaterhouseCoopers LLP. Maent yn gyfrifol am brisiadau llawn a dros dro, ac am gytuno ar arian priodol ar gyfer y cynlluniau pensiwn gyda'r Post Brenhinol. Mae'r ymddiriedolwyr pensiwn bellach yn wynebu rheoleiddio cynyddol gan y rheoleiddiwr pensiynau, a grëwyd yn Neddf Pensiynau 2004.

Is-bostfeistri - Caiff y mwyafrif helaeth o 14,376 o ganghennau Swyddfa'r Post® eu gweithredu gan isbostfeistri a phartneriaid rhyddfraint. Mae Ffederasiwn Cenedlaethol yr Isbostfeistri (NFSP) yn cynrychioli isbostfeistri ac mae ganddo tua 9,300 o aelodau ar hyn o bryd. Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn cynnal trafodaethau taliad cydnabyddiaeth blynyddol gyda'r NFSP ac yn gweithio'n agos i gynnal rhwydwaith dichonadwy. Mae'r NFSP yn gorff gweithredol iawn ar wahân sy'n lobïo'r Llywodraeth, rheoleiddwyr a chyrff defnyddwyr. Mae llawer o brif fanwerthwyr sydd hefyd yn bartneriaid arwyddocaol sy'n gweithredu tua 1,700 o ganghennau rhyngddynt ledled y wlad. Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn cysylltu'n agos â'r cwmnïau hyn er mwyn cynnal cydberthnasau gwaith llwyddiannus. Drwy bartneriaeth effeithiol gyda'r sefydliadau amrywiol hyn y mae'r busnes yn ystyried buddiannau asiantau ac yn ceisio cynnal y broses o gyflawni potensial eu gwerthiannau a dichonoldeb y rhwydwaith yn y tymor hwy.

Cwsmeriaid - Caiff busnesau a brandiau'r Grŵp eu defnyddio neu eu cydnabod gan bron pawb yn y DG - o'r cwmnïau mwyaf i unigolion. Fodd bynnag, mae'r 30 o gwsmeriaid mwyaf yn cynhyrchu bron 14% o drosiant y Grŵp ac o ganlyniad mae'r Post Brenhinol yn dibynnu ar sylfaen cwsmeriaid bach. Wrth i'r gystadleuaeth gynyddu bydd yn rhaid i'r Grŵp barhau i symleiddio ffyrdd o gynnal busnes a dylunio cynnyrch mewn ffordd sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid. Cynigir telerau ac amodau safonol i gwsmeriaid ar gyfer y marchnadoedd a'r gwledydd y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddynt.

Cyflenwyr - Mae gan y Grŵp ystod eang o gyflenwyr, ac mae'n dibynnu fwyaf ar y rheini sy'n ymwneud â gosod gwasanaethau nad ydynt yn rhai craidd allan ar gontract, fel cymorth TG. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â'i gyflenwyr i sicrhau y darperir y cynnyrch/gwasanaethau cywir ar yr amser cywir am gostau cystadleuol. Mae tîm prynu canolog yn monitro cydymffurfiaeth â pholisi'r Grŵp wrth ddyfarnu contractau neu fusnes newydd ac yn glynu wrth delerau credyd cytûn.

Y Rheoleiddiwr: Postcomm - caiff 90% o refeniwiau llythyrau'r Post Brenhinol eu rheoli o ran eu prisiau a chaiff y rheolaeth ar brisiau ei phennu'n gyfnodol gan Postcomm ar ffurf terfyn ar bris cyfartalog basged o gynnyrch. Caiff y cynnydd mewn prisiau neu'r gostyngiadau a ganiateir gan Postcomm drwy'r rheolaeth ar brisiau effaith sylweddol iawn ar y lefelau tebygol o lif arian y gall y cwmni eu cynhyrchu. Mae Postcomm hefyd yn ymchwilio i gydymffurfiaeth ag amodau'r drwydded ac mae ganddo bwerau eang i geryddu'r Cwmni yn gyhoeddus neu gyflwyno dirwy iddo os bydd yn canfod ei fod wedi torri'r amodau hynny.

Y corff defnyddwyr: Golwg ar Bost – rôl Golwg ar Bost yw gweithredu fel hyrwyddwr ar ran y defnyddwyr mewn materion sy'n ymwneud â'r post. Gall ei safbwyntiau cyhoeddus ar effaith polisïau a gweithredoedd rheolwyr y Post Brenhinol gael effaith niweidiol ar enw da'r Post Brenhinol, waeth beth fo ansawdd y gwasanaeth a gyflawnwyd. Gall hyn arwain at fwy o gwynion gan gwsmeriaid.

Cyfranddeiliad - Mae'r Grŵp yn ccc ac yn eiddo i'r Llywodraeth yn gyfan gwbl. Mae Adran Weithredol y Cyfranddeiliaid (o fewn yr Adran Masnach a Diwydiant) yn rheoli cydberthynas y cyfranddeiliad â'r Post Brenhinol fel cyfranddeiliad masnachol. Er mai Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am reoli'r cwmni felly, rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r cyfranddeiliad drwy adolygiadau perfformiad chwarterol, a gofynnir iddo gymeradwyo cynllun busnes y Cwmni yn flynyddol. Dim ond y Llywodraeth sy'n gallu rhoi unrhyw arian newydd sy'n ofynnol gan y cwmni a dim ond os yw'n bodloni egwyddorion buddsoddwr economaidd y farchnad y gall Adran Weithredol y Cyfranddeiliaid ei gymeradwyo.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Dadansoddiad cylchrannol - refeniw a phroffidioldeb

Yn y dadansoddiad canlynol, mae pob cyfeiriad at elw gweithredol cyn eitemau eithriadol.

Mae refeniw allanol y Grŵp o £9,056 (£8,956m yn 2005) ac elw gweithredol cyn eitemau eithriadol o £355m (£302m yn 2005) yn cynnwys y canlynol:

	Refeniw allanol		Elw/(colled) gweithredol	
Perfformiad uned busnes	**2006 £m**	2005 £m	**2006 £m**	2005 £m
Post Brenhinol	**6,859**	6,763	**344**	343
General Logistics Systems	**1,037**	913	**100**	73
Parcelforce Worldwide	**314**	298	**5**	(6)
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	**838**	976	**(111)**	(123)
Busnesau eraill	**8**	6	**17**	15
Grŵp	**9,056**	8,956	**355**	302

Ceir dadansoddiad pellach o'r canlyniadau, fesul uned, isod:

Post Brenhinol	**2006 £m**	2005 £m
Refeniw allanol	**6,859**	6,763
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	**344**	343

Cafwyd cynnydd o £96m (1.4%) mewn refeniw allanol, i £6,859m, sy'n bennaf o ganlyniad i gynnydd o 1.7% mewn prisiau cyfartalog, wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad o 0.7% yn swm y post â chyfeiriadau mewndirol, gan gynnwys stampiau, mesuryddion a Mailsort. Mae'r cynnydd mewn prisiau ar draws y rhan fwyaf o gynnyrch fel y'u caniatawyd gan y rheolaeth ar brisiau a bennwyd yn 2003, sy'n caniatáu i'r Post Brenhinol gynyddu ei brisiau yn ôl RPI-1%.

Mae'r cynnydd o £1m mewn elw gweithredol gan y Post Brenhinol o £343m i £344m o ganlyniad i welliant o 1.4% mewn twf refeniw (ond mae hyn o gymharu â 3.2% o dwf yn ystod yr un cyfnod y llynedd). Mae'r twf refeniw o £96m yn bennaf o ganlyniad i gynnydd o £118m (1.7%) mewn tariffau sy'n deillio'n bennaf o bost cartref, £95m (1.4%) o gynnyrch heb gyfeiriad a chynnyrch rhyngwladol, a wrthbwyswyd gan ddirywiad o 0.7% (£50m) yn swm y post sylfaenol â chyfeiriadau mewndirol, £5m (0.1%) o effaith cymysg negyddol a 0.9% (£62m) o effaith negyddol yn ymwneud â chwsmeriaid yn newid i'r cynnyrch Downstream Access rhatach. Prin yw'r cwmpas i leihau costau gweithredol yn y byrdymor o ganlyniad i'n Rhwymedigaethau Gwasanaeth Byd-eang.

General Logistics Systems	**2006 £m**	2005 £m
Refeniw allanol	**1,037**	913
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	**100**	73

Cafwyd cynnydd o 124m (13.6%) mewn refeniw allanol o £913m i £1,037m. Mae'r twf yn deillio o gynnydd cadarn yn nifer y parseli craidd cartref a'r broses barhaus o ehangu rhwydwaith Ewrop, gan gynnwys caffaeliadau yng Ngwlad Pwyl a'r Eidal.

Cafwyd cynnydd o £27m (37.0%) mewn elw gweithredol, o £73m y llynedd i £100m eleni, wedi'i lywio gan gyfuniad o gynnydd mewn refeniw, a ffocws parhaus ar reoli costau ac effeithlonrwydd gweithredol.

Parcelforce Worldwide	**2006 £m**	2005 £m
Refeniw allanol	**314**	298
Elw/(colled) gweithredol cyn eitemau eithriadol	**5**	(6)

Cafwyd cynnydd o £16m (5.4%) mewn trosiant allanol a hynny o dan amodau anodd yn y farchnad, wrth i Parcelforce Worldwide weld buddiannau ei gyfeiriad masnachol newydd.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu lefelau uchel o ddibynadwyedd a hefyd ar wella mynediad cwsmeriaid drwy gyfrwng y we, dros y ffôn, a hyfforddiant staff. O ganlyniad, mae Parcelforce Worldwide yn parhau i fwynhau twf yn enwedig yn y farchnad busnes i ddefnyddwyr. Cafwyd cynnydd o 16% mewn effeithlonrwydd gweithredol o gymharu â'r llynedd. Mae costau gweithredu 1.7% yn uwch na'r llynedd, ond mae hyn yn cynnwys ymgorffori 7% o symiau ychwanegol. Yn ystod ail hanner y flwyddyn cafwyd cynnydd yng ngraddfa welliant costau uned wrth i ddiwygiadau a gyflwynwyd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ddechrau dwyn ffrwyth. Cafodd gwelliannau cadarn mewn costau cerbydau a logisteg eu gwrthbwyso'n rhannol gan gostau tanwydd a chostau trawsgludo rhanbarthol uwch wrth i symiau rhyngwladol godi. Cafwyd gwelliant o £11m 183% mewn elw gweithredol o £5m yn dilyn y golled o £6m yn 2005. Dyma'r tro cyntaf i Parcelforce Worldwide gynhyrchu blwyddyn lawn o elw gweithredol sy'n adlewyrchu llwyddiant y cyfeiriad newydd ac ymrwymiad ei holl bobl.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Swyddfa'r Post Cyfyngedig	**2006 £m**	2005 £m
Refeniw allanol	**838**	976
Colled gweithredol cyn eitemau eithriadol	**(111)**	(123)

Cafwyd gostyngiad o £138m (14.1%) mewn refeniw o ganlyniad i refeniw budd-dal traddodiadol is yn sgîl newid i daliad uniongyrchol a refeniw is gan wasanaethau moduro, yn bennaf o ganlyniad i benderfyniad y DVLA i newid i wneud taliadau dros y rhyngrwyd, wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan fentrau cynnyrch newydd fel Homephone a Gwasanaethau Ariannol Swyddfa'r Post, a thwf pellach mewn refeniw bancio.

Er i Swyddfa'r Post Cyfyngedig brofi colledion sylweddol mewn refeniw, llwyddodd i leihau colledion o £123m i £111m. Cafodd y broses o golli £168m (35%) o incwm budd-daliadau traddodiadol ei gwrthbwyso gan y llifau refeniw newydd a sicrhawyd, yn bennaf drwy weithgaredd Teleffoni, Bancio a Gwasanaethau Ariannol, ynghyd â gwelliannau parhaus mewn effeithlonrwydd cyffredinol o ran costau. Mae'r golled o £111m yn cynnwys y gost o gynnal rhan aneconomaidd y rhwydwaith gwledig. Pe bai'r gweithgaredd hwn wedi'i ariannu gan gontract masnachol hyd braich gyda'r Llywodraeth, byddai Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi gwneud elw.

Busnesau eraill	**2006 £m**	2005 £m
Refeniw allanol	**8**	6
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	**17**	15

Mae busnesau eraill y Grŵp yn cynnwys Postcap (Guernsey), ein hyswiriwr sefydlog (100% o berchenogaeth), Ymddiriedolwyr Pensiwn y Post Brenhinol, ein gweinyddwyr pensiwn (100% o berchenogaeth), Romec, ein gweithrediad rheoli cyfleusterau (51% yn is-gwmni), NDC, ein gweithrediad gwasanaethau peiranneg adeiladu (51% yn is-gwmni), Quadrant, ein gwasanaethau arlwyo (51% yn gwmni cyswllt), a Camelot, gweithredwr loteri cenedlaethol y DG (20% yn gwmni cyswllt).

Mae refeniw allanol gan is-gwmnïau wedi cynyddu i £8m (£6m yn 2005). Mae elw gweithredol £2m yn uwch, yn bennaf, o ganlyniad i £3m o gynnydd mewn elw yn Quadrant, £1m yn Romec, wedi'i wrthbwyso gan ostyngiad mewn elw yn Camelot ac NDC. Caiff canlyniadau cwmnïau cyswllt eraill a chyd-fentrau nas cynhelir yn ganolog eu cynnwys yng nghanlyniadau Swyddfa'r Post Cyfyngedig a'r Post Brehinol.

Y ffordd ymlaen

Mae'r Grŵp wedi cofrestru twf cadarn mewn elw yn ystod y flwyddyn gyntaf ers y Cynllun Adnewyddu gan ddarparu gwasanaeth o ansawdd ardderchog ar yr un pryd. Yn ogystal, dyma'r bedwaredd flwyddyn olynol o dwf sylfaenol mewn proffidioldeb, wedi'i lywio eleni gan ein busnesau parseli nas rheoleiddiwyd, sy'n parhau i gynyddu symiau, refeniwiau, ffiniau ac elw; Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn lleihau ei cholledion yn wyneb gostyngiad sylweddol mewn symiau a refeniw; a'r Post Brenhinol yn rheoli ei gostau er mwyn lleihau'r symiau sylweddol a gollir o ganlyniad i gynnyrch mynediad â phrisiau is. Fodd bynnag, mae angen ystyried y perfformiad hwn yng nghyd-destun y ffaith mai dim ond 3.9% o adenillion ar werthiannau y mae'r Grŵp yn ei gynhyrchu o hyd, sy'n sylweddol is na'n cystadleuwyr, a bod y Post Brenhinol a Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn parhau i gefnogi cynnyrch neu sectorau sy'n gwneud colled sylweddol - mae'r Post Brenhinol yn parhau i wneud colledion ar stampiau, tra bod rhan o rwydwaith Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn parhau i wneud colledion.

Awgrymodd y Post Brenhinol wrth Postcomm yn ddiweddar ei fod yn barod i dderbyn cynigion Postcomm am y drydedd reolaeth ar brisiau ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Serch hyn, teimla fod baich pellach arno o ganlyniad i gyfyngiadau ar ei allu i newid ei delerau nad ydynt yn ymwneud â phrisiau ar adeg pan mae marchnadoedd yn cael eu hagor a lle y bydd hyblygrwydd yn allweddol. Mae hefyd yn disgwyl gweld colledion pellach mewn symiau o ganlyniad i Downstream Access, a fydd yn fwy na'r 1 biliwn o golled yn 2005-06. Fodd bynnag, mae'r Post Brenhinol yn parhau i ysgogi dulliau effeithlon o weithio, ond rhaid iddo yn awr fuddsoddi'n sylweddol yn ei rwydwaith i sicrhau y gall barhau i wneud hynny a chystadlu â chwmnïau cartref a rhai yn Ewrop.

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn disgwyl colli refeniwiau pellach yn ystod y byrdymor a bydd yn parhau i geisio dod o hyd i refeniwiau newydd a lleihau ei sylfaen costau - mae hyn yn mynd yn gynyddol anodd. Disgwylir i'n busnesau parseli dyfu, er ar gyfraddau llai nag a welwyd yn y gorffennol, o ganlyniad yn rhannol i'r broses gyfuno sydd ar waith ar draws y diwydiant.

Ond ein heriau mwyaf o bell ffordd yw mynd i'r afael â'n £5.6bn o ddiffyg pensiwn, ynghyd â sicrhau bod gan y Grŵp becyn ariannu priodol i ganiatáu i'r Post Brenhinol fuddsoddi yn ei rwydwaith, darparu ateb cynaliadwy hirdymor i ganghennau Swyddfa'r Post Cyfyngedig sy'n gwneud colled, ailfantoli prisiau o fewn y Post Brenhinol, a darparu digon o le i reoli'r risgiau masnachol sylweddol o ran rhyddfrydoli a cholli refeniwiau traddodiadol o fewn Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Datgeliadau Risgiau

Mae'r Grŵp yn defnyddio fframwaith cyffredinol ar draws y busnes ar gyfer nodi, asesu, monitro, cofnodi ac ymdrin â risgiau. Mae'r broses yn helpu i gynnal yr amcanion busnes drwy gysylltu â'r strategaeth fusnes, nodi ac ymateb i risgiau sy'n codi, datblygu atebion cost effeithiol i risg a, lle y bo'n briodol, ymelwa ar risgiau er mwyn ennill mantais gystadleuol.

Cafodd risgiau yn y Grŵp eu nodi a chânt eu rheoli i gynnal cynaliadwyedd hirdymor y Grŵp.

Mae'r Grŵp yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n destun rheoleiddio, sy'n gosod cyfyngiadau ar weithrediadau a'r risg o gosbau ar gyfer achosion o beidio â chydymffurfio

Rhoddodd Comisiwn y Gwasanaethau Post (Postcomm) drwydded weithredu 15 mlynedd i'r Post Brenhinol ym mis Mawrth 2001. Mae'r Drwydded yn cynnwys cyfyngiadau sylweddol ar weithredu busnes y Post Brenhinol, gan gynnwys cyfyngu ar ei ryddid i bennu ei brisiau ei hun a'i gwneud yn ofynnol iddo ganiatáu i'w gystadleuwyr gael mynediad i'w rwydwaith dosbarthu yn y pen draw. Os bydd y Post Brenhinol yn torri amodau penodol o'r drwydded gallai fod yn agored i daliadau iawndal a dirwyon. Ceir ansicrwydd anochel o ran sut y bydd y gyfundrefn reoleiddio yn effeithio ar y Post Brenhinol yn y dyfodol, o bosibl ar draul proffidioldeb y Grŵp.

Mae'r Post Brenhinol, yn wahanol i ddeiliaid trwyddedau post eraill, yn rhwymedig i ddarparu 'Gwasanaeth Byd-eang', sy'n arwain at sylfaen costau uwch, llai hyblyg na'i gystadleuwyr

Mae trwydded y Post Brenhinol yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Byd-eang (USO). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid dosbarthu llythyr o fewn y DG am yr un pris waeth pa mor bell neu anghysbell yw'r cyrchfan. Mae'r USO hefyd yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau un dosbarthiad post i bob cartref a busnes yn y DG, ac un casgliad post, chwe diwrnod yr wythnos. Mae hyn yn parhau i fod yn ofyniad i ni yn y farchnad sydd wedi'i rhyddfrydoli'n llawn erbyn hyn, gan arwain at sylfaen costau uwch a llai hyblyg o gymharu â'n cystadleuwyr. Fodd bynnag, mae'r USO yn sicrhau bod gan y Post Brenhinol y rhwydwaith dosbarthu mwyaf yn y wlad - a allai gyflwyno cyfleoedd yn y dyfodol.

Gallai rhyddfrydoli marchnadoedd post y DG arwain at gystadleuwyr yn dethol y cwsmeriaid mwyaf proffidiol, a allai effeithio'n andwyol ar refeniwiau a phroffidioldeb

O 1 Ionawr 2006 roedd y Post Brenhinol yn agored i gystadleuaeth lawn. Mae cwmnïau sy'n cystadlu yn ein herbyn wedi gallu casglu, dethol a chael mynediad i'n rhwydwaith drwy gyfrwng 'Downstream Access' ers 2004. Fodd bynnag, mae marchnad bost wedi'i rhyddfrydoli'n llwyr yn y DG yn golygu y gall ein cystadleuwyr osgoi ein rhwydwaith yn gyfan gwbl. Gan y daw 80% o refeniw'r Post Brenhinol oddi wrth ei gwsmeriaid busnes, y rhain yw'r cwsmeriaid y bydd cystadleuwyr yn eu targedu, ond heb amodiad trwydded USO.

Gallai'r ffaith ei bod yn hawdd cael mynediad i farchnad bost y DG ac ymadael â hi, wyrdroi'r farchnad gan arwain at symiau cyfnewidiol

Gallai nifer o gystadleuwyr nad ydynt yn ddarparwyr gwasanaeth post sefydledig gael mynediad i farchnad bost y DG i ddechrau, ac yna ymadael â hi yn gyflym. Os digwydd hyn, bydd yn gwyrdroi'r farchnad a bydd yn gynyddol anodd cynllunio a rhagweld yn gywir y gofynion o ran adnoddau yn y dyfodol.

Gallai'r broses gynyddol o ddefnyddio dulliau amgen yn lle gwasanaethau dosbarthu post arwain at ostyngiad mewn symiau, a fyddai'n cael effaith andwyol ar elw

Mae post busnes yn rhan ganolog o'n busnes, o ran dosbarthu eitemau ar gyfer sefydliadau fel adrannau'r Llywodraeth, cyfleustodau, gwasanaethau ariannol, awdurdodau lleol ac elusennau. Gellir defnyddio technolegau fel yr ebost a'r Rhyngrwyd i anfon gwybodaeth neu i ddarparu gwybodaeth o'r fath yn gyflymach ac, mewn llawer o achosion, am gost is na gwasanaethau post traddodiadol. Erbyn hyn, mae llawer o sefydliadau yn rhoi cymhellion i gwsmeriaid ymgymryd â'r dulliau amgen hyn. Os defnyddir dulliau o'r fath yn lle'r gwasanaethau traddodiadol, bydd symiau'r post yn gostwng gan arwain at ostyngiad cysylltiedig mewn refeniw. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r USO, bydd angen i'r Post Brenhinol barhau i gynnal rhwydwaith dosbarthu cynhwysfawr. O ganlyniad, ni fydd costau yn gostwng yn unol â symiau sy'n gostwng. Byddai hyn yn cael effaith andwyol ar broffidioldeb.

Mae'r Post Brenhinol yn dibynnu i raddau helaeth ar y Rheoleiddiwr ar gyfer ei system brisio, a allai arwain at anhyblygrwydd o ran prisiau

Adolygiadau rheoli prisiau a thrafodaethau gyda Postcomm sy'n penderfynu ar brisiau'r Post Brenhinol ar gyfer y rhan fwyaf o'i gynnyrch llythyrau. Er bod prisiau o'r fath wedi'u diffinio'n dda gan fformiwla reoliadol, mae gallu'r Post Brenhinol i ailfantoli ei brisiau i adlewyrchu costau ymdrin â'r post yn well yn dibynnu ar Postcomm. Mae gan y Post Brenhinol rai o'r prisiau stampiau rhataf yn Ewrop, gan fod post busnes, yn hanesyddol, wedi gwneud iawn am y colledion a wnaed ar bost wedi'i stampio. Oni fydd y cyfyngiadau rheoliadol cymwys yn caniatáu i'r Post Brenhinol adfer o'r anghydbwysedd hwn, ceir risg y bydd y Post Brenhinol bob amser yn colli arian ar bost wedi'i stampio, tra bydd ei gystadleuwyr yn dewis a dethol cynnyrch mwy proffidiol fel post busnes.

Daw swm sylweddol o refeniw'r Post Brenhinol o nifer gymharol fach o gwsmeriaid; pe collid nifer o'r rhain câi effaith andwyol ar elw

Mae cystadleuwyr yn mynd ati'n llwyddiannus i dargedu cwsmeriaid mwy a'r meysydd mwyaf proffidiol o'r busnes hwn, eto ni fydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Byd-eang (USO). Hefyd, mae newidiadau economaidd-gymdeithasol yn arwain at ddirywiad yn symiau'r post. O ganlyniad i'r USO, fodd bynnag, efallai na fydd costau'n lleihau yn unol â'r symiau sy'n gostwng. Gallai hyn gael effaith andwyol ar broffidioldeb oni all y Grŵp ystwytho ei sylfaen costau gweithredol.

Os bydd economi'r DG yn arafu neu'n profi dirwasgiad bydd hyn yn debygol o gael effaith niweidiol ar elw'r Grŵp

Mae economi'r byd yn profi cyfnod o drawsnewid radical, gyda newidiadau pellgyrhaeddol a sylfaenol ar gyfer patrwm gweithgarwch economaidd. Mae'r newidiadau hyn yn cyflwyno heriau a chyfleoedd i'r DG ac i'r holl economïau datblygedig. Yn hanesyddol, bu cydberthynas rhwng cyflwr economi'r DG a lefel y refeniw, os bydd yr economi yn parhau i arafu neu'n profi dirwasgiad, bydd yn cael effaith uniongyrchol ar symiau'r post, ac o ganlyniad, ar elw'r Grŵp.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Mae gan y Grŵp gydberthynas unigryw â'r Llywodraeth, a gallai unrhyw newid ym mholisi'r Llywodraeth yn y dyfodol effeithio ar y gydberthynas hon

Y Llywodraeth yw unig gyfranddeiliad y Post Brenhinol. Gallai dylanwad ystyriaethau polisi'r cyhoedd ar feddylfryd y Llywodraeth effeithio'n andwyol ar allu'r Grŵp i hyrwyddo strategaeth fusnes effeithiol. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol yn achos Swyddfa'r Post Cyfyngedig, a gaiff ei hystyried yn aml fel darparwr gwasanaeth cyhoeddus, ond y mae'n ofynnol iddi redeg ei rhwydwaith o ganghennau fel busnes masnachol. Gallai polisi'r Llywodraeth o ran gwerth cymdeithasol canghennau gwledig Swyddfa'r Post® gael effaith niweidiol ar allu Swyddfa'r Post Cyfyngedig i redeg rhwydwaith manwerthu effeithlon a phroffidiol, gan fod canghennau gwledig yn anymarferol yn sylfaenol heb gymorth ariannol sylweddol gan y Llywodraeth. At hynny, gallai newid yn y Llywodraeth neu yn ei meddylfryd arwain at ganfyddiad gwahanol o'r busnes a gofynion gwahanol, a allai gael effaith ar strategaeth hirdymor y busnes.

Mae'r Grŵp yn agored i newidiadau mewn rheoliadau a deddfwriaeth cartref ac Ewropeaidd, a allai ei wneud yn agored i gostau ychwanegol posibl

Bydd newidiadau arfaethedig amrywiol a wnaed yn ddiweddar i gyfraith Ewropeaidd neu gyfraith cartref yn cael effaith uniongyrchol ar y Grŵp; megis y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd, Safonau Cofnodi Ariannol Rhyngwladol, cyfyngiadau cyflymder ar ein cerbydau a rhyddfrydoli'r farchnad ar gyfer darparwyr gwasanaeth post ymhellach. Gallai unrhyw newidiadau yn y dyfodol gael effaith sylweddol ar y Grŵp a'i unedau busnes unigol.

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn gynrychiolydd penodedig Banc Iwerddon erbyn hyn a gaiff ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ac mae'n rhaid iddi ei fodloni ei bod yn cyflawni gofynion rheoliadol perthnasol. Mae hefyd yn agored i reoliadau gwyngalchu gwrth-arian a gyhoeddir o dan y Ddeddf Elw Troseddau a'u gorfodi gan Refeniw a Thollau EM. Yn 2005 ymunodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig â'r farchnad telathrebu ac mae wedi'i thrwyddedu fel darparwr gwasanaeth ffôn gan OFCOM. Mae OFCOM wedi cyhoeddi Cod Ymddygiad y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gydymffurfio ag ef.

Mae'r busnes yn canolbwyntio ar bobl ac mae'n dibynnu ar gyflogeion o safon i allu cyflawni ei amcanion

Y Post Brenhinol yw un o'r cyflogwyr mwyaf yn y DG, yn cyflogi tua 193,000 o bobl ar draws ei weithrediadau yn y DG. Ar hyn o bryd, mae cyflogaeth yn y DG ar y lefel uchaf erioed ac mae hyn yn arwain at brinder sgiliau o bosibl a chystadleuaeth rhwng cyflogwyr ar gyfer staff. Gallai hyn, ynghyd â'r ffaith bod gan rai ardaloedd o'r wlad y mae'r Post Brenhinol yn gweithredu ynddynt drosiant naturiol uchel, arwain at brinder posibl yn nifer a/neu ansawdd newydd ddyfodiaid sydd ar gael.

Gallai peidio â sicrhau newid parhaus mewn diwylliant o fewn y sefydliad effeithio ar ddatblygiadau yn y dyfodol

Mae natur y sefydliad yn dibynnu ar nifer fawr o bobl undebol er mwyn sicrhau parhad ac ansawdd gwasanaeth. Mae'r busnes wedi profi cryn dipyn o newid gweithredol, ac er bod hyn wedi arwain at broffidioldeb mae hefyd wedi digwydd yr un pryd â newidiadau yn y farchnad; o ran pwysau ariannol yn sgîl cystadleuaeth a rheoleiddio ynghyd â disgwyliadau uwch gan gwsmeriaid. Yn sgîl y pwysau hwn sy'n dod i'r wyneb, mae angen i dwf a datblygiad yn y dyfodol gael eu cynnal gan newid diwylliannol o fewn y sefydliad. Heb ddiwylliant hyblyg, effeithlon a chydweithredol, gallai'r Post Brenhinol ddechrau gwneud colledion yn gyflym mewn marchnad agored wrth i symiau'r post ostwng a chyfraddau llafur gynyddu, ac wrth i gwsmeriaid gael dewis o ran gweithredwr post. Gallai achos o weithredu diwydiannol sylweddol gael effaith andwyol fawr ar enw da ac elw'r Grŵp.

Mae'r Grŵp yn dibynnu ar nifer o gyflenwyr allweddol a gallai fod mewn perygl o ganlyniad i newidiadau andwyol mewn prisiau neu berfformiad

Mae rhai cyflenwyr hanfodol gan y Grŵp. Pe bai unrhyw un o'r rheini, am ba reswm bynnag, yn methu â chyflawni eu rhwymedigaethau gwasanaeth neu pe byddent yn cynyddu prisiau'n sylweddol, byddai hyn yn effeithio'n andwyol ar weithrediadau a chanlyniadau'r Post Brenhinol.

Mae gweithgareddau busnes y Grŵp yn rhwym wrth amser. Mae hyn yn golygu ped amharwyd ar gyfleusterau seilwaith penodol y byddai'n cael effaith ar ein canlyniadau busnes a gweithredu

Mae'r Grŵp yn gweithredu 14,376 o allfeydd manwerthu a rhwydwaith cenedlaethol cymhleth sy'n dosbarthu i bob cyfeiriad post yn y DG. Mae'r busnes yn agored i nifer o risgiau gweithredol sydd y tu hwnt i'w reolaeth, gan gynnwys trychinebau naturiol, tân, llifogydd, ffrwydradau, posibilrwydd o atal gwaith neu aflonyddwch sifil, amharu ar seilwaith trafnidiaeth, diffyg pŵer, offer yn torri neu'n methu, afiechyd, terfysgaeth a'r peryglon arferol sy'n gysylltiedig â rhedeg rhwydwaith cymhleth. Byddai unrhyw aflonyddwch o'r fath yn cael effaith andwyol ar ganlyniadau busnes a gweithredu.

Gallai buddsoddi annigonol yn y rhwydwaith gweithredol effeithio ar lefelau cynhyrchiant ac ar ein gallu i gystadlu'n effeithiol mewn marchnad a ryddfrydolwyd

Er mwyn cynnal a gwella ein perfformiad busnes a gweithredol, mae angen buddsoddiadau mawr parhaus mewn seilwaith. Mae tanfuddsoddiad hanesyddol wedi arwain at y ffaith bod offer a thechnoleg yn agosáu at ddiwedd eu hoes heb gael eu disodli gan dechnoleg newydd. Gallai diffyg buddsoddiad parhaus yn rhwydwaith gweithredol y Grŵp arwain at anallu i gystadlu'n effeithiol mewn marchnad agored, o ganlyniad i ddirywiad mewn lefelau cynhyrchiant neu anallu i wella cynhyrchiant o gymharu â'i gystadleuwyr.

Mae brandiau'r Grŵp ymhlith y rhai mwyaf adnabyddus a dibynadwy yn y DG; fodd bynnag, gallai adroddiadau ar wasanaeth cwsmeriaid gwael effeithio'n andwyol ar ein henw da

Mae brandiau'r Grŵp - y Post Brenhinol, Swyddfa'r Post® a Parcelforce Worldwide ymhlith rhai o'r brandiau mwyaf adnabyddus a dibynadwy yn y DG ac felly maent yn brif asedau anniriaethol i'r Grŵp. Gallai canfyddiadau negyddol o'r brandiau hyn arwain at golli hyder a cholledion posibl mewn refeniw, elw a llif arian.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Mae'r Grŵp yn cynnal gweithrediad trysorlys sylweddol, sy'n agored i ddatgeliadau ariannol

Mae Trysorlys y Grŵp yn gyfrifol am hylifedd y Grŵp a'i is-gwmnïau. Mae'r Grŵp yn agored i risgiau o ran arian tramor a phrisiau tanwydd. Mae'r cyntaf o ganlyniad i rwymedigaeth adran ryngwladol y Post Brenhinol i dalu gweithredwyr post tramor am gludo post y DG dramor a'r balansau a ddelir i weithredu'r gwasanaethau bureau de change o fewn Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Mae'r risg o ran prisiau tanwydd yn deillio o weithredu un o'r fflydoedd mwyaf yn Ewrop, sy'n defnyddio dros 150 miliwn litr o danwydd y flwyddyn, a risg tanwydd jet o ganlyniad i brynu gwasanaethau cludiant awyr.

Pe bai strategaeth y trysorlys yn amhriodol i allu cwmpasu datgeliadau'r Grŵp gallai hyn arwain at y ffaith na fyddai arian ar gael pan fyddai ei angen i dalu dyledion neu gallai gael effaith negyddol ar elw o ganlyniad i gynnydd mewn costau.

Mae gan y Grŵp ddiffyg o ran ei gynllun pensiwn, sy'n agored i unrhyw symudiadau cyfnewidiol mewn tybiaethau actiwaraidd a gwerthoedd ecwiti

Mae'r Post Brenhinol yn gweithredu'r 6ed cynllun pensiwn galwedigaethol mwyaf yn y DG. Mae ganddo tua 170,000 o aelodau a 279,000 o bensiynwyr/pensiynwyr gohiriedig. O ganlyniad i faint y Grŵp o gymharu â maint y Cwmni (£5.6bn o ddyledion pensiwn o gymharu â £2.3bn o asedau net y cwmni ac eithrio'r diffyg pensiwn), a disgwyliad oes hirach pobl, gallai hyd yn oed mân newidiadau i dybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo costau pensiwn a dyledion gael effaith ddifrifol ar fantolen y Grŵp. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod gwerthoedd asedau yn dibynnu ar farchnadoedd ecwiti'r DG, yn golygu y gall fod cyfnewidiadau mawr yn y costau pensiwn a gofnodwyd yn y datganiad incwm a'r diffyg a gofnodwyd yn y fantolen.

Mae gan fantolen Grŵp y Post Brenhinol ccc ddyledion sydd y tu hwnt i'w hasedau, a allai arwain at ddatgeliadau amrywiol, megis y posibilrwydd o derfynu'r Drwydded i weithredu

Y rheswm dros fantolen negyddol Grŵp y Post Brenhinol ccc yw oherwydd bod y diffyg pensiwn yn fwy nag asedau'r Cwmni. Gallai hyn arwain at nifer o ddatgeliadau i risgiau o bell: Gallai trwydded bost y Post Brenhinol gael ei therfynu o fewn 24 awr o rybudd, a gallai rhai cytundebau cwsmeriaid a chyflenwyr masnachol gael eu terfynu.

Frank Schinella

Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro y Grŵp

17 Mai 2006

Mae'r ffigurau a ddyfynnwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan o ganlyniad i'r trawsnewid i Safonau Adroddiad Ariannol Rhyngwladol.

Bwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Cyfarwyddwyr Anweithredol

Ymunodd ALLAN LEIGHTON (53) â'r Bwrdd ym mis Ebrill 2001 fel Cyfarwyddwr Anweithredol, a daeth yn Gadeirydd ym mis Mawrth 2002. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr Swyddfa'r Post Cyfyngedig, ac yn aelod o Fwrdd Gorchwylio'r GLS.

Dechreuodd Allan ei yrfa gyda Mars Confectionery a symudodd i Pedigree Petfoods fel Cyfarwyddwr Gwerthiant. Yn 1992, daeth yn Gyfarwyddwr Marchnata Grŵp yn Asda Stores Limited, ac yn Brif Weithredwr yn 1996, a daeth yn Lywydd ac yn Brif Swyddog Gweithredol yn Wal-Mart Ewrop pan brynodd Wal-Mart Asda yn 1999. Ar hyn o bryd, ef yw Cadeirydd BHS Limited, Cadeirydd Anweithredol BSkyB, Selfridges & Co, a George Weston Ltd. Allan hefyd yw Cadeirydd Race for Opportunity.

Ymunodd DAVID FISH (57) â'r Bwrdd ym mis Ionawr 2003. Ef yw Cadeirydd y Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth, ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Enwebu.

Roedd David yn aelod o Fwrdd Gweithredu Mars Inc o 1994 i 2001 ac yn Gyd-Lywydd Masterfoods Ewrop. Bu hefyd yn Lywydd Snackfoods Ewrop, a chyflawnodd swyddi ls-Lywydd Ewropeaidd ym maes marchnata a phersonél. Ef yw Cadeirydd United Biscuits Group (Investments) Limited a Chadeirydd Christian Salvesen ar hyn o bryd.

Ymunodd RICHARD HANDOVER (60) â'r Bwrdd ym mis Ionawr 2003. Ef yw Cadeirydd y Pwyllgor Enwebu, ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth.

Roedd Richard yn Gadeirydd WH Smith plc hyd at fis Ionawr 2005. Ef yw Cadeirydd yr Arolygiaeth Dysgu Oedolion ar hyn o bryd ac mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol ar Gymdeithas Adeiladu Nationwide.

Ymunodd SYR MICHAEL HODGKINSON (62) â'r Bwrdd ym mis Ionawr 2003. Ef yw'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth. Ym mis Mai 2003, fe'i penodwyd yn Gadeirydd Swyddfa'r Post Cyf ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Cyfrifoldeb Corfforaethol a Chymdeithasol ac ef yw cyfarwyddwr enwebedig Swyddfa'r Post Cyfyngedig ar Fwrdd Banc Iwerddon.

Roedd Syr Mike yn Brif Weithredwr BAA plc hyd nes iddo ymddeol ym mis Mehefin 2003. Mae'n Aelod Bwrdd ar hyn o bryd ac yn Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Trafnidiaeth Llundain, yn Aelod Anweithredol o FKI plc ac yn Gadeirydd Anweithredol First Choice Holidays plc.

Ymunodd JOHN NEILL CBE (58) â'r Bwrdd ym mis Ionawr 2003 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Bu John yn Brif Weithredwr Grŵp ac yn Ddirprwy Gadeirydd Grŵp o gwmnïau Unipart ers 1987. Mae'n gyn Gyfarwyddwr Llys Banc Lloegr, ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol Charter plc. Mae hefyd yn ls-Lywydd y Gymdeithas Gweithgynhyrchwyr a Masnachwyr Moduron ac yn Gyfarwyddwr fforwm diwydiant SMMT, a Busnes yn y Gymuned.

Ymunodd y FARWNES MARGARET PROSSER (68) â'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2004 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Enwebu a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Bu Margaret yn Aelod o Dŷ'r Arglwyddi ers 2004. Hi yw Cyfarwyddwr Anweithredol y Rheolwyr Cronfeydd Undebau Llafur a bu'n Gadeirydd y Comisiwn Merched a Gwaith ers mis Gorffennaf 2004. Mae hefyd yn Gadeirydd Comisiwn Cenedlaethol y Merched.

Ymunodd HELEN WEIR (43) â'r bwrdd ym mis Ionawr 2006 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Bu Helen yn Gyfarwyddwr Cyllid Grŵp yng Ngrŵp Lloyds TSB ers 2004. Cyn hynny, roedd yn Gyfarwyddwr Cyllid Grŵp Kingfisher, ac mae'n aelod o'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu.

Ymunodd BOB WIGLEY (45) â'r Bwrdd ym mis Ebrill 2003, ac mae'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae Bob yn Gadeirydd busnes Merrill Lynch yn Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica, ac mae'n Ddirprwy Gadeirydd Busnes yn y Gymuned.

Cyfarwyddwyr Gweithredol

Ymunodd ADAM CROZIER (42) â'r Cwmni ym mis Chwefror 2003. Mae'n Brif Weithredwr y Grŵp ac mae'n arwain Tîm Gweithredol y Grŵp. Yn ystod y flwyddyn, mae hefyd wedi rheoli'r Busnes Llythyrau yn uniongyrchol o ddydd i ddydd.

Roedd Adam yn Brif Weithredwr y Gymdeithas Bêl-droed o 2000-2003. Rhwng 1998 a 1999 cyflawnodd nifer o rolau uwch yn Saatchi and Saatchi Advertising, yn cynnwys rôl Prif Weithredwr ar y Cyd o 1995.

Ymunodd IAN GRIFFITHS (55) â'r Cwmni fel Rheolwr Gyfarwyddwr y Busnes Llythyrau ym mis Chwefror 2006. Mae'n aelod o Dîm Gweithredol y Grŵp.

Roedd Ian yn GKN yn flaenorol o 1975. Roedd Ian yn aelod o uwch dîm rheoli GKN Driveline ers 1990 ac yn ystod y cyfnod hwn roedd yn gyfrifol am weithrediadau yn yr UD ac am waith marchnata a pheirianneg ar draws y byd. Fe'i penodwyd yn Brif Weithredwr Driveline GKN yn 2000 ac i'r Bwrdd yn 2001 fel Rheolwr Gyfarwyddwr GKN Driveline. Ym mis Hydref 2004 daeth yn gyfrifol am weithrediadau Driveline, Powder Metallurgy ac Auto Components y Grŵp ar draws y byd. Mae Ian hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol Ultra Electronics Holdings plc.

Bwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc (parhad)

Ymunodd ALAN COOK CBE (52) â'r Cwmni ym mis Mawrth 2006 fel Rheolwr Gyfarwyddwr Swyddfa'r Post Cyf, ar ôl bod yn Gyfarwyddwr anweithredol Swyddfa'r Post Cyf ers mis Chwefror 2005. Mae'n aelod o Dîm Gweithredol y Grŵp.

Cyn ymuno â Swyddfa'r Post Cyfyngedig fel Rheolwr Gyfarwyddwr, roedd Alan yn Brif Weithredwr National Savings and Investments, ac roedd yn Brif Swyddog Gweithredu Cwmni Prudential Assurance cyn hynny. Mae Alan hefyd yn aelod o Gyngor y Sefydliad Gwasanaethau Ariannol ar hyn o bryd.

Ymunodd TONY McCARTHY (50) â'r Cwmni ym mis Ionawr 2003 ac mae'n Gyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Pobl a Datblygiad Sefydliadol. Mae'n aelod o Dîm Gweithredol y Grŵp, y Pwyllgor Pensiynau a'r Pwyllgor Llywodraethu Cyfrifoldeb Corfforaethol a Chymdeithasol.

Yn flaenorol, bu Tony yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Grŵp BAE Systems, lle y gweithiodd mewn amrywiaeth o rolau Adnoddau Dynol ers 1978.

Ymunodd DAVID BURDEN (59) â'r Cwmni ym mis Tachwedd 2002, fe'i penodwyd i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2004, ac mae'n Gyfarwyddwr Technoleg y Grŵp. Mae'n aelod o Dîm Gweithredol y Grŵp ac yn cadeirio'r Pwyllgor Rheoli Risg Gorfforaethol.

Yn flaenorol, roedd David yn Rheolwr Cyffredinol Gweithredol y Grŵp Technoleg a Gwasanaethau yn Quantas Airways Ltd yn Sydney, ac roedd yn gyfrifol am TG, prynu, eiddo, trafnidiaeth modur a gwasanaethau tanwydd. Roedd yn aelod o'r Pwyllgor Gweithredol drwy gydol y broses o drawsnewid o berchenogaeth y Llywodraeth i fod yn gwmni cyhoeddus rhestredig llwyddiannus.

Ymunodd JONATHAN EVANS OBE (54) â'r Cwmni yn syth o'r brifysgol yn 1974 a bu'n Ysgrifennydd ar y Cwmni ers 1999, ar ôl cylfawni ystod eang o swyddi rheoli o fewn y Grŵp. Mae'n aelod o Dîm Gweithredol y Grŵp, a'r Pwyllgor Pensiynau, yn Ysgrifennydd i'r Pwyllgorau Archwilio a Risg, Taliad Cydnabyddiaeth ac Enwebu, yn Gyfarwyddwr Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol ac yn aelod o Fwrdd Goruchwylio'r GLS.

Cyfarwyddwyr a wnaeth ymddeol yn ystod y flwyddyn

Gwnaeth MARISA CASSONI (Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp) ymddeol o'r Bwrdd ar 17 Tachwedd 2005.

Gwnaeth DAVID MILLS (Prif Weithredwr Swyddfa'r Post Cyfyngedig) ymddeol o'r Bwrdd ar 31 Rhagfyr 2005.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno cyfrifon y Grŵp ar gyfer Daliadau'r Post Brenhinol ccc. Mae'r cyfrifon hyn yn ymwneud â'r 52 wythnos a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 (52 wythnos a ddaeth i ben 27 Mawrth yn 2005).

Prif weithgareddau

Mae'r Grŵp yn darparu gwasanaeth dosbarthu cenedlaethol a rhyngwladol, yn cynnwys post a pharseli yn bennaf. Mae'r Grŵp hefyd yn darparu mynediad i ystod eang o wasanaethau ariannol a manwerthu drwy ei rwydwaith o ganghennau Swyddfa'r Post® ar draws y Deyrnas Gyfunol.

Adolygiad o'r busnes a'r datblygiadau yn y dyfodol

Cyflwynir adolygiad o fusnes y Grŵp a'i ddatblygiadau yn y dyfodol yn Natganiad y Cadeirydd, Datganiad y Prif Weithredwr, yr Adolygiad Blynyddol a'r Adolygiad Gweithredu ac Ariannol.

Canlyniadau a difidendau

£312m oedd yr elw cyn trethiant (£167m yn 2005). Ar ôl trethiant, £395m oedd yr elw (£151m yn 2005). O ran yr elw ar ôl trethiant, mae £dim yn briodoladwy i fuddiannau lleiafrifol (£dim yn 2005). Nid yw'r Cyfarwyddwr yn argymell difidend (dim difidend yn 2005)

Cyfraniadau gwleidyddol ac elusennol

Yn ystod y flwyddyn, cyfrannodd y Grŵp £1m tuag at elusennau (£2m yn 2005). Ni wnaed unrhyw gyfraniadau gwleidyddol yn ystod y flwyddyn (£dim yn 2005).

Ymchwil a datblygu

Gwariwyd £1m ar waith ymchwil a datblygu yn ystod y flwyddyn (£1m yn 2005).

Polisi ar dalu cyflenwyr

Polisi'r Cwmni a'i brif is-gwmnïau gweithredol yw defnyddio eu pŵer prynu mewn ffordd deg. Cytunir ar delerau talu ymlaen llaw ar gyfer pob contract mawr. Ar gyfer trafodion â gwerth is, mae telerau talu safonol y cyflenwr yn gymwys. Polisi'r Cwmni yw glynu wrth y telerau cytûn. Mae'r Cwmni a'i brif is-gwmnïau gweithredol yn y DG wedi ceisio cydymffurfio â Chod Ymarfer Talu'n Well yr Adran Masnach a Diwydiant. Gellir cael copïau o'r cod ymarfer hwn gan yr Adran Masnach a Diwydiant. Gan fod y Cwmni yn gwmni anweithredol, nifer y diwrnodau credydwyr yw sero. Gellir dod o hyd i ddiwrnodau credydwyr yr is-gwmnïau gweithredol yn eu cyfrifon.

Tir ac adeiladau

Ym marn y Cyfarwyddwyr, mae gwerth marchnad cyfun tir ac adeiladau'r Grŵp £660m (£466m yn 2005) yn fwy na'r gwerth llyfr net, yn seiliedig ar bolisi cyfrifyddu costau hanesyddol, o £1,125m (£1,157m yn 2005).

Offerynnau Ariannol

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 29.

Cyfarwyddwyr a'u buddiannau

Cyfeirir at Gyfarwyddwyr y Cwmni a cheir manylion newidiadau yn ystod y flwyddyn ar dudalennau 27 a 28. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penodi'r Cadeirydd; caiff pob Cyfarwyddwr arall ei benodi gan y Cwmni gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol.

Llywodraeth EM yw unig gyfranddeiliad y Cwmni ac o ganlyniad nid oes gan y Cyfarwyddwyr unrhyw fuddiannau yng nghyfranddaliadau'r Cwmni.

Darpariaethau indemniad trydydd parti cymwys ar gyfer Cyfarwyddwyr

Adeg cymeradwyo Adroddiad y Cyfarwyddwyr o dan adran 234A o Ddeddf Cwmnïau 1985, roedd darpariaeth indemniad trydydd parti cymwys rhannol ar waith, ac mae'n parhau ar waith er budd holl Gyfarwyddwyr y Cwmni, ac roedd ar waith, ac mae'n parhau ar waith er budd un neu fwy o bersonau a oedd yn Gyfarwyddwyr y Cwmni bryd hynny. Rhoddir yr indemniad o dan erthygl 129 o Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni. Mae'r indemniad yn rhannol o ran y ffaith nad yw'n caniatáu i'r Cwmni gwmpasu costau achos aflwyddiannus o amddiffyn hawliad gan drydydd parti.

Pobl

Mae Grŵp y Post Brenhinol yn cyflogi tua 193,000 o bobl (dros 196,000 yn 2005) yn ein his-gwmnïau a berchenogir yn gyfan gwbl yn y DG. Ceir cysoniad o ran nifer y bobl yn y Grŵp yn nodyn 4 i'r cyfrifon. Ein pobl yw ein cryfder strategol a'n mantais gystadleuol.

Polisi'r Grŵp yw annog cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol rhwng ein pobl, yn enwedig ar faterion sy'n ymwneud â strategaeth, ffactorau ariannol ac economaidd a allai ddylanwadu ar berfformiad y Grŵp. Cyflawnir hyn drwy gyfrwng ystod o sianeli cyfathrebu, gan gynnwys cylchgronau, briffiau, fforymau agored a gwefan ar y fewnrwyd. Mae gan ein pobl amryw gynlluniau bonws, y mae elfennau sylweddol ohonynt yn seiliedig ar dargedau sy'n ymwneud â busnes.

Rydym yn annog dull parhaus o hyfforddi a datblygu sgiliau ein pobl er mwyn sicrhau y cyflawnir amcanion corfforaethol ac unigol. Cynlluniwyd rhaglenni datblygu a hyfforddi rheolwyr i ddenu ac i gadw'r rheolwyr gorau posibl. Mae'r Grŵp wedi gweithio gyda'r undebau i gyflwyno llawer o arferion gweithio arloesol er mwyn gwella effeithlonrwydd.

Ceir polisi Cyfle Cyfartal sy'n cwmpasu pob agwedd, gan gynnwys anabledd, oedran, crefydd, lliw, rhyw, cenedl, tarddiad ethnig, tuedd rywiol, hil, credo a statws priodasol.

Yn 2002, creodd y Cadeirydd raglen i wneud Grŵp y Post Brenhinol yn 'Lle Gwych i Weithio' ac fe'i gwnaeth yn flaenoriaeth i bawb yn y busnes. Diben y rhaglen yw annog pobl i gyfrannu at wella eu hamgylchedd gwaith, rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar ein pobl, datblygu balchder yn y busnes a dealltwriaeth ohono ac annog parch at gydweithwyr – yn fyr, sicrhau bod ystyriaethau pobl wrth wraidd yr holl benderfyniadau busnes mawr. Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi a bydd yn parhau yn rhan ganolog o'n strategaeth ar gyfer ein pobl.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)

Bydd ein strategaeth ar gyfer ein pobl yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein potensial fel sefydliad drwy gryfder ein pobl drwy ddatblygu diwylliant cynaliadwy â pherfformiad uchel, lle y mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi. Mae'n canolbwyntio ar saith prif faes:

- creu swyddi diddorol, ystyrlon a phatrymau gweithio mwy hyblyg;
- nodi a datblygu cyfres o ymddygiadau craidd yn ein holl bobl sy'n penderfynu ar y ffordd y byddwn yn trin ein gilydd, ein cwsmeriaid a'n Cyfranddeiliad;
- adeiladu sefydliad cyfnewidiol, arloesol ac addasol er mwyn gwella ein hymateb i newidiadau yn yr amgylchedd ac yn y farchnad;
- datblygu diwylliant â pherfformiad uchel lle y mae pawb yn deall eu cyfraniad ac yn cael eu cymell i gyflawni eu potensial llawn;
- diffinio, recriwtio a datblygu'r galluoedd craidd sydd eu hangen arnom i ffynnu mewn marchnad gystadleuol, nas rheoleiddiwyd;
- recriwtio, denu a datblygu'r gallu arwain a rheoli sydd ei angen arnom i gyflawni ein nodau;
- gwella ein gallu i ddenu a chadw'r dalent sydd ei hangen arnom i gystadlu'n llwyddiannus.

Ein bwriad yw ategu ein strategaeth ar gyfer ein pobl gyda system fesur a fydd yn dangos gwerth ein pobl yn wrthrychol ynghyd â'u cyfraniad at lwyddiant ein busnes.

Ar hyn o bryd, rydym yn monitro ein cynnydd tuag at fod yn 'Lle Gwych i Weithio' drwy gynnal arolwg o farn cyflogeion, Have Your Say, a lansiwyd ym mis Ionawr 2003. Caiff hyn ei gynnal ar sail dreigl, ar draws yr holl gyflogeion a chaiff y canlyniadau eu hadolygu bob mis ar hyd y busnes – o lefel leol hyd at lefel Bwrdd.

Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Mae'r Post Brenhinol yn ymrwymedig i gynnal ei weithgareddau mewn modd cymdeithasol gyfrifol, o ran yr amgylchedd, cyflogeion, cwsmeriaid a chymunedau lleol. Mae Pwyllgor Llywodraethu Cyfrifoldeb Corfforaethol a Chymdeithasol (CSR) yn cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd, sy'n cyhoeddi adroddiad blynyddol o'i weithgareddau. Ceir manylion pellach am ein strwythur a'n gweithgareddau llywodraethu CSR yn ein Hadroddiad CSR yn 2006, y bwriedir ei gyhoeddi ym mis Medi 2006.

Cyflogeion Anabl

Polisi'r Grŵp yw rhoi ystyriaeth lawn i geisiadau am gyflogaeth gan bobl anabl. Bydd cyflogeion sy'n datblygu anabledd tra eu bod wedi'u cyflogi yn derbyn cymorth llawn drwy gyfrwng hyfforddiant ac offer arbennig i hwyluso cyflogaeth barhaus lle y bo'n ymarferol. Mae'r Grŵp yn darparu hyfforddiant, cyfleoedd datblygu gyrfa a dyrchafu i gyflogeion anabl lle bynnag y bo'n briodol.

Sail weithredol

Ar ôl dadansoddi'r adnoddau ariannol sydd ar gael a'r rhagfynegiadau o ran llif arian ar gyfer y Grŵp, ystyria'r Cyfarwyddwyr ei bod yn briodol paratoi'r datganiadau ariannol ar sail weithredol.

Archwilwyr

Caiff y penderfyniad i ailbenodi Ernst & Young LLP fel archwilwyr ei gyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Yn ôl Gorchymyn y Bwrdd

Jonathan Evans

Ysgrifennydd y Cwmni

17 Mai 2006

Llywodraethu Corfforaethol

Datganiad gan y Cyfarwyddwyr ar gydymffurfiaeth â'r Cod Cyfun

Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i safonau uchel o Lywodraethu Corfforaethol ac mae'n cefnogi'r Cod Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol (y Cod), a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2003, a ddaeth i rym ar gyfer y Post Brenhinol ar 29 Mawrth 2004. Diben y datganiad canlynol yw egluro ein polisïau a'n harferion llywodraethu yng ngoleuni egwyddorion a darpariaethau'r Cod i'r graddau y maent yn briodol i gwmni cyhoeddus sydd ag un cyfranddeiliad, ac i roi darlun o'r modd y mae'r Bwrdd a'r tîm rheoli yn rhedeg y busnes er budd y Cyfranddeiliad. Mae'r Cwmni wedi cydymffurfio'n llawn â darpariaethau'r Cod.

Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu amcanion a strategaeth y Grŵp ac am fonitro perfformiad. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd Anweithredol, chwe Chyfarwyddwr Gweithredol a saith Cyfarwyddwr Anweithredol. Mae swydd wag ar gyfer Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp ar hyn o bryd. Ceir bywgraffiadau o bob un o'r Cyfarwyddwyr, yn nodi eu rolau presennol, eu hymrwymiadau a'u profiad blaenorol, ar dudalennau 27 a 28. Mae'r Bwrdd fel arfer yn cwrdd yn fisol, ac mae wedi diffinio'r materion hynny y mae'n ofynnol iddo roi ystyriaeth benodol iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys cymeradwyo datganiadau ariannol, caffaeliadau a gwarediadau, cytundebau sylweddol, prosiectau anghylchol, gwariant cyfalaf mawr a chynlluniau strategol. Mae hefyd yn dirprwyo cyfrifoldebau i'r Pwyllgorau Bwrdd a nodir isod. Ar gyfer pob cyfarfod Bwrdd a drefnir, mae Ysgrifennydd y Cwmni, ar ran y Cadeirydd, yn casglu ac yn dosbarthu'r papurau, gan roi digon o amser i'r Cyfarwyddwyr adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r Bwrdd yn hyderus bod gan ei holl aelodau y wybodaeth, y dalent a'r profiad i gyflawni'r swyddogaethau sy'n ofynnol gan Gyfarwyddwr y busnes. Mae gan Gyfarwyddwyr Gweithredol gontractau treigl 12 mis a phenodir Cyfarwyddwyr Anweithredol am gyfnod o dair blynedd fel arfer.

Ystyria'r Bwrdd fod pob un o'r saith Cyfarwyddwr Anweithredol yn annibynnol. Mae hyn yn golygu, o ran y Bwrdd, nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a rheolwyr eraill, nac unrhyw fusnes neu gydberthynas arall â'r Cwmni a allai amharu ar eu dyfarniad. Syr Michael Hodgkinson yw'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol. Ceir rhaniad cyfrifoldebau clir hefyd rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Caiff perfformiad y Bwrdd, ei Bwyllgorau a Chyfarwyddwyr unigol ei werthuso yn flynyddol. Mabwysiadodd y Bwrdd ymagwedd systematig tuag at y broses o werthuso effeithiolrwydd y Bwrdd, ei Bwyllgorau a Chyfarwyddwyr unigol. Gwnaed hyn gan y Cadeirydd ac fe'i gweithredwyd ar y cyd â Chadeiryddion y Pwyllgor a chyda chymorth Ysgrifennydd y Cwmni. Cynhaliwyd y gwerthusiad drwy gyfrwng holiadur ffurfiol a oedd yn golygu y gallai safbwyntiau'r Cyfarwyddwyr ar effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau gael eu cyflwyno i'r Cadeirydd a'r Bwrdd llawn. Cynhaliwyd gwerthusiadau perfformiad o Bwyllgorau'r Bwrdd ar ran y Cadeirydd gan Gadeiryddion y priod Bwyllgorau Bwrdd. Adolygodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol, a arweiniwyd gan yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, berfformiad y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Gall Cyfarwyddwyr gymryd cyngor proffesiynol annibynnol wrth gyflawni eu dyletswyddau, ar draul y Grŵp. Gall pob Cyfarwyddwr gael cyngor a gwasanaeth Ysgrifennydd y Cwmni, y mae'r Bwrdd cyfan yn penderfynu ar ei benodiad a'i ddiswyddiad.

Mae'n ofynnol gan Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni bod pob Cyfarwyddwr, a benodir gan y Bwrdd, yn cael ei ethol gan y Cyfranddeiliad yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf ar ôl iddo gael ei benodi. Ar ôl iddynt gael eu penodi, bydd y Cyfarwyddwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu lle y cânt wybodaeth am Grŵp y Post Brenhinol, rôl y Bwrdd a materion y mae'n ofynnol iddo benderfynu arnynt, y cylch gorchwyl ac aelodaeth y prif Bwyllgorau Bwrdd, trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cwmni a'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf ynglŷn â'r Grŵp. Caiff hyn ei ategu gan ymweliadau â lleoliadau busnes allweddol. Mae'r Cwmni'n ymgymryd â phroses gyfathrebu ddwy ffordd gyda'r Cyfranddeiliad i drafod gwybodaeth am ei strategaeth, ei berfformiad a'i bolisïau. Mae'r Bwrdd yn cael adborth ar y cyfarfodydd hyn gan y Cyfarwyddwyr sy'n mynychu'r cyfarfod.

Yn ystod y flwyddyn, mynychodd y Cyfarwyddwyr y nifer ganlynol o gyfarfodydd y Bwrdd a'i brif Bwyllgorau:

Llywodraethu Corfforaethol (parhad)

Nifer y cyfarfodydd	Bwrdd	Pwyllgor Archwilio a Risg	Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth	Pwyllgor Enwebu
Nifer y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn	12	7	9	6
Anweithredol				
Allan Leighton	11			
David Fish	12		9	6
Richard Handover	10		9	6
Syr Michael Hodgkinson	12		9	
John Neill	10	7		
Y Farwnes Margaret Prosser	12	5		2
Helen Weir[1]	3	1		
Bob Wigley	11	7		
Gweithredol				
Adam Crozier	12			
David Burden	12			
Alan Cook[1]	1			
Ian Griffiths[1]	2			
Tony McCarthy	12			
Cyn Gyfarwyddwyr				
Marisa Cassoni[2]	8			
David Mills[3]	9			

1. Mynychodd bob cyfarfod Bwrdd a chyfarfod priod is-bwyllgorau ers dod yn Gyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn
2. Wedi ymddeol 17 Tachwedd 2005
3. Wedi ymddeol 31 Rhagfyr 2005

Penodiadau allanol

Cred y Bwrdd fod manteision sylweddol i'r Cwmni ac i'r unigolyn o ganlyniad i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn derbyn Swyddi Cyfarwyddwyr Anweithredol cwmnïau y tu allan i'r Grŵp, ac y gall y Cyfarwyddwr gadw'r ffioedd ar eu cyfer (gweler Adroddiad Taliad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr ar dudalen 42 am fanylion). Polisi'r Bwrdd fel arfer yw cyfyngu Cyfarwyddwyr Gweithredol i un Swydd Cyfarwyddwr Anweithredol yn unig.

Mae'r Pwyllgorau canlynol yn delio ag agweddau penodol ar lywodraethu'r Grŵp. Mae cylch gorchwyl pob un o'r prif Bwyllgorau ar gael ar wefan y Cwmni (www.postbrenhinol.com) neu ar gais ygrifenedig gan Ysgrifennydd y Cwmni:

Llywodraethu Corfforaethol (parhad)

Tîm Gweithredol y Grŵp

Cadeirydd	Adam Crozier, Prif Weithredwr y Grŵp
Aelodaeth	David Burden, Prif Swyddog Gwybodaeth y Grŵp Alan Cook, Rheolwr Gyfarwyddwr, Swyddfa'r Post Cyfyngedig Jonathan Evans, Ysgrifennydd y Cwmni Mary Fagan, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol a Llywodraeth y Grŵp Ian Griffiths, Rheolwr Gyfarwyddwr Llythyrau'r Post Brenhinol Vanessa Leeson, Rheolwr Gyfarwyddwr Parcelforce Worldwide Tony McCarthy, Cyfarwyddwr y Grŵp Pobl a Datblygiad Sefydliadol Alex Smith, Cyfarwyddwr Strategaeth Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp
Rôl	Mae Tîm Gweithredol y Græp yn cynnwys holl Gyfarwyddwyr Gweithredol Daliadau'r Post Brenhinol ccc a Græp y Post Brenhinol ccc ac uwch swyddogion gweithredol penodol eraill o'r Græp. Mae ei gyfrifoldebau yn cynnwys: ▪ datblygu a monitro'r defnydd o strategaeth y Græp, cynlluniau gweithredu blynyddol a chyllidebau ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd; ▪ adolygu gweithgareddau gweithredol, a gosod polisïau lle nad yw'r rhain yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd; ▪ dyrannu adnoddau, o ran pobl ac yn ariannol, ar draws y Græp. Mae'r Bwrdd Daliadau wedi dirprwyo awdurdod i Bwyllgorau Buddsoddi Tîm Gweithredol y Græp i wneud penderfyniadau buddsoddi hyd at £20m.

Pwyllgor Archwilio a Risg

Cadeirydd	Bob Wigley, Cyfarwyddwr Anweithredol
Aelodaeth	John Neill, Cyfarwyddwr Anweithredol Y Farwnes Margaret Prosser, Cyfarwyddwr Anweithredol Helen Weir, Cyfarwyddwr Anweithredol Mae'r Bwrdd yn hyderus y bydd profiad cyffredinol aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn eu galluogi, fel grŵp, i weithredu fel Pwyllgor Archwilio a Risg effeithiol. Gall y Pwyllgor hefyd fanteisio ar arbenigedd ariannol y Grŵp a'i archwilwyr, a gall geisio cyngor proffesiynol pellach ar draul y Cwmni os bydd angen.
Rôl	Mae'r Pwyllgor, a gaiff ei gynorthwyo gan y Pwyllgor Rheoli Risg Corfforaethol, yn darparu fforwm i archwilwyr mewnol ac allanol gyflwyno adroddiadau ac mae'n gyfrifol am ystod eang o faterion gan gynnwys: ▪ monitro cywirdeb datganiadau ariannol y Cwmni; ▪ adolygu system rheolaeth ariannol fewnol y Cwmni ac, oni fydd y Pwyllgor Rheoli Risg ar wahân neu'r Bwrdd ei hun yn mynd i'r afael â hwy, system rheolaeth fewnol a system rheoli risg; ▪ monitro ac adolygu effeithiolrwydd swyddogaeth Archwilio Mewnol y Cwmni; ▪ gwneud argymhellion i'r Bwrdd er mwyn i'r Cyfranddeiliad eu cymeradwyo mewn cyfarfodydd cyffredinol, o ran penodi archwilwyr allanol, a chymeradwyo taliad cydnabyddiaeth a thelerau ymgysylltiad yr archwilwyr allanol; ▪ monitro ac adolygu annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilwyr allanol ac effeithiolrwydd y broses archwilio; ▪ datblygu a gweithredu polisi ar ymgysylltiad archwilwyr allanol o ran darparu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio; ▪ lle y bydd gweithgareddau monitro ac adolygu'r Pwyllgor Archwilio Risg yn datgelu achos pryder neu le i wella, gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar y camau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater neu i wneud gwelliannau.

Llywodraethu Corfforaethol (parhad)

Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth

Cadeirydd	David Fish, Cyfarwyddwr Anweithredol
Aelodaeth	Richard Handover, Cyfarwyddwr Anweithredol Syr Michael Hodgkinson, Cyfarwyddwr Anweithredol
Rôl	Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys: ▪ penderfynu ar y fframwaith ar gyfer taliad cydnabyddiaeth uwch swyddogion gweithredol y Cwmni a'i argymell ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd; ▪ penderfynu ar y pecynnau taliad cydnabyddiaeth unigol ar gyfer y Cadeirydd, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Ysgrifennydd y Cwmni, yn amodol, lle y bo angen, ar ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol; ▪ cytuno ar y targedau ar gyfer unrhyw gynlluniau cymhelliant sy'n ymwneud â pherfformiad sy'n gymwys i Gyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch swyddogion gweithredol.

Pwyllgor Enwebu

Cadeirydd	Richard Handover, Cyfarwyddwr Anweithredol
Aelodaeth	David Fish, Cyfarwyddwr Anweithredol Margaret Prosser, Cyfarwyddwr Anweithredol
Rôl	Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys: ▪ arwain proses ffurfiol, trylwyr a thryloyw ar gyfer penodiadau i Fwrdd y Cwmni, ac ar gyfer penodiadau i is-fyrddau. Bydd rhai penodiadau yn amodol ar ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol, fel y nodwyd yn yr Erthyglau; ▪ rhoi cyngor i'r Bwrdd ar gynllunio olynol ar gyfer swydd y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a holl benodiadau eraill y Bwrdd ac uwch benodiadau eraill; ▪ adolygu cydbwysedd yr aelodaeth yn rheolaidd a sicrhau bod gan y Byrddau y cymysgedd cywir o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad.

Yn ychwanegol at y prif Bwyllgorau uchod, mae'r Pwyllgorau canlynol hefyd:

Pwyllgor Llywodraethu Cyfrifoldeb Corfforaethol a Chymdeithasol

Cadeirydd	Syr Michael Hodgkinson, Cyfarwyddwr Anweithredol
Aelodaeth	Tony McCarthy, Cyfarwyddwr y Grŵp Pobl a Datblygiad Sefydliadol Cyfarwyddwr Cyfrifoldeb Corfforaethol a Chymdeithasol Pennaeth yr Amgylchedd Pennaeth Iechyd a Diogelwch Uwch swyddogion gweithredol eraill ar draws y Grŵp
Rôl	Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Cyfrifoldeb Corfforaethol a Chymdeithasol yn atebol i'r Bwrdd ac mae ganddo gyfrifoldebau sy'n cynnwys: ▪ gweithredu ar ran Tîm Gweithredol y Grŵp i roi trosolwg o effeithiau amgylcheddol a moesegol cymdeithasol gweithgareddau'r Grŵp; ▪ gwneud argymhellion ar safonau a pholisïau Cyfrifoldeb Corfforaethol a Chymdeithasol gofynnol.

Llywodraethu Corfforaethol (parhad)

Pwyllgor Pensiynau

Cadeirydd	Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp
Aelodaeth	Tony McCarthy, Cyfarwyddwr y Grŵp Pobl a Datblygiad Sefydliadol Jonathan Evans, Ysgrifennydd y Cwmni
Rôl	Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys: ▪ adolygu arian, budd-daliadau, strwythur y cynllun a datblygiadau strategol sy'n effeithio ar gynlluniau pensiwn galwedigaethol y Grŵp; ▪ cynrychioli'r Grŵp mewn trafodaethau gydag Ymddiriedolwyr cynlluniau pensiwn galwedigaethol y Grŵp.

Gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio a ddarperir gan archwilwyr allanol

Mewn rhai achosion mae natur y cyngor sy'n ofynnol yn ei gwneud yn fwy amserol a chost-effeithiol dewis yr archwilwyr allanol sydd eisoes â dealltwriaeth dda o'r Grŵp. Er mwyn cynnal gwrthrychedd ac annibyniaeth yr archwilwyr allanol, mae'r Bwrdd wedi penderfynu pa waith y gellir ei ddarparu gan yr archwilwyr allanol a'r prosesau cymeradwyo sy'n gysylltiedig â hwy. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro lefel y ffioedd nad ydynt yn ymwneud ag archwilio a delir i'r archwilwyr allanol.

Rheolaeth fewnol

Trosolwg

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am system rheolaeth fewnol a rheoli risgiau'r Grŵp, yn ogystal â'r adolygiad amserol o'i heffeithiolrwydd. Cynlluniwyd y system i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethiant er mwyn cyflawni amcanion busnes a dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei ddarparu yn erbyn camddatganiadau neu golled perthnasol, ac nid sicrwydd absoliwt.

Mae ymagwedd y Grŵp tuag at reolaeth fewnol yn seiliedig ar egwyddor sylfaenol atebolrwydd rheolwyr llinell dros reolaeth a rheoli risgiau. Ceir proses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol y mae'r Grŵp yn eu hwynebu yn unol â'r canllawiau a nodwyd gan y Pwyllgor Turnbull fel rhan o'r Cod, yn cynnwys risgiau ariannol a gweithredol a risgiau i enw da. Mae'r Bwrdd yn adolygu'r broses hon yn rheolaidd. Bu'r broses ar waith drwy gydol y flwyddyn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn. Ar y cyfan cyfrifoldeb uwch reolwyr y gweithrediadau hynny yw cyd-fentrau a chwmnïau cyswllt. Mae'r Cwmni yn monitro ei fuddsoddiadau ac yn dangos dylanwad drwy gynrychioliadau'r Bwrdd.

Mae'r Bwrdd wedi datblygu effeithiolrwydd y system rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys adolygiad o adroddiadau Archwiliad Mewnol, cadarnhad rheolaidd gan reolwyr lleol a gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ar ganlyniad cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd ac yn cwrdd bob chwarter o leiaf i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli. Mae'r Pwyllgor yn adolygu cwmpas gwaith, awdurdod ac adnoddau'r swyddogaeth Archwilio Mewnol a Rheoli Risg.

Pwyllgor Rheoli Risg Gorfforaethol

Mae hwn yn is-bwyllgor o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'n nodi'r fframwaith ar gyfer rheoli risg o fewn y Grŵp ac yn sicrhau integreiddiad â'r broses cynllunio strategol. Mae hefyd yn hwyluso dull rheolaidd o gyflwyno adroddiadau ar risgiau allweddol a'r camau sydd angen eu cymryd i reoli'r risgiau i lefel ddymunol. Mae aelodau'r Pwyllgor hwn yn cynnwys David Burden (Cadeirydd), Cyfarwyddwr Trysorlys y Grŵp, y Cyfarwyddwyr Archwilio Mewnol a Rheoli Risg, y Cyfarwyddwr Cyfrifoldeb Corfforaethol a Chymdeithasol ac uwch swyddogion gweithredol eraill ar draws y Grŵp.

Prosesau rheoli allweddol

Mae'r prosesau allweddol a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd systemau yn mynd rhagddynt ac maent yn cynnwys y canlynol:

- mae gan yr unedau busnes awdurdod i reoli o fewn y terfynau a bennir gan y Bwrdd ac o fewn cwmpas pwerau neilltuedig. Mae Safonau Cod Busnes y Grŵp yn pennu egwyddorion proffesiynoldeb a gonestrwydd ein pobl;
- y Bwrdd i drafod a chymeradwyo cyfeiriad strategol, cynlluniau ac amcanion y Grŵp a phob cwmni gweithredol, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u cyflawni;
- y Bwrdd i adolygu a chymeradwyo cyllidebau a rhagolygon;
- adolygiadau misol o berfformiad drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad allweddol, rhagolygon diweddar a gwybodaeth am y prif feysydd risg;
- adolygiadau chwarterol o leiaf gan y Pwyllgor Archwilio a Risg o gwmpas a chanlyniadau gwaith archwilio mewnol ar draws y Grŵp. Mae cwmpas y gwaith yn cynnwys holl weithgareddau allweddol y Grŵp ac yn canolbwyntio ar feysydd risg uwch;
- adolygiadau o gwmpas gwaith yr archwilwyr allanol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ac unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi;
- adolygiadau gan y Pwyllgor Archwilio a Risg o bolisïau cyfrifyddu a lefelau awdurdod dirprwyedig;
- ystyriaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Risg o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Grŵp a gweithdrefnau i'w rheoli.

Proses Rheoli Risg

Mae proses yn mynd rhagddi ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol y mae'r Grŵp yn eu hwynebu. Bu'r broses hon ar waith drwy gydol y flwyddyn a adolygir, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau Turnbull. Adolygir effeithiolrwydd y broses yn flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd yn dilyn hynny.

Mae'r broses yn cynnwys:

- dull ffurfiol o nodi'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion busnes a'r rheolaethau sydd ar waith i'w rheoli drwy gyfrwng proses hunanasesu gan reolwyr ar bob lefel o'r Grŵp. Gwerthusir tebygolrwydd ac effaith bosibl pob risg;
- ardystiad gan y rheolwyr eu bod yn gyfrifol am reoli'r risgiau i'w hamcanion busnes a bod y rheolaethau mewnol yn darparu sicrwydd rhesymol ond nid absoliwt bod y risgiau'n cael eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli'n briodol;
- rheolwyr pob uned fusnes i gyflwyno adroddiadau ac adolygiadau yn chwarterol o weithgareddau rheoli risg a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag achosion o beidio â chydymffurfio â rheolaethau neu i wella eu heffeithiolrwydd;
- sicrwydd annibynnol gan yr Archwiliad Mewnol o fodolaeth ac effeithiolrwydd y gweithgareddau rheoli risg a ddisgrifiwyd gan y rheolwyr.

Mae'r system rheolaeth fewnol a rheoli risg wedi'i hymgorffori yng ngweithrediadau'r Grŵp, a chaiff y camau a gymerir i liniaru unrhyw wendidau eu monitro'n ofalus.

Adroddiad Taliad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr

Gwybodaeth nad yw'n destun archwiliad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Adroddiad Taliad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr 2002 (y Rheoliadau). Mae'r Cwmni'n cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yn Adran 1 o'r Cod Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol (y Cod) drwy gydol y flwyddyn.

Mae cynllun strategol Grŵp y Post Brenhinol yn ymrwymo i gyflwyno trawsnewid helaeth er mwyn sicrhau y cynigir gwasanaethau o safon uchel a chost-effeithiol i'w cwsmeriaid. Cred y Bwrdd fod strategaeth taliad cydnabyddiaeth effeithiol yn hanfodol i gynnal y cynllun drwy sicrhau bod gan y cwmni bobl o'r calibr iawn ac sy'n meddu ar y sgiliau priodol i ymateb i'r heriau sylweddol a wyneba'r cwmni. Mae cymhellion sy'n creu elfen o fudd rhwng cyflogeion a'r Cyfranddeiliad yn rhan hanfodol o'r strategaeth hon.

Y Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth

Mae'r Bwrdd yn gwbl atebol am fframwaith a chostau taliad cydnabyddiaeth aelodau gweithredol ac am delerau'r contractau gwasanaeth a gynigir i bob Cyfarwyddwr Gweithredol, sy'n gofyn am ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cymeradwyo taliad cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Anweithredol. Rôl y Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth yw datblygu'r polisi taliad cydnabyddiaeth ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol a'u hadroddiadau uniongyrchol ac yn benodol, gwneud argymhellion ar eu cyflog, buddiannau, bonysau a thelerau ac amodau cyflogaeth eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell iawndal priodol os daw cyflogaeth i ben, gan roi ystyriaeth ofalus i'r iawndal y dylid ei roi gan ystyried amgylchiadau'r achos arbennig a gallu'r unigolyn i liniaru.

Mae'r Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth yn cynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol yn unig. Datgelir aelodaeth y Pwyllgor ar dudalen 34. Gall y Prif Weithredwr, Adam Crozier, a'r Cyfarwyddwyr Pobl a Datblygiad Sefydliadol, Tony McCarthy, fynychu'r cyfarfodydd hyn drwy wahoddiad ond nid ydynt yn bresennol yn ystod y drafodaeth ynghylch eu taliad cydnabyddiaeth.

Cyngor i'r Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth a chyngor gan bobl o'r tu mewn i'r Grŵp a'r tu allan. Mae'n derbyn cyngor gan y sefydliadau annibynnol, proffesiynol hynny sydd yn y sefyllfa orau i'w helpu i ystyried y pynciau penodol a drafodir.

Yn ystod 2005-06, rhoddwyd cyngor ar berfformiad swyddogion gweithredol allweddol gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Rhoddwyd gwybodaeth am y farchnad allanol gan Monks Partnership (un o enwau masnachol PriceWaterhouse Coopers), Deloitte, a Watson Wyatt Limited. Darperir cymorth mewnol yn bennaf gan y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol, Tony McCarthy, a chan Ysgrifennydd y Cwmni, Jonathan Evans. Darparwyd cyngor a gwybodaeth bellach gan arbenigwyr o'r adran Pobl a Datblygiad Sefydliadol a'r adran Gyllid.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd cyngor i'r Cwmni gan Watson Wyatt Limited ar bensiynau a materion actiwaraidd.

Polisi taliad cydnabyddiaeth

Mae polisi'r Cwmni ar daliad cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr yn datgan:

- y dylai'r pecyn taliad cydnabyddiaeth cyffredinol fod yn ddigon cystadleuol i ddenu a chadw swyddogion gweithredol o'r safon angenrheidiol mewn busnes cymhleth a marchnad gystadleuol, a fydd yn sicrhau llwyddiant ar gyfer y Cyfranddeiliad a lefelau uchel o wasanaeth cwsmeriaid, diogelwch a pherfformiad amgylcheddol;
- dylai cyfran sylweddol o'r pecyn taliad cydnabyddiaeth ddibynnu ar berfformiad yn y byrdymor a'r hirdymor;
- dylai'r system taliad cydnabyddiaeth greu elfen o fudd rhwng uwch swyddogion gweithredol, cwsmeriaid a'r Cyfranddeiliad.

Mae'r polisi ar gyfer uwch swyddogion gweithredol yn ystyried amodau tâl a chyflogaeth mewn mannau eraill yn y Grŵp.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu strwythur y pecyn yn rheolaidd ynghyd â'i gystadleurwydd yn erbyn marchnadoedd priodol. Mae'r Pwyllgor yn anelu at sicrhau bod y pecyn yn gymesur ac yn effeithiol, ac y caiff ei ddatblygu'n unol ag arfer gorau derbyniol. Yn ystod 2005-06, fel rhan o'i adolygiad rheolaidd, mae'r Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth arbennig i drefniadau cymhelliant blynyddol a hirdymor.

Prif rannau'r taliad cydnabyddiaeth

Y prif rannau ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol yw: cyflog sylfaenol, bonws blynyddol ar sail perfformiad, Cynllun Cymhelliant Hirdymor, pensiwn a buddiannau eraill. Cred y Pwyllgor y dylai fod pwyslais parhaus ar yr elfennau hynny o dalaid cydnabyddiaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Adroddiad Taliad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr (parhad)

Cyflogau sylfaen

Cred y Pwyllgor y dylid pennu cyflogau sylfaen ar lefelau sy'n ddigonol i allu recriwtio a chadw swyddogion gweithredol o galibr uchel. Wrth wneud ei ddyfarniad, caiff y Pwyllgor ei lywio gan amrywiaeth o ddata a anelir at wneud cymhariaeth deg â mentrau o faint a chymhlethdod tebyg i'r Post Brenhinol. Darperir y data hwn gan ymgynghoriaethau annibynnol. Argymhellir codiad cyflog lle y cred y Pwyllgor bod ei angen er mwyn adlewyrchu cyfraniad, cyfrifoldebau unigol cynyddol a lefelau'r farchnad. Caiff pob codiad cyflog ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Bonws personol blynyddol ar sail perfformiad 2005-06

Gallai'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ennill bonws ar sail perfformiad am eu bod wedi cyflawni targedau ariannol a thargedau cwsmeriaid.

Yn achos y Cadeirydd anweithredol, mae bonws o hyd at £180,000 yn daladwy. Nid yw lefel y bonws wedi newid ers penodi'r Cadeirydd ym mis Mawrth 2002.

Daeth y Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth i'r casgliad ei bod er budd y Cyfranddeiliad i annog perfformiad gan gyfarwyddwyr gweithredol uwchlaw lefel y gyllideb ac felly, yn unol ag arfer y farchnad a chyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol, rhoddwyd trefniadau bonws ar waith ar gyfer perfformiad sy'n uwch na'r targed.

Mae canrannau'r cyflog sylfaen sydd ar gael drwy'r cynllun bonws fel a ganlyn:

	Lefel trothwy	Lefel targed	Lefel uchaf
Prif Weithredwr	30%	60%	100%
Cyfarwyddwyr Gweithredol eraill	24%	48%	80%

Mae'r bonws o 60% o ran lefel targed ar gyfer y Prif Weithredwr yn ostyngiad o'r 75% blaenorol. Ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol eraill, mae'r lefel targed wedi cynyddu o 40% i 48%.

Mae'r mesurau a ddefnyddir yn cynnwys elw gweithredol blynyddol cyn eitemau eithriadol ac ansawdd gwasanaeth.

Mae'r mesurau ansawdd gwasanaeth fel a ganlyn:

- Dosbarth Cyntaf wedi'u stampio a'u mesur
- Ail Ddosbarth wedi'u stampio a'u mesur
- Mailsort 2
- Mailsort 3
- Special Delivery
- PPI 2il Ddosbarth
- Parcelforce 24
- Cynhyrchion newydd Swyddfa'r Post Cyfyngedig a gaiff eu gwerthu

Targedau Ansawdd yw'r rhai yng nghytundeb trwydded Postcomm ac mae nifer o'r rhain, yn cynnwys Dosbarth Cyntaf wedi'u stampio a'u mesur, wedi eu cynyddu ers y llynedd. Mae'r chwe mesur cyntaf o blith y mesurau ansawdd hyn yn rhoi cyfrif am y swm sylweddol o bost ac maent yn cynnwys y prif gynhyrchion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd.

Caiff yr elw gweithredol blynyddol cyn eitemau eithriadol a'r fasged o fesurau ansawdd eu pwysoli sy'n golygu os cyflawnir y lefelau targed neu'r lefelau trothwy yn erbyn yr holl fesurau, byddant ill dau yn ffurfio 50% o'r bonws. Ar y lefel uchaf, mae'r pwysoliad yn symud i 60% o ran elw a 40% o ran ansawdd gwasanaeth. Mae pob mesur yn y cynllun bonws yn annibynnol ar y gweddill. Yn achos Rheolwyr Gyfarwyddwyr y busnes Llythyrau a Swyddfa'r Post Cyfyngedig, mae 30% o'u bonws yn gysylltiedig ag elw a mesurau ansawdd y Grŵp ac mae 70% yn gysylltiedig ag elw a mesurau ansawdd eu busnesau penodol.

Cyfrifir bonysau ar gyfer symiau canolradd ar sail pro rata.

Mae hawl gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol gael taliad Cyfran o'r Llwyddiant hefyd ar yr un lefel â'r hyn a delir i'r holl gyflogeion eraill.

Cynllun Cymhelliant Hirdymor 2005-06

Mae'r Cwmni yn gweithredu Cynllun Cymhelliant Hirdymor (LTIP) ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch gyflogeion eraill penodol. Amcanion yr LTIP yw darparu cymhelliant ar gyfer cyflawni nodau busnes hirdymor y Grŵp a gwobrwyo llwyddiant wrth gyflawni'r nodau hyn neu ragori arnynt.

Mae'r Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth wedi ymgynghori'n helaeth â'r Llywodraeth ar y math mwyaf priodol o gymhelliant, ond tra bod y trafodaethau gyda'r Llywodraeth ar y cynllun strategol yn mynd rhagddynt, nid yw'r LTIP wedi'i gadarnhau eto.

Mae'r trafodaethau gyda'r Llywodraeth wedi cymryd yr LTIP blaenorol fel enghraifft. Roedd gan yr LTIP blaenorol y nodweddion allweddol canlynol:

- Gwobrau Perfformiad Cwmni Blynyddol a gronnwyd ar raddfa symudol uwchlaw lefel perfformiad trothwy ac yn dechrau ar 12.5% o gyflog sylfaen blynyddol. Ar gyfer perfformiad targed, roedd Gwobr y Cwmni yn 25% o gyflog sylfaen blynyddol ac ar gyfer perfformiad eithriadol cododd hyn yn unol â graddfa fesul cam hyd at uchafswm o 37.5%;
- Gwobrau Bonws. Gallai'r Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth gyflwyno gwobr bonws bob blwyddyn. Roeddent yn cyfateb i swm y bonws blynyddol a ildiwyd gan y cyflogai. Roedd gan y cyflogai'r disgresiwn i ildio uchafswm o hanner o unrhyw fonws blynyddol hyd at y lefel targed. Yn y cynllun newydd, pe bai bonws uwchlaw lefel targed yn daladwy fel arall, câi tri chwarter o'r swm ychwanegol hwn ei ildio'n orfodol;

Adroddiad Taliad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr (parhad)

- Ychwanegiad terfynol. Ar ddiwedd y cyfnod perfformiad gallai'r symiau a roddwyd i'r naill ochr fel Gwobrau Perfformiad Blynyddol y Cwmni ac fel Gwobrau Bonws gael eu cynyddu ymhellach yn dibynnu ar ffactor perfformiad pellach. Pe cyflawnid y lefel targed ychwanegid traean ychwanegol. Yn achos perfformiad eithriadol, gellid ychwanegu hyd at uchafswm o 100%.

Ar wahân i'r gofyniad bod yn rhaid ildio tri chwarter o unrhyw fonws blynyddol a enillwyd uwchlaw'r lefel targed, a bod yn rhaid gwneud dyfarniad o'r un gwerth yn yr LTIP, rhagwelir y bydd y gwobrau posibl y gellir eu hennill o dan y cynllun yn debyg iawn i'r trefniant blaenorol.

Mae'r Cwmni wedi gwneud amcangyfrif yn ei gyfrifon am Wobr Cwmni ar gyfer 2005-06 sy'n ddyledus o dan yr LTIP newydd ac mae'n gwneud argymhelliad priodol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ni fydd y wobr hon yn fwy na 37.5% o gyflog sylfaen y cyfranogwyr.

Buddiannau

Mae'r buddiannau yn cynnwys darparu ceir cwmni, yswiriant iechyd, neu'r hyn sy'n cyfateb i unrhyw fuddiannau nas defnyddiwyd mewn arian parod.

Pensiynau

Mae gan y Grŵp atebolrwydd i dalu pensiynau mewn perthynas â gwasanaethau Cyfarwyddwyr, ac ar gyfer rhai Cyfarwyddwyr Gweithredol, mae'n gwneud cyfraniadau i gynlluniau pensiwn at y diben hwn. Mae'r Cwmni wedi sefydlu trefniant pensiwn ymddeol, a fydd yn darparu buddiannau i Gyfarwyddwyr y mae eu cyfraniadau i gynllun y Cwmni wedi'u cyfyngu gan derfyn enillion Cyllid y Wlad. Yn dilyn y newidiadau diweddaraf mewn deddfwriaeth pensiynau bydd y Cwmni yn parhau i gymhwyso'r terfyn enillion blaenorol, wedi'i fynegeio gan chwyddiant bob blwyddyn, fel cyfyngiad ar swm y cyflog sy'n bensiynadwy drwy gynllun y Cwmni.

Elfennau sefydlog ac ar sail perfformiad o daliad cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol (ac eithrio pensiynau)

Ar gyfer 2004-05, roedd 42.5% o enillion blynyddol posibl y Cyfarwyddwyr yn ymwneud ag elfennau sefydlog, tra bod 57.5% yn ymwneud ag elfennau perfformiad blynyddol. Ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol, roedd 37% yn sefydlog a 63% yn amrywiol. Mae'r Cynllun Cymhelliant Hirdymor cyfredol yn cael ei drafod o hyd ond disgwylir iddo fod yn debyg iawn, o ran taliadau posibl, i'r cynllun cyfredol. Newidiwyd y cynllun bonws blynyddol yn 2005-06 i gynnwys elfen ymestyn ar gyfer perfformiad a oedd yn uwch na'r targed ac mae canran y taliad cydnabyddiaeth cyffredinol sydd â risg i berfformiad yn uwch felly na'r flwyddyn flaenorol.

Contractau gwasanaeth

Polisi'r Pwyllgor yw y cynigir blwyddyn o gyfnod rhybudd i Gyfarwyddwyr Gweithredol a benodir i'r Bwrdd. Mae gan y Pwyllgor bolisi diffiniedig ar gyfer iawndal a lliniaru, a gaiff ei gymhwyso os daw contract Cyfarwyddwr i ben yn gynnar. Mewn amgylchiadau o'r fath, câi camau eu cymryd i sicrhau na wobrwyir perfformiad gwael.

Mae contractau gwasanaeth treigl a llythyrau penodi Cyfarwyddwyr yn cynnwys y telerau canlynol:

	Dyddiad y contract	Dyddiad dod i ben y contract gwasanaeth cyfredol [1]	Cyfnod heb ddod i ben (misoedd)
Cadeirydd Anweithredol			
Allan Leighton	25 Mawrth 2005	25 Mawrth 2008	24
Cyfarwyddwyr Gweithredol			
Adam Crozier	1 Chwefror 2003		12
Ian Griffiths	6 Chwefror 2006		12
Alan Cook	1 Mawrth 2006		12
Tony McCarthy	6 Ionawr 2003		12
David Burden	1 Gorffennaf 2004		12

Nid oes contractau gwasanaeth gan y Cyfarwyddwyr Anweithredol. Mae dyddiadau penodiadau'r Cyfarwyddwyr Anweithredol cyfredol fel a ganlyn:

Cyfarwyddwyr Anweithredol			
Syr Michael Hodgkinson[2]	1 Ionawr 2003	30 Mehefin 2006	3
David Fish[2]	1 Ionawr 2003	30 Mehefin 2006	3
Richard Handover[2]	1 Ionawr 2003	30 Mehefin 2006	3
John Neill[2]	1 Ionawr 2003	30 Mehefin 2006	3
Y Farwnes Margaret Prosser	1 Tachwedd 2004	31 Hydref 2007	19
Bob Wigley[3]	1 Ebrill 2003	30 Mehefin 2006	3
Helen Weir	1 Ionawr 2006	31 Rhagfyr 2008	33

Adroddiad Taliad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr (parhad)

[1] Mae gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol 12 mis o gyfnod rhybudd wedi'i gontractio gan y Cwmni; rhaid i'r Cyfarwyddwr roi chwe mis o rybudd. Yr amod safonol o ran rhoi iawndal ar gyfer colli swydd yw uchafswm o 12 mis o gyflog sylfaenol, a allai gael ei liniaru. Mae'r Cwmni yn ymrwymedig ar gyfer y cyfnod tair blynedd lawn ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd.

[2]Gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol, cytunodd y cyfarwyddwr i ymestyn y contract hyd at 6 mis.

[3]Gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol, cytunodd y cyfarwyddwr i ymestyn y contract hyd at 3 mis.

Cyfarwyddwyr Anweithredol

Y Cyfarwyddwyr Gweithredol sy'n penderfynu ar y ffioedd a delir i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ac fe'u cymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Cynhelir arolygon annibynnol o'r farchnad wrth benderfynu arnynt. Gallai ffioedd gynnwys ffi sylfaenol ar gyfer aelodaeth y Bwrdd ac, fel sy'n briodol, ffioedd ychwanegol ar gyfer aelodaeth neu gadeiryddiaeth y Pwyllgorau Archwilio a Risg, Taliad Cydnabyddiaeth ac Enwebu. Ceir manylion am y ffioedd isod.

Gwybodaeth archwiliedig

Roedd taliad cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr, ac eithrio pensiynau a'r Cynllun Cymhelliant Hirdymor, fel a ganlyn:

	Cyflog/ffioedd blynyddol cyfredol	Cyflog/ ffioedd	Bonws perfformiad blynyddol		Bonws perfformiad blynyddol a dalwyd	Bonws a ohiriwyd o flynyddoedd blaenorol	Budd-iannau	Iawndal ar gyfer colli swydd	Cyfanswm ac eithrio pensiynau a'r Cynllun Cymhelliant Hirdymor	
			Bonws ar sail perfformiad	Gohiriwyd i'r LTIP					2006	2005
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cadeirydd Anweithredol										
Allan Leighton	25	21	180	-	180	-	-	-	**201**	330
Gweithredol										
Adam Crozier	615	568	454	(248)	206	-	16	-	**790**	704
Ian Griffiths[1]	500	73	36	(18)	18	-	15	-	**106**	-
Alan Cook[1]	250	21	-	-	-	-	1	-	**22**	-
Tony McCarthy	335	331	198	(108)	90	-	33	-	**454**	406
David Burden	275	272	163	(89)	74	-	13	-	**359**	255
Anweithredol										
Syr Michael Hodgkinson	83	79	-	-	-	-	-	-	**79**	72
David Fish	45	41	-	-	-	-	-	-	**41**	36
Richard Handover	45	41	-	-	-	-	-	-	**41**	36
John Neill	35	34	-	-	-	-	-	-	**34**	32
Y Farwnes Margaret Prosser	40	35	-	-	-	-	-	-	**35**	13
Helen Weir[1]	35	9	-	-	-	-	-	-	**9**	-
Bob Wigley	43	40	-	-	-	-	-	-	**40**	35
Cyn Gyfarwyddwyr										
Marisa Cassoni[2]	-	260	-	-	-	-	17	379	**656**	428
David Mills[2]	-	310	-	-	-	-	20	486	**816**	381
Elmar Toime	-	-	-	-	-	-	-	-	**-**	1,377
Cyfanswm 2006	2,326	2,135	1,031	(463)	568	-	115	865	**3,683**	-
Cyfanswm 2005	2,033	2,227	981	(406)	575	458	125	720	-	4,105

[1]Ymunodd Ian Griffiths, Alan Cook a Helen Weir â'r Bwrdd ar 7 Chwefror 2006, 1 Mawrth 2006 a 1 Ionawr 2006, yn y drefn honno.

[2]Gadawodd Marisa Cassoni a David Mills y Bwrdd ar 17 Tachwedd 2005 a 31 Rhagfyr 2005, yn y drefn honno.

Mae'r ffigurau yn y tabl yn dangos enillion enilledig a derbyniadwy gan Gyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn ariannol, pryd bynnag y'u talwyd. Telir enillion o'r fath yn yr un flwyddyn ariannol fel arfer ac eithrio'r bonws blynyddol, ar sail perfformiad, a delir yn ystod y flwyddyn yn dilyn y flwyddyn y'i henillwyd a chaiff y swm ei ohirio i'r LTIP.

Adroddiad Taliad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr (parhad)

Taliadau i gyn Gyfarwyddwyr

Bu Marisa Cassoni, cyn Gyfarwyddwr Cyllid y Grŵp, gyda'r Cwmni ers dros bedair blynedd ond nid oedd am ymrwymo i dair blynedd arall yn ei swydd. Cytunwyd y byddai Marisa yn gadael y Cwmni ar 31 Rhagfyr 2005. Yn unol â'i chontract talwyd £346,500 o gyflog sylfaen iddi yn gyfnewid am ei chyfnod rhybudd a chaniatawyd iddi gadw ei char a buddiannau yswiriant meddygol preifat hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol. Talwyd costau adleoli rhesymol hefyd ac mae ei hawliau pensiwn FURBS cronedig, a gronnwyd yn ystod ei chyfnod gyda'r Cwmni, sef £651,473, yn cael eu cynnal tra'n aros am gyfarwyddiadau.

Ar ôl tair blynedd a hanner gyda'r Grŵp, cytunodd David Mills gyda'r Cwmni nad oedd am aros gyda'r Grŵp yn ystod ei gam datblygu nesaf. Camodd i lawr o'r Bwrdd Daliadau ar 31 Rhagfyr 2005 a gadawodd y Cwmni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar 26 Mawrth 2006. O fewn telerau ei gontract, talwyd £365,017 o gyflog sylfaen iddo yn gyfnewid am gyfnod rhybudd ac £80,000 ar gyfer bonws blynyddol 2005-06. Daeth ei fuddiannau i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Talwyd costau adleoli rhesymol hefyd.

Mae'r Cwmni yn ddiolchgar am y cyfraniad a wnaed gan Marisa Cassoni a David Mills.

Bonysau blynyddol personol ar sail perfformiad ar gyfer 2005-06

Fel y cytunwyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, mae'r Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth yn gyfrifol am awdurdodi'r bonysau blynyddol ar sail perfformiad ar gyfer y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Nodir manylion y cynllun ar dudalen 38. Ar gyfer 2005-06, daeth y Pwyllgor Tâl i'r casgliad bod y perfformiad ariannol rhwng y lefel targed a'r lefel uchaf ac y cyflawnwyd neu ragorwyd ar y mwyafrif o'r targedau ansawdd gwasanaeth a bennwyd ar gyfer y Grŵp, gan ysgogi taliad o 73.8% o uchafswm potensial bonws i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Gan fod y Cwmni wedi rhagori ar ei darged ariannol ac wedi rhagori'n gyffredinol ar ei dargedau ansawdd penderfynwyd dyfarnu bonws o £180,000 i'r Cadeirydd Anweithredol.

Mae hawl gan bob un o'r Cyfarwyddwyr Gweithredol gael £418 o daliad Cyfran o'r Llwyddiant.

Gwobrau Cwmni a Gwobrau Bonws o ran y Cynllun Cymhelliant Hirdymor ar 26 Mawrth 2006

Mae'r Cwmni wedi gwneud amcangyfrif yn ei gyfrifon am Wobr Cwmni ar gyfer 2005-06 sy'n ddyledus o dan yr LTIP newydd ac mae'n gwneud argymhelliad priodol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ni fydd y wobr yn fwy na 37.5% o gyflog sylfaen y cyfranogwyr.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi ildio dros hanner eu bonws a rhagwelir y telir Gwobr Bonws cyfatebol yn 2006-07 fel y nodir yn y tabl isod:

	Gwobrau Bonws i'w talu yn 2006-07 mewn perthynas â 2005-06 £000	Cyfanswm £000
Gweithredol		
Adam Crozier	248	248
Tony McCarthy	108	108
David Burden	89	89
Ian Griffiths	18	18
Alan Cook	-	-

Talwyd y Cynllun Cymhelliant Hirdymor ar gyfer 2002-2005 yn ystod y flwyddyn. Gwnaed datgeliad llawn yng nghyfrifon y llynedd.

Cyfarwyddwyr Anweithredol

Cytunir ar ffioedd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, ac ar hyn o bryd maent yn £20,000 y flwyddyn a £30,000 y flwyddyn yn y drefn honno.

O ganlyniad i adolygiad a gynhaliwyd gan y Bwrdd yng ngoleuni'r rôl ychwanegol ar gyfer Pwyllgorau Bwrdd yn deillio o adolygiadau diweddar o'r Cod Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol ac arfer y farchnad sy'n dod i'r golwg, yn weithredol o 1 Hydref 2005, mabwysiadwyd strwythur ffioedd newydd a gynyddodd y taliad blynyddol ar gyfer aelodaeth y pwyllgor o £2,500 i £5,000 a'r ffi ar gyfer cadeiryddiaeth o £5,000 i £10,000 yn achos y Pwyllgorau Taliad Cydnabyddiaeth ac Enwebu ac o £7,500 i £12,500 yn achos cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae Syr Michael Hodgkinson yn derbyn £37,500 o ffioedd ychwanegol (£37,500 yn 2005) am ei swydd fel Cadeirydd Swyddfa'r Post Cyfyngedig a £10,000 am ei rôl fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol. Mae Syr Michael hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol Banc Iwerddon, y mae wedi cytuno i ildio'r ffi ar gyfer hyn.

Adroddiad Taliad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr (parhad)

Penodiadau allanol y Cyfarwyddwyr Gweithredol

Gall y Cyfarwyddwyr Gweithredol gadw ffioedd yn rhinwedd eu swydd fel Cyfarwyddwyr. Nodir y ffioedd blynyddol sy'n ddyledus i Gyfarwyddwyr Gweithredol o ran swyddi a ddelir fel Cyfarwyddwyr Anweithredol yn y tabl isod:

	Cyfarwyddwr	2006 £	2005 £
Ian Griffiths	Ultra Electronics Holdings plc	33,000	29,000

Pensiynau

Mae'r Grŵp fel arfer yn cynnig aelodaeth o Gynllun Pensiynau Uwch Swyddogion Gweithredol y Post Brenhinol (RMSEPP) i'w uwch swyddogion. Ceir manylion am yr RMSEPP yn nodyn 14 i'r cyfrifon. Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn galwedigaethol cyflog terfynol wedi'i ariannu, ac wedi'i gymeradwyo gan Gyllid y Wlad. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer cyflog pensiynadwy terfynol dau draean ar oedran ymddeol arferol, sef 60, yn amodol ar y gwasanaeth pensiynadwy angenrheidiol a therfyn enillion Cyllid y Wlad. Caiff pensiynau a delir eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), yn amodol ar derfyn mewn rhai achosion. Mae pensiynau yn daladwy i ddibynyddion hefyd yn dilyn marwolaeth yr aelod ac mae cyfandaliad yn daladwy os bydd y person yn marw yn ystod gwasanaeth.

Ar gyfer uwch swyddogion gweithredol y mae eu haelodaeth o'r RMSEPP wedi'i chyfyngu gan y terfyn enillion, gwneir darpariaeth pensiwn drwy gyfuniad o gynllun y Cwmni a Chynllun Budd-daliadau Ymddeol Anghymeradwy a Ariannwyd (FURBS) priodol neu gynllun cyfatebol. Mae Ian Griffiths yn derbyn atodiad arian parod o 40% o dâl sylfaen yn uwch na'r terfyn enillion. Nid yw Alan Cook yn aelod o gynllun y Cwmni a derbynia atodiad arian parod o 40% o dâl sylfaen namyn y cyfraniadau pensiwn aelodau cyfatebol sy'n daladwy o dan gynllun y Cwmni. Mae'r Cwmni wedi gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau pensiwn ymddeol ar gyfradd o 40% o dâl sylfaen yn uwch na'r terfyn enillion ar gyfer Adam Crozier a David Burden. Sefydlwyd cronfa wrth gefn ar gyfer y pensiwn ychwanegol ar gyfer Tony McCarthy er mwyn darparu'r cyfanswm pensiwn ymddeol, yn cynnwys y pensiwn o gynllun pensiwn ei gyflogwr blaenorol, sef dau draean o dâl sylfaen ar oedran ymddeol arferol. Cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer Adam Crozier, Tony McCarthy a David Burden ar ddiwedd y flwyddyn yw £1,421,447 (£674,379 yn 2005). £535,193 oedd cronfa wrth gefn Marisa Cassoni ar ddiwedd mis Mawrth 2005.

Mae'n ofynnol datgelu gwerthoedd trosglwyddo pensiynau Cyfarwyddwyr o dan ddau ofyniad ar wahân:

- Rheolau Rhestru'r Gyfnewidfa Stoc: mae'r gofynion yr un peth â'r rhai a ddatgelwyd yng nghyfrifon y llynedd ac fe'u cynllunnir i nodi'r cynnydd yng ngwerth buddiannau cronedig y Cyfarwyddwyr yn ystod y cyfnod. Cyfrifir y gwerth trosglwyddo ar sail cyngor actiwaraidd yn unol â Nodyn Canllaw Actiwaraidd GN11 ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau Cyfarwyddwyr;
- Rheoliadau Adroddiad Taliad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr 2002: fe'i cynllunnir i asesu'r newid mewn gwerthoedd trosglwyddo yn ystod y flwyddyn, gan ystyried newidiadau yn amodau'r farchnad fuddsoddi. Gallai gostyngiadau yng ngwerthoedd y farchnad gynhyrchu newid negyddol mewn gwerthoedd trosglwyddo.

Mae'r gwerthoedd trosglwyddo a ddatgelir yn cynrychioli dyled bosibl o'r cynllun pensiwn yn hytrach nag unrhyw daliad cydnabyddiaeth sy'n ddyledus i'r unigolyn ac ni ellir ei gronni'n rhesymol â thaliad cydnabyddiaeth blynyddol, oherwydd nad yw'n arian y mae hawl gan yr unigolyn i'w gael.

Adroddiad Taliad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr (parhad)

Roedd hawliau pensiwn (o dan Reolau Rhestru'r Gyfnewidfa Stoc) y Cyfarwyddwyr ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	Oedran ar ddiwedd y flwyddyn	Budd cronedig ar 26 Mawrth 2006 £000	Cynnydd mewn buddiannau cronedig yn ystod y cyfnod* £000	Cynnydd mewn buddiannau cronedig yn ystod y cyfnod (chwyddiant net)* £000	Gwerth trosglwyddo'r* cynnydd cyn chwyddiant namyn cyfraniadau'r Cyfarwyddwyr £000
Cyfarwyddwyr Gweithredol					
Adam Crozier	42	60	6	4	32
Ian Griffiths	55	1	1	1	7
Tony McCarthy[1]	49	51	11	10	122
David Burden	59	12	4	4	68

*Ac eithrio unrhyw gynnydd yn deillio o drosglwyddo hawliau pensiwn a gronnwyd gyda chyflogwyr blaenorol.

[1] Ailddatganwyd i adlewyrchu cyfrifiadau manwl yr addewid pensiwn y cytunwyd arno yn 2005.

	Oedran ar ddiwedd y flwyddyn	Gwerth trosglwyddo ar 27 Mawrth 2005 neu ar y dyddiad penodi i'r Bwrdd os yn ddiweddarach £000	Yn ogystal â throsglwyddiadau a dderbyniwyd £000	Is-gyfanswm £000	Gwerth trosglwyddo* ar 26 Mawrth 2006 £000	Newidiadau yn ystod y cyfnod namyn cyfraniadau'r Cyfarwyddwyr £000
Cyfarwyddwyr Gweithredol						
Adam Crozier[2]	42	342	-	342	581	233
Ian Griffiths	55	-	-	-	8	7
Tony McCarthy[1]	49	368	-	368	720	339
David Burden	59	132	-	132	247	109

* Newidiwyd sylfaen gwerth trosglwyddo Cynllun Pensiynau Uwch Swyddogion Gweithredol y Post Brenhinol yn 2005.

[1] Ailddatganwyd i adlewyrchu cyfrifiadau manwl yr addewid pensiwn y cytunwyd arno yn 2005.

[2] Cafodd credyd gwasanaeth trosglwyddedig Adam Crozier ei ail-gyfrifo yn ystod y flwyddyn.

Yn ôl Gorchymyn y Bwrdd

Jonathan Evans

Ysgrifennydd y Cwmni

17 Mai 2006

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â chyfrifon y Grŵp

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol y DG a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol hynny (IFRS) a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd sy'n rhoi darlun teg o berfformiad ariannol, sefyllfa ariannol a llifau arian parod y Grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- cyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu, mewn ffordd sy'n rhoi gwybodaeth berthnasol, dibynadwy, cymaradwy a dealladwy;
- nodi bod y Grŵp wedi cydymffurfio ag IFRS, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a esbonnir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Grŵp, ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 1985 ac erthygl 4 o Reoliad IAS. Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod asedau'r Grŵp yn cael eu diogelu ac am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac afreoleidd-dra arall.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i aelodau Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Daliadau'r Post Brenhinol ccc am y flwyddyn a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 sy'n cynnwys datganiad incwm y Grŵp, mantolen y Grŵp, datganiad llif arian parod y Grŵp, datganiad y Grŵp o ran incwm a gwariant cydnabyddedig a'r nodiadau perthnasol 1 i 31. Paratowyd datganiadau ariannol y Grŵp o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Rydym wedi cyflwyno adroddiad ar wahân ar ddatganiadau ariannol rhiant-gwmni Daliadau'r Post Brenhinol ccc am y flwyddyn a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 ac ar y wybodaeth yn Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr y disgrifir ei bod wedi'i harchwilio.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol ag Adran 235 o Ddeddf Cwmnïau 1985. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu aelodau'r Cwmni o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu ohonynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniatâ'r gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Cwmni ac aelodau'r Cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Priod gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r archwilwyr

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol y Grŵp yn unol â chyfraith berthnasol y DG a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a'u nodi yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio datganiadau ariannol y Grŵp yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG ac Iwerddon).

Nodwn a yw datganiadau ariannol y Grŵp, yn ein barn ni, yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw datganiadau ariannol y Grŵp wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 1985 ac Erthygl 4 o Reoliad IAS. Nodwn hefyd os nad yw Adroddiad y Cyfarwyddwyr, yn ein barn ni, yn gyson â datganiadau ariannol y Grŵp, os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol i'n harchwiliad, neu os na ddatgelir gwybodaeth a nodir gan y gyfraith yngl□n â thaliad cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr a thrafodion eraill.

Rydym yn adolygu pa un a yw'r datganiadau Llywodraethu Corfforaethol yn adlewyrchu bod y Cwmni yn cydymffurfio â'r naw darpariaeth yng Nghod Cyfunol FRC 2003 a nodir ar gyfer ein hadolygiad gan Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, a nodwn os nad yw'n gwneud hynny. Nid yw'n ofynnol i ni ystyried pa un a yw datganiadau'r Bwrdd o reolaeth fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau, neu ffurfio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau Llywodraethu Corfforaethol y Grŵp na'i weithdrefnau o ran risgiau a rheoli.

Rydym yn darllen gwybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyriwn pa un a yw'n gyson â datganiadau ariannol archwiliedig y Grŵp. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys Datganiad y Cadeirydd, Datganiad y Prif Weithredwr, yr Adolygiad Blynyddol, yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y datganiad Llywodraethu Corfforaethol, y datganiad o Reolaeth Fewnol, y rhan o Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr nas archwiliwyd a'r Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr yn unig. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os deuwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu unrhyw anghysondeb perthnasol gyda datganiadau ariannol y Grŵp. Nid yw ein cyfrifoldebau yn cwmpasu unrhyw wybodaeth arall.

Sail y farn archwilio

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn natganiadau ariannol y Grŵp. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a'r dyfarniadau a wneir gan y cyfarwyddwyr wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Grŵp, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chyflawnwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oedd eu hangen yn ein barn ni er mwyn darparu digon o dystiolaeth i ni roi sicrwydd rhesymol bod datganiadau ariannol y Grŵp yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio ein barn rydym hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn natganiadau ariannol y Grŵp.

Barn

Yn ein barn ni mae datganiadau ariannol y Grŵp yn:

- rhoi darlun teg a chywir, yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, o sefyllfa'r Grŵp ar 26 Mawrth 2006 ac o'i elw ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- maent wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 1985 ac Erthygl 4 o Reoliad IAS.

Ernst & Young LLP
Archwilydd Cofrestredig
Llundain
17 Mai 2006

Datganiad incwm y Grŵp ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005

	Nodia-dau	2006 £m	2005* £m
Refeniw	**5**	**9,056**	8,956
Costau pobl	**4**	**(5,968)**	(5,839)
Pobl Grŵp y Post Brenhinol:			
Cyflogau		**(4,530)**	(4,330)
Pensiynau		**(529)**	(489)
Nawdd cymdeithasol		**(326)**	(319)
Is-bostfeistri		**(507)**	(544)
Adnodd dros dro		**(76)**	(157)
Costau dosbarthu a chludo	**5**	**(1,218)**	(1,183)
Costau gweithredol eraill	**5**	**(1,547)**	(1,660)
Cyfran o elw ar ôl didynnu treth o gwmnïau cyswllt a chyd-fentrau	**12**	**32**	28
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol		**355**	302
Eitemau eithriadol gweithredol	**6**	**(210)**	(277)
Elw gweithredol		**145**	25
Elw/(colled) o waredu busnesau		**6**	(3)
Elw o waredu eiddo, offer a chyfarpar		**61**	70
Elw cyn ariannu a threthiant		**212**	92
Costau cyllid	**5**	**(52)**	(42)
Incwm cyllid - llog pensiynau net	**5**	**101**	59
- arall	**5**	**51**	58
Elw cyn trethiant		**312**	167
Credyd/(tâl) trethiant	**7**	**83**	(16)
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol o weithrediadau parhaus		**395**	151
Elw i'w briodoli i:			
Deiliad ecwiti'r rhiant-gwmni		**395**	151
Budd lleiafrifol		**-**	-

*Mae'r canlyniadau wedi'u hailddatgan ar gyfer y broses o drosglwyddo i IFRS, ar wahân i IAS 32 ac IAS 39, a fabwysiadwyd ar 28 Mawrth 2005 - gweler nodyn 31.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad incwm a gwariant cydnabyddedig y Grŵp ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005

	Nodiadau	2006 £m	2005 £m
Gwahaniaethau o ran trosi buddsoddiadau net arian tramor		-	8
(Colledion) ac enillion actiwaraidd ar gynlluniau buddiant diffiniedig	14	(1,659)	411
Enillion ar lifau arian parod rhagfantoli a gymerwyd i ecwiti yn ystod y flwyddyn		3	-
Trosglwyddiadau i'r datganiad incwm ar lifau arian parod rhagfantoli		(10)	-
Trosglwyddiadau i'r fantolen - ar swm cario asedau a rhwymedigaethau anariannol		(1)	-
Trethiant ar eitemau yr aethpwyd â hwy yn uniongyrchol i ecwiti	7/21	(26)	367
(Gwariant)/incwm net a gydnabyddir yn uniongyrchol yn ecwiti		(1,693)	786
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol		395	151
Cyfanswm y (gwariant)/incwm cydnabyddedig ar gyfer y cyfnod		(1,298)	937
Priodolir i:			
Deiliad ecwiti'r rhiant-gwmni		(1,298)	933
Budd lleiafrifol		-	4
Effeithiau newidiadau yn y polisi cyfrifyddu:			
Colled wrth fabwysiadu IAS 32 ac IAS 39 am y tro cyntaf		(3)	-

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Mantolen y Grŵp ar 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005

	Nodiadau	2006 £m	2005* £m
Asedau nad ydynt yn gyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	8	1,594	1,591
Ewyllys da	9	132	131
Asedau anniriaethol	10	42	21
Asedau ariannol - buddsoddiadau	29	5	7
Buddsoddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt drwy ddefnyddio'r dull ecwiti	12	124	131
Symiau derbyniadwy eraill	18	6	14
Asedau treth ohiriedig	7	393	334
		2,296	2,229
Asedau cyfredol			
Rhestri eiddo	16	27	27
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	17	1,093	1,091
Asedau ariannol - buddsoddiadau	29	694	691
- deilliadau	29	3	-
Arian parod ac arian parod cyfatebol	19/29	1,161	1,340
		2,978	3,149
Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu	13	11	-
Cyfanswm yr asedau		5,285	5,378
Rhwymedigaethau cyfredol			
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	24	(2,014)	(2,352)
Treth incwm sy'n daladwy		(7)	-
Rhwymedigaethau – benthyciadau sy'n dwyn llog	22/29	(361)	(375)
– deilliadau	29	(3)	-
Darpariaethau	23	(58)	(124)
		(2,443)	(2,851)
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol			
Rhwymedigaethau ariannol - benthyciadau sy'n dwyn llog	22/29	(505)	(506)
Rhwymedigaeth budd-dal ymddeol	14	(5,588)	(3,958)
Darpariaethau	23	(53)	(48)
Rhwymedigaethau treth ohiriedig	7	(3)	(5)
Symiau eraill sy'n daladwy	25	(32)	(48)
		(6,181)	(4,565)
Cyfanswm y rhwymedigaethau		(8,624)	(7,416)
Rhwymedigaethau net		(3,339)	(2,038)
Ecwiti			
Enillion argadwedig	21	(4,270)	(3,085)
Cronfa ragfantoli wrth gefn	21	-	-
Trosi arian tramor	21	8	8
Cronfeydd eraill wrth gefn	21	919	1,035
Ecwiti a briodolir i ddeiliad ecwiti'r rhiant-gwmni		(3,343)	(2,042)
Budd lleiafrifol	21	4	4
Cyfanswm yr ecwiti		(3,339)	(2,038)

*Mae'r canlyniadau wedi'u hailddatgan ar gyfer y broses o drosglwyddo i IFRS, ar wahân i IAS 32 ac IAS 39, a fabwysiadwyd ar 28 Mawrth 2005 - gweler nodyn 31.

Cymeradwywyd y cyfrifon ar dudalennau 46 i 101 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 17 Mai 2006 a'u llofnodi ar ei ran gan:

Allan Leighton **Adam Crozier**

Datganiad llif arian parod y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005

	Nodiadau	2006 £m	2005* £m
Llif arian parod o weithgareddau gweithredol			
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol		**355**	302
Dibrisiad ac amorteiddiad		**174**	148
Symudiadau anariannol eraill (elw o gwmnïau cyswllt a chyd-fentrau)		**(32)**	(28)
		497	422
Newidiadau mewn cyfalaf gwaith ac eitemau anariannol eraill		**17**	(387)
Gostyngiad mewn stoc		**-**	5
(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy		**(7)**	125
Cynnydd mewn symiau sy'n daladwy		**91**	53
Gostyngiad ym malansau cleieintiaid		**(75)**	(444)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau		**8**	(126)
Taliadau arian parod mewn perthynas ag eitemau eithriadol: Cyfran o'r Llwyddiant	**(a)**	**(218)**	-
arall	**(a)**	**(306)**	(255)
Arian parod a ddefnyddir mewn gweithrediadau		**(10)**	(220)
Treth incwm a adenillir		**4**	13
All-lifau arian parod net o weithgareddau gweithredol		**(6)**	(207)
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Elw o waredu eiddo, offer a chyfarpar		**73**	95
Difidendau a dderbynnir gan gwmnïau cyswllt a chyd-fentrau		**30**	19
Incwm (llog) buddsoddi a dderbyniwyd		**53**	52
Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd		**(210)**	(219)
Talu ystyriaeth ohiriedig mewn perthynas â chaffaeliadau'r blynyddoedd blaenorol		**(22)**	(2)
Elw o werthu busnes		**6**	-
Busnes a brynwyd		**(1)**	(4)
Asedau anniriaethol a brynwyd		**(33)**	(4)
Elw o werthu asedau ariannol eraill		**2**	-
Asedau ariannol eraill a brynwyd		**(3)**	-
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		**(105)**	(63)
All-lif arian parod net o weithgareddau ariannu		**(111)**	(270)
Llifau arian parod o weithgareddau ariannu			
Talu elfen gyfalaf rhwymedigaethau prydles gyllidol		**(1)**	(34)
Costau cyllid (llog) a dalwyd		**(52)**	(42)
Ad-dalu benthyciadau		**(15)**	(4)
Benthyciadau newydd		**-**	325
(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau ariannu		**(68)**	245
Gostyngiad net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol		**(179)**	(25)
Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r cyfnod		**1,340**	1,365
Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y cyfnod	**19**	**1,161**	1,340

*Mae'r canlyniadau wedi'u hailddatgan ar gyfer y broses o drosglwyddo i IFRS, ar wahân i IAS 32 ac IAS 39, a fabwysiadwyd ar 28 Mawrth 2005 - gweler nodyn 31.

(a) Llifau arian parod sy'n berthnasol i eitemau eithriadol gweithredol y codwyd tâl ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn bresennol ac yn ystod blynyddoedd blaenorol

Yr all-lifau arian parod net a oedd yn berthnasol i'r uchod oedd:

All-lif arian parod net sy'n berthnasol i:	2006 £m	2005 £m
Eitemau eithriadol yn ystod y flwyddyn bresennol	**38**	12
Eitemau eithriadol yn ystod y flwyddyn flaenorol	**486**	243
Cyfanswm	**524**	255

Mae'r all-lif arian parod net o £524m yn cynnwys £96m mewn perthynas â darpariaethau eithriadol, yn cynnwys £1m sy'n berthnasol i rwymedigaethau pensiwn colli swydd, £208m sy'n berthnasol i setlo rhwymedigaethau pensiwn colli swydd y flwyddyn flaenorol, £2m mewn perthynas â chostau eraill a gofnodwyd o fewn credydwyr, a thaliad Cyfran o'r Llwyddiant o £218m.

Nodiadau i gyfrifon y Grŵp

1. Awdurdodi datganiadau ariannol a'r datganiad o gydymffurfiaeth ag IFRS

Awdurdodwyd datganiadau ariannol y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 i'w cyhoeddi gan y Bwrdd ar 17 Mai 2006 a llofnodwyd y fantolen ar ran y Bwrdd gan Allan Leighton ac Adam Crozier. Mae Daliadau'r Post Brenhinol ccc yn gwmni cyfyngedig cyhoeddus o dan berchenogaeth Llywodraeth EM.

Paratowyd datganiadau ariannol y Grŵp yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ac sy'n briodol i ddatganiadau ariannol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006. Nodir y prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd gan y Grŵp yn nodyn 2.

2. Polisïau cyfrifyddu

Mae mabwysiadu IFRS wedi arwain at newidiadau ym mholisïau cyfrifyddu'r Grŵp. Mae'r polisïau cyfrifyddu diwygiedig fel a ganlyn:

Sail y paratoi a'r cyfrifyddu

Dyma ddatganiadau ariannol cyntaf y Grŵp a baratowyd o dan IFRS ac mae'r ffigurau cymharol wedi'u hailddatgan o Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DG (UK GAAP) er mwyn cydymffurfio ag IFRS. Cyhoeddodd y Grŵp ei ddatganiadau ariannol IFRS rhagarweiniol ar gyfer 2005 a'r cysoniadau ag IFRS o'r datganiadau ariannol UK GAAP a gyhoeddwyd yn flaenorol ym mis Tachwedd 2005, ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan y Post Brenhinol ac yn nodyn 31.

Cyflwynir datganiadau ariannol y Grŵp mewn sterling a chaiff pob gwerth ei dalgrynnu i'r filiwn o bunnoedd agosaf ac eithrio pan nodir fel arall.

Mae Grŵp y Post Brenhinol ccc yn agored i'r risg o gael ei ddirwyo gan Reoleiddiwr y diwydiant ac o orfod talu iawndal i gwsmeriaid penodol, o ganlyniad i fethu â chyrraedd y targedau gweithredol a bennwyd gan y Rheoleiddiwr yn nhrwydded y Cwmni. Y Rheoleiddiwr fydd yn penderfynu ar swm dirwyon ac iawndal o'r fath wedi iddo dderbyn sylwadau pellach gan y Cwmni ac nid oes unrhyw wybodaeth bellach yn cael ei datgelu ar y sail y gallai fod yn niweidiol i ganlyniad y broses honno.

Ariannu

Grŵp y Post Brenhinol ccc

Roedd gan Grŵp y Post Brenhinol ccc rwymedigaethau net ar 26 Mawrth 2006, yn bennaf oherwydd y diffyg pensiwn o fewn ei brif gynllun pensiwn, Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol. O ganlyniad, nid yw Grŵp y Post Brenhinol ccc wedi talu benthyciadau'r Llywodraeth, ond mae'r Grŵp wedi derbyn ildiadau ffurfiol gan yr Adran Masnach a Diwydiant, fel benthyciwr.

Mae Grŵp y Post Brenhinol ccc yn gwneud elw, er ei fod yn colli arian mewn perthynas â phost wedi'i stampio a'r broses o weithredu ei Rwymedigaethau Gwasanaethau Byd-eang, ond yn awr, mae'n wynebu gofynion sylweddol o ran arian parod mewn perthynas â'i fuddsoddiad arfaethedig mewn offer a chyfarpar a'r broses o ariannu ei ddiffyg pensiwn ar adeg pan fo'r farchnad yn agored i unrhyw gystadleuwyr.

O ganlyniad, mae'r Grŵp mewn trafodaethau gyda'i Gyfranddalwyr ynglŷn â phecyn ariannu newydd, a fydd yn galluogi'r broses o drawsnewid y Cwmni ac yn caniatáu trafodaethau priodol gyda'i Ymddiriedolwr pensiwn mewn perthynas ag ariannu ei ddiffyg pensiwn. Mae Cyfarwyddwyr Grŵp y Post Brenhinol ccc o'r farn y bydd y pecyn ariannu yn cael ei ddarparu'n fuan. Os na fydd arian newydd ar gael, bydd yn rhaid i'r Cyfarwyddwyr adolygu gofynion arian parod ei gynllun strategol a fydd yn arwain at oedi o ran y buddiannau arfaethedig. Ar y sail eu bod wedi ystyried rhagamcaniadau llif arian parod yn ofalus, daeth y Cyfarwyddwyr i'r casgliad ei bod yn briodol bod y cyfrifon wedi'u paratoi ar sail busnes byw.

Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Roedd gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig rwymedigaethau net ar 26ain Mawrth 2006 ac, fel yr esboniwyd yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r Adolygiad Ariannol Gweithredol, mae'n parhau i golli arian, yn bennaf oherwydd ei bod yn cynnal y rhwydwaith gwledig sy'n colli arian.

Er mwyn dod yn ddichonadwy yn y tymor hwy, mae meysydd busnes proffidiol newydd yn cael eu datblygu i wrthbwyso'r cyfraniad a gollir o ffynonellau incwm traddodiadol, mae rhaglenni lleihau costau arwyddocaol yn cael eu gweithredu ac mae cais wedi'i wneud am gymorth parhaus gan y Llywodraeth ar gyfer unrhyw rwydwaith gwledig sy'n colli arian ac sy'n ofynnol yn ôl polisi'r Llywodraeth.

Fodd bynnag, hyd nes bod y gweithgareddau uchod wedi'u cwblhau'n llwyddiannus, bydd Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn parhau i ddibynnu ar gymorth ariannol gan ei rhiant-gwmni, Grŵp y Post Brenhinol ccc, ei phrif riant-gwmni Daliadau'r Post Brenhinol ccc, a'r Llywodraeth.

Yn ystod y flwyddyn, mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi cynhyrchu cynllun strategol pum mlynedd a chaiff y broses o'i hariannu yn y dyfodol ei hategu gan:

- dau ddyraniad o arian y rhwydwaith gwledig gwerth £150m y flwyddyn ar gyfer 2006-07 a 2007-08 y mae caniatâd wedi'i roi ar gyfer cymorth gwladwriaethol mewn perthynas ag ef;
- cytundeb ariannu byrdymor gwerth £145m sy'n bodoli eisoes gyda'i riant hyd at fis Mawrth 2007;
- cytundeb ariannu byrdymor ychwanegol newydd gwerth £231m gyda'i riant hyd at fis Mawrth 2008;
- dealltwriaeth y bydd y Llywodraeth yn cytuno ar drefniant ariannu hirdymor;
- ymrwymiad y Llywodraeth i amserlen, map llwybr a phrosesau ymgynghori ac, ar gyfer unrhyw arian ychwanegol, ymrwymiad y bydd y ceisiadau angenrheidiol am gymorth gwladwriaethol yn cychwyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Deellir y bydd y broses uchod yn mynd i'r afael â'r materion ariannu canlynol yn benodol:

- ehangu'r cyfleuster cyfalaf gwaith presennol gwerth £1.15bn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2010;
- darparu datrysiad ariannu ar gyfer y rhannau hynny o'r rhwydwaith sy'n colli arian.

Er na ddisgwylir i'r broses y cyfeirir ati uchod gael ei chwblhau am sawl mis, ar ôl ystyried y mater yn ofalus, mae'r Cyfarwyddwyr yn hyderus y cyflawnir datrysiad boddhaol ar gyfer yr hirdymor yn ystod 2006-07 ac y bydd y Grŵp yn gallu cyflawni rhwymedigaethau yn y dyfodol pan fyddant yn codi.

Felly, ar y sail honno, mae'r Cyfarwyddwyr yn ystyried ei bod yn briodol bod y cyfrifon wedi'u paratoi ar sail busnes byw.

Sail y cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys cyfrifon Daliadau'r Post Brenhinol ccc a'i is-gwmnïau. Paratoir datganiadau ariannol y prif is-gwmnïau ar gyfer yr un flwyddyn adrodd â'r rhiant Gwmni, gan ddefnyddio polisïau cyfrifyddu cyson.

Mae pob balans a thrafodyn o fewn y grŵp, gan gynnwys elw heb ei wireddu sy'n deillio o drafodion o fewn y grŵp, wedi'i ddileu yn llawn. Pennir prisiau trosglwyddo rhwng rhannau o'r busnes ar sail taliadau a bennwyd drwy drafodaeth â'r busnesau priodol.

Caiff is-gwmnïau eu cyfuno o'r dyddiad y bydd rheolaeth yn cael ei throsglwyddo i'r Grŵp a byddant yn peidio â bod yn gyfunol o'r dyddiad y bydd rheolaeth y Grŵp yn dod i ben. Pan gollir rheolaeth dros is-gwmni am gyfnod, bydd y datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y canlyniadau ar gyfer y rhan o'r flwyddyn adrodd pan fu gan y Grŵp reolaeth dros yr is-gwmni.

Buddsoddi mewn cwmnïau cyswllt a chyd-fentrau

Rhoddir cyfrif am fuddsoddiadau'r Grŵp yn ei gwmnïau cyswllt a'i gyd-fentrau o dan y dull cyfrifyddu ecwiti. O dan y dull ecwiti, caiff y buddsoddiad ei gynnwys yn y fantolen yn ôl cost a newidiadau ôl gaffael yng nghyfran y Grŵp o asedau net y cwmni cyswllt/cyd-fenter, llai unrhyw leihad mewn gwerth. Mae'r datganiad incwm yn adlewyrchu cyfran y Grŵp o elw ar ôl treth y cwmni cyswllt/cyd-fenter.

Caiff unrhyw ewyllys da sy'n deillio o gaffael cwmni cyswllt, sy'n cynrychioli'r hyn sy'n weddill o ran cost y buddsoddiad o gymharu â chyfran gwerth teg net yr asedau, y rhwymedigaeth a'r rhwymedigaethau amodol y gellir eu nodi a gaffaelwyd gan y Grŵp, ei gynnwys yn y swm cario ac ni chaiff ei amorteiddio. I'r graddau y mae gwerth teg net asedau, rhwymedigaethau a rhwymedigaethau amodol y cwmni cyswllt yn fwy na chost y buddsoddiad, caiff elw ei gydnabod a'i ychwanegu at gyfran y Grŵp o elw neu golled y cwmni cyswllt yn ystod y cyfnod y caffaelir y buddsoddiad.

Refeniw

Refeniw post

Mae refeniw'r cyfrif yn deillio o gontractau penodol a chaiff ei gydnabod pan fydd y broses o ddosbarthu'r post wedi'i chwblhau i raddau helaeth. Cydnabyddir refeniw post rhagdaledig sy'n ymwneud â stampiau ac incwm mesuryddion ar adeg y gwerthiant, a chaiff ei addasu i adlewyrchu gwerth stampiau a chredydau mesuryddion a ddelir gan y cwsmer ond heb eu defnyddio.

Refeniw Parcelforce Worldwide

Mae refeniw'r cyfrif yn deillio o gontractau penodol a chaiff ei gydnabod pan fydd y broses o ddosbarthu eitem wedi'i chwblhau i raddau helaeth.

Refeniw Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Caiff refeniw ei gydnabod pan ddarperir gwasanaethau manwerthu ac ariannol.

General Logistics Systems

Mae'r refeniw yn deillio o gontractau penodol a chaiff ei gydnabod pan gaiff eitemau eu dosbarthu.

Dosbarthu a chludo

Mae costau dosbarthu a chludo yn ymwneud â chostau trydydd parti yr eir iddynt wrth gludo'r post. Mae'r rhain yn cynnwys cludo ar y rheilffordd, ar y ffordd, ar y môr ac yn yr awyr, ynghyd â chostau yr eir iddynt gan gludwyr post rhyngwladol a gweithredwyr dosbarthu Parcelforce Worldwide. Caiff y costau hyn eu datgelu ar wahân yn y datganiad incwm.

Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol.

Elw gweithredol yw'r elw sy'n deillio o weithrediadau arferol, rheolaidd y busnes. Mae'r elw hwn yn cynnwys refeniw, costau pobl, costau gweithredol yn cynnwys dosbarthu a chludo, a'r gyfran o elw'r Grŵp ar ôl treth o gwmnïau cyswllt a chyd-fentrau. Nodir eitemau eithriadol gweithredol ar wahân.

Eitemau eithriadol gweithredol

Eitemau incwm a gwariant perthnasol yw eitemau eithriadol gweithredol y mae angen, o ganlyniad i natur y digwyddiadau y maent yn deillio ohonynt, eu cyflwyno ar wahân yn y datganiad incwm neu mewn nodyn i'w gwneud yn haws i ddeall perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Elw gweithredol

Elw gweithredol yw'r elw sy'n deillio o weithrediadau arferol, rheolaidd y busnes ac ar ôl codi tâl ar yr eitemau eithriadol gweithredol a ddiffinnir uchod. Nid yw'n cynnwys yr eitemau anweithredol ar gyfer elw neu golled ar waredu busnesau ac elw neu golled ar waredu eiddo, offer a chyfarpar dros ben. Nid yw'r eitemau hyn yn rhan o weithrediadau arferol, rheolaidd y busnes ond maent yn berthnasol, felly fe'u cyflwynir ar wahân yn y datganiad incwm i'w gwneud yn haws i ddeall perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Ewyllys da

Rhoddir cyfrif am gyfuniadau busnes ar neu ar ôl 29 Mawrth 2004 o dan IFRS 3 'Cyfuniadau Busnes' gan ddefnyddio'r dull prynu. Caiff unrhyw swm dros ben o'r gost o gyfuno busnes dros fuddiant y Grŵp o ran gwerth teg net yr asedau, y rhwymedigaethau a'r rhwymedigaethau amodol y gellir eu nodi ei gydnabod yn y fantolen fel ewyllys da ac ni chaiff ei amorteiddio.

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Ar ôl cydnabyddiaeth gychwynnol, nodir ewyllys da ar gost llai unrhyw golledion lleihad cronedig mewn gwerth. Adolygir ewyllys da sy'n deillio o gyfuniadau busnes ar gyfer lleihad mewn gwerth yn flynyddol neu'n amlach na hynny os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn nodi bod y gwerth cario wedi'i leihau o bosibl. Caiff colled o ran lleihad mewn gwerth ei nodi yn y datganiad incwm ar gyfer y swm y mae gwerth cario'r ased (neu'r uned cynhyrchu arian parod) yn fwy na'i swm adferadwy, sef gwerth gwireddadwy net ased neu werth ased pan gaiff ei ddefnyddio pa un bynnag sydd fwyaf.

At ddibenion yr adolygiadau hyn o leihad mewn gwerth, dyrennir ewyllys da i'r unedau cynhyrchu arian parod cysylltiedig fel y cânt eu monitro gan y rheolwyr.

Cynhwysir ewyllys da sy'n deillio o gaffael endidau y rhoddir cyfrif am ecwiti yn eu cylch yng nghost yr endidau hynny ac felly ni chaiff ei nodi yn y fantolen fel ewyllys da.

Asedau anniriaethol

Caiff asedau anniriaethol a gaffaelir fel rhan o gyfuniad busnes eu cyfalafu ar wahân i ewyllys da os gellir mesur y gwerth teg yn ddibynadwy pan gânt eu cydnabod am y tro cyntaf. Caiff asedau anniriaethol a gaffaelir ar wahân neu a gynhyrchir yn fewnol eu cydnabod ar gost i gychwyn ac fe'u hasesir fel asedau â bywyd defnyddiol cyfyngedig neu asedau â bywyd diddiwedd. Caiff y rhai a bywyd cyfyngedig eu hamorteiddio dros eu bywyd defnyddiol a chaiff y rhai â bywyd diddiwedd eu hadolygu'n flynyddol neu'n amlach na hynny os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn nodi y gallai'r gwerth cario leihau. Caiff lleihad mewn gwerth ei nodi yn y datganiad incwm ar gyfer y swm y mae gwerth cario'r ased yn fwy na'i swm adferadwy, sef gwerth gwireddadwy net ased neu werth ased pan gaiff ei ddefnyddio pa un bynnag sydd fwyaf.

Mae bywydau cyfyngedig asedau anniriaethol yn yr ystod 1-6 blynedd. Nodir asedau anniriaethol â bywydau cyfyngedig sydd wedi'u hamorteiddio yn y datganiad incwm yn flynyddol.

Eiddo, offer a chyfarpar

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu cydnabod ar gost, yn cynnwys costau i'w priodoli wrth ddod â'r ased i gyflwr gweithio i'w ddefnyddio at ei ddiben. Cymhwysir dibrisiad eiddo, offer a chyfarpar ar sail llinell syth drwy gyfeirio at y gost wreiddiol a'r hyn sy'n weddill o fywydau economaidd defnyddiol asedau a'u gwerthoedd gweddilliol amcangyfrifedig. Caiff y bywydau defnyddiol a'r gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu'n flynyddol a gwneir addasiadau, lle y bo'n gymwys, ar sail ddichonol. Mae'r bywydau a bennir ar gyfer y prif gategorïau eiddo, offer a chyfarpar a'r bywydau sy'n weddill fel a ganlyn:

	Bywydau sy'n weddill ar gyfartaledd	Amrywiaeth bywydau'r asedau
Tir ac adeiladau:		
Tir rhydd-ddaliadol	Heb ei ddibrisio	Heb ei ddibrisio
Adeiladau rhydd-ddaliadol	14 mlynedd	Hyd at 50 mlynedd
Tir ac adeiladau prydlesol	9 mlynedd	Cyfnod y brydles, 50 mlynedd neu amcangyfrif o'r hyn sy'n weddill o'r bywyd defnyddiol, pa un bynnag yw'r byrraf
Offer a pheiriannau	5 mlynedd	3-15 mlynedd
Cerbydau modur ac ôl-gerbydau	3 blynedd	1-12 mlynedd
Ffitiadau a chyfarpar	2 flynedd	2-15 mlynedd

Caiff eiddo y mae'r Grŵp wedi'i nodi fel gwarged ei ddosbarthu o dan 'ar gael i'w werthu'. Pan roddir awdurdod i farchnata eiddo sydd wedi'i ddosbarthu yn y modd hwn a bod yr eiddo yn wag ac felly ar gael i'w feddiannu yn syth, caiff yr eiddo ei drosglwyddo yn unol ag IFRS 5 i 'Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu', categori ar wahân ar y fantolen. Disgwylir i eiddo o'r fath gynhyrchu llif arian parod economaidd drwy werthu'r ased yn bennaf yn hytrach na thrwy weithgareddau gweithredol.

Prydlesi

Prydlesi cyllid, pan gaiff yr holl risgiau a'r buddiannau, i raddau helaeth, sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth eitem wedi'i phrydlesu a drosglwyddwyd i'r Grŵp eu cyfalafu ar ddechrau'r brydles a chydnabyddir rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer gwerth teg yr eitem a brydleswyd neu, os yw'n llai, ar werth presennol isafswm taliadau'r brydles. Caiff taliadau'r brydles eu dosrannu rhwng y taliadau cyllid a gostyngiad yn rhwymedigaeth y brydles er mwyn cyflawni cyfradd gyson o log ar yr hyn sy'n weddill o falans y rhwymedigaeth.

Caiff asedau sydd wedi'u cyfalafu ar brydles eu dibrisio dros fywyd defnyddiol amcangyfrifedig yr ased neu gyfnod y brydles, pa un bynnag yw'r byrraf.

Dosberthir prydlesi lle delir yr holl risgiau a'r buddiannau, i raddau helaeth, o fod yn berchen ar yr ased gan y prydleswr, fel prydlesi gweithredol a chaiff rhenti eu cynnwys yn y datganiad incwm dros gyfnod y brydles. Caiff cyfanswm buddiannau cymhellion ei gydnabod fel lleihad mewn costau rhentu dros gyfnod y brydles ar sail llinell syth.

Stocrestrau

Caiff stocrestrau eu prisio ar gost neu werth gwireddadwy net, pa un bynnag yw'r isaf, ar ôl addasu ar gyfer stoc anarferedig neu stoc sy'n symud yn araf. Yn achos Gwasanaethau Cownteri Swyddfa'r Post®, mae stocrestrau yn cynnwys stociau manwerthu a chynnyrch y loteri.

Masnach a symiau derbyniadwy eraill

Caiff symiau a dderbynnir drwy fasnach eu cydnabod a'u cludo ar swm yr anfoneb wreiddiol llai lwfans ar gyfer unrhyw symiau na ellir eu casglu. Gwneir amcangyfrif ar gyfer dyledion ansicr pan nad yw'r broses o gasglu'r swm llawn yn debygol mwyach. Caiff dyledion eu dileu pan gânt eu nodi.

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Arian parod ac arian parod cyfatebol

Mae arian parod ac arian parod cyfatebol yn y fantolen yn cynnwys arian yn y banc ac mewn llaw ac adneuon byrdymor â dyddiad aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai. Yn ogystal, mae'r Grŵp yn defnyddio arian Money Market fel ffynhonnell arian parod sydd ar gael yn hawdd, a gaiff ei werthu a'i brynu'n ddyddiol er mwyn bodloni gofynion arian parod y busnes. Caiff yr arian hwn ei gategoreiddio fel arian parod cyfatebol.

At ddibenion y datganiad llif arian parod, mae arian parod ac arian parod cyfatebol yn cynnwys arian parod ac arian parod cyfatebol fel y'u diffinnir uchod, ar ôl didynnu gorddrafftiau banc.

Asedau ariannol - buddsoddiadau

Dosberthir asedau ariannol a gwmpesir gan IAS 39 'Offerynnau Ariannol: Cydnabod a Mesur' fel; asedau ariannol ar werth teg drwy ddatganiad incwm; benthyciadau, a symiau derbyniadwy; buddsoddiadau a ddelir hyd nes eu bod yn aeddfedu; neu asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu, fel sy'n briodol. Mae'r Grŵp yn penderfynu sut y caiff ei asedau ariannol eu dosbarthu pan gânt eu cydnabod am y tro cyntaf ac yn ail-werthuso'r hyn y penderfynwyd arno ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Pan gaiff asedau ariannol eu cydnabod am y tro cyntaf, fe'u mesurir ar werth teg, sef pris y trafodyn ynghyd ag unrhyw gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r trafodyn, yn achos asedau ariannol nad ydynt ar 'werth teg yn y datganiad incwm'. Mae'r Grŵp wedi dilyn darpariaethau trosiannol IFRS 1 'Mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf' i fabwysiadu IAS 32 'Offerynnau Ariannol: Datgelu a Chyflwyno' ac IAS 39 'Offerynnau Ariannol: Cydnabod a Mesur' o 28 Mawrth 2005, diwrnod cyntaf y flwyddyn ariannol 2005-06, ac nid yw wedi ailddatgan symiau cymharol wrth gymhwyso IAS 32 ac IAS 39 am y tro cyntaf. Felly, mae'r datgeliadau cymharol yn adlewyrchu gofynion FRS 13 'Deilliadau ac Offerynnau Ariannol eraill: Datgeliadau'.
Mae'r broses ddilynol o fesur asedau ariannol yn dibynnu ar eu dosbarthiad fel a ganlyn:

Asedau ariannol ar werth teg drwy'r datganiad incwm (a ddelir ar gyfer masnachu)
Dosberthir asedau ariannol fel rhai a ddelir ar gyfer masnachu os y'u caffaelir i'w gwerthu yn y byrdymor. Caiff deilliadau eu dosbarthu hefyd fel rhai a ddelir ar gyfer masnachu oni bai y cânt eu dynodi fel offerynnau rhagfantoli. Caiff asedau eu cynnwys yn y fantolen ar werth teg gydag enillion neu golledion ar 'asedau ariannol ar werth teg drwy'r datganiad incwm' yn cael eu cydnabod yn y datganiad incwm.

Buddsoddiadau a ddelir hyd nes eu bod yn aeddfedu
Dosberthir asedau ariannol nad ydynt yn ddeilliadol â thaliadau sefydlog neu bendant ac aeddfedrwydd penodedig fel asedau 'a ddelir hyd nes eu bod yn aeddfedu' pan fo'r Grŵp yn bwriadu dal yr asedau hynny hyd nes y byddant yn aeddfedu, ac yn gallu gwneud hynny. Caiff buddsoddiadau a ddelir hyd nes eu bod yn aeddfedu eu cynnwys ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Caiff enillion a cholledion eu cydnabod yn y datganiad incwm pan gaiff y buddsoddiadau eu dadgydnabod neu eu lleihau, yn ogystal â thrwy'r broses amorteiddio. Ni chaiff buddsoddiadau y bwriedir iddynt gael eu dal am gyfnod amhenodol eu cynnwys yn y dosbarthiad hwn. Cyn 28 Mawrth 2005, roedd y Grŵp yn dal buddsoddiadau o'r fath ar gost hanesyddol llai unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth, ac eithrio stociau gilt y Llywodraeth, a nodwyd ar werth y farchnad a chânt eu categoreiddio yn awr fel asedau 'a ddelir ar gyfer masnachu'.

Benthyciadau a symiau derbyniadwy
Nid yw asedau ariannol nad ydynt yn ddeilliadol â thaliadau sefydlog neu bendant na roddir pris arnynt mewn marchnad weithredol yn gymwys fel asedau masnachu ac nid ydynt wedi'u pennu fel asedau 'gwerth teg yn y datganiad incwm' neu asedau sydd ar gael i'w gwerthu. Caiff asedau o'r fath eu cynnwys ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol os yw gwerth amser yr arian yn sylweddol. Caiff enillion a cholledion eu cydnabod yn y datganiad incwm pan gaiff y buddsoddiadau eu datgydnabod neu eu lleihau, yn ogystal â thrwy'r broses amorteiddio.

Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu
Asedau ariannol nad ydynt yn ddeilliadol ac a nodir fel asedau o'r fath neu na chânt eu dosbarthu yn unrhyw un o'r tri chategori blaenorol yw 'asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu' . Ar ôl iddynt gael eu cydnabod am y tro cyntaf, caiff asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu eu mesur ar werth teg gydag enillion neu golledion yn cael eu cydnabod fel cydran o ecwiti ar wahân hyd nes y caiff y buddsoddiad ei ddadgydnabod, neu hyd nes y tybir bod y buddsoddiad wedi lleihau ac, ar yr adeg honno, cynhwysir yr elw neu'r golled gronnol a nodwyd yn flaenorol yn yr ecwiti yn y datganiad incwm.

Pennir gwerth teg y buddsoddiadau a nodir drwy gyfeirio at brisiau'r cynigion ar ddiwedd dyddiad y fantolen. Lle nad oes unrhyw farchnad weithredol, pennir y gwerth teg gan ddefnyddio technegau prisio. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio trafodion hyd braich a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y farchnad; cyfeirio at werth offeryn arall sydd yr un fath i raddau helaeth ar y farchnad ar hyn o bryd; a dadansoddiad llif arian parod wedi'i ddisgowntio a modelau prisio. Fel arall, caiff asedau eu cynnwys ar gost.

Treth incwm a threth ohiriedig

Mae'r tâl ar gyfer trethiant cyfredol yn seiliedig ar y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn fel y'u haddesir ar gyfer eitemau na ellir eu hasesu neu eitemau na chaniateir. Caiff ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau sydd wedi'u deddfu neu wedi'u deddfu'n sylweddol ar ddyddiad y fantolen.

Darperir treth ohiriedig, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar bob gwahaniaeth dros dro ar ddyddiad y fantolen, rhwng sylfaen treth asedau a rhwymedigaethau a'u symiau cario at ddibenion adrodd ariannol.

Caiff rhwymedigaethau treth incwm ohiriedig eu cydnabod ar gyfer pob gwahaniaeth trethadwy dros dro ac eithrio:

- cydnabod ewyllys da am y tro cyntaf;
- cydnabod ased neu rwymedigaeth am y tro cyntaf mewn trafodyn nad yw'n uniad busnes ac nad yw'n effeithio ar yr elw cyfrifyddu na'r elw na'r golled drethadwy ar adeg y trafodyn;
- gwahaniaethau trethadwy dros dro sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau mewn is-gwmnïau, cwmnïau cyswllt a buddiant mewn cyd-fentrau, lle gellir rheoli amseriad y broses o wrthdroi gwahaniaethau dros dro ac mae'n debygol na fydd y gwahaniaeth dros dro yn cael ei wrthdroi yn y dyfodol agos.

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Ar wahân i'r hyn a nodir isod, caiff asedau treth ohiriedig eu cydnabod ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro y gellir ei ddidynnu, asedau treth nas defnyddiwyd a gariwyd ymlaen a cholledion treth nas defnyddiwyd, i'r graddau y bydd elw trethadwy ar gael, yn ôl pob tebyg, y gellir defnyddio'r gwahaniaethau dros dro tynadwy, asedau treth nas defnyddiwyd a gariwyd ymlaen a cholledion treth nas defnyddiwyd yn ei erbyn. Ni chaiff asedau treth ohiriedig eu cydnabod mewn perthynas â:

- gwahaniaethau dros dro y gellir eu didynnu sy'n deillio o gydnabod ased neu rwymedigaeth am y tro cyntaf mewn trafodyn nad yw'n uniad busnes ac nad yw'n effeithio ar yr elw cyfrifyddu na'r elw na'r golled drethadwy ar adeg y trafodyn;
- gwahaniaethau dros dro y gellir eu didynnu sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau mewn is-gwmnïau, cwmnïau cyswllt a buddiant mewn cyd-fentrau, ac eithrio i'r graddau y mae'n debygol y bydd y gwahaniaethau dros dro yn cael eu gwrthdroi yn y dyfodol agos ac y bydd elw trethadwy ar gael y gellir defnyddio'r gwahaniaeth dros dro yn ei erbyn.

Caiff y swm cario asedau treth ohiriedig ei adolygu ar ddyddiad bob mantolen a'i gynyddu neu ei leihau i'r graddau y bydd digon o elw trethadwy ar gael i ddefnyddio'r ased treth ohiriedig cyfan neu ran ohono.

Caiff asedau treth ohiriedig a rhwymedigaethau eu mesur ar y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn gymwys yn ystod y cyfnod pan gaiff yr ased treth ei wireddu neu pan gaiff y rhwymedigaeth ei setlo, yn seiliedig ar gyfraddau treth (a chyfreithiau treth) a gyflwynwyd neu a gyflwynwyd yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen. Ni chaiff balansau treth ohiriedig eu disgowntio.

Caiff treth ohiriedig ei chodi neu ei chredydu'n uniongyrchol i ecwiti os yw'n berthnasol i eitemau a gredydir neu a godir i ecwiti. Fel arall, caiff ei chydnabod yn y datganiad incwm.

Polisi talu cyflenwyr

Polisi'r Cwmni a'i brif is-gwmnïau gweithredol yw defnyddio eu pæer prynu mewn ffordd deg. Cytunir ar delerau talu ymlaen llaw ar gyfer pob contract mawr. Ar gyfer trafodion â gwerth is, mae telerau talu safonol y cyflenwr yn gymwys. Polisi'r Cwmni yw glynu wrth y telerau cytûn. Mae'r Cwmni a'i brif is-gwmnïau gweithredol yn y DG wedi ceisio cydymffurfio â Chod Ymarfer Talu'n Well yr Adran Masnach a Diwydiant. Gellir cael copïau o'r cod ymarfer hwn gan yr Adran Masnach a Diwydiant. Gan fod y Cwmni yn gwmni anweithredol, nifer y diwrnodau credydwyr yw sero. Gellir dod o hyd i ddiwrnodau credydwyr yr is-gwmnïau gweithredol yn eu cyfrifon.

Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cydnabod pan fo gan y Græp rwymedigaeth gyfredol (cyfreithiol neu adeiladol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, mae'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, a gellir rhoi amcangyfrif dibynadwy o ran swm y rhwymedigaeth. Os yw effaith gwerth amser yr arian yn berthnasol, pennir darpariaethau drwy ddisgowntio'r llifau arian parod a ddisgwylir yn y dyfodol ar gyfradd cyn treth sy'n adlewyrchu asesiadau cyfredol y farchnad o werth amser yr arian a, lle y bo'n briodol, y risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Pensiynau a buddiannau ôl-ymddeol eraill

Mae aelodaeth cynlluniau pensiwn galwedigaeth yn agored i'r rhan fwyaf o weithwyr parhaol y Græp yn y DG. Mae pob aelod o gynlluniau buddiant diffiniedig wedi'u heithrio o'r rhan sy'n ymwneud ag enillion cynllun pensiwn y Wladwriaeth. Mae is-gwmnïau tramor yn gwneud trefniadau gwahanol ar gyfer darparu pensiynau a buddiannau ôl-ymddeol eraill.

Mesurir asedau'r cynlluniau buddiant diffiniedig ar werth teg. Mesurir rhwymedigaethau ar sail actiwaraidd drwy ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd ac fe'u disgowntir ar gyfradd sy'n cyfateb i'r gyfradd gyfredol o elw ar fond corfforaethol o safon dda sy'n cyfateb o ran arian cyfred a thymor. Caiff prisiadau eu cynnal gan actiwarïaid o leiaf bob tair blynedd fel arfer fel y penderfynir gan yr Ymddiriedolwyr a chânt eu diweddaru ar bob dyddiad mantolen. Cyflwynir yr ased Buddiant diffiniedig neu'r rhwymedigaeth sy'n codi o ganlyniad ar wahân ar y fantolen.

Ar gyfer cynlluniau buddiant diffiniedig, y symiau a godir ar yr elw gweithredol ac a gynhwysir fel rhan o gostau pobl yw'r costau gwasanaeth cyfredol ac unrhyw enillion neu golledion sy'n ddyledus ar setliadau a chwtogiadau. Codir costau gwasanaeth a roddwyd ar elw gweithredol ar unwaith os yw buddiannau wedi'u breinio. Os nad yw'r buddiannau wedi'u breinio ar unwaith, cydnabyddir y costau mewn rhandaliadau blynyddol cyfartal dros y cyfnod nes y ceir breinio. Mae'r gwahaniaeth net rhwng y costau llog a'r elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun yn cael ei gydnabod fel costau cyllid neu incwm cyllid yn y drefn honno. Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd ar unwaith yn y datganiad o incwm a threuliau cydnabyddedig (SORIE). Cydnabyddir unrhyw symudiad treth ohiriedig sy'n gysylltiedig ag enillion a cholledion actiwaraidd hefyd yn y SORIE.

Ar gyfer cynlluniau cyfraniad diffiniedig, codir cyfraniadau'r Græp ar elw gweithredol fel rhan o gostau pobl yn y cyfnod y mae a wnelo'r cyfraniadau ag ef.

Ymchwil a datblygu

Caiff gwariant ar ymchwil ei ddileu yn y flwyddyn yr eir iddo. Caiff costau datblygu eu cyfalafu lle maent yn bodloni'r meini prawf sy'n ofynnol o dan IFRS. Os na fodlonir y meini prawf hyn, yna caiff y costau eu cydnabod yn y datganiad incwm wrth iddynt gael eu tynnu.

Arian cyfred tramor

Arian cyfred gweithredol a chyflwyniadol Daliadau'r Post Brenhinol ccc yw sterling (£). Arian cyfred gweithredol yr is-gwmnïau tramor yn Ewrop yw'r ewro (€) yn bennaf.

Caiff asedau a rhwymedigaethau gweithrediadau tramor eu trosi ar y gyfradd gyfnewid a ddyfarnwyd ar ddyddiad y fantolen. Caiff canlyniadau masnachu gweithrediadau tramor eu trosi ar gyfraddau cyfnewid cyfartalog ar gyfer y cyfnod adrodd, sy'n cyfateb yn fras i'r gyfradd y trafodyn gwirioneddol. Trosglwyddir y gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi wrth drosi asedau a rhwymedigaethau, ers y dyddiad y'u troswyd i IFRS, yn uniongyrchol i'r gronfa trosi arian tramor wrth gefn mewn ecwiti.

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Cofnodir trafodion mewn arian tramor i ddechrau yn yr arian cyfred gweithredol drwy gymhwyso'r gyfradd gyfnewid a ddyfarnwyd ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a droswyd yn arian cyfred eu hail-drosi ar y gyfradd cyfnewid arian cyfred weithredol a ddyfarnwyd ar ddyddiad y fantolen. Trosglwyddir pob gwahaniaeth i'r datganiad incwm, ac eithrio pan fydd cyfrifyddu ar sail rhagfantoli yn cael ei gymhwyso ac ar gyfer gwahaniaethau ar asedau a rhwymedigaethau ariannol sy'n rhan o fuddsoddiad net y Grŵp mewn gweithrediad tramor. Trosglwyddir y rhain yn uniongyrchol i ecwiti nes gwaredu'r buddsoddiad net, pryd y cânt eu cydnabod mewn elw neu golled.

Trosir eitemau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian cyfred tramor gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid fel yr oeddent ar ddyddiadau'r trafodion cychwynnol. Trosir eitemau anariannol a fesurir ar werth teg mewn arian cyfred tramor gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid fel yr oeddent ar y dyddiad y pennwyd y gwerth teg.

Offerynnau ariannol deilliadol

Mae'r Grŵp yn defnyddio offerynnau deilliadol megis contractau arian cyfred er mwyn rheoli proffil risg unrhyw amlygiad sylfaenol y Grŵp i risg, yn unol â pholisïau rheoli trysorlys y Grŵp. Datgenir offerynnau ariannol deilliadol o'r fath ar werth teg ar y cychwyn.

At ddiben cyfrifyddu ar sail rhagfantoli, mae achosion o ragfantoli wedi'u dosbarthu'n rhagfantoli arian parod lle maent yn rhagfantoli amlygiad i amrywioldeb mewn llifau arian parod y gellir ei briodoli i risg benodol sy'n gysylltiedig ag ased neu rwymedigaeth gydnabyddedig neu i drafodyn a ragwelwyd.

O ran rhagfantoli llif arian parod i ragfantoli risg cyfnewid dramor ymrwymiadau cadarn sy'n bodloni amodau ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli, mae'r gyfran o'r elw neu'r golled ar yr offeryn rhagfantoli yr ystyrir ei fod yn rhagfantoli effeithiol yn cael ei chydnabod yn uniongyrchol mewn ecwiti a chydnabyddir y gyfran aneffeithiol yn y datganiad incwm.

Pan fydd yr ymrwymiad cadarn a ragfantolwyd yn arwain at gydnabod ased anariannol neu rwymedigaeth anariannol, yna pryd y caiff yr ased neu'r rhwymedigaeth ei chydnabod, caiff yr enillion neu'r colledion cysylltiedig a gydnabuwyd gynt mewn ecwiti eu cynnwys wrth fesur y gost gaffael neu swm cario arall yr ased neu rwymedigaeth ar y cychwyn. Ar gyfer pob math arall o ragfantoli llif arian parod, trosglwyddir yr enillion neu'r colledion a gydnabyddir mewn ecwiti i'r datganiad incwm yn yr un flwyddyn ag y mae'r ymrwymiad cadarn a ragfantolwyd yn effeithio ar elw/colled net, er enghraifft pan fydd y gwerthiant yn y dyfodol yn digwydd mewn gwirionedd.

Ar gyfer deilliadau nad ydynt yn gymwys at gyfrifyddu rhagfantoli, trosglwyddir unrhyw enillion neu golledion sy'n codi o newidiadau mewn gwerth teg yn uniongyrchol i'r datganiad incwm yn ystod y cyfnod.

Terfynir cyfrifyddu ar sail rhagfantoli pan fydd yr offeryn rhagfantoli yn dod i ben neu'n cael ei werthu, ei derfynu neu ei arfer, neu pan na fydd yn gymwys mwyach at gyfrifyddu ar sail rhagfantoli. Bryd hynny, cedwir unrhyw elw neu golled gronnol ar yr offeryn rhagfantoli a gydnabyddir mewn ecwiti mewn ecwiti nes bod y trafodyn a ragwelwyd yn digwydd. Os na ddisgwylir i drafodyn a ragfantolwyd ddigwydd mwyach, trosglwyddir yr elw neu'r golled gronnol net a gydnabyddir mewn ecwiti i'r datganiad incwm ar gyfer y flwyddyn.

Yn unol â'r eithriad o dan IFRS 1, paratowyd gwybodaeth gymharol o dan UK GAAP blaenorol (FRS 13) ac nid IAS 32 ac IAS 39. O ganlyniad ni chynhwyswyd asedau a rhwymedigaethau deilliadol yn y fantolen ar 27 Mawrth 2005. Cyflwynir y wybodaeth gymharol yn y datganiadau ariannol yn unol â'r polisi cyfrifyddu a ddilynir o dan UK GAAP fel a ganlyn.

Mae'r Grŵp yn defnyddio blaengontractau arian tramor i leihau'r amlygiad i gyfraddau cyfnewid tramor. Polisi'r Grŵp yw bod ei offerynnau deilliadol yn gymwys at gyfrifyddu ar sail rhagfantoli pan fodlonir y meini prawf canlynol:

- mae'n rhaid i'r offeryn fod yn gysylltiedig ag ased neu rwymedigaeth arian cyfred tramor sy'n debygol ac y mae eu nodweddion wedi'u nodi;
- mae'n rhaid iddo ymwneud â'r un arian cyfred â'r eitem a ragfantolwyd;
- mae'n rhaid iddo leihau'r risg o symudiadau arian cyfred tramor ar weithrediadau'r Grŵp.

Defnyddir y cyfraddau a gontractiwyd i gofnodi'r eitem a ragfantolwyd. O ganlyniad, gwrthbwysir enillion a cholledion yn erbyn enillion neu golledion cyfnewid tramor ar yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol cysylltiedig. Lle defnyddir yr offeryn i ragfantoli trafodyn sy'n ymrwymiad neu'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol, ni chydnabyddir enillion neu golledion nes bod y trafodyn yn digwydd.

Yn ogystal, defnyddir cynnyrch deilliadol dros y cownter i reoli'r risgiau o ran nwyddau neu gyfraddau cyfnewid tramor sy'n gysylltiedig â'r polisi caffael tanwydd. Ceir rhagor o fanylion am offerynnau ariannol yn nodyn 29 i'r cyfrifon.

Benthyciadau sy'n dwyn llog

Cydnabyddir pob benthyciad ar y cychwyn ar werth teg y gydnabyddiaeth a dderbynnir, llai costau dyroddi y gellir eu priodoli'n uniongyrchol.

Ar ôl eu cydnabod ar y cychwyn, caiff benthyciadau sy'n dwyn llog eu mesur wedyn ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Caiff enillion a cholledion eu cydnabod yn y datganiad incwm pan gaiff y rhwymedigaethau eu datgydnabod neu eu lleihau, yn ogystal â thrwy'r broses amorteiddio.

Gwybodaeth gylchrannol

Mae'r Grŵp yn datgelu canlyniadau cylchrannol fel sy'n ofynnol o dan IAS 14 'Gwybodaeth Gylchrannol'. Prif fformat cofnodi'r Grŵp yw drwy gylchrannau busnes a'i ail fformat yw drwy gylchrannau daearyddol. Mae'r cylchrannau gweithredol wedi'u trefnu a'u rheoli ar wahân yn unol â natur y cynnyrch neu'r gwasanaethau a ddarperir, gyda phob cylchran yn cynrychioli uned fusnes strategol sy'n cynnig cynnyrch a gwasanaethau gwahanol ac sy'n gwasanaethu marchnadoedd gwahanol i raddau helaeth.

2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Post Brenhinol yw busnes llythyrau'r Grŵp ac mae'n dosbarthu llythyrau i bob cyfeiriad yn y Deyrnas Gyfunol. Mae Post Brenhinol yn cynnig nifer o gynnyrch i ddefnyddwyr busnes a domestig.

Parcelforce Worldwide yw'r uned fusnes parseli sy'n gweithredu yn y DG.

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn gwmni cyfyngedig sy'n gyfrifol am ganghennau 'cownter' Post Office® y 'Stryd Fawr' sy'n cynnig cyfres o wasanaethau manwerthu i'w gwsmeriaid.

General Logistics Systems yw'r busnes parseli Ewropeaidd, sy'n cynnig ei wasanaethau mewn 34 o wledydd Ewropeaidd drwy ei is-gwmnïau.

Pennir prisiau trosglwyddo rhwng rhannau o'r busnes ar sail taliadau a bennwyd drwy drafodaeth â'r busnesau priodol.

Ni chymhwysir safonau a dehongliadau newydd

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) wedi cyhoeddi'r safonau a'r dehongliadau canlynol gyda dyddiad gweithredol ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl dyddiad y datganiadau ariannol hyn.

Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS/IFRS)	Dyddiad gweithredol
IFRS 1 Diwygiad sy'n berthnasol i IFRS 1	1 Ionawr 2006
IFRS 4 Contractau Yswiriant (Diwygiadau i IAS 39 ac IFRS 4 – Contractau Gwarant Ariannol)	1 Ionawr 2006
IFRS 6 Chwilio am Asedau Mwynol a'u Gwerthuso	1 Ionawr 2006
IFRS 6 Diwygiad sy'n berthnasol i IFRS 6	1 Ionawr 2006
IFRS 7 Offerynnau Ariannol: Datgeliadau	1 Ionawr 2007
IAS 1 Diwygiad – Cyflwyno Datganiadau Ariannol: Datgeliadau Cyfalaf	1 Ionawr 2007
IAS 21 Diwygiad – Effeithiau Newidiadau mewn Cyfraddau Cyfnewid Tramor - buddsoddiad net mewn Gweithrediad Tramor	1 Ionawr 2006
IAS 39 Opsiwn Gwerth Teg	1 Ionawr 2006
IAS 39 Diwygiad i IAS 39 – Trosglwyddo a Chydnabod Asedau Ariannol a Rhwymedigaethau Ariannol ar y Cychwyn (elw Diwrnod 1)	1 Ionawr 2006
IAS 39 Cyfrifyddu ar sail Rhagfantoli Llif Arian Parod	1 Ionawr 2006
IAS 39 Diwygiadau i IAS 39 ac IFRS 4 - Contractau Gwarant Ariannol	1 Ionawr 2006
Pwyllgor Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRIC)	
IFRIC 4 Penderfynu a yw Trefniant yn cynnwys Prydles	1 Ionawr 2006
IFRIC 5 Hawl i Log sy'n codi o Gronfeydd Dadgomisiynu, Adfer ac Adsefydlu Amgylcheddol	1 Ionawr 2006
IFRIC 6 Rhwymedigaethau sy'n codi o Gymryd Rhan mewn Marchnad Benodol - Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff	1 Rhagfyr 2005
IFRIC 7 Cymhwyso'r Dull Ailddatgan o dan IAS 29 Adroddiad Ariannol mewn Economïau lle ceir Gorchwyddiant.	1 Mawrth 2006
IFRIC 8 Cwmpas IFRS 2	1 Mai 2006
IFRIC 9 Ailasesu Deilliadau Mewnol	1 Mehefin 2006

Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn rhagweld y bydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Grŵp yn y cyfnod pan gânt eu cymhwyso'n gychwynnol.

Ar ôl mabwysiadu IFRS 7 'Offerynnau Ariannol: Datgelu', bydd yn rhaid i'r Grŵp ddatgelu gwybodaeth ychwanegol am ei offerynnau ariannol, eu harwyddocâd a natur a graddau'r risgiau sy'n deillio ohonynt. Yn fwy penodol, bydd angen i'r Grŵp ddatgelu gwerth teg ei offerynnau ariannol a'i amlygiad i risg yn fanylach. Ni fydd dim effaith ar incwm neu asedau net a adroddwyd.

3. Gwybodaeth gylchrannol

Mae'r Grŵp yn datgelu ei ganlyniadau cylchrannol yn bum dosbarth o fusnes: Post Brenhinol, Parcelforce Worldwide, Swyddfa'r Post Cyfyngedig, General Logistics Systems a busnesau eraill. Mae'r olaf yn cynnwys dau is-gwmni o dan berchenogaeth lawn - Postcap (Guernsey) Limited a Royal Mail Pensions Trustees Limited, dau is-gwmni o dan berchenogaeth rannol - Romec Limited a NDC 2000 Limited - a buddsoddiadau'r Grŵp yn y cwmnïau cyswllt canlynol - Quadrant Catering Limited, Grŵp Camelot ccc a Gwasanaethau Rhyngwladol Camelot Cyfyngedig.

Dadansoddiad o refeniw cylchrannol yn ôl dosbarth o fusnes ac ardal ddaearyddol ei darddiad.

	Blwyddyn hyd at 26 Mawrth 2006 £m			Blwyddyn hyd at 27 Mawrth 2005 £m		
	Cyfanswm y refeniw	Refeniw rhwng y rhannau	Refeniw y rhannau	Cyfanswm y refeniw	Refeniw rhwng y rhannau	Refeniw y rhannau
Post Brenhinol	6,966	(107)	6,859	6,873	(110)	6,763
Parcelforce Worldwide	319	(5)	314	313	(15)	298
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	1,174	(336)	838	1,287	(311)	976
Busnesau eraill	8	-	8	6	-	6
Cyfanswm gweithrediadau yn y DG	8,467	(448)	8,019	8,479	(436)	8,043
General Logistics Systems (Ewrop yn bennaf)	1,037	-	1,037	913	-	913
Cyfanswm y refeniw o weithrediadau parhaus	9,504	(448)	9,056	9,392	(436)	8,956

Pennir prisiau trosglwyddo rhwng rhannau o'r busnes ar sail taliadau a bennwyd drwy drafodaeth â'r busnesau priodol.

Dadansoddiad o ganlyniad y rhan o'r busnes yn ôl dosbarth o fusnes ac ardal ddaearyddiaeth ei darddiad

	Blwyddyn hyd at 26 Mawrth 2006 £m					
	Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	Llai Cyfran yr elw o gyd-fentrau a chwmnïau cyswllt	Eitemau eithriadol gweithredol	Elw ar waredu eiddo offer a chyfarpar	Elw ar waredu busnesau	Canlyniad y rhannau
Post Brenhinol	344	(1)	(152)	53	6	250
Parcelforce Worldwide	5	-	(2)	-	-	3
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	(111)	(19)	(56)	8	-	(178)
Busnesau eraill	17	(12)	-	-	-	5
Cyfanswm gweithrediadau yn y DG	255	(32)	(210)	61	6	80
General Logistics Systems (Ewrop yn bennaf)	100	-	-	-	-	100
Canlyniad y rhannau o weithrediadau parhaus	355	(32)	(210)	61	6	180

Nid yw'r gyfran o elw o gyd-fentrau a chwmnïau cyswllt £32m (2005 £28m), £101m (2005 £59m), o log pensiynau net, £51m (2005 £58m) o incwm ariannol arall, £52m (2005 £42m) o gostau ariannol a £83m (2005 taliad o £16m) o gredyd trethiant wedi'u cynnwys yng nghanlyniad y rhan o'r busnes, ac os ychwanegir y symiau hyn cysonir â'r 'elw am y flwyddyn ariannol o weithrediadau parhaus' yn y datganiad incwm o £395m (2005 £151).

3. Gwybodaeth gylchrannol (parhad)

Blwyddyn hyd at 27 Mawrth 2005
£m

	Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	Llai cyfran o elw o mentrau ar y cyd a chwmnïau cysylltiedig	Eitemau eithriadol gweithredol	Elw ar waredu eiddo offer a chyfarpar	Llai gwaredu busnesau	Canlyniad y rhannau
Post Brenhinol	343	-	(251)	56	(3)	145
Parcelforce Worldwide	(6)	-	8	-	-	2
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	(123)	(17)	(34)	14	-	(160)
Busnesau eraill	15	(11)	-	-	-	4
Cyfanswm gweithrediadau yn y DG	229	(28)	(277)	70	(3)	(9)
General Logistics Systems (Ewrop yn bennaf)	73	-	-	-	-	73
Canlyniad y rhannau o weithrediadau parhaus	302	(28)	(277)	70	(3)	64

3. Gwybodaeth gylchrannol (parhad)

Dadansoddiad o asedau/(rhwymedigaethau) net yn ôl dosbarth busnes

	Blwyddyn hyd at 26 Mawrth 2006		Blwyddyn hyd at 27 Mawrth 2005	
	Asedau £m	(Rhwymedig-aethau £m	Asedau £m	(Rhwymedig-aethau) £m
Post Brenhinol	2,000	(6,162)	1,943	(5,020)
Parcelforce Worldwide	111	(396)	121	(314)
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	1,179	(957)	1,322	(985)
Busnesau eraill	75	(56)	62	(44)
Cyfanswm gweithrediadau yn y DG	3,365	(7,571)	3,448	(6,363)
General Logistics Systems (Ewrop yn bennaf)	457	(174)	406	(168)
Heb eu dyrannu	1,463	(879)	1,524	(885)
Cyfanswm asedau/(rhwymedigaethau)	5,285	(8,624)	5,378	(7,416)

Efallai y bydd y dadansoddiad uchod yn wahanol i gyfrifon statudol cwmnïau unigol, yn bennaf oherwydd asedau a rhwymedigaethau nas dyrannwyd a'r balansau rhwng cwmnïau nas cynhwyswyd.

Mae £11m (2005 £dim) o 'Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu' wedi'i ddyrannu i Post Brenhinol £8m, (2005 £dim), Swyddfa'r Post Cyfyngedig £2m (2005 £dim), a Parcelforce Worldwide £1m (2005 £dim)

Mae asedau a rhwymedigaethau heb eu dyrannu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

	Blwyddyn hyd at 26 Mawrth 2006		Blwyddyn hyd at 27 Mawrth 2005	
	Asedau heb eu dyrannu £m	(Rhwymedig-aethau) heb eu dyrannu £m	Asedau heb eu dyrannu £m	Rhwymedig-aethau) heb eu dyrannu £m
Arian parod	361	-	484	-
Asedau ariannol - buddsoddiadau	699	-	698	-
Llog derbyniadwy/(taladwy)	7	(1)	8	-
Benthyciadau	-	(865)	-	(879)
Asedau/(rhwymedigaethau) ariannol deilliadol	3	(3)	-	(1)
Treth gyfredol	-	(7)	-	-
Treth ohiriedig	393	(3)	334	(5)
Cyfanswm	1,463	(879)	1,524	(885)

3. Gwybodaeth gylchrannol (parhad)

Gwybodaeth gylchrannol arall

	Blwyddyn hyd at 26 Mawrth 2006			
	Ychwanegiadau		Treuliau nad ydynt yn arian parod	
	Eiddo, offer a chyfarpar £m	Asedau anniriaethol £m	Dibrisiad/ amorteiddio £m	Lleihad mewn gwerth £m
Post Brenhinol	164	27	(148)	(11)
Parcelforce Worldwide	2	-	-	(1)
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	11	15	(1)	(31)
Busnesau eraill	-	-	-	(1)
Cyfanswm gweithrediadau yn y DG	177	42	(149)	(44)
General Logistics Systems (Ewrop yn bennaf)	42	-	(25)	-
Cyfanswm	219	42	(174)	(44)

	Blwyddyn hyd at 27 Mawrth 2005			
	Ychwanegiadau		Treuliau nad ydynt yn arian parod	
	Eiddo, offer a chyfarpar £m	Asedau anniriaethol £m	Dibrisiad/ amorteiddio £m	Lleihad mewn gwerth £m
Post Brenhinol	190	-	(131)	-
Parcelforce Worldwide	4	-	-	(4)
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	8	-	(1)	(19)
Busnesau eraill	-	-	-	-
Cyfanswm gweithrediadau yn y DG	202	-	(132)	(23)
General Logistics Systems (Ewrop yn bennaf)	22	-	(16)	-
Cyfanswm	224	-	(148)	(23)

4. Costau pobl a thaliadau Cyfarwyddwyr

(a) Costau pobl - yn cynnwys taliadau Cyfarwyddwyr (gweler nodyn (b))

	2006 £m	2005 £m
Cyflogau	4,530	4,330
Pensiynau (gweler nodyn 14)	529	489
Nawdd cymdeithasol	326	319
Is-bostfeistri	507	544
Adnodd dros dro	76	157
Cyfanswm	**5,968**	5,839

Nifer y staff, wedi'i gyfrifo y pen, oedd:

	Cyflogeion ar ddiwedd y cyfnod		Nifer y cyflogeion ar gyfartaledd	
	2006	2005	**2006**	2005
Post Brenhinol	**174,202**	176,030	**176,415**	174,431
Parcelforce Worldwide	**4,092**	4,363	**4,183**	4,715
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	**11,327**	12,145	**11,774**	12,510
Busnesau eraill	**3,348**	3,906	**3,588**	4,296
Is-gwmnïau a berchenogir yn gyfan gwbl yn y DG	**192,969**	196,444	**195,960**	195,952
Is-gwmnïau a berchenogir yn rhannol	**4,852**	4,944	**4,854**	4,963
Tramor, gan gynnwys GLS	**11,045**	10,768	**10,671**	10,408
Cyfanswm y Grŵp	**208,866**	212,156	**211,485**	211,323

	2006	2005
Nifer yr is-bostfeistri ar ddiwedd y flwyddyn	**11,608**	12,020

Taliadau Cyfarwyddwyr

	2006 £000	2005 £000
Taliadau Cyfarwyddwyr	**3,683**	4,105
Symiau derbyniadwy o dan Gynlluniau Cymhelliant Hirdymor	**463**	3,832

Nifer y Cyfarwyddwyr sy'n cronni buddiannau o dan gynlluniau buddiant diffiniedig	**4**	5

5. Refeniw a threuliau

Refeniw:

	2006 £m	2005 £m
Refeniw - darparu gwasanaethau	**9,056**	8,956
Incwm cyllid	**152**	117
Cyfanswm y refeniw	**9,208**	9,073

Treuliau:

(a) Elw gweithredol y Grŵp cyn nodi eitemau eithriadol ar ôl codi:

	2006 £m	2005 £m
Taliadau pensiwn:	**529**	489
Arian parod	343	314
Nad ydynt yn arian parod	186	175

5. Refeniw a threuliau (parhad)

	2006 £m	2005 £m
Dibrisiad ac amorteiddiad:	**174**	148
Dibrisiad eiddo, peiriannau ac offer a berchenogir	149	126
Dibrisiad eiddo, safleoedd ac offer o dan brydlesi cyllid a chytundebau hurbwrcas	18	21
Amorteiddio asedau anniriaethol	7	1
Costau dosbarthu a chludo:	**1,218**	1,183
Taliadau prydles weithredol ar gerbydau	66	93
Costau dosbarthu a chludo eraill	1,152	1,090
Costau eiddo, cyfleusterau a chynnal a chadw	**254**	329
Costau cyfrifiaduron a ffonau	**276**	317
Ffioedd ymgynghori, marchnata a chyfreithiol	**174**	186
Gwariant ar ymchwil a datblygu	**1**	1
Taliadau prydles gweithredu ar eiddo, peiriannau ac offer (heb gynnwys cerbydau)	**179**	178
Costau cyrff rheoliadol:	**20**	20
Postcomm	9	10
Golwg ar Bost Cymru	11	10
(b) Costau cyllid	**(52)**	(42)
Llog yn daladwy ar fenthyciadau'r Adran Masnach a Diwydiant	(48)	(36)
Llog arall sy'n daladwy	(4)	(6)
Incwm cyllid	**152**	117
Llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau	48	55
Llog derbyniadwy arall	3	3
Llog pensiynau net (nodyn 14)	101	59

Mae £5m (2005 £6m) wedi'i gynnwys yn yr incwm cyllid yn ymwneud ag incwm ar asedau ar werth teg drwy'r datganiad incwm. Mae'r incwm cyllid sy'n weddill (heb gynnwys llog pensiynau net) o £46m (2005 £52m) yn incwm llog ar asedau ariannol nad ydynt ar werth teg drwy'r datganiad incwm. Mae pob cost cyllid £52m (2005 £42m) ar asedau ariannol nad ydynt ar werth teg drwy'r datganiad incwm.

Cydnabyddiaeth yr archwilwyr

	2006 £'000	2005 £'000
Cydnabyddiaeth yr archwilwyr:		
Archwiliad o ddatganiadau ariannol statudol	**2,026**	1,686
Archwiliad o gyfrifon rheoliadol	**303**	287
Gwasanaethau aswiriant eraill	**787**	570
Gwasanaethau treth	**368**	602
Cyfanswm cydnabyddiaeth yr archwilwyr	**3,484**	3,145

6. Eitemau eithriadol gweithredol

	2006 £m	2005 £m
Eitemau eithriadol gweithredol:		
Cyfran o'r Llwyddiant	(91)	(218)
Darpariaeth ar gyfer ailstrwythuro (nodyn 23)	**(75)**	(36)
Lleihad yng ngwerth eiddo, offer a chyfarpar (nodyn 8)	(17)	(23)
Lleihad yng ngwerth asedau anniriaethol (nodyn 10)	**(15)**	-
Lleihad yng ngwerth ewyllys da sy'n gysylltiedig â chwmnïau cyswllt (nodyn 12)	**(9)**	-
Lleihad yng ngwerth eiddo ar ôl iddo gael ei gategoreiddio'n asedau a ddelir i'w gwerthu nad ydynt yn gyfredol (nodyn 13)	(3)	-
Cyfanswm eitemau eithriadol gweithredol	**(210)**	(277)

Mae'r tâl ailstrwythuro £75m yn ymwneud yn gyfan gwbl â chostau sy'n gysylltiedig â chyflogeion (2005 £34m costau sy'n gysylltiedig â chyflogeion a £2m costau gweithredol eraill yn y drefn honno). O'r achosion uchod o leihad mewn gwerth; mae £31m (2005 £19m) yn ymwneud â Swyddfa'r Post Cyfyngedig (gweler nodyn 3). Oherwydd colledion parhaus, mae gwerth cario asedau a brynwyd gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn ystod y flwyddyn wedi'i leihau i swm adenilladwy. Mae'r lleihad o £9m yng ngwerth ewyllys da sy'n gysylltiedig â chwmnïau cyswllt yn cynnwys £8m ar gyfer G3 Worldwide Mail N.V. (Gwanwyn) a £1m ar gyfer Camelot International Services Limited.

Lansiwyd y cynllun Cyfran o'r Llwyddiant yn ystod 2002. O dan y cynllun, cafodd cyflogeion cymwys daliad dewisol unigol ar ôl i Gynllun Adnewyddu tair blynedd y Grŵp gael ei gwblhau'n llwyddiannus. Codwyd cost y cynllun tair blynedd ar y datganiad incwm yn 2004-05. Lansiwyd ail gynllun Cyfran o'r Llwyddiant yn ystod 2005. Mae cyflogeion ac is-bostfeistri cymwys yn cael taliad dewisol unigol os cyflawnir targed elw penodol.

7. Treth Incwm

Prif elfennau (credyd)/traul treth incwm ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005 yw:

	2006 £m	2005 £m
Treth a godwyd yn y datganiad incwm cyfunol		
Treth incwm gyfredol		
Treth incwm gyfredol a godir yn y DG	**21**	28
Treth dramor	**25**	12
Addasiadau mewn perthynas â threth incwm gyfredol blynyddoedd blaenorol	**(10)**	(20)
Treth incwm ohiriedig		
Yn gysylltiedig â tharddiad a gwrth-droi gwahaniaethau dros dro	**(119)**	(4)
Treth incwm (credyd)/traul a nodwyd yn y datganiad incwm cyfunol	**(83)**	16
Treth a godir ar ecwiti		
Treth incwm sy'n gysylltiedig ag eitemau a godir neu a gredydir yn uniongyrchol ar ecwiti		
Treth incwm gohiriedig sy'n gysylltiedig ag enillion/(colledion) actiwaraidd yn y diffyg pensiwn	**58**	(326)
Rhyddhad treth incwm gyfredol ar gyfer taliad diffyg pensiwn	**(32)**	(41)
Treth incwm a ddebydwyd/(a gredydwyd) a nodwyd mewn ecwiti	**26**	(367)

7. Treth incwm (parhad)

Mae cysoniad rhwng traul treth a lluoswm elw cyfrifyddu wedi'i luosi â chyfradd y DG o Dreth Gorfforaeth ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005 fel a ganlyn:

	2006 £m	2005 £m
Elw cyfrifyddu cyn treth o weithrediadau parhaus	**312**	167
Ar gyfraddau safonol y DG o Dreth Gorfforaeth sef 30%	**93**	50
Cyfraddau treth cyfredol tramor	**8**	4
Treth a orddarparwyd mewn blynyddoedd blaenorol	**(10)**	(21)
Treuliau na ellir eu didynnu	**19**	17
Elw cwmnïau cyswllt ar ôl i'r dreth a godwyd gael ei chynnwys yn elw cyn treth y Grŵp	**(7)**	(7)
Gostyngiad net yn y dreth a godwyd o ganlyniad i gydnabod asedau treth ohiriedig	**(169)**	(5)
Elw o waredu asedau sy'n gymwys i gael rhyddhad	**(17)**	(20)
Arall	**-**	(2)
Ar y gyfradd dreth incwm effeithiol o (27)% (2005: 10%)	**(83)**	16
Treth (a gredydwyd)/a godwyd yn y datganiad incwm	**(83)**	16

Treth ohiriedig sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

	Mantolen		Datganiad incwm	
	2006 £m	2005 £m	2006 £m	2005 £m
Rhwymedigaethau				
Lwfansau cyfalaf cyflymedig	**(3)**	(5)	**2**	(4)
Asedau				
Lwfansau cyfalaf gohiriedig	**36**	-	**36**	-
Darpariaethau	**11**	25	**(14)**	25
Gwahaniaethau dros dro mewn Pensiynau	**317**	282	**93**	(44)
Colledion sydd ar gael i'w gwrthbwyso yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol	**10**	9	**1**	9
Ewyllys da sy'n gymwys o ran lwfansau treth	**19**	18	**1**	18
Asedau treth ohiriedig gros	**393**	334		
Ased treth ohiriedig net	**390**	329		
Datganiad incwm cyfunol			**119**	4

Mae gan y Grŵp asedau treth ohiriedig nad ydynt yn gydnabyddedig o £1,380m (2005 £970m) sy'n gysylltiedig â'r rhwymedigaeth budd-dal ymddeol, £224m (2005 £245m) sy'n ymwneud yn bennaf â gwahaniaethau amseru asedau sefydlog, a £113m (2205 £108m) sy'n ymwneud â cholledion treth mewn is-gwmnïau sydd ar gael i'w gwrthbwyso yn erbyn elw trethadwy yn y dyfodol. Mae gan y Grŵp golledion cyfalaf a gariwyd ymlaen. Eu heffaith dreth yw £12m (2005 £11m). Mae'r Grŵp wedi cario enillion cyfalaf o £83m drosodd (2005 £78m); ni ddisgwylid i rwymedigaeth treth gronni pe bai'r asedau y cariwyd yr enillion ymlaen ynddynt yn cael eu gwerthu am eu pris cario, gan y rhagwelir y byddai colled cyfalaf yn codi.

Ar 26 Mawrth 2006, nid oedd unrhyw rwymedigaeth treth incwm ohiriedig gydnabyddedig neu nad oedd yn gydnabyddedig (2005 £dim) o ran trethi a fyddai'n daladwy ar enillion nas talwyd rhai is-gwmnïau, cwmnïau cyswllt neu gyd-fentrau'r Grŵp gan nad yw'r Grŵp yn agored i drethiant ychwanegol pe bai symiau o'r fath yn cael eu talu gan fod rhyddhad treth dwbl neu eithriadau eraill ar gael.

8. Eiddo, offer a chyfarpar

Cost	Tir ac adeiladau: Rhydd-ddaliad £m	Tir ac adeiladau: Lesddaliad hir £m	Tir ac adeiladau: Lesddaliad byr £m	Offer a pheiriannau £m	Cerbydau Modur £m	Ffitiadau ac offer £m	2006 Cyfanswm £m
Ar 28 Mawrth 2005	1,498	254	476	743	199	798	3,968
Symudiadau cyfnewid	1	-	-	-	-	-	1
Ailddosbarthu	(10)	3	7	-	-	-	-
Ychwanegiadau	62	7	16	54	60	20	219
Gwaredu is-gwmnïau	-	-	-	(1)	-	-	(1)
Gwarediadau	(14)	-	(5)	(2)	(29)	(7)	(57)
Ailddosbarthu asedau a ddelir i'w gwerthu	(47)	(4)	-	-	-	-	(51)
Ar 26 Mawrth 2006	**1,490**	**260**	**494**	**794**	**230**	**811**	**4,079**
Dibrisiad/ Lleihad mewn gwerth							
Ar 28 Mawrth 2005	704	147	220	423	111	772	2,377
Symudiadau cyfnewid	-	-	-	-	-	-	-
Ailddosbarthu	-	-	-	-	-	-	-
Tâl a godwyd am y flwyddyn	42	7	25	51	30	12	167
Lleihad mewn gwerth	6	-	6	-	-	5	17
Gwaredu is-gwmnïau	-	-	-	(1)	-	-	(1)
Gwarediadau	(8)	-	(5)	(2)	(28)	(7)	(50)
Ailddosbarthu asedau a ddelir i'w gwerthu	(21)	(4)	-	-	-	-	(25)
Ar 26 Mawrth 2006	**723**	**150**	**246**	**471**	**113**	**782**	**2,485**
Gwerth llyfr net							
Ar 26 Mawrth 2006	**767**	**110**	**248**	**323**	**117**	**29**	**1,594**
Ar 28 Mawrth 2005	794	107	256	320	88	26	1,591

Datgelir cyfraddau dibrisio yn y polisïau cyfrifyddu. Ni ddarperir dibrisiad ar dir rhydd-ddaliadol sef £131m (2005 £144m) o gyfanswm cost eiddo. Cyfanswm gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar y Grŵp a ddelir o dan gontractau hurbwrcasu a phrydlesi cyllid yw £54m (2005 £72m), oll yn ymwneud ag offer a pheiriannau. Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar y Grŵp yn cynnwys £73m (2005 £128m), mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.

Cost	Tir ac adeiladau: Rhydd-ddaliad £m	Tir ac adeiladau: Lesddaliad hir £m	Tir ac adeiladau: Lesddaliad byr £m	Offer a pheiriannau £m	Cerbydau Modur £m	Ffitiadau a chyfarpar £m	2005 Cyfanswm £m
Ar 29 Mawrth 2004	1,494	246	457	693	190	779	3,859
Symudiadau'r gyfnewidfa	3	-	-	2	-	1	6
Ailddosbarthu	(48)	5	43	-	-	-	-
Ychwanegiadau	84	11	-	47	60	22	224
Caffael is-gwmnïau	7	-	-	3	-	1	11
Gwarediadau	(42)	(8)	(24)	(2)	(51)	(5)	(132)
Ar 27 Mawrth 2005	1,498	254	476	743	199	798	3,968
Dibrisiad a lleihad mewn gwerth							
Ar 29 Mawrth 2004	691	141	203	375	136	763	2,309
Symudiadau cyfnewid	1	-	-	1	-	1	3
Ailddosbarthu	(11)	2	9	-	-	-	-
Tâl a godwyd am y flwyddyn	41	6	26	48	18	8	147
Lleihad mewn gwerth	6	2	7	-	4	4	23
Gwarediadau	(24)	(4)	(25)	(1)	(47)	(4)	(105)
Ar 27 Mawrth 2005	704	147	220	423	111	772	2,377
Gwerth llyfr net							
Ar 27 Mawrth 2005	794	107	256	320	88	26	1,591
Ar 29 Mawrth 2004	803	105	254	318	54	16	1,550

8. Eiddo, offer a chyfarpar (parhad)

Lleihad yng ngwerth eiddo, offer a chyfarpar

Cydnabuwyd lleihad mewn gwerth o £17m fel eitem eithriadol weithredol (nodyn 6) i leihau swm cario rhai pryniannau ased yn ystod y flwydddyn i'w swm adenilladwy. O ran y lleihad mewn gwerth, roedd £15m (2005 £19m) yn ymwneud â Swyddfa'r Post Cyfyngedig (oherwydd ei gweithgareddau a oedd yn gwneud colled), £1m (2005 £4m) yn ymwneud â Parcelforce Worldwide a £1m (2005 £dim) yn ymwneud ag eiddo.

9. Ewyllys da

Cost	2006 £m	2005 £m
Ar 28 Mawrth 2005 a 29 Mawrth 2004	475	479
Symudiad cyfnewid	-	7
Ychwanegiadau	1	22
Gwaredu busnes	-	(33)
Ar 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005	**476**	475
Colledion o ran lleihad		
Ar 28 Mawrth 2005 a 29 Mawrth 2004	344	372
Symudiad cyfnewid	-	5
Gwaredu busnes	-	(33)
Ar 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005	**344**	344
Gwerth llyfr net		
Ar 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005	**132**	131
Ar 28 Mawrth 2005 a 29 Mawrth 2004	131	107

Mae gwerth cario ewyllys da sy'n codi ar gyfuniadau busnes o £132m (2005 £131m) ar ddyddiad y fantolen, yn cynnwys £131m (2005 £130m) sy'n ymwneud â rhan fusnes General Logistics Systems ('GLS'). Yn unol â'r polisi cyfrifyddu (gweler nodyn 2), adolygwyd yr ewyllys da hon ar gyfer lleihad mewn gwerth. Cydnabyddir lleihad mewn gwerth am y swm y mae gwerth cario ased neu uned cynhyrchu arian parod yn fwy na'r swm adenilladwy. Y swm adenilladwy yw'r uchaf o'r gwerth gwireddadwy net a'r gwerth a ddefnyddir. Gwerth cario GLS, ac eithrio asedau a rhwymedigaethau sy'n dwyn llog ac sy'n gysylltiedig â threth, yw £283m ar ddiwedd y flwyddyn (gweler nodyn 3) a'r elw gweithredol cyn eitemau eithriadol yw £100m am y flwyddyn (gweler nodyn 3). Mae'r gwerth cario yn cynrychioli lluosrif o 2.8 ar elw gweithredol cyn eitemau eithriadol. Aseswyd gwerth gwireddadwy net GLS, at ddibenion yr adolygiad lleihad (h.y. 'gwerth teg llai costau i'w gwerthu') gan gyfeirio at luosogion enillion ar gyfer endidau a ddyfynnwyd mewn sector tebyg. Ar y sail hon, aseswyd bod gwerth gwireddadwy net GLS yn fwy na'r gwerth cario. Ni fyddai unrhyw newid posibl rhesymol yn y lluosrifau enillion y cyfeiriwyd atynt yn lleihau'r gwerth gwireddadwy net islaw'r gwerth cario.

O 29 Mawrth 2004, sef y dyddiad y trosglwyddwyd i IFRS, nid yw ewyllys da yn cael ei hamorteiddio mwyach ond cynhelir adolygiadau blynyddol o leihad yng ngwerth ewyllys da.

10. Asedau anniriaethol

	2006				2005			
Cost	**Trwyddedau prif fasnach-freintiau £m**	**Rhestri-adau Cwsmer-iaid £m**	**Trwydd-edau meddal-wedd £m**	**Cyfanswm £m**	Trwyddedau prif fasnach-freintiau £m	Rhestri-adau Cwsmer-iaid £m	Trwydd-edau meddal-wedd £m	Cyfanswm £m
Ar 28 Mawrth 2005 a 29 Mawrth 2004	**19**	6	**-**	**25**	19	-	-	19
Ychwanegiadau	**-**	-	**42**	**42**	-	-	-	-
Caffael is-gwmnïau	**-**	1	**-**	**1**	-	6	-	6
Ar 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005	**19**	**7**	**42**	**68**	19	6	-	25
Amorteiddio								
Ar 28 Mawrth 2005 a 29 Mawrth 2004	**4**	-	**-**	**4**	3	-	-	3
Lleihad mewn gwerth	**-**	-	**15**	**15**	-	-	-	-
Amorteiddio	**4**	3	**-**	**7**	1	-	-	1
Ar 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005	**8**	**3**	**15**	**26**	4	-	-	4
Gwerth llyfr net Ar 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005	**11**	**4**	**27**	**42**	15	6	-	21
Ar 28 Mawrth 2005 a 29 Mawrth 2004	**15**	6	**-**	**21**	16	-	-	16

Nid oes gan yr asedau anniriaethol a gydnabuwyd ym mantolen y Grŵp fywydau amhenodol.

Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol ar 26 Mawrth 2006 yn cynnwys:

- £11m o drwyddedau prif fasnachfreintiau. Nodir y rhain ar sail llinell syth dros eu bywyd economaidd sy'n weddill sef rhwng 2 a 5 mlynedd;
- £4m o restriadau cwsmeriaid. Nodir y rhain ar sail llinell syth dros eu bywyd economaidd sy'n weddill sef rhwng 1 a 4 blynedd;
- £27m o gostau meddalwedd. Mae'r rhain yn cael eu nodi ar sail llinell syth dros eu bywyd economaidd sy'n weddill sef rhwng 1 a 5 mlynedd.

Mae'r tâl amorteiddio o £7m yn ymwneud ag asedau anniriaethol yn cael ei gyfuno â 'costau gweithredu eraill' yn y datganiad incwm a'i ddatgelu yn nodyn 5 i'r cyfrifon.

11. Cyfuniadau busnes

Defnyddiwyd y dull caffael o gyfrifyddu. Ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau perthnasol yn ystod y flwyddyn ac felly mae'r datgeliadau wedi'u gwneud ar sail gyfunol.

Noda'r tabl canlynol yr asedau a'r rhwymedigaethau adnabyddadwy a gaffaelwyd am eu gwerth teg dros dro i'r Grŵp, a oedd yn gyson â'u gwerth llyfr.

	2006 £m	2005 £m
Eiddo, offer a chyfarpar	-	11
Asedau cyfredol		
Dyledwyr	-	37
Arian parod a banc	-	6
Cyfanswm yr asedau	-	54
Rhwymedigaethau		
Credydwyr masnach	-	(40)
Asedau net a gaffaelwyd	-	14
Budd lleiafrifol	-	(4)
Gwerth cario buddsoddiad mewn cyd-fentrau/cwmnïau cyswllt ar ddyddiad y newid mewn statws i fusnes is-gwmni.	-	(10)
Asedau anniriaethol sy'n codi ar adeg caffael	1	6
Ewyllys da sy'n codi ar adeg caffael	1	22
Swm cario'r buddsoddiad	2	28
Rhyddhawyd drwy:		
Cydnabyddiaeth bwrcasu a dalwyd yn ystod y flwyddyn	1	4
Cydnabyddiaeth bwrcasu ohiriedig	1	24
Cydnabyddiaeth gwerth teg	2	28

Pennwyd gwerthoedd teg ar gyfer yr asedau a'r rhwymedigaethau adnabyddadwy a gaffaelwyd, fel y nodwyd uchod. Mae'r caffaeliadau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys £1m mewn perthynas â'r 9% o gyfranddaliadau sy'n weddill o GLS Stafetten A/S (gan roi perchenogaeth lawn i'r Grŵp) ym mis Ebrill 2005 a £1m mewn perthynas â rhestriadau cwsmeriaid ar gyfer GLS Italy ym mis Rhagfyr 2005. Nid yw'r elw a gynhyrchwyd drwy'r caffaeliadau hyn yn berthnasol ar gyfer 2005-06.

Mae caffaeliadau'r flwyddyn flaenorol yn ymwneud â GLS Poland £20m, a chaffael busnesau drwy fasnachfraint yn GLS Italy, sef DGE Vicenza £5m a DGE Firenze £3m.

12. Buddsoddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt drwy ddefnyddio'r dull ecwiti

	2006 £m	2005 £m
Buddsoddiadau mewn cwmnïau cyswllt	72	90
Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau	52	41
Buddsoddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt drwy ddefnyddio'r dull ecwiti	124	131

Buddsoddiadau mewn cwmnïau cyswllt

	Ar 28 Mawrth 2005 £m	Lleihad mewn gwerth £m	Cyfran o elw cyn difidend ar ôl treth o gwmnïau cyswllt £m	Difidendau £m	Ar 26 Mawrth 2006 £m
Cyfran o asedau net mewn cwmnïau cyswllt	65	-	4	(13)	56
Ewyllys da sy'n gysylltiedig â chwmnïau cyswllt	25	(9)	-	-	16
Buddsoddiadau net mewn cwmnïau cyswllt	90	(9)	4	(13)	72

Yn ystod y flwyddyn lleihawyd gwerth o £9m, o ran ewyllys da mewn perthynas â G3 Worldwide Mail N.V. (Spring) £8m, a Camelot International Services Limited (CISL) o £1m, ac fe'u cydnabuwyd fel eitemau eithriadol gweithredol (nodyn 6).

12. Buddsoddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt drwy ddefnyddio'r dull ecwiti (parhad)

	Ar 29 Mawrth 2004 £m	Ailddosbarthu £m	Cyfran o elw cyn difidend ar ôl treth o gwmnïau cyswllt £m	Difidendau £m	Ar 27 Mawrth 2005 £m
Cyfran o asedau net mewn cwmnïau cyswllt	32	38	4	(9)	65
Ewyllys da sy'n gysylltiedig â chwmnïau cyswllt	25	-	-	-	25
Buddsoddiadau net mewn cwmnïau cyswllt	57	38	4	(9)	90

	2006 £m	2005 £m
Asedau cyfredol	116	118
Asedau nad ydynt yn gyfredol	33	37
Cyfran o asedau gros	149	155
Rhwymedigaethau cyfredol	(92)	(87)
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol	(1)	(3)
Cyfran o rwymedigaethau gros	(93)	(90)
Cyfran o asedau net cwmnïau cyswllt	56	65
Cyfran o refeniw ac elw cwmnïau cyswllt:		
Refeniw	1,084	1,032
Elw ar ôl treth	4	4

Dyma fanylion buddsoddiadau prif gwmnïau cyswllt y Grŵp ar gyfer 2005-06 a 2004-05 a'u dyddiadau adrodd:

Cwmni	Dyddiad adrodd	Cyfran y cyfranddaliadau a ddelir	Gwlad corffori
Quadrant Catering Limited	30 Medi 2005	51%	DG
Grŵp Camelot ccc	31 Mawrth 2006	20%	DG
Camelot International Services Limited	31 Mawrth 2006	20%	DG
G3 Worldwide Mail N.V. (Gwanwyn)	31 Rhagfyr 2005	24.5%	Yr Iseldiroedd
Midasgrange Limited	31 Mawrth 2006	50%	DG

Mae'r Grŵp wedi rhoi cyfrif am ei gyfran o elw gweithredol cwmnïau cyswllt ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2005-06 a 2004-05 gan ddefnyddio'r dull ecwiti ac mae wedi cynnwys amcangyfrifon o elw gweithredol Quadrant Catering Limited a G3 Worldwide Mail N.V. (Gwanwyn), o'u dyddiad adrodd i fis Mawrth 2006 a Mawrth 2005 yn y drefn honno, er mwyn sicrhau bod y gyfran o elw gan gwmnïau cyswllt a nodwyd yn gyson â blwyddyn ariannol y Grŵp.

Mae'r symiau a ddangosir yn y golofn ailddosbarthu ar gyfer 2004-05 yn ymwneud â'r canlynol:

- newid statws Midasgrange Limited yn ystod y flwyddyn, o fod yn gyd-fenter i fod yn gwmni cyswllt yn y Grŵp;

- newid statws GLS Poland a NDC 2000 LImited yn ystod y flwyddyn o fod yn gwmnïau cyswllt i fod yn is-gwmnïau yn y Grŵp.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau pwysig ar allu cwmnïau cysylltiedig i drosglwyddo cronfeydd i'r Grŵp ar ffurf difidendau arian parod, ad-daliadau o fenthyciadau neu flaensymiau.

12. Buddsoddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt drwy ddefnyddio'r dull ecwiti (parhad)

(b) Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau

	Ar 28 Mawrth 2005 £m	**Ailddosbarthu £m**	**Cyfran o elw cyn difidend ar ôl treth o gyd-fentrau £m**	**Difidend £m**	**Ar 26 Mawrth 2006 £m**
Cyfran o asedau net mewn cyd-fentrau	40	-	28	(17)	51
Ewyllys da sy'n gysylltiedig â chyd-fentrau	1	-	-	-	1
Buddsoddiadau net mewn cyd-fentrau	41	-	28	(17)	52

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2005-06, yr unig fuddsoddiad mewn cyd-fenter gan y Grŵp yw buddiant 50% mewn First Rate Exchange Services Holdings Limited (First Rate Travel Services Holdings Limited gynt), y mae ei brif weithgarwch yn ymwneud â darparu Bureau de Change. Rhoddodd y Grŵp gyfrif am y buddsoddiad hwn drwy ddefnyddio'r dull ecwiti.

	Ar 29 Mawrth 2004 £m	Ailddosbarthu £m	Cyfran o elw cyn difidend ar ôl treth o gyd-fentrau £m	Difidend £m	Ar 27 Mawrth 2005 £m
Cyfran o asedau net mewn cyd-fentrau	73	(47)	24	(10)	40
Ewyllys da sy'n gysylltiedig â chyd-fentrau	2	(1)	-	-	1
Buddsoddiadau net mewn cyd-fentrau	75	(48)	24	(10)	41

Cyfran o asedau a rhwymedigaethau cyd-fentrau	**2006 £m**	2005 £m
Asedau cyfredol	162	101
Asedau nad ydynt yn gyfredol	2	2
Cyfran o asedau gros	164	103
Rhwymedigaethau cyfredol	(113)	(63)
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol	-	-
Cyfran o rwymedigaethau gros	(113)	(63)
Cyfran o asedau net cyd-fentrau	51	40
Cyfran o refeniw ac elw cyd-fentrau		
Refeniw	55	124
Elw ar ôl treth	28	24

12. Buddsoddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt drwy ddefnyddio'r dull ecwiti (parhad)

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2004-05 daliodd y Grŵp fuddsoddiadau mewn tair cyd-fenter sef:

Cwmni	Dyddiad adrodd	Cyfran y cyfranddaliadau a ddelir	Gwlad corffori
First Rate Exchange Services Holdings Limited	31 Mawrth 2006	50%	DG
Midasgrange Limited	31 Mawrth 2006	50%	DG
Romec Limited	31 Rhagfyr 2005	51%	DG

Rhoddodd y Grŵp gyfrif am y buddsoddiadau hyn drwy ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae'r symiau a ddangosir yn y golofn ailddosbarthu yn 2004-05 yn ymwneud â'r newid yn statws Midasgrange Limited o fod yn gyd-fenter i fod yn gwmni cyswllt a Romec Limited o fod yn gyd-fenter i fod yn is-gwmni.

13. Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu

Swm llyfr net	Rhydd-ddaliad £m	Lesddaliad hir £m	Cyfanswm £m
Ar 28 Mawrth 2005	-	-	-
Ailddosbarthu o eiddo, offer a chyfarpar	26	-	26
Lleihad mewn gwerth	(3)	-	(3)
Gwarediadau	(12)	-	(12)
Ar 26 Mawrth 2006	**11**	**-**	**11**

Dosberthir eiddo rhydd-ddaliadol a lesddaliadol sy'n cael eu marchnata ac sy'n gwbl wag (gan ddangos bod gwerthiant yn debygol iawn a bod yr eiddo ar gael i'w werthu ar unwaith), yn 'asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu' ar y sail mai drwy eu gwerthu ac nid drwy feddiannaeth y mae eu prif ddull adfer. Disgwylir gwaredu eiddo o'r fath o ganlyniad i benderfyniad y Grŵp i barhau i ad-drefnu ei bortffolio a gwaredu eiddo dros ben. Disgwylir gwaredu'r eiddo hwn o fewn blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, cydnabuwyd elw o £20m (2005 £dim) yn y datganiad incwm mewn perthynas â gwaredu eiddo o'r fath.

Mae unrhyw leihad mewn gwerth o ganlyniad i ailasesu gwerth cario eiddo ar ôl iddo gael ei ailddosbarthu'n 'asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu'. Yn ystod y flwyddyn, cydnabuwyd lleihad mewn gwerth o £3m fel eitem eithriadol weithredol (nodyn 6).

Dyrannwyd eiddo a ddelir fel 'asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu' i Post Brenhinol, Swyddfa'r Post Cyfyngedig a Parcelforce Worldwide at ddibenion adroddiadau cylchrannol.

14. Buddiannau i gyflogeion – pensiynau

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynlluniau pensiwn fel y nodir isod.

Enw	Cymhwyster	Math
Cynllun Pensiwn Post Brenhinol (RMPP)	Nifer y cyflogeion yn y DG	Buddiant diffiniedig
Cynllun Pensiwn Post Brenhinol i Uwch Weithredwyr (RMSEPP)	Uwch weithredwyr y DG	Buddiant diffiniedig
Cynllun Cynilion Ymddeol Post Brenhinol (RMRSP)	Nifer y cyflogeion yn y DG	Cyfraniad diffiniedig
Cynlluniau bach amrywiol eraill a weithredir gan is-gwmnïau tramor	Cyflogeion is-gwmnïau tramor	Cyfraniad diffiniedig

Cyfraniad diffiniedig
Cydnabuwyd tâl am y cynlluniau cyfraniad diffiniedig o £2m (2005 £1m) yn yr elw gweithredol cyn eitemau eithriadol yn y datganiad incwm. Cyfrannodd y Cwmni gyfanswm o £1m i'r cynlluniau hyn (2005 £1m).

Buddiant diffiniedig
Ariennir RMPP a RMSEPP drwy dalu cyfraniadau i gronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Cynhaliwyd y prisiadau llawn diweddaraf gan actiwarïaid ar 31 Mawrth 2003 gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Bwriedir cynnal y prisiadau llawn nesaf ar 31 Mawrth 2006.

Disgwylir i'r cyfraniadau gwasanaeth rheolaidd yn y dyfodol ar gyfer RMPP, a fynegwyd fel canran o gyflog pensiynadwy, gynyddu o 12.6% i 20%. Ar gyfer RMSEPP, gwneir cyfraniadau am 20.9% a bydd cyfraddau yn y dyfodol yn cael eu trafod gyda'r Ymddiriedolwr yn ystod prisiad yr actiwarïaid yn 2006. Gwnaed taliad o £113m (2005 £138m) yn ystod y flwyddyn i ariannu'r diffyg yn y cynlluniau. Rhagwelir y caiff taliadau pellach o'r fath eu gwneud yn y dyfodol yn ôl yr angen. Cydnabuwyd rhwymedigaeth gyfredol o £47m (2005 £208m) ar gyfer taliadau i'r cynlluniau pensiwn yn ymwneud â cholli swyddi. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed taliadau o £209m (200
5 £5m) yn ymwneud â cholli swyddi.

Mae'r datgeliadau canlynol yn ymwneud â chynlluniau buddiant diffiniedig RMPP a RMSEPP:

a) Tybiaethau pwysig

Mae maint y diffyg pensiwn, sy'n fawr yng nghyd-destun y Grŵp a'i gyllid, yn berthnasol sensitif i'r tybiaethau a fabwysiedir. Gallai newidiadau bach yn y tybiaethau hyn gael effaith fawr ar y diffyg a'r tâl cyffredinol a godir ar y datganiad incwm. Y prif dybiaethau oedd:

	Ar 26 Mawrth 2006 % yf	Ar 27 Mawrth 2005 % yf
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	**3.8**	4.2
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau a phensiynau gohiriedig	**2.8**	2.7
Cyfradd ddisgownt	**4.9**	5.5
Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant	**2.8**	2.7
Cyfradd elw gyfartalog ddisgwyliedig ar asedau	**7.1**	7.4

Marwolaethau
Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r Grŵp ac Ymddiriedolwr RMPP wedi trafod newidiadau posibl i'r tybiaethau ynglŷn â marwolaeth i'w mabwysiadau ar gyfer prisiad 2006 yr actiwarïaid. Roedd y trafodaethau hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad a wnaed gan yr Ymddiriedolwr o brofiad pensiynwyr y cynllun hyd at 31 Mawrth 2005. Mae'r Ymddiriedolwr wedi cynnig sylfaen marwolaeth benodol – yn seiliedig ar dablau marwolaethau cyfres 1992 sy'n caniatáu ar gyfer rhagamcanion 'carfan ganolig' o welliannau yn y dyfodol – ac mae hyn wedi'i gymhwyso at RMPP ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol. Er cysondeb, tybiwyd yr un gwelliant ar gyfer RMSEPP. Mae hyn yn wahanol i'r flwyddyn flaenorol, pan ddefnyddiwyd tybiaethau a oedd yn gyson â'r prisiadau llawn diweddaraf gan yr actiwarïaid. Dengys y tabl isod sut y mae'r tybiaethau hyn wedi newid.

Disgwyliad oes cyfartalog o 60 oed:	2006	2005
Ar gyfer gwryw 60 oed sy'n aelod cyfredol o RMPP	**26 blynedd**	22 flynedd
Ar gyfer benyw 60 oed sy'n aelod cyfredol o RMPP	**29 mlynedd**	25 mlynedd
Ar gyfer gwryw 40 oed sy'n aelod cyfredol o RMPP	**28 mlynedd**	24 blynedd
Ar gyfer benyw 40 oed sy'n aelod cyfredol o RMPP	**30 mlynedd**	27 mlynedd

14. Buddiannau i gyflogeion – pensiynau (parhad)

b) Asedau a chyfraddau elw disgwyliedig cynlluniau

Roedd yr asedau yn y cynlluniau a'r cyfraddau elw disgwyliedig fel a ganlyn:

Ar 26 Mawrth 2006

	Gwerth ar y farchnad £m	Cyfradd elw ddisgwyliedig yn yr hirdymor % yf
Ecwitïau	17,190	7.7
Bondiau	2,682	4.2
Eiddo	1,835	5.9
Asedau eraill	140	3.8
Gwerth teg asedau cynlluniau	21,847	
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau cynlluniau	(27,435)	
Diffyg mewn cynlluniau	**(5,588)**	

Ar 27 Mawrth 2005

	Gwerth ar y farchnad £m	Cyfradd elw ddisgwyliedig yn yr hirdymor % yf
Ecwitïau	13,376	8.0
Bondiau	2,006	4.8
Eiddo	1,639	6.4
Asedau eraill	336	3.7
Gwerth teg asedau cynlluniau	17,357	
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau cynlluniau	(21,315)	
Diffyg mewn cynlluniau	(3,958)	

Nid yw'r cynlluniau pensiwn wedi buddsoddi yn unrhyw un o offerynnau ariannol y Grŵp ei hun nac mewn eiddo nac mewn asedau eraill a ddefnyddir gan y Grŵp.

14. Buddiannau i gyflogeion - pensiynau (parhad)

c) Taliadau cydnabyddedig

Mae dadansoddiad o'r rhannau gwahanol o'r symiau a gydnabuwyd yn y datganiad incwm a'r datganiad o incwm a threuliau cydnabyddedig (SORIE) fel a ganlyn:

	2006 £m	2005 £m
Dadansoddiad o symiau a gydnabuwyd yn y datganiad incwm		
Dadansoddiad o symiau a godwyd ar elw gweithredol cyn eitemau eithriadol:		
Cost gyfredol gwasanaethau	**527**	482
Colled oherwydd setliadau	**-**	6
Cyfanswm y tâl a godir ar elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	**527**	488
Dadansoddiad o symiau a godwyd ar eitemau eithriadol gweithredol:		
Colled oherwydd cwtogiadau	**24**	22
Cyfanswm y tâl a godir ar elw gweithredol	**551**	510
Dadansoddiad o symiau a godir ar/(credydir i) incwm cyllid.		
Llog ar rwymedigaethau cynlluniau	**1,162**	1,068
Adenillion disgwyliedig ar asedau cynlluniau	**(1,263)**	(1,127)
Cyfanswm credyd net i incwm cyllid	**(101)**	(59)
Cyfanswm y tâl a godir ar y datganiad incwm cyn didynnu treth	**450**	451
Dadansoddiad o symiau a gydnabuwyd yn y datganiad o incwm a threuliau cydnabyddedig (SORIE)		
Elw gwirioneddol ar asedau cynlluniau	**4,684**	2,170
Llai: elw disgwyliedig ar asedau cynlluniau	**(1,263)**	(1,127)
	3,421	1,043
Colledion actiwaraidd eraill	**(5,080)**	(632)
(Colledion)/enillion actiwaraidd ac a gydnabuwyd yn SORIE cyn didynnu treth	**(1,659)**	411

14. Buddiannau i gyflogeion – pensiynau (parhad)

d) Symudiadau yn asedau a rhwymedigaethau cynlluniau

Dadansoddir newidiadau yng ngwerth presennol y rhwymedigaethau pensiwn buddiant diffiniedig fel a ganlyn:

	2006 £m	2005 £m
Rhwymedigaethau cynlluniau ar ddechrau'r cyfnod	**(21,315)**	(19,594)
Cost gyfredol gwasanaethau	**(527)**	(482)
Setliadau	**-**	(76)
Costau cwtogi*	**(48)**	(208)
Cost cyllid	**(1,162)**	(1,068)
Cyfraniadau cyflogeion	**(162)**	(151)
Colled actiwaraidd (a gydnabuwyd yn SORIE)	**(5,080)**	(632)
Buddiannau a dalwyd	**859**	896
Rhwymedigaethau cynlluniau ar ddiwedd y cyfnod	**(27,435)**	(21,315)

*Cydnabyddir y costau cwtogi yn y datganiad incwm yn gyson gyda'r costau iawndal cysylltiedig. Mae amcangyfrifon o'r ddau wedi'u cynnwys, er enghraifft, mewn unrhyw ddarpariaeth ar gyfer colli swyddi a godwyd. Y costau cwtogi uchod yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r bobl hynny y talwyd iawndal iddynt mewn perthynas â cholli swydd yn 2005-06. Gallai hyn ddigwydd mewn cyfnod cyfrifyddu ar ôl cydnabod costau yn y datganiad incwm.

Dadansoddir newidiadau yng ngwerth teg asedau cynlluniau fel a ganlyn:

	2006 £m	2005 £m
Asedau cynlluniau ar ddechrau'r cyfnod	**17,357**	15,200
Cyfraniadau a dalwyd gan y Cwmni	**664**	329
Symudiad yng nghyfraniadau'r cwmni a gronnwyd	**(161)**	343
Cyfraniadau cyflogeion	**162**	151
Incwm cyllid	**1,263**	1,127
Setliadau	**-**	60
Cynnydd actiwaraidd (a gydnabuwyd yn SORIE)	**3,421**	1,043
Buddiannau a dalwyd	**(859)**	(896)
Asedau cynlluniau ar ddiwedd y cyfnod	**21,847**	17,357

e) Hanes profiad enillion a cholledion

	2006 £m	2005 £m	2004 £m
Gwerth teg asedau	**21,847**	17,357	15,200
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau	**(27,435)**	(21,315)	(19,594)
Diffyg mewn cynlluniau	**(5,588)**	(3,958)	(4,394)

	2006	2005
Cynnydd actiwaraidd sy'n codi ar asedau	**3,421**	1,043
Colledion actiwaraidd sy'n codi ar rwymedigaethau	**(5,080)**	(632)
Cyfanswm enillion a cholledion actiwaraidd (a gydnabuwyd yn SORIE)	**(1,659)**	411

Y swm cronnol o enillion a cholledion actiwaraidd a gydnabuwyd ers newid i IFRS ar 29 Mawrth 2004 yn y datganiad o incwm a threuliau cydnabyddedig yw colled o £1,248m (2005 cynnydd o £411m). Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn gallu pennu faint o'r diffyg yn y cynlluniau pensiwn a gydnabuwyd wrth newid i IFRS y gellir ei briodoli i enillion a cholledion actiwaraidd ers dechrau'r cynlluniau pensiwn. O ganlyniad, nid yw'r Cyfarwyddwyr yn gallu pennu swm cronnol enillion a cholledion actiwaraidd a fyddai wedi'u cydnabod yn y datganiad o incwm a threuliau cydnabyddedig ers dechrau'r cynlluniau pensiwn, cyn newid i IFRS.

15. Buddiannau i gyflogeion - gwyliau blynyddol

O dan IAS 19 'Buddiannau i Gyflogeion' mae'n ofynnol i fusnesau gydnabod ar gyfer pob achos o gronni byrdymor absenoldebau y telir amdanynt megis gwyliau a enillwyd ond nas cymerwyd erbyn dyddiad y fantolen. Mae'r hawl i wyliau yn y busnes yn cyd-redeg â'r flwyddyn ariannol. Caniateir i gyflogeion gario gwyliau nas cymerwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn os cymeradwyir hyn gan y busnes. Effaith y darpariaethau hyn yn IAS 19 ar ddatganiadau ariannol y Grŵp yw cydnabod croniad o wyliau blynyddol yn y fantolen ar 26 Mawrth 2006 o £39m (2005 £42m) ac adlewyrchu rhyddhad i'r datganiad incwm mewn perthynas â symudiad o flwyddyn i flwyddyn o £3m (2005 taliad o £2m).

16. Stocrestrau

	2006 £m	2005 £m
Cyflenwadau (dillad gwaith, tanwydd, argraffu ac offer swyddfa, bagiau post)	**16**	15
Nwyddau (cynnyrch manwerthu a loteri Swyddfa'r Post Cyfyngedig)	**10**	8
Defnyddiau (rhannau peirianegol)	**1**	4
Cyfanswm Stocrestrau ar yr isaf o gost a gwerth gwireddadwy net	**27**	27

Yn ystod y flwyddyn dilëwyd eitemau stocrestr gwerth £dim (2005 £1m).

17. Masnach gyfredol a symiau derbyniadwy eraill

	2006 £m	2005 £m
Symiau masnach derbyniadwy (llai darpariaeth ar gyfer drwgddyled o £24m (2005 £30m))	**836**	737
Rhagdaliadau ac incwm cronedig arall	**257**	354
Cyfanswm	**1,093**	1,091

Gellir dod o hyd i fanylion am drafodion â phartïon cysylltiedig yn nodyn 27.

18. Symiau derbyniadwy eraill nad ydynt yn gyfredol

Y symiau derbyniadwy eraill nad ydynt yn gyfredol sef £6m (2005 £14m) yw symiau yn bennaf a dderbyniwyd gan gyflogeion mewn perthynas â menter y 'cyfrifiadur yn y cartref' a lansiwyd yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2003.

19. Arian parod ac arian parod cyfatebol

	2006 £m	2005 £m
Arian parod o fewn rhwydwaith Swyddfa'r Post®	**782**	849
Arian parod arall mewn llaw	**18**	7
Arian parod yn y banc	**29**	34
Adneuon byrdymor	**332**	450
Cyfanswm	**1,161**	1,340

Nid yw'r arian parod yn rhwydwaith Swyddfa'r Post® ac mewn llaw sef £800m (2005 £865m) yn dwyn llog. Mae'r arian parod yn y banc sef £29m (2005 £34m) yn ennill llog ar gyfraddau cyfnewidiol neu sefydlog byrdymor yn seiliedig ar gyfraddau adneuo dyddiol y banc. Gwneir adneuon byrdymor am gyfnodau amrywiol o rhwng diwrnod a thri mis yn dibynnu ar ofynion arian parod y Grŵp ar y pryd ac maent yn ennill llog ar y cyfraddau adneuo byrdymor priodol. Gwerth teg adneuon arian parod byrdymor a buddsoddiadau mewn asedau sy'n cyfateb i arian parod yw £1,161m (2005 £1,340m). Ar 26 Mawrth 2006, roedd £1,634m (2005 £1,634m) o gyfleusterau benthyca ymrwymedig nas hawliwyd ar gael i'r Grŵp a bodlonwyd pob amod blaenorol mewn perthynas â hwy. Ceir manylion y rhain yn nodyn 22.

20. Cyfalaf cyfranddaliadau

Awdurdodedig	2006 £	2005 £
Cyfranddaliadau cyffredin o £1 yr un	**100,000**	100,000
Cyfranddaliad Braint Adbryn Hawliau Arbennig (Cyfranddaliad Arbennig) o £1 yr un	**1**	1
Cyfanswm	**100,001**	100,001

Dyrannwyd a hawliwyd	2006 £	2005 £
Cyfranddaliadau cyffredin o £1 yr un	**50,000**	50,000
Cyfranddaliad Braint Adbryn Hawliau Arbennig (Cyfranddaliad Arbennig) o £1 yr un	**1**	1
Cyfanswm	**50,001**	50,001

Gall y Cyfranddaliad Arbennig gael ei adbrynu unrhyw bryd gan ei ddeiliad (yr Ysgrifennydd Gwladol). Ni all y Cwmni adbrynu'r Cyfranddaliad Arbennig heb ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol ymlaen llaw. Nid oes premiwm yn daladwy wrth adbrynu. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Gwasanaethau Post 2000 ac yn unol â hwy, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ar unrhyw bryd ofyn i'r Cyfarwyddwyr ddatgan a thalu difidend i'r Ysgrifennydd Gwladol neu ei enwebai.

Wrth ddosbarthu ar adeg dirwyn Cwmni i ben, mae hawl gan yr Ysgrifennydd Gwladol i fynnu i'r cyfalaf ar y Cyfranddaliad Arbennig gael ei ad-dalu cyn i unrhyw gyfalaf gael ei ad-dalu i unrhyw aelod arall. Nid yw'r Cyfranddaliad Arbennig yn dwyn unrhyw hawl i bleidleisio.

Yn unol ag adran 63(7) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000, at ddibenion Deddf y Cwmnïau 1985, bydd y cyfranddaliadau a ddyroddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn cael eu trin fel pe bai eu gwerth nominal wedi'i dalu'n llawn.

21. Cyfanswm yr ecwiti

	Cronfeydd wrth gefn y gellir eu dosbarthu								
	Enillion argadwedig £m	Post £m	Rhwyd-waith Gwledig £m	Cronfa wrth gefn Trosi Arian Cyfred Tramor £m	Cronfa rag-fantoli wrth gefn £m	Cronfeydd wrth gefn eraill £m	Deiliad ecwiti'r rhiant-gwmni £m	Budd lleiafrifol £m	Cyfanswm ecwiti £m
Ar 28 Mawrth 2005	(3,085)	801	171	8	-	63	(2,042)	4	(2,038)
Ailddatganiad ar gyfer effaith IAS 32 ac IAS 39 ar 28 Mawrth 2005	(11)	-	-	-	8	-	(3)	-	(3)
Balans wedi'i ailddatgan ar 28 Mawrth 2005	(3,096)	801	171	8	8	63	(2,045)	4	(2,041)
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	395	-	-	-	-	-	395	-	395
Colledion actiwaraidd ar gynlluniau buddiant diffiniedig	(1,659)	-	-	-	-	-	(1,659)	-	(1,659)
Trethiant ar eitemau yr aethpwyd â hwy yn uniongyrchol i ecwiti	(26)	-	-	-	-	-	(26)	-	(26)
Trosglwyddo cronfa wrth gefn y Rhwydwaith Gwledig	147	-	(147)	-	-	-	-	-	-
Trosglwyddo incwm llog	(39)	35	4	-	-	-	-	-	-
Gwahaniaethau trosi	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Enillion ar lifau arian parod a ragfantolir yr aethpwyd â hwy i ecwiti	-	-	-	-	3	-	3	-	3
Enillion a drosglwyddwyd o ecwiti i incwm yn ystod y flwyddyn	-	-	-	-	(10)	-	(10)	-	(10)
Enillion a drosglwyddwyd o ecwiti i werth cario cychwynnol ased nad yw'n ased ariannol	-	-	-	-	(1)	-	(1)	-	(1)
Trosglwyddo enillion heb eu gwireddu	8	-	-	-	-	(8)	-	-	-
Ar 26 Mawrth 2006	**(4,270)**	**836**	**28**	**8**	**-**	**55**	**(3,343)**	**4**	**(3,339)**

	Cronfeydd wrth gefn y gellir eu dosbarthu								
	Enillion argadwedig £m	Post £m	Rhwyd-waith Gwledig £m	Cronfa wrth gefn Trosi Arian Tramor £m	Cronfa rag-fantoli wrth gefn £m	Cronfeydd wrth gefn eraill £m	Ecwiti Deiliad ecwiti'r rhiant-gwmni £m	Budd lleiafrifol £m	Cyfanswm ecwiti £m
Ar 29 Mawrth 2004	(4,118)	765	311	-	-	63	(2,979)	-	(2,979)
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	151	-	-	-	-	-	151	4	155
Enillion actiwaraidd ar gynlluniau buddiant diffiniedig	411	-	-	-	-	-	411	-	411
Trethiant ar eitemau yr aethpwyd â hwy yn uniongyrchol i ecwiti	367	-	-	-	-	-	367	-	367
Trosglwyddo cronfa wrth gefn y Rhwydwaith Gwledig	151	-	(151)	-	-	-	-	-	-
Trosglwyddo incwm llog	(47)	36	11	-	-	-	-	-	-
Gwahaniaethau trosi	-	-	-	8	-	-	8	-	8
Ar 27 Mawrth 2005	(3,085)	801	171	8	-	63	(2,042)	4	(2,038)

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Crëwyd cronfa wrth gefn y Post yn Grŵp y Post Brenhinol ccc ar 3 Chwefror 2003, ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant roi cyfarwyddiadau o dan adran 72 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000. Caiff symiau a ddyrannwyd i'r gronfa wrth gefn eu cymhwyso fel petaent yn elw sydd ar gael i'w ddosbarthu ac fe'u defnyddir i roi cymorth ariannol i Swyddfa'r Post Cyfyngedig a sicrwydd ar gyfer benthyciadau i Grŵp y Post Brenhinol ccc yn bennaf.

Crëwyd cronfa wrth gefn y Rhwydwaith Gwledig i ddechrau yn ystod 2003-04 i ddarparu cyllid am gyfnod o dair blynedd i gynnal y rhwydwaith gwledig o ganghennau Swyddfa'r Post. Mae Cronfa Wrth Gefn y Rhwydwaith Gwledig wedi cael ei lleihau o £147m (2005 £151m), sef y cyllid a oedd ei angen yn ystod y flwyddyn.

Crëwyd cronfa wrth gefn Trosi Arian Cyfred Tramor i gofnodi'r enillion a'r colledion sy'n codi o drosi asedau a rhwymedigaethau is-gwmnïau mewn arian cyfred ac eithrio arian cyfred a ddefnyddir at ddibenion adrodd o 29 Mawrth 2004

Defnyddir y gronfa ragfantoli wrth gefn i gofnodi enillion a cholledion sy'n codi ar achosion o ragfantoli llif arian parod o 28 Mawrth 2005.

Cronfeydd wrth gefn eraill yw'r enillion heb eu gwireddu sy'n codi o gaffael buddiannau mewn cwmnïau cysylltiedig a chyd-fentrau mewn blynyddoedd blaenorol. Yn ystod y flwyddyn trosglwyddwyd £8m i enillion argadwedig mewn perthynas â'r lleihad yng ngwerth y buddsoddiad yn G3 Worldwide Mail N.V. (Gwanwyn) (gweler nodyn 12).

Mae trosglwyddo incwm llog yn ymwneud ag incwm a gofnodwyd yn y datganiad incwm, a enillwyd ar yr asedau sy'n cynnal cronfeydd wrth gefn y Post a'r Rhwydwaith Gwledig.

22. Rhwymedigaethau ariannol

200

	Benthyc-iadau £m	Cytundebau prydles gyllidebol/ hurbwrcasu £m	Cydnabydd-iaeth ohiriedig £m	Rhwymedi-gaethau deilliadol £m	Cyfanswm £m
Symiau sy'n ddyledus o fewn:					
Blwyddyn neu lai neu ar gais	361	1	3	3	368
Mwy na blwyddyn	505	1	-	-	506
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na dwy flynedd	1	1	-	-	2
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd	2	-	-	-	2
Mwy na phum mlynedd	502	-	-	-	502
Cyfanswm	**866**	**2**	**3**	**3**	**874**

200

	Benthyc-iadau £m	Cytundebau prydles gyllidebol/ hurbwrcasu £m	Cydnabydd-iaeth ohiriedig £m	Rhwymedig-aethau deilliadol £m	Cyfanswm £m
Symiau sy'n ddyledus o fewn:					
Blwyddyn neu lai neu ar gais	**375**	**1**	**16**	**dd/b**	**392**
Mwy na blwyddyn	**506**	**2**	**8**	**dd/b**	**516**
Mwy na blwyddyn ond nid mwy na dwy flynedd	**1**	**1**	**8**	**dd/b**	**10**
Mwy na blwyddyn ond nid mwy na phum mlynedd	**2**	**1**	**-**	**dd/b**	**3**
Mwy na phum mlynedd	**503**	**-**	**-**	**dd/b**	**503**
Cyfanswm	**881**	**3**	**24**	**-**	**908**

Yn unol â'r eithriad o dan IFRS 1, 'Mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf', paratowyd gwybodaeth gymharol o dan GAAP UK blaenorol (FRS 13) ac nid IAS 32 ac IAS 39. O ganlyniad ni chynhwyswyd rhwymedigaethau deilliadol ym mantolen mis Mawrth 2005. Er mwyn cydymffurfio ag IAS 32 ac IAS 39 byddai'r deilliadau wedi cael eu prisio ar werth teg ac wedi'u cynnwys ym mantolen mis Mawrth 2005 ar y sail hon. Gwerth teg rhwymedigaethau deilliadol ar 27 Mawrth 2005 oedd £1m – yr oedd pob un ohonynt yn ddyledus o fewn blwyddyn.

Dadansoddiad o fenthyciadau a chyfleusterau	Benthyc-iadau £m	Cyfleuster Ychwanegol £m	Cyfanswm cyfleuster £m	%	2006 Dyddiad aeddfedu ar gyfartaledd Benthyciadau
Benthyciadau'r Adran Masnach a Diwydiant i Grŵp y Post Brenhinol ccc	500	844	1,344	5.8	2023
Benthyciadau Trysorlys EM i Swyddfa'r Post Cyfyngedig	360	790	1,150	4.8	2006
Cyfleusterau ymrwymedig	860	1,634	2,494		
Benthyciadau banc amrywiol mewn is-gwmnïau tramor	6	-	6	3.1-6.9	2010
Cyfanswm	866	1,634	2,500		

22. Rhwymedigaethau ariannol (parhad)

	Benthyc-iadau £m	Cyfleuster Ychwanegol £m	Cyfanswm cyfleuster £m	%	2005 Dyddiad aeddfedu ar gyfartaledd Blwyddyn
Benthyciadau'r Adran Masnach a Diwydiant i Grŵp y Post Brenhinol ccc	500	844	1,344	5.8	2023
Benthyciadau Trysorlys EM i Swyddfa'r Post Cyfyngedig	360	790	1,150	5.0	2005
Cyfleusterau ymrwymedig	860	1,634	2,494		
Benthyciad byrdymor gan gwmni cyswllt	14	-	14	4.8	2005
Benthyciadau banc amrywiol mewn is-gwmnïau tramor	7	-	7	3.1-6.9	2009
Cyfanswm	881	1,634	2,515		

Ad-dalwyd y benthyciad byrdymor gan y cwmni cyswllt yn ystod y flwyddyn.

Mae'r benthyciadau banc amrywiol mewn is-gwmnïau tramor naill ai heb eu gwarantu neu wedi'u gwarantu yn seiliedig ar asedau amrywiol (eiddo yn bennaf) yr is-gwmnïau tramor. Mae'r benthyciadau yn ad-daladwy mewn symiau amrywiol a phenodedig dros eu cyfnodau aeddfedu.

Mae'r rhwymedigaethau o dan gontractau prydles gyllidebol neu hurbwrcasu naill ai heb eu gwarantu neu wedi'u gwarantu yn seiliedig ar asedau amrywiol yr is-gwmnïau tramor. Mae'r rhain yn ad-daladwy mewn symiau amrywiol a phenodedig dros eu cyfnodau aeddfedu. Y gyfradd llog yw 6% ar gyfartaleddd (2005 6%). Mae'r dyddiad aeddfedu o fewn un neu ddwy flynedd ar gyfartaledd (2005 - o fewn un neu ddwy flynedd).

Mae'r gydnabyddiaeth ohiriedig heb ei gwarantu ac mae'n ad-daladwy dros y cyfnod aeddfedu. Nid yw'r gydnabyddiaeth ohiriedig yn dwyn llog (2005 ddim yn dwyn llog) ac mae'r dyddiad aeddfedu o fewn blwyddyn ar gyfartaledd (2005 o fewn blwyddyn).

Mae amryw gyfleusterau benthyca ar gael i'r Grŵp. Mae'r cyfleusterau ymrwymedig nas defnyddiwyd ar 26 Mawrth 2006, y bodlonwyd pob un o'r amodau blaenorol mewn perthynas â hwy ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

	2006 £m	2005 £m
Dod i ben ymhen blwyddyn neu lai	**200**	-
Dod i ben ymhen mwy na blwyddyn ond nid mwy na dwy flynedd	**150**	200
Dod i ben ymhen mwy na dwy flynedd	**1,284**	1,434
Cyfanswm	**1,634**	1,634

Mae'r symiau nas defnyddiwyd yn cynnwys cyfleusterau benthyciadau lluosog sy'n gwneud cyfanswm o £1,634m.. Roedd £860m o'r cyfleusterau ymrwymedig wedi'u defnyddio erbyn 26 Mawrth 2006. Mae benthyciadau'r Adran Masnach a Diwydiant i Grŵp y Post Brenhinol ccc wedi'u gwarantu gan dâl penodedig a thâl cyfnewidiol ar wahanol asedau'r Grŵp

Mae Grŵp y Post Brenhinol ccc wedi cael hepgoriad gan yr Adran Masnach a Diwydiant, yn rhinwedd ei swydd fel benthyciwr, am ddiffygdalu ansolfedd sy'n codi ar ôl mabwysiadu IFRS, i gofnodi diffyg pensiwn y Grŵp fel rhwymedigaeth ar y fantolen. Fel amod o'r hepgoriad hwn, dim ond os bydd y Bwrdd yn penderfynu bod Grŵp y Post Brenhinol ccc yn annhebygol o fodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt godi heb fenthyciad y bydd dyletswydd ar y benthyciwr i roi benthyciad o'r fath.

Mae i fenthyciadau gan Drysorlys EM i Swyddfa'r Post Cyfyngedig, a warentir drwy dâl cyfnewidiol a godir ar wahanol asedau'r Grŵp a gwarant negyddol dros arian parod neu eitemau arian parod cyfatebol ddyddiad byr ar raglen o reoli hylifedd a hawliwyd oddi wrth y cyfleuster a ddaw i ben yn 2010.

Mae'r gwarantau canlynol yn gymwys i gyfleusterau ymrwymedig y Grŵp:

	Swm £m	Gwarant
Benthyciad a hawliwyd oddi wrth yr Adran Masnach a Diwydiant	500	Buddsoddiad mewn GLS a thâl cyfnewidiol dros asedau nad ydynt wedi'u rheoleiddio
Cyfleuster pellach yr Adran Masnach a Diwydiant	844	Tâl cyfnewidiol dros bob un o'r asedau a'r adneuon arian parod gyda'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol
Benthyciad Trysorlys EM	1,150	Arian parod yn rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Mae benthyciad Trysorlys EM yn darparu cyfleuster o hyd at £1,150m, ond dim ond arian parod ac eitemau arian parod cyfatebol a ddelir o fewn rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyfyngedig y gall eu hariannu. Ar 26 Mawrth 2006, balans yr arian parod hwn oedd £782m fel y dangosir yn nodyn 19.

23. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	Darpar-iaethau cyfredol £m	Darpar-iaethau nad ydynt yn gyfredol £m	Cyfanswm £m	Post a Pharseli £m	Gwasanaethau Cownter £m	Cyfanswm £m
Ar 28 Mawrth 2005	124	48	172	160	12	172
A godwyd yn ystod y flwyddyn	82	4	86	71	15	86
Ailddosbarthu'n ddarpariaethau cyfredol	(3)	3	-	-	-	-
Cyfleuster nad yw'n arian parod a ddefnyddiwyd	(48)	-	(48)	(39)	(9)	(48)
Arian parod a ddefnyddiwyd	(97)	(2)	(99)	(83)	(16)	(99)
Ar 26 Mawrth 2006	58	53	111	109	2	111

	Darpar-iaethau cyfredol £m	Darpar-iaethau nad ydynt yn gyfredol £m	Cyfanswm £m	Post a Pharseli £m	Gwasanaethau Cownter £m	Cyfanswm £m
Ar 29 Mawrth 2004	408	71	479	429	50	479
A godwyd yn ystod y flwyddyn	35	12	47	47	-	47
Ailddosbarthu'n ddarpariaethau cyfredol	26	(26)	-	-	-	-
Cyfleuster nad yw'n arian parod a ddefnyddiwyd	(130)	-	(130)	(116)	(14)	(130)
Arian parod a ddefnyddiwyd	(215)	(9)	(224)	(200)	(24)	(224)
Ar 27 Mawrth 2005	124	48	172	160	12	172

Mae'r swm o £99m o arian parod a ddefnyddiwyd yn cynnwys £96m o wariant yn ymwneud ag ad-drefnu eithriadol a £3m yn ymwneud a chostau gweithredol eraill. Dangosir cyfanswm y gwariant arian parod yn ystod y flwyddyn yn ymwneud ag ad-drefnu eithriadol yn y datganiad llif arian parod. Cynhwysir yn y darpariaethau £51m (2005 £67m) yn ymwneud â chontractau eiddo beichus a £13m o gostau dadgomisiynu (2005 £13m).

Mae darpariaeth Post a Pharseli yn cynnwys symiau sy'n ymwneud â cholli swyddi ac eitemau eraill nad ydynt yn ymwneud â cholli swyddi (contractau eiddo beichus a chostau dadgomisiynu), sy'n ymwneud â rhaglenni ailstrwythuro. Yn ystod y flwyddyn, codwyd £60m (2005 £36m) ar eitemau eithriadol ac £11m (2005 £11m) ar gostau gweithredol eraill. Trosglwyddwyd £39m i gredydwyr a oedd yn ddyledus o fewn blwyddyn a oedd yn ymwneud yn bennaf â symiau a oedd yn ddyledus i'r cynllun pensiwn am swyddi a gollwyd gydag ymddeoliad cynnar. Disgwylir defnyddio £58m o'r ddarpariaeth hon yn 2006-07 a'r gweddill dros y ddwy neu dair blynedd ddilynol, ac eithrio £12m sy'n ymwneud â chostau dadgomisiynu a £31m sy'n ymwneud â chontractau eiddo beichus, y disgwylir eu defnyddio dros gyfnod hwy. Mae amseriad llifau arian parod ar gyfer y darpariaethau hyn yn ansicr o ran natur ac maent yn dibynnu ar ddigwyddiadau cysylltiedig. Dangosir yr amcangyfrifon gorau o'r symiau yn y tabl isod.

Mae darpariaethau Gwasanaethau Cownter yn cynnwys symiau sy'n ymwneud â'r rhaglen barhaus i leihau nifer y staff. Yn ystod y flwyddyn codwyd £15m ar eitemau eithriadol a throsglwyddwyd £9m i gredydwyr a oedd yn ddyledus o fewn blwyddyn a oedd yn ymwneud yn bennaf â symiau a oedd yn ddyledus i'r cynllun pensiwn am swyddi a gollwyd gydag ymddeoliad cynnar. Disgwylir defnyddio'r balans yn 2006-07.

Nid yw'r newid yng ngwerth cario'r elfen a ddisgowntiwyd o'r ddarpariaeth sy'n ddyledus oherwydd treigl amser yn berthnasol.

24. Masnach gyfredol a symiau eraill sy'n daladwy

	2006 £m	2005 £m
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllidebol a chytundebau hurbwrcasu (nodyn 22)	**1**	1
Balansau gwasanaethau cleientiaid	**248**	323
Masnach sy'n daladwy a chroniadau	**1,345**	1,628
Blaendaliadau cwsmeriaid	**255**	224
Trethiant arall a nawdd cymdeithasol	**104**	102
Cydnabyddiaeth ohiriedig (nodyn 22)	**3**	16
Credydwr hawl i wyliau blynyddol	**39**	42
Cymhellion prydles	**1**	1
Symiau eraill sy'n daladwy	**18**	15
Cyfanswm	**2,014**	2,352

Mae'r Grŵp, drwy ei is-gwmni Swyddfa'r Post Cyfyngedig, yn derbyn ac yn dosbarthu arian parod ar ran asiantaethau'r Llywodraeth a chleientiaid eraill i gwsmeriaid drwy ei rwydwaith o ganghennau Swyddfa'r Post®. Dangosir symiau sy'n ddyledus i'r partïon hyn ar wahân fel balansau gwasanaethau cleientiaid (uchod). Gall lefel yr arian parod a ddelir a'r credydwyr cysylltiedig amrywio'n sylweddol o un dyddiad mantolen i'r llall.

Ceir manylion am drafodion â phartion cysylltiedig yn nodyn 27.

25. Masnach nad yw'n gyfredol a symiau eraill sy'n daladwy

	2006 £m	2005 £m
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllidebol a chytundebau hurbwrcasu (nodyn 22)	**1**	2
Cymhellion prydles	**8**	6
Cydnabyddiaeth ohiriedig (nodyn 22)	**-**	8
Symiau hirdymor eraill sy'n daladwy	**23**	32
Cyfanswm	**32**	48

Mae symiau hirdymor eraill sy'n daladwy yn gwneud cyfanswm o £18m (2005 £20m) mewn perthynas ag incwm gohiriedig a £5m (2005 £12m) ar gyfer menter 'cyfrifiadur yn y cartref'

26. Ymrwymiadau a rhwymedigaethau amodol

Ymrwymiadau prydlesu gweithredol

Mae'r Grŵp yn ymrwymedig i'r isafswm taliadau canlynol yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredol na ellir eu dileu ar 26 Mawrth 2006:

	Tir ac adeiladau		Cerbydau a chyfarpar		Cyfarpar TG	
	2006 £m	2005 £m	**2006 £m**	2005 £m	**2006 £m**	2005 £m
O fewn blwyddyn	**124**	128	**49**	52	**46**	46
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	**419**	434	**76**	63	**169**	175
Ar ôl pum mlynedd	**755**	850	**2**	2	**77**	117
Cyfanswm	**1,298**	1,412	**127**	117	**292**	338

Mae'r prydlesi eiddo presennol yn parhau am 17 mlynedd ar gyfartaledd ac mae unrhyw brydlesi newydd a drefnir yn parhau am 15 mlynedd gyda chymal torri ar ôl 10 mlynedd fel arfer. Mae prydlesi cerbydau yn parhau rhwng 3 a 7 mlynedd fel arfer, yn dibynnu ar y dosbarth o asedau, gyda thymor o 4 blynedd ar gyfartaledd. Bydd y prydlesi presennol yn aeddfedu rhwng 2006 a 2011. Mae'r contract TG yn parhau am 10 mlynedd gyda 7 mlynedd yn weddill ar ddyddiad y fantolen.

Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 26 Mawrth 2006, mae gan y Grŵp ymrwymiadau o £59m (2005 £146m), y cytunir arnynt ond na ddarperir ar eu cyfer yn y cyfrifon.

26. Ymrwymiadau a rhwymedigaethau amodol (parhad)

Gwarantau

Mae gan y Grŵp y rhwymedigaethau amodol ar 26 Mawrth 2006:

Mae Grŵp y Post Brenhinol ccc, sef is-gwmni o'r Cwmni, wedi gwarantu perfformiad trydydd parti mewn perthynas â thaliadau prydles sy'n daladwy dros dymor y brydles a drefnwyd ar 21 Rhagfyr 2000, sef 15 mlynedd ac mae wedi rhoi indemniadau treth penodol i brydleswyr yr UD. Ym marn y Cyfarwyddwyr, ni fydd colled i'r Grŵp o ganlyniad i'r gwarantau hynny.

Fel sy'n ofynnol gan y rheolau yngl□n â'r Cyfleuster Didoli Papurau Arian Banc, mae papurau arian banc a drosglwyddir i ganolfannau trafod arian parod a'r rhai a brosesir dros nos, y mae'r Grŵp wedi derbyn credyd amdanynt, wedi'u gwarantu drwy giltiau a adneuwyd gyda Banc Lloegr. Os methir â'u talu, amcangyfrifir mai £104m fyddai'r uchafswm rhwymedigaeth.

Mae Grŵp y Post Brenhinol ccc wedi rhoi gwarant i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, yr Adran dros Ddatblygu Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) a Chomisiynwyr Cyllid y Wlad, i warantu perfformiad Swyddfa'r Post Cyfyngedig o ran ei rhwymedigaethau o dan y Contract Bancio Cyffredinol (Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post).

Mae Grŵp y Post Brenhinol ccc hefyd wedi rhoi gwarant i Electronic Data Systems Limited y bydd yn gwarantu perfformiad Swyddfa'r Post Cyfyngedig o ran ei rhwymedigaethau o dan y Contract Bancio Cyffredinol (Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post).

27. Trafodion â phartion cysylltiedig

Y rhiant-gwmni terfynol

Daliadau'r Post Brenhinol ccc yw rhiant-gwmni terfynol y Grŵp. Ni chafwyd trafodion rhwng Daliadau'r Post Brenhinol ccc a busnesau ei is-gwmnïau yn ystod y flwyddyn (2005 £dim).

Prif is-gwmnïau

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys cyfrifon ariannol Daliadau'r Post Brenhinol ccc a'r prif is-gwmnïau a restrir yn y tabl canlynol:

Enw	Gwlad corffori	% o log ecwiti	
		2006	2005
Grŵp y Post Brenhinol ccc	Y Deyrnas Gyfunol	100%	100%
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	Y Deyrnas Gyfunol	100%	100%
Buddsoddiadau'r Post Brenhinol Cyfyngedig	Y Deyrnas Gyfunol	100%	100%
General Logistics Systems B.V	Yr Iseldiroedd	100%	100%
Romec Limited	Y Deyrnas Gyfunol	51%	51%
NDC 2000 Limited	Y Deyrnas Gyfunol	51%	51%

Cyd-fenter

Mae gan y Grŵp fuddiant o 50% yn First Rate Exchange Services Holdings Limited (First Rate Travel Services Limited gynt nes iddo newid ei enw ar 23 Chwefror 2006), cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Gyfunol.

Cwmni cyswllt

Mae'r cwmnïau canlynol yn fusnesau cysylltiedig y Grŵp:

Cwmni	Gwlad corffori	2006	2005
Quadrant Catering Limited	Y Deyrnas Gyfunol	51%	51%
Grŵp Camelot ccc	Y Deyrnas Gyfunol	20%	20%
Camelot International Services Limited	Y Deyrnas Gyfunol	20%	20%
G3 Worldwide Mail N.V. (Gwanwyn)	Yr Iseldiroedd	24.5%	24.5%
Midasgrange Limited	Y Deyrnas Gyfunol	50%	50%

Mae'r mwyafrif o'r Bwrdd a'r hawl i bleidleisio yn Quadrant Catering Limtied wedi'u dal gan bartner y Grŵp, felly nid yw'n is-gwmni.

Trafodion â phartion cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Grŵp drafodion â phartion cysylltiedig. Roedd y trafodion yn rhai busnes arferol ac roeddent yn cynnwys gwasanaethau gweinyddu a buddsoddi a ailgodwyd ar gynllun pensiwn y Grŵp gan Ymddiriedolwyr Pensiynau'r Post Brenhinol Cyfyngedig, sef is-gwmni 100%. Roedd y trafodion a gynhaliwyd a'r balansau a oedd yn weddill ar 26 Mawrth 2005 fel a ganlyn:

	Gwerthiannau i barti cysylltiedig		Pryniannau gan barti cysylltiedig		Symiau sy'n ddyledus gan barti cysylltiedig gan gynnwys benthyciadau sy'n ddyledus		Symiau sy'n ddyledus i barti cysylltiedig gan gynnwys benthyciadau sy'n ddyledus	
	2006 £m	2005 £m	2006 £m	2005 £m	2006 £m	2005 £m	2006 £m	2005 £m
Ymddiriedolwyr Pensiynau'r Post Brenhinol Cyfyngedig	9	8	-	-	-	1	-	-
Quadrant Catering Limited	-	-	42	43	-	-	6	15
Grŵp Camelot ccc	49	11	-	-	1	1	-	-
G3 Worldwide Mail N.V.	1	2	13	17	11	12	2	2
First Rate Exchange Services Holdings Limited Group	26	24	-	-	-	-	-	1
Midasgrange Limited	6	1	-	-	-	-	-	-
Romec Limited (is-gwmni o fis Rhagfyr 2004)	dd/b	3	dd/b	127	dd/b	3	dd/b	18

Cyd-fentrau a chwmnïau cysylltiedig y Grŵp yw'r cwmnïau a restrir uchod ac eithrio Ymddiriedolwyr Pensiynau'r Post Brenhinol Cyfyngedig a Romec Limited.

Telerau ac amodau trafodion â phartion cysylltiedig

Gwneir gwerthiannau i bartïon cysylltiedig a phryniannau gan bartïon cysylltiedig am brisiau arferol y farchnad. Mae balansau sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn heb eu gwarantu, nid ydynt yn dwyn llog a chânt eu talu mewn arian parod.

27. Trafodion â phartion cysylltiedig (parhad)

Iawndal i reolwyr allweddol

	2006	2005
	£000	£000
Buddiannau byrdymor i gyflogeion	2,818	3,385
Buddiannau ôl-gyflogaeth	688	344
Buddiannau terfynu	865	720
Buddiannau hirdymor eraill	463	3,832
Cyfanswm yr iawndal a dalwyd i bersonél allweddol	4,834	8,281

Mae rheolwyr allweddol yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol sy'n aelodau o Fwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc.

Llywodraeth EM yw unig gyfranddaliwr y Cwmni ac o ganlyniad nid oes gan y Cyfarwyddwyr unrhyw fuddiannau yng nghyfranddaliadau'r Cwmni.

Trafodion â phartion cysylltiedig eraill

Mae Bob Wigley, Cyfarwyddwr Anweithredol, yn Gadeirydd ar Merrill Lynch yn Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica. Cafodd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol, nid y Cwmni, berthynas fasnachol â Merrill Lynch Investment Management, am ddau fandad portffolio ecwiti yn y DG gwerth £950m (2005 £1.1bn) yn ystod y flwyddyn. Nid yw Bob Wigley yn un o Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol.

John Neill, Cyfarwyddwr Anweithredol, yw Prif Weithredwr y Grŵp a Dirprwy Gadeirydd Grŵp Unipart, sydd â chontract ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cymorth gweithredol ac arbenigedd gyda'r Post Brenhinol ar gyfer gwelliannau i ganolfannau post. Mae'r contract yn werth £1.7m (2005 £1.5m) y talwyd £0.5m ohono (2005 £1.5m) yn ystod y flwyddyn. Yn unol â gweithdrefnau arferol y Bwrdd, ni chymerodd John Neill ran ym mhenderfyniad y Bwrdd i benodi Grŵp Unipart. Roedd £1.2 m o'r swm yn weddill ar 26 Mawrth 2006 (2005 £dim).

28. Amcanion a pholisïau rheoli risg ariannol

Mae prif offerynnau ariannol y Grŵp, ar wahân i ddeilliannau, yn cynnwys adneuon byrdymor, buddsoddiadau yn hylifedd y farchnad arian, gwarantau gilt y Llywodraeth, benthyciadau, prydlesi cyllidebol a chontractau hurbwrcasu ac arian parod. Prif ddibenion yr offerynnau ariannol hyn yw codi cyllid a rheoli anghenion hylifedd gweithrediadau busnesau. Mae gan y Grŵp amryw offerynnau ariannol eraill megis dyledwyr masnach a chredydwyr masnach, sy'n codi'n uniongyrchol o weithrediadau.

Mae'r Grŵp hefyd yn cynnal trafodion deilliadol, yn bennaf cyfnewid nwyddau a blaengontractau arian cyfred. Y diben yw rheoli'r risgiau o ran nwyddau ac arian parod sy'n codi o weithrediadau'r Grŵp.

Bu'n bolisi gan y Grŵp drwy gydol y flwyddyn, ac mae'n parhau felly, na fydd yn hapfasnachu mewn offerynnau ariannol.

Y prif risgiau sy'n codi o offerynnau ariannol y Grŵp yw'r risg ynglŷn â chyfraddau llog, risg hylifedd, risg arian cyfred tramor, pris nwyddau a risg credyd. Mae'r Bwrdd yn adolygu ac yn cytuno ar bolisïau ar gyfer rheoli pob un o'r risgiau hyn ac maent wedi'u crynhoi isod.

Y risg o ran cyfraddau llog

Mae amlygiad y Grŵp i risg ar y farchnad o ran newidiadau mewn cyfraddau llog yn ymwneud â dyledion y Grŵp a'i asedau ariannol sy'n dwyn llog. Mae benthyciadau'r Adran Masnach a Diwydiant i Grŵp y Post Brenhinol ccc (£500m ym mis Mawrth 2006) ar gyfradd llog benodedig nes aeddfedu (yn 2023 ar gyfartaledd). Mae benthyciadau Trysorlys EM i Swyddfa'r Post Cyfyngedig (£360m ym mis Mawrth 2006) ar gyfraddau llog penodedig ar gyfer benthyciadau dyddiad byr (cyfnod aeddfedu o 4 diwrnod ar gyfartaledd ym mis Mawrth 2006). Mae holl asedau ariannol y Grŵp sy'n dwyn llog (£1,060m ym mis Mawrth 2006) ar gyfraddau llog penodedig ar gyfer benthyciadau dyddiad byr (cyfnod aeddfedu o 50 diwrnod ar gyfartaledd ym mis Mawrth 2006). Rheolir cyfnod aeddfedu'r ddau offeryn ariannol hyn ac iddynt ddyddiad byr er mwyn cael y gwerth gorau o'r gromlin arennill llog.

Polisi'r Grŵp yw rheoli treuliau llog net drwy ddefnyddio cymysgedd priodol o offerynnau ariannol ar gyfraddau penodedig a chyfraddau amrywiol. Ni chaiff y risg ynglŵn â chyfraddau llog ei rhagfantoli'n allanol o gwbl.

28. Amcanion a pholisïau rheoli risg ariannol (parhad)

Y risg o ran arian tramor

Caiff y Grŵp ei amlygu i risg ynglŷn ag arian tramor oherwydd masnachu â gweithredwyr post tramor ar gyfer cludo post y DG dramor a dosbarthu post sy'n dod o dramor yn y DG, a'r balansau a ddelir i weithredu gwasanaethau Bureau de Change yn Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Caiff y risgiau hyn eu lleihau gan raglenni rhagfantoli a reolir gan Grŵp y Trysorlys. Lle y bo'n bosibl, caiff amlygiadau eu nodi'n glir yn fewnol a chaiff unrhyw amlygiad sy'n weddill ei ragfantoli gan ddefnyddio cyfuniad o gontractau allanol ar y pryd neu blaengontractau. Caiff pob amlygiad sylweddol arall ei ystyried yn unigol; ni fydd rhagfantoli yn cael ei ystyried fel arfer ar gyfer amlygiadau gwerth llai na £1m; mae rhagfantoli fel arfer yn gyfyngedig i 80% o'r amlygiad a ragwelwyd lle mae llifau arian parod rhagamcanedig yn dra thebygol o ddigwydd.

Caiff rhwymedigaeth y Grŵp i dalu gweithredwyr post tramor ei rhoi mewn Hawliau Tynnu Arbennig (SRDs) - arian tramor basged sy'n cynnwys Doler yr UD (USD), Yen Siapan, Sterling a'r ewro. Mae gan y Grŵp bolisi o gyfateb derbyniadau a thaliadau ar gyfer arian tramor unigol lle y bo'n bosibl ac yna rhagfantoli unrhyw amlygiad net sylweddol. Y polisi yw bod hyd at 80% o'r amlygiad net rhagamcanedig yn cael ei rhagfantoli â chytundeb yr uned fusnes fewnol. Mae Trysorlys y Grŵp yn gweithredu rhaglen dreigl 18 mis, a gaiff ei hadolygu bob chwarter. Ni fu dull allanol o ragfantoli ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol 2005-06 oherwydd nad oedd unrhyw amlygiad net sylweddol.

Rhagfantolir balansau daliadau yn y prif fathau o arian cyfred ynghyd â mathau llai o arian cyfred sy'n dangos symudiad cydberthnasol iawn ar gyfer busnes Bureau de Change.

Rhagfantolwyd rhwymedigaethau'r Grŵp i dalu anfonebau USD ar brosiect cyfalaf penodol. Aeddfedodd y rhaglen hon yn ystod y flwyddyn.

Dechreuwyd ar ddwy raglen ragfantoli arall yn ystod y flwyddyn. Rhagfantolwyd rhwymedigaethau'r Grŵp i dalu taliadau cludo yn USD ac ewro 2007 (tan mor bell â mis Mawrth 2007). Yn ogystal, rhagfantolwyd rhwymedigaeth y Grŵp i dalu anfonebau ewro ar brosiect cyfalaf bach.

Nid yw'r Grŵp yn rhagfantoli'r amlygiad trosi a grëwyd gan asedau net ei is-gwmnïau tramor.

Y risg o ran pris nwyddau

Mae'r Grŵp yn agored i risg o ran pris tanwydd sy'n deillio o weithredu un o'r fflydoedd cerbydau mwyaf yn Ewrop, sy'n defnyddio dros 150 miliwn litr o danwydd y flwyddyn, a risg o ran tanwydd awyrennau sy'n codi o brynu gwasanaethau cludiant awyr. Nod strategaeth rheoli risg tanwydd y Grŵp yw lleihau'r ansicrwydd a grëir gan newidiadau yn y farchnad olew ac arian tramor. Mae'r strategaeth yn gweithredu o fewn y paramedrau a osodir gan y Bwrdd, sy'n caniatáu'r defnydd o gynnyrch deilliadol dros y cownter (ym mhris nwyddau USD a'r gyfradd gyfnewid USD/Sterling) i reoli'r amlygiadau hyn.

Yn ogystal, mae'r Grŵp yn agored i'r risg o ran pris nwyddau sy'n deillio o brynu trydan a nwy. Nod strategaeth rheoli risg y Grŵp yw lleihau'r ansicrwydd a grëir gan newidiadau yn y farchnad drydan a'r farchnad nwy. Rheolir yr amlygiadau hyn drwy drefnu contractau pris ar gyfradd benodedig gyda chyflenwyr.

Y risg o ran credyd

Mae'r Post Brenhinol yn gweithredu Polisi Credyd sy'n rhoi llwyfan teg a chyfartal i bob un o'i gwsmeriaid i gynnal ei fusnes. Mae lefel y credyd a roddir yn seiliedig ar risg proffil y cwsmer. Cymhwysir y Polisi ar Gredyd yn llym ym maes cynnyrch a reoleiddir er mwyn sicrhau bod y Post Brenhinol bob amser yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Mae asesu credyd ar gyfer cynnyrch nas rheoleiddir yn seiliedig ar ffactorau masnachol, sy'n gymesur ag awydd y Grŵp i fentro.

Mae gan y Post Brenhinol dîm rheoli credyd penodol, sy'n gosod y terfynau credyd, yn monitro terfynau credyd yr eir y tu hwnt iddynt yn rheolaidd ac yn cymryd camau unioni fel y bo'n briodol. Er gwaethaf yr holl reolaethau sydd ar waith mae'r Post Brenhinol yn dioddef oherwydd drwgddyledion, ond maent yn llai na 0.2% o'i drosiant.

O ran risg credyd sy'n deillio o asedau ariannol eraill y Grŵp, sef arian parod, buddsoddiadau sy'n cyfateb i arian parod, asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu, asedau ariannol a ddelir nes aeddfedu, asedau ariannol a ddelir i'w masnachu, benthyciadau a symiau derbyniadwy, asedau ariannol a rhai offerynnau deilliadol, mae amlygiad y Grŵp i risg credyd yn deillio o fethiant y gwrthbarti i dalu, gydag uchafswm amlygiad sy'n cyfateb i swm cario'r offerynnau hyn.

Nid oes unrhyw grynodiadau mawr o risg credyd o fewn y Grŵp.

Y risg o ran hylifedd

Prif amcan y Grŵp yw sicrhau bod gan y Grŵp ddigon o arian i fodloni ei rwymedigaethau ariannol wrth iddynt fod yn ddyledus. Cyflawnir hyn drwy gysoni buddsoddiadau byrdymor a chyfleusterau benthyca â llifau arian parod rhagamcanedig. Mae buddsoddiadau byrdymor arferol yn cynnwys cronfeydd marchnad ariannol, adneuon amser gyda gwrthbartion cymeradwy, giltiau a biliau trysorlys Llywodraeth y DG. Caiff cyfleusterau benthyca eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau parhad cyllid. O'r cyfleusterau cyfredol, mae £300m yn gredyd heb ei neilltuo, a adolygir bob blwyddyn, mae £1.6bn yn dod i ben o fewn 5 mlynedd.

29. Offerynnau Ariannol

Yn unol â'r eithriad o dan IFRS 1, paratowyd gwybodaeth gymharol o dan GAAP UK blaenorol (FRS 13) ac nid IAS 32 ac IAS 39. Darparwyd cymariaethau ar gyfer 2005 yn llawn ar ddiwedd y nodyn hwn.
Nodir isod gymhariaeth yn ôl categori o symiau cario a gwerthoedd teg holl offerynnau ariannol y Grŵp.

	Swm cario a gwerth teg 2006 £m
Asedau ariannol	
Arian parod	829
Buddsoddiadau cyfredol mewn asedau arian parod cyfatebol	332
Is-gyfanswm arian parod ac arian parod cyfatebol	**1,161**
Asedau ariannol ar werth teg drwy'r datganiad incwm	133
Asedau ariannol a ddelir hyd nes eu bod wedi aeddfedu	549
Benthyciadau a symiau derbyniadwy asedau ariannol	12
Is-gyfanswm asedau ariannol - buddsoddiadau (cyfredol)	**694**
Asedau ariannol - buddsoddiadau (nid ydynt yn gyfredol)	5
Asedau deilliadol	3
Cyfanswm	**1,863**
Rhwymedigaethau	
Rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllidebol a chytundebau hurbwrcasu (nodyn 22)	1
Cydnabyddiaeth ohiriedig (nodyn 23)	3
Is-gyfanswm wedi'i gynnwys yn y symiau cyfredol eraill sy'n daladwy	**4**
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllidebol a chytundebau hurbwrcasu (nodyn 22)	1
Cydnabyddiaeth ohiriedig (nodyn 23)	-
Is-gyfanswm wedi'i gynnwys yn y symiau eraill sy'n daladwy ac nad ydynt yn gyfredol	**1**
Benthyciadau eraill:	
Benthyciadau Trysorlys EM i Swyddfa'r Post Cyfyngedig (nodyn 22)	360
Benthyciad byrdymor gan gwmni cyswllt (nodyn 22)	-
Benthyciadau banc amrywiol mewn is-gwmnïau tramor (nodyn 22)	1
Is-gyfanswm rhwymedigaethau – buddsoddiadau (rhwymedigaethau cyfredol)	**361**
Benthyciadau'r Adran Masnach a Diwydiant i Grŵp y Post Brenhinol[(1)](nodyn 22)	500
Benthyciadau banc amrywiol mewn is-gwmnïau tramor (nodyn 22)	5
Is-gyfanswm rhwymedigaethau – benthyciadau (rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol)	**505**
Rhwymedigaethau deilliadol	3
Cyfanswm	**874**

Hepgorwyd dyledwyr masnach, credydwyr, rhagdaliadau, croniadau a balansau gwasanaethau cleientiaid o'r dadansoddiad hwn ar y sail bod y gwerth cario yn frasamcan rhesymol o werth teg. Ni chynhwysir asedau a rhwymedigaethau cynlluniau pensiwn.

[(1)] Yr unig offeryn ariannol lle mae'r swm cario yn wahanol i'r gwerth teg yw 'Benthyciadau'r Adran Masnach a Diwydiant' i Grŵp y Post Brenhinol ccc'. Ar ddiwedd y flwyddyn £520m oedd y gwerth teg priodol.

Cofnodir yr holl asedau a rhwymedigaethau uchod yn y cyfrifon fel cost wedi'i hamorteiddio ac eithrio'r canlynol:

- Asedau ariannol – prisir buddsoddiadau (nad ydynt yn gyfredol) ar werth teg gyda'r symudiad yn mynd i'r cronfeydd wrth gefn;
- Caiff asedau ariannol ar werth teg drwy'r datganiad incwm (y mae pob un ohonynt wedi'i ddosbarthu'n asedau a ddelir i'w masnachu) eu prisio ar werth teg gyda'r symudiad yn mynd yn uniongyrchol i'r datganiad incwm; ac
- Prisir asedau a rhwymedigaethau deilliadol ar werth teg. Caiff newidiadau yng ngwerth teg deilliadau, sy'n rhan o raglen ragfantoli ddynodedig o dan IAS 39, eu gohirio i ecwiti. Caiff pob un newid arall mewn gwerth teg deilliadol ei symud yn uniongyrchol i'r datganiad incwm.

29. Offerynnau ariannol (parhad)

Mae gwerth teg wedi'i gyfrifo drwy ddefnyddio prisiau cyfredol y farchnad (blaengyfraddau cyfnewid/prisiau nwyddau) ac wedi'i ddisgowntio drwy ddefnyddio cyfraddau disgowntio priodol.

Y risg o ran cyfraddau llog

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r swm cario yn ôl aeddfedrwydd offerynnau ariannol y Grŵp sy'n agored i'r risg o ran cyfraddau llog:

Y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006

Cyfradd sefydlog	Cyfradd llog weithredol gyfartalog %	O fewn blwyddyn £m	1-2 flynedd £m	2-3 blynedd £m	3-4 blynedd £m	4-5 mlynedd £m	Mwy na 5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Arian parod yn y banc	2.7	12	-	-	-	-	-	12
Buddsoddiadau cyfredol mewn asedau arian parod cyfatebol	4.4	332	-	-	-	-	-	332
Asedau ariannol ar werth teg drwy ddatganiad incwm	4.4	133	-	-	-	-	-	133
Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	4.5	-	3	2	-	-	-	5
A ddelir hyd nes eu bod wedi aeddfedu	4.5	549	-	-	-	-	-	549
Benthyciadau a symiau derbyniadwy asedau ariannol	4.8	12	-	-	-	-	-	12
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllidebol a chytundebau hurbwrcasu (nodyn 22)	6.1	-	(1)	-	-	-	-	(1)
Benthyciadau Trysorlys EM i Swyddfa'r Post Cyfyngedig	4.8	(360)	-	-	-	-	-	(360)
Bethyciadau yr Adran Masnach a Diwydiant i Grŵp y Post Brenhinol ccc	5.8	-	-	-	-	-	(500)	(500)
Benthyciadau banc amrywiol mewn is-gwmnïau tramor	6.1	(1)	(1)	-	(1)	-	(1)	(4)
Cyfanswm		677	1	2	(1)	-	(501)	178

Cyfradd gyfnewidiol	Cyfradd llog weithredol gyfartalog %	O fewn blwyddyn £m	1-2 flynedd £m	2-3 blynedd £m	3-4 blynedd £m	4-5 mlynedd £m	Mwy na 5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Arian parod yn y banc	2.0	17		-	-	-	-	17
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllidebol a chytundebau hurbwrcasu (nodyn 22)	6.4	(1)		-	-	-	-	(1)
Benthyciad byrdymor gan gwmni cyswllt	dd/b	-		-	-	-	-	-
Benthyciadau banc amrywiol mewn is-gwmnïau tramor	3.1	-		(1)	-	-	(1)	(2)
Cyfanswm		16		(1)	-	-	(1)	14

29. Offerynnau ariannol (parhad)

Ddim yn dwyn llog	0 fewn blwyddyn £m	1-2 flynedd £m	2-3 blynedd £m	3-4 blynedd £m	4-5 mlynedd £m	Mwy na 5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Arian parod mewn llaw neu yn rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyfyngedig	800	-	-	-	-	-	800
Cydnabyddiaeth ohiriedig	(3)	-	-	-	-	-	(3)
Asedau deilliadol	3	-	-	-	-	-	3
Rhwymedigaethau deilliadol	(3)	-	-	-	-	-	(3)
Cyfanswm	797	-	-	-	-	-	797

Mae llog ar offerynnau ariannol sydd wedi'i ddosbarthu'n gyfradd gyfnewidiol yn cael ei ailbrisio ar gyfnodau o lai na blwyddyn. Mae llog ar offerynnau ariannol sydd wedi'i ddosbarthu'n gyfradd sefydlog yn sefydlog nes bod yr offeryn yn aeddfedu.

Byddai cynnydd o un y cant yn y cyfraddau llog drwy gydol y cyfnod wedi cynyddu elw cyn treth £6m. Wedi'i gyfrifo fel y cynnydd mewn incwm llog llai treuliau ar offerynnau ariannol ar gyfradd gyfnewidiol ac offerynnau ariannol ar gyfradd sefydlog sy'n aeddfedu yn ystod y flwyddyn ynghyd ag effaith elw/colled ar offerynnau ariannol ar gyfradd sefydlog sy'n cael eu cario ar werth teg.

Mae'r tabl canlynol yn nodi swm cario arian cyfred offerynnau ariannol y Grŵp.

Asedau ariannol	Sterling £m	USD £m	ewro £m	Arall £m	2006 Cyfanswm £m
Arian parod mewn llaw neu yn rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyfyngedig	715	13	79	22	829
Buddsoddiadau cyfredol mewn asedau arian parod cyfatebol	332	-	-	-	332
Asedau ariannol ar werth teg drwy'r datganiad incwm	133	-	-	-	133
A ddelir hyd nes eu bod wedi aeddfedu	549	-	-	-	549
Benthyciadau a symiau derbyniadwy asedau ariannol	12	-	-	-	12
Asedau ariannol/buddsoddiadau (nad ydynt yn gyfredol)	5	-	-	-	5
Asedau deilliadol	-	3	-	-	3
	1,746	16	79	22	1,863

Rhwymedigaethau	Sterling £m	USD £m	ewro £m	Arall £m	Cyfanswm £m
Benthyciadau yr Adran Masnach a Diwydiant i Grŵp y Post Brenhinol ccc	500	-	-	-	500
Benthyciadau Trysorlys EM i Swyddfa'r Post Cyfyngedig	360	-	-	-	360
Benthyciad byrdymor gan gwmni cysylltiedig	-	-	-	-	-
Benthyciadau banc amrywiol mewn is-gwmnïau tramor	-	-	6	-	6
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllidebol a chytundebau hurbwrcasu (nodyn 22)	-	-	2	-	2
Cydnabyddiaeth ohiriedig	-	-	3	-	3
Rhwymedigaethau deilliadol	-	3	-	-	3
	860	3	11	-	874

29. Offerynnau ariannol (parhad)
Gweithgareddau rhagfantoli

Rhagfantoli llif arian parod

Roedd gan y Grŵp bedair rhaglen rhagfantoli llif arian parod ddynodedig yn ystod y flwyddyn:

i) Mae'r rhaglenni rhagfantoli tanwydd disel yn defnyddio blaengyfnewidiadau pris nwyddau a blaengontractau prynu arian cyfred i ragfantoli'r amlygiad sy'n deillio o bris nwyddau a chyfraddau cyfnewid US$/£ ar gyfer pryniannau tanwydd disel rhagamcanedig.

ii) Mae'r rhaglenni rhagfantoli cludo awyr yn defnyddio blaengontractau prynu arian cyfred US$ ac ewro i ragfantoli'r amlygiad sy'n deillio o gyfraddau cyfnewid US$/GBP a GBP/ewro ar gyfer pryniannau cludo awyr rhagamcanedig.

iii) mae'r rhaglen cyfalaf ewro yn defnyddio blaengontractau prynu arian cyfred ewro i ragfantoli'r amlygiad sy'n deillio o gyfraddau cyfnewid GBP/ewro ar gyfer gwariant cyfalaf y cytunwyd arno.

iv) Mae'r rhaglen cyfalaf US$ yn defnyddio blaengontractau prynu arian cyfred US$ i ragfantoli'r amlygiad sy'n deillio o gyfraddau cyfnewid US$/GBP ar gyfer gwariant cyfalaf y cytunwyd arno. Aeddfedodd y rhaglen hon yn ystod y flwyddyn.

Dengys y tablau canlynol y deilliadau sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer pob un o'r rhaglenni rhagfantoli hyn:

	Arian Cyfred	Swm Nominal	Dyddiad aeddfedu	Cyfradd gyfnewid gyfartalog y cytunwyd arni	Ased deilliadol gwerth teg 26 Mawrth 2006 £m	Rhwymedigaeth ddeilliadol gwerth teg 26 Mawrth 2006 £m
Tanwydd disel	US$	$81m	Ebr 06-Gor07	US$/£1.77	1	(1)
Cludo drwy'r awyr	US$	$24m	Ebr 06-Ebr07	US$/£1.74	-	-
Cludo drwy'r awyr	Ewro	€4m	Ebr 06-Ebr07	£/ewro0.69	-	-
Rhaglen gyfalaf	Ewro	€4m	Ebr 06-Tach06	£/ewro0.69	-	-
Rhaglen gyfalaf	US$	dd/b	dd/b	dd/b	-	-

Rhaglen ragfantoli	Nwyddau	Swm Nominal	Dyddiad aeddfedu	Pris nwyddau cyfartalog y cytunwyd arno	Ased deilliadol gwerth teg £m	Rhwymedigaeth ddeilliadol gwerth teg £m
Tanwydd disel	Tanwydd disel	131k tunnell	Ebr 06-Gorff 07	US$/tunnell 618	2	(2)

Dengys y tablau canlynol y symudiadau (yn glir o dreth ohiriedig) ar y gronfa ragfantoli wrth gefn ar gyfer pob un o'r rhaglenni rhagfantoli hyn:

	Cynnydd a ohiriwyd i ecwiti yn ystod y flwyddyn £m	Cynnydd a ryddhawyd o ecwiti yn ystod y flwyddyn £m	Cynnydd a ryddhawyd o ecwiti i werth cario cychwynnol ased sefydlog yn ystod y flwyddyn £m
Tanwydd disel	3	10	-
Cludo drwy'r awyr	-	-	-
Rhaglen gyfalaf - ewro	-	-	-
Rhaglen gyfalaf- UD$	-	-	1

Ar gyfer pob un o'r rhaglenni rhagfantoli llif arian parod uchod, disgwylir i'r llifau arian parod sylfaenol a ragfantolir gyd-daro â'r un dyddiadau y bydd yr offerynnau rhagfantoli (deilliadau) yn aeddfedu. Ar gyfer rhaglenni nad ydynt yn rhai cyfalaf (Disel a Chludo drwy'r Awyr), cymerir yr elw neu'r golled ar adeg aeddfedu. Ar gyfer rhaglenni cyfalaf, yr effaith ar y datganiad incwm fydd y tâl dibrisiant dros fywyd yr ased a ragfantolir.

Yn ogystal â'r rhaglenni rhagfantoli uchod, mae'r Grŵp yn rhagfantoli amlygiadau eraill i arian tramor a phris nwyddau, nad ydynt wedi'u dynodi'n rhagfantoli o dan IAS 39 (gan gynnwys rhagfantoli daliadau cyfredol fel rhan o wasanaethau Bureau de Change yn Swyddfa'r Post Cyfyngedig). Cyfanswm gwerth teg y deilliadau yn y rhaglenni rhagfantoli hyn ar 26 Mawrth 2006 oedd £dim asedau, ac £dim rhwymedigaethau.

29. Offerynnau ariannol (parhad)

Roedd gan y Grŵp blaendrafodion yn weddill i ragfantoli arian cyfred a phryniannau tanwydd fel a ganlyn:

	Mewn arian cyfred (miliynau)	Cyfateb i Sterling (miliynau)
	2006	2006
Yn aeddfedu o fewn blwyddyn		
Ewro	103	71
Doleri'r UD	140	80
Doleri Awstralia	7	3
Tanwydd (Doleri'r UD)	94	53
Yn aeddfedu ar ôl blwyddyn		
Doleri'r UD	15	9
Tanwydd (Doleri'r UD)	12	7

Nodyn - mae rhagfantoli tanwydd (sy'n gosod cost GBP o brynu tanwydd) yn cynnwys dwy elfen:

- blaendrafodyn nwyddau sy'n gosod cost prynu tanwydd yn Noleri'r UD;
- blaendrafodyn arian cyfred sy'n gosod cost GBP Doleri'r UD.

Mae'r tabl uchod yn cynnwys y ddau drafodyn hyn ar gyfer rhagfantoli tanwydd. Dangosir blaendrafodion nwyddau o dan y pennawd Tanwydd (Doleri'r UD) - $94m yn aeddfedu o fewn blwyddyn a $12m yn aeddfedu ar ôl blwyddyn. Cynhwysir y blaendrafodion arian parod yng nghyfanswm Doleri'r UD - $140m yn aeddfedu o fewn blwyddyn a $15m yn aeddfedu ar ôl blwyddyn.

Gwybodaeth gymharol

Mabwysiadwyd IAS 32 ac IAS 39 ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 yn unol â'r trefniadau trosiannol ar gyfer IFRS. Mae'r datgeliad canlynol yn rhoi gwybodaeth gymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005 yn seiliedig ar UK GAAP. Caiff hyn ei ailadrodd o'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 27 Mawrth 2005.

Cynhwysir esboniad am bolisi a rheolaethau trysorlys y Grŵp yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol, yn ogystal â rôl offerynnau ariannol yn y gwaith o greu neu newid y risgiau y mae'r Grŵp yn eu hwynebu yn ei weithgareddau.

Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn is-set o asedau a rhwymedigaethau cyffredinol y Grŵp ac maent yn cynnwys balansau y mae risgiau o ran cyfraddau llog a/neu arian tramor yn gysylltiedig â hwy. Mae FRS 13 yn caniatáu peidio â chynnwys eitemau megis dyledwyr masnach, credydwyr masnach, rhagdaliadau a chroniadau. Nodir yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n dod o dan y diffiniad, ynghyd â'u gwerth teg yn (i) isod:

(i) Gwerth teg asedau/(rhwymedigaethau) ariannol

Diffinnir gwerth teg fel y swm y gellid cyfnewid offeryn ariannol amdano mewn trafodyn hyd braich rhwng partïon hyddysg a bodlon ac fe'i cyfrifir drwy gyfeirio at gyfraddau'r farchnad wedi'u disgowntio i werth cyfredol. Lle nad oes cyfraddau'r farchnad ar gael, cyfrifwyd gwerthoedd teg drwy ddisgowntio llifau arian parod yn ôl y cyfraddau a fu ar waith ar ddiwedd y flwyddyn.

				2005
	Ased gros £m	Rhwymedigaeth gros £m	Gwerth llyfr net £m	Gwerth teg £m
Arian parod	890	-	890	890
Buddsoddiadau asedau cyfredol	1,141	-	1,141	1,141
Buddsoddiadau eraill (gwarantau gilt y Llywodraeth)	7	-	7	7
Benthyciadau	-	(908)	(908)	(898)
Balansau gwasanaethau cleientiaid	-	(323)	(323)	(323)
Cyfanswm	2,038	(1,231)	807	817

Cyfrifwyd gwerthoedd teg ar gyfer benthyciadau ac adneuon drwy ddisgowntio ar gyfradd briodol.

Gwerth cario giltiau yw £141m y mae £134m ohono wedi'i gynnwys ym muddsoddiadau'r asedau cyfredol uchod ac mae £7m yn ffigurau buddsoddiadau eraill. Dangosodd portffolio'r Grŵp o ddaliadau gilt golled o £4m yn ystod y flwyddyn ariannol pan gafodd ei ailbrisio.

29. Offerynnau ariannol (parhad)

(ii) Proffil aeddfedrwydd rhwymedigaethau y Grŵp

Nodir isod broffil aeddfedrwydd rhwymedigaethau y Grŵp ar 27 Mawrth 2005.

	2005		
	Benthyciadau £m	Balansau cleientiaid £m	Cyfanswm £m
Blwyddyn neu lai neu ar gais	392	323	715
Mwy na blwyddyn ond nid mwy na dwy flynedd	10	-	10
Mwy na dwy flynedd ond nid mwy na phum mlynedd	3	-	3
Mwy na phum mlynedd	503	-	503
Cyfanswm	908	323	1,231

(iii) Proffil aeddfedu o gyfleusterau benthyca ymrwymedig y Grŵp nas hawliwyd

Ceir manylion am fenthyciadau a chyfleusterau benthyca wedi'u neilltuo y Grŵp nas hawliwyd yn nodyn 22.

(iv) Proffil cyfradd llog a dadansoddiad o arian tramor:

	2005 Rhwymedigaethau				2005 Asedau ariannol					
	Sterling £m	ewro £m	Arall £m	Cyfanswm gros £m	Sterling £m	USD £m	ewro £m	Arall £m	Cyfanswm gros £m	Cyfanswm net £m
Cyfradd sefydlog	(860)	(7)	-	(867)	1,148	-	-	-	1,148	281
Cyfradd gyfnewidiol	(14)	(3)	-	(17)	13	-	15	6	34	17
Ddim yn dwyn llog	(323)	(6)	(18)	(347)	785	16	48	7	856	509
Cyfanswm	(1,197)	(16)	(18)	(1,231)	1,946	16	63	13	2,038	807

Mae rhwymedigaethau sterling ar gyfradd sefydlog sef £860m yn dwyn cyfradd llog gyfartalog gymhwysol o 5.5% ac maent yn aeddfedu ymhen 11 mlynedd ar gyfartaledd. Mae asedau ariannol sterling ar gyfradd benodedig sef £1,148m yn dwyn cyfradd llog gyfartalog gymhwysol o 4.73% ac maent yn aeddfedu ymhen 46 diwrnod ar gyfartaledd.

Mae asedau ariannol sterling ar gyfradd gyfnewidiol yn dwyn cyfradd llog gyfartalog gymhwysol o gyfradd y banc llai 1% ac maent yn aeddfedu ymhen diwrnod ar gyfartaledd.

Mae rhwymedigaethau ewro ar gyfradd benodedig yn dwyn cyfradd llog gyfartalog gymhwysol o 6.1% ac maent yn aeddfedu ymhen 4 blynedd ar gyfartaledd.

Mae rhwymedigaethau ewro ar gyfradd gyfnewidiol yn dwyn cyfradd llog gyfartalog gymhwysol o LIBOR ewro ynghyd â 2% ac maent yn aeddfedu ymhen 3 blynedd ar gyfartaledd. Mae asedau ariannol ewro ar gyfradd gyfnewidiol yn dwyn cyfradd llog gyfartalog gymhwysol o gyfradd y banc llai 1% ac maent yn aeddfedu ymhen diwrnod ar gyfartaledd.

O'r £347m o rwymedigaethau nad ydynt yn dwyn llog, mae £323m yn daladwy ar gais ac mae £24m yn aeddfedu ymhen blwyddyn ar gyfartaledd. Mae pob un o'r asedau ariannol nad ydynt yn dwyn llog yn dderbyniadwy ar gais.

Byddai cynnydd o un y cant yn y cyfraddau llog drwy gydol y cyfnod wedi cynyddu elw cyn treth £11m.

(v) Offerynnau ariannol deilliadol a ddelir i reoli newidiadau mewn arian cyfred a phris nwyddau:

	2005 Gwerth teg £m
Trafodion arian tramor	138
Deilliadau tanwydd	28

Ar ddyddiad y fantolen, roedd y Grŵp yn dal contractau i brynu arian tramor am £138m a £28m ar gyfer contractau tanwydd. Ni ddangosir unrhyw symiau cario gan fod yr holl eitemau hyn wedi'u dal oddi ar y fantolen. Roedd y gwahaniaeth rhwng y blaengyfradd y cytunwyd arni a chyfradd y farchnad yn £dim ar gyfer contractau arian cyfred a chynnydd o £8m ar gyfer contractau tanwydd.

29. Offerynnau ariannol (parhad)

(vi) Blaendrafodion

Roedd gan y Grŵp flaendrafodion yn weddill i ragfantoli arian cyfred a phryniannau tanwydd fel a ganlyn:

	Mewn arian cyfred (miliynau)	Yn cyfateb i Sterling (miliynau)
	2005	2005
Yn aeddfedu o fewn blwyddyn		
Ewro	86	60
Yen Siapan	-	-
Doleri'r UD	138	74
Doleri Awstralia	3	1
Tanwydd (Doleri'r UD)	46	25
Yn aeddfedu ar ôl blwyddyn		
Doleri'r UD	6	3
Tanwydd (Doleri'r UD)	5	3

(vii) Enillion a cholledion ar amlygiadau trafodion

Mae amlygiadau trafodion y Grŵp yn arwain at enillion a cholledion arian cyfred net a gydnabuwyd yn y cyfrif elw a cholled. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn deillio o daliadau net sy'n ddyledus i weinyddiaethau post tramor ar gyfer dosbarthu post, ac maent wedi eu rhoi mewn Hawliau Tynnu Arbennig (SDRs). Mae hyn yn fasged o arian cyfred sy'n cynnwys Doler yr UD, ewro, Yen Siapan a Sterling. Mae amlygiadau o'r fath yn cynnwys dyledion y Grŵp nad ydynt wedi'u troi'n arian cyfred gweithredol yr uned weithredu dan sylw.

Ar gyfer 2005 nid oedd unrhyw amlygiad SDR perthnasol nas rhagfantolwyd.

Ar 27 Mawrth 2005, roedd y Grŵp hefyd yn dal amryw flaengontractau agored a drefnwyd i ragfantoli taliadau arian tramor disgwyliedig yn y dyfodol (fel y dangosir yn nodyn (vi) uchod).

(viii) Enillion a cholledion ar ragfantoli

Rhagfantolir amlygiadau cyfnewid arian tramor gan ddefnyddio adneuon arian cyfred, benthyciadau arian cyfred, blaengontractau arian cyfred ac opsiynau arian cyfred. Ni chydnabyddir enillion a cholledion ar yr offerynnau hyn nes bod yr amlygiad a ragfantolwyd ei hun wedi'i gydnabod. Nid yw enillion a cholledion nas cydnabuwyd ar yr offerynnau hyn ac a ddefnyddir ar gyfer rhagfantoli yn berthnasol.

Rhagfantolir amlygiadau i bris nwyddau gan ddefnyddio blaengyfnewidiadau nwyddau ac opsiynau. Ni chydnabyddir enillion a cholledion ar yr offerynnau hyn nes bod yr amlygiad a ragfantolwyd ei hun wedi'i gydnabod. Roedd cyfanswm o £1m o enillion nas cydnabuwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol a chafodd pob un ohonynt eu gwireddu yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd cyfanswm o £8m o enillion nas cydnabuwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a disgwylir i bob un ohonynt gael eu gwireddu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Ni chariwyd unrhyw enillion/colledion ymlaen yn y fantolen.

30. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau yn cyfiawnhau datgeliad.

31. Newid i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Daw blwyddyn ariannol Daliadau'r Post Brenhinol ccc (y Post Brenhinol) i ben ar y Sul olaf ym mis Mawrth.

Mewn blynyddoedd blaenorol, paratowyd y cyfrifon o dan Egwyddorion Cyfrifyddu'r DG a Dderbynnir yn Gyffredinol (UK GAAP). O'r flwyddyn gyfrifyddu hon ymlaen bydd y Post Brenhinol yn paratoi ei ddatganiadau ariannol cyfunol yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae'r nodyn hwn yn esbonio sut y rhoddir adroddiad o dan IFRS ar berfformiad a sefyllfa ariannol y Grŵp a gofnodwyd yn y gorffennol . Mae'r nodyn yn cynnwys y datganiadau ariannol canlynol wedi'u hailddatgan ar sail IFRS:

- Mantolen gyfunol y Grŵp ar 29 Mawrth 2004, dyddiad newid y Grŵp;
- Datganiad incwm y Grŵp, datganiad o incwm a threuliau cydnabyddedig (SORIE) a datganiad llif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005, a'r fantolen ar 27 Mawrth 2005;
- Mantolen y Grŵp ar 28 Mawrth 2005 yn adlewyrchu bod IAS 32 ac IAS 39 wedi'u mabwysiadu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005-06.

Sail y paratoi

Paratowyd datganiadau ariannol wedi'u hailddatgan y Grŵp yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a gyhoeddwyd ac a fabwysiadwyd gan yr UE ar 26 Mawrth 2006 ac maent yn defnyddio'r confensiwn cost hanesyddol ac eithrio offerynnau ariannol deilliannol sydd wedi cael eu mesur yn ôl gwerth teg.

Nodir y rheolau yngl□n â mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf yn IFRS i 'Mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y Tro Cyntaf'. O dan IFRS 1 mae'n ofynnol i endid gydymffurfio â phob IFRS sy'n weithredol ar y dyddiad adrodd ar gyfer ei ddatganiadau ariannol llawn cyntaf o dan IFRS. Fel egwyddor gyffredinol mae'n ofynnol o dan IFRS 1 i safonau sy'n weithredol ar y dyddiad adrodd gael eu cymhwyso'n ôl-weithredol. Fodd bynnag, gwaherddir cymhwyso ôl-weithredol mewn rhai meysydd, yn enwedig lle y byddai cymhwyso ôl-weithredol yn gofyn i reolwyr lunio barn ar ôl canlyniad y trafodyn arbennig sydd eisoes yn hysbys. Yn ogystal caniateir nifer o eithriadau dewisol cyfyngedig rhag cymhwyso IFRS yn llawn yn ôl-weithredol lle y tybir bod cost cydymffurfiaeth yn fwy na'r manteision i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol. Lle bo'n gymwys, nodir yr opsiynau a ddewiswyd gan reolwyr yn y nodiadau i'r cyfrifon ac isod.

Ceir manylion y newidiadau sylweddol o ganlyniad i fabwysiadu IFRS:

Ailddosbarthu ar y Fantolen

Er mwyn ei gwneud yn haws i'w cymharu ail-gyfluniwyd fformat UK GAAP yn fformat IFRS cyhyd ag y bo modd o wybodaeth a gyhoeddwyd yn gynt. Mae'n ofynnol ailddosbarthu ar y fantolen o dan IFRS fel a ganlyn:

i) Mae IAS 1 'Cyflwyno Datganiadau Ariannol' yn ei gwneud yn ofynnol i asedau anniriaethol gael eu gwahanu oddi wrth ewyllys da ar y fantolen. Ym mis Mawrth 2004 ail-ddosbarthwyd £107m o fod yn asedau anniriaethol i fod yn ewyllys da (Mawrth 2005 £129m);

ii) Ym mis Mawrth 2004 mae £14m o rwymedigaethau hirdymor a gynhwysid gynt o fewn masnach a symiau derbyniadwy eraill mewn asedau cyfredol o dan UK GAAP wedi'u cynnwys o dan asedau nad ydynt yn gyfredol o dan IFRS (Mawrth 2005 £14m);

iii) Roedd ased treth ohiriedig gwerth £dim ym mis Mawrth 2005 (Mawrth 2005 £16m) hefyd wedi'i gynnwys o fewn masnach a symiau derbyniadwy eraill mewn asedau cyfredol o dan UK GAAP ac mae bellach wedi'i ddatgelu ar wahân o fewn asedau nad ydynt yn gyfredol o dan IFRS;

iv) Ym mis Mawrth 2004 mae masnach a symiau eraill sy'n daladwy o dan UK GAAP yn cynnwys £10m (Mawrth 2005 £dim) a £53m (Mawrth 2005 £375m) ar gyfer treth incwm sy'n daladwy a benthyciadau banc yn y drefn honno. Caiff y ffigurau hyn eu datgelu ar wahân fel rhwymedigaethau cyfredol o dan IFRS;

v) O dan IFRS mae'n ofynnol i ddarpariaethau y disgwylir iddynt gael eu talu o fewn blwyddyn i ddyddiad y fantolen gael eu dangos o fewn rhwymedigaethau cyfredol. Arweiniodd hyn at ailddosbarthu £408m ym mis Mawrth 2004 (Mawrth 2005 £124m) yn rwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol;

vi) Rhwymedigaethau treth incwm ohiriedig ym mis Mawrth 2004 hefyd wedi'u cynnwys mewn darpariaethau o dan UK GAAP a dangosir £96m (Mawrth 2005 £94m) ar wahân fel rhwymedigaeth nad yw'n gyfredol o dan IFRS;

vii) Mae benthyciadau sy'n dwyn llog o dan UK GAAP wedi'u cynnwys mewn "symiau eraill sy'n daladwy" ym mis Mawrth 2004. Caiff y rhain eu datgelu ar wahân o dan IFRS ac mae £507m (Mawrth £506m) wedi cael ei ailddosbarthu o fewn rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol;

viii) O dan IFRS mae'n ofynnol i newid arian tramor o fewn cronfeydd wrth gefn gael ei nodi ar wahân ar wyneb y fantolen. Nid yw'n ofynnol ailddosbarthu ym mis Mawrth 2004 gan fod y Grŵp wedi dewis peidio â chymhwyso IAS 21 yn ôl-weithredol. Yr effaith ym mis Mawrth 2005 yw £8m.

IAS 19 Buddiannau i gyflogeion

Mae IAS 19 yn ei gwneud yn ofynnol i gydnabod costau gweithredol ac ariannol cynlluniau pensiwn buddiant diffiniedig ar wahân, ynghyd â buddiannau eraill i gyflogeion, yn y datganiad incwm. O dan y safon caniateir nifer o opsiynau ar gyfer cydnabod enillion a cholledion actiwaraidd. Mae'r Post Brenhinol wedi mabwysiadu eithriad trosiannol IFRS 1 ac wedi cydnabod y diffyg pensiwn actiwaraidd ar ddyddiad y newid. Yna bydd y busnes yn cydnabod unrhyw enillion a cholledion actiwaraidd ar unwaith yn y SORIE. Mae'r opsiwn i roi cyfrif am enillion a cholledion actiwaraidd yn y ffordd hon yn rhan o ddiwygiad i IAS 19 'Enillion a Cholledion Actiwaraidd, Cynlluniau a Datgeliadau'r Grŵp. Mae'r diwygiad hwn yn weithredol o 1 Ionawr 2006 a gellir ei fabwysiadau yn gynharach na hynny.

Effaith y safon ar y fantolen ar y dyddiad newid yw cydnabod rhwymedigaeth bensiwn o tua £4.4bn ar 29 Mawrth 2004 a rhwymedigaeth o £4.0bn ar 27 Mawrth 2005. Yn ogystal, dadgydnabuwyd rhagdaliadau pensiwn gwerth £770m (2005 £834m).

31. Newid i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (parhad)

Effaith y safon ar elw gweithredol cyn eitemau eithriadol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005 yw gostyngiad o £98m gyda chynnydd o £59m i log ac incwm ariannol eraill.

O dan UK GAAP, ni chronnodd y Post Brenhinol wyliau blynyddol nas cymerwyd naill ai ar ôl hanner blwyddyn neu ar ddiwedd y flwyddyn. O dan IAS 19 mae'n ofynnol i'r Post Brenhinol gronni ar gyfer pob absenoldeb tymor byr y telir amdano megis gwyliau a enillwyd ond nas cymerwyd erbyn dyddiad y fantolen. Effaith IAS 9 ar fantolen drosiannol y Post Brenhinol yw cydnabod gwyliau blynyddol o gronnwyd gwerth £40m ar 29 Mawrth 2004. Codir tâl o £2m ar ddatganiad incwm mis Mawrth 2005 yn adlewyrchu'r cynnydd yn y croniad ar ddiwedd y flwyddyn honno.

IFRS 3 Cyfuniadau busnes, IAS 36 Lleihad yng ngwerth asedau ac IAS 38 Asedau anniriaethol
Mae IFRS 3 yn gwahardd cyfrifyddu uno ac amorteiddio ewyllys da. O dan y safon mae'n ofynnol cario ewyllys da ar gost gan adolygu lleihad mewn gwerth yn flynyddol a hefyd pan fydd awgrym na ellir adennill y gwerth cario.

Fel y caniateir o dan IFRS, mae'r Post Brenhinol wedi dewis cymhwyso IFRS 3 yn arfaethedig o ddyddiad y newid ac mae wedi dewis peidio ag ailddatgan cyfuniadau busnes blaenorol. Felly, datgenir ewyllys da ar y fantolen drosiannol ar ei gwerth cario o dan UK GAAP sef £107m gyda'r amorteiddio dilynol yn y flwyddyn hyd at 27 Mawrth 2005 yn cael ei wrthdroi. Y cynnydd mewn elw gweithredol ar ôl gwrthdroi amorteiddio ewyllys da yw £11m ar gyfer y flwyddyn hyd 27 Mawrth 2005.

O dan IFRS 3, mae nodi asedau a rhwymedigaethau yn y busnesau a gaffaelwyd yn cynnwys asedau anniriaethol nas cydnabyddid gynt o dan UK GAAP. Y prif asedau anniriaethol a gydnabyddir ar wahân i ewyllys da ar adeg caffael yw rhestriadau. Caiff yr asedau anniriaethol hyn eu prisio ar gyfer pob caffaeliad ar ôl 29 Mawrth 2004 a chânt eu hamorteiddio dros eu bywydau economaidd amcangyfrifedig.

Y prif gaffaeliadau yn 2004-05 oedd busnesau deiliaid masnachfraint yn GLS Italy a GLS Poland. Cyfanswm gwerth y rhestriadau cwsmeriaid ar gyfer y busnesau hyn oedd £6m, gyda bywydau economaidd o 2 i 4 blynedd. Yn ogystal, daeth Romec Limited, cyd-fenter gynt, a NDC 2000 Limited, cwmni cyswllt gynt, yn is-gwmnïau yn y Grŵp. Nid oedd caffael Romec Limited na NDC 2000 LImited wedi arwain at nodi unrhyw asedau anniriaethol.

IAS 12 Trethi incwm
O dan IAS 12 mae'n ofynnol i endidau gyfrifo treth ohiriedig yn seiliedig ar wahaniaethau dros dro, yn hytrach na gwahaniaethau amseru o dan UK GAAP. Diffinnir gwahaniaethau dros dro fel y gwahaniaeth rhwng gwerth cario asedau a rhwymedigaethau a'u sail dreth. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig gael eu datgelu ar wahân ar fantolen y Grŵp.

Er nad yw mabwysiadu IAS 12 ynddo'i hun yn arwain at ailddatgan y dreth a godir ar y Grŵp, mae'r dreth ohiriedig wedi'i hailasesu gan ystyried addasiadau cyfrifyddu eraill sy'n deillio o newid i i IFRS. Mae'r rhwymedigaeth treth ohiriedig ar y dyddiad newid ym mis Mawrth 2004 wedi'i lleihau o £96m i £1m o ganlyniad i ddadgydnabod y rhagdaliad pensiwn a chydnabod rhwymedigaeth pensiwn buddiant diffiniedig. Yn yr un modd, yn y fantolen ym mis Mawrth 2005 cydnabyddir £318m ychwanegol o ased treth ohiriedig a gostyngiad yn y rhwymedigaeth treth ohiriedig o £89m.

IAS 7 Datganiadau Llif Arian Parod
O dan UK GAAP mae'r datganiad llif arian parod yn canolbwyntio ar symudiadau mewn arian parod a rhoddir manylion y symudiadau hyn o dan saith pennawd. O dan IAS 7 ystyrir arian parod ac arian parod cyfatebol yn ogystal a dosberthir manylion o dan dri phennawd - gweithredol, buddsoddi a chyllido. Nid yw'r newid i IFRS yn newid llif arian parod y Grŵp ond mae'r ffordd y cyflwynir gwybodaeth ar y datganiad llif arian parod yn newid. Cafodd £316m a £450m o fuddsoddiadau eu dosbarthu fel arian parod cyfatebol ym mis Mawrth 2004 a mis Mawrth 2005 yn y drefn honno. Mae'r rhain bellach wedi'u cysoni yn y datganiad llif arian parod yn hytrach na chael eu datgelu o dan y pennawd 'rheoli adnoddau hylif' o dan UK GAAP. Mae'r Grŵp yn parhau i gynhyrchu ei ddatganiad llif arian parod gan ddefnyddio'r dull anuniongyrchol.

SIC 15 Prydlesi gweithredol – Cymhellion
Mae'r dehongliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob cymhelliad ar gyfer cytuno ar brydles weithredol newydd neu brydles weithredol wedi'i hadnewyddu gael ei gydnabod fel rhan annatod o'r gydnabyddiaeth net y cytunwyd arni ar gyfer defnyddio'r brydles, waeth beth fo natur neu ffurf y cymhelliad neu amseriad y taliadau. Mae'n rhaid i brydleseion gydnabod buddiant cyfunol cymhellion fel lleihad mewn costau rhentu dros gyfnod y brydles ar sail llinell syth.

Mae'r Grŵp wedi cydnabod cymhellion prydles gwerth £8m ar y dyddiad newid ym mis Mawrth 2004. Cafodd y swm hwn ei amorteiddio o £1m yn ystod 2004-05 gan adael balans o £7m ar y fantolen ar 27 Mawrth 2005.

IAS 32 ac IAS 39 Offerynnau ariannol
Mae gofynion IFRS yn wahanol i UK GAAP mewn sawl maes. Mae'r newidiadau sy'n effeithio ar y Post Brenhinol yn ymwneud ag offerynnau rhagfantoli a buddsoddiadau. Mae'r Post Brenhinol wedi manteisio ar yr eithriad i beidio â mabwysiadu IAS 32 ac IAS 39 tan y flwyddyn ariannol 2005-06.

Offerynnau rhagfantoli
O dan IAS 39, cydnabyddir pob ased a dyled ar werth teg gyda'r cofnod debyd cyfatebol wedi'i gofrestru yn y gronfa ragfantoli wrth gefn mewn ecwiti ar gyfer yr offerynnau hynny sy'n bodoli'r gofyniad am gyfrifyddu ar sail rhagfantoli. Cydnabuwyd offerynnau deilliadol o £9m o asedau a £1m o ddyledion ar werth teg ar 28 Mawrth 2005.

31. Newid i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (parhad)

O dan UK GAAP, cariwyd enillion a cholledion arian tramor ar raglen ragfantoli heb ei setlo yn y fantolen. Ar ôl cyflwyno IAS 39 ac IAS 39 ar 28 Mawrth 2005, dilëwyd colledion gwerth £11m yn erbyn enillion argadwedig.

Buddsoddiadau
O dan UK GAAP delir buddsoddiadau ar gost llai darpariaeth ar gyfer unrhyw leihad parhaol mewn gwerth. O dan IFRS, cydnabyddir buddsoddiadau ar werth teg i ddechrau. Yr effaith ar 28 Mawrth 2005 yw ail-gategoreiddio'r £691m o fuddsoddiadau ar y fantolen fel £134m o fuddsoddiadau 'A ddelir fel buddsoddiadau masnachu' a £549m o fuddsoddiadau 'A ddelir nes eu bod yn aeddfedu' ac £8m o 'Benthyciadau a symiau derbyniadwy'.

Mantolen y Grŵp ar 29 Mawrth 2004

	UK GAAP £m	Ailddosb-arthu £m	Pensiynau IAS 19 £m	Tâl Gwyliau IAS 19 £m	Arian parod cyfatebol IAS 7	Cymhellion prydles SIC 15 £m	IFRS £m
Asedau nad ydynt yn gyfredol							
Eiddo, offer a chyfarpar	1,550	-	-	-	-	-	1,550
Ewyllys da	-	107	-	-	-	-	107
Asedau anniriaethol	123	(107)	-	-	-	-	16
Asedau ariannol – buddsoddiadau	7	-	-	-	-	-	7
Buddsoddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt drwy ddefnyddio'r dull ecwiti	131	-	-	-	-	-	131
Symiau derbyniadwy eraill	-	14	-	-	-	-	14
	1,811	14	-	-	-	-	1,825
Asedau cyfredol							
Stocrestrau	32	-	-	-	-	-	32
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	1,955	(14)	(770)	-	-	-	1,171
Asedau ariannol – buddsoddiadau	999	-	-	-	(316)	-	683
Arian parod ac arian parod cyfatebol	1,049	-	-		316	-	1,365
	4,035	(14)	(770)	-	-	-	3,251
Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu	-	-	-	-	-	-	
Cyfanswm yr asedau	5,846	-	(770)	-	-	-	5,076
Rhwymedigaethau cyfredol							
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	(2,590)	63	-	(40)	-	(1)	(2,568)
Treth incwm sy'n daladwy	-	(10)	-	-	-	-	(10)
Gorddrafftiau a benthyciadau banc	-	(53)	-	-	-	-	(53)
Darpariaethau	-	(408)	-	-	-	-	(408)
	(2,590)	(408)	-	(40)	-	(1)	(3,039)
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol							
Rhwymedigaethau - benthyciadau sy'n dwyn llog	-	(507)	-	-	-	-	(507)
Rhwymedigaeth budd-dal ymddeol	-	-	(4,394)	-	-	-	(4,394)
Darpariaethau	(575)	504	-	-	-	-	(71)
Rhwymedigaethau treth ohiriedig	-	(96)	95	-	-	-	(1)
Symiau eraill sy'n daladwy	(543)	507	-	-	-	(7)	(43)
	(1,118)	408	(4,299)	-	-	(7)	(5,016)
Cyfanswm y rhwymedigaethau	(3,708)	-	(4,299)	(40)	-	(8)	(8,055)
Asedau/(rhwymedigaethau) net	2,138	-	(5,069)	(40)	-	(8)	(2,979)
Ecwiti							
Enillion argadwedig	999	-	(5,069)	(40)	-	(8)	(4,118)
Cronfa ragfantoli wrth gefn	-	-	-	-	-	-	-
Trosi arian tramor	-	-	-	-	-	-	-
Cronfeydd wrth gefn eraill*	1,139	-	-	-	-	-	1,139
Ecwiti i'w briodoli i ddeiliaid ecwiti'r rhiant-gwmni	2,138	-	(5,069)	(40)	-	(8)	(2,979)
Budd lleiafrifol	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm ecwiti	2,138	-	(5,069)	(40)	-	(8)	(2,979)

*Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfa wrth gefn Post £765m, cronfa wrth gefn y Rhwydwaith Gwledig £311m ac Arall £63m.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad incwm y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005

	UK GAAP £m	Pensiynau IAS 19 £m	Ewyllys da IFRS 3 £m	Cwmnïau cyswllt/Cyd-fentrau IFRS 3/	Tâl gwyliau IAS 19 £m	Cymhellion prydles SIC 15 £m	IFRS £m
Refeniw	**8,956**	-	-	-	-	-	**8,956**
Costau pobl	**(5,739)**	**(98)**	**-**	**-**	**(2)**	**-**	**(5,839)**
Cyflogau	**(4,328)**	-	-	-	(2)	-	**(4,330)**
Pensiynau	**(391)**	(98)	-	-	-	-	**(489)**
Nawdd cymdeithasol	**(319)**	-	-	-	-	-	**(319)**
Is-bostfeistri	**(544)**	-	-	-	-	-	**(544)**
Adnodd dros dro	**(157)**	-	-	-	-	-	**(157)**
Costau dosbarthu a chludo	**(1,183)**	-	-	-	-	-	**(1,183)**
Costau gweithredol eraill	**(1,669)**	-	8	-	-	1	**(1,660)**
Cyfran o elw o gwmnïau cyswllt a chyd-fentrau	**34**	-	3	(9)	-	-	**28**
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	**399**	**(98)**	**11**	**(9)**	**(2)**	**1**	**302**
Eitemau eithriadol gweithredol	**(277)**	-	-	-	-	-	**(277)**
Elw gweithredol	**122**	**(98)**	**11**	**(9)**	**(2)**	**1**	**25**
Colled ar waredu busnes is-gwmni	**(3)**	-	-	-	-	-	**(3)**
Elw o waredu eiddo, offer a chyfarpar	**70**	-	-	-	-	-	**70**
Elw cyn ariannu a threthiant	**189**	**(98)**	**11**	**(9)**	**(2)**	**1**	**92**
Costau cyllid	**(42)**		-	-	-	-	**(42)**
Incwm cyllid - llog pensiynau net	**-**	59	-	-	-	-	**59**
- arall	**60**	-	-	(2)	-	-	**58**
Elw cyn trethiant	**207**	**(39)**	**11**	**(11)**	**(2)**	**1**	**167**
Trethiant (a gredydir)/(a godir)	**28**	(55)	-	11	-	-	**(16)**
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol o weithrediadau parhaus	**235**	**(94)**	**11**	**-**	**(2)**	**1**	**151**
Elw i'w briodoli i:							
Deiliad ecwiti'r rhiant-gwmni	**235**	**(94)**	**11**	**-**	**(2)**	**1**	**151**
Budd lleiafrifol	**-**	-	-	-	-	-	**-**

Datganiad incwm a threuliau cydnabyddedig y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005

	Adroddid gynt o dan UK GAAP £m	Pensiyn-au IAS 19 £m	Ewyllys da IAS 38 £m	Tâl gwyliau IAS 19 £m	Cymhell-ion prydles SIC 15 £m	Ailddatg-anwyd o dan IFRS £m
Elw ar gyfer y cyfnod	235	(94)	11	(2)	1	151
Gwahaniaethau trosi ar fuddsoddiadau net arian tramor	8	-	-	-	-	8
Enillion a cholledion actiwaraidd		411	-	-	-	411
Trethiant ar eitemau yr aethpwyd â hwy yn uniongyrchol i ecwiti		367	-	-	-	367
Cyfanswm incwm a threuliau cydnabyddedig ar gyfer y cyfnod	**243**	**684**	**11**	**(2)**	**1**	**937**
I'w briodoli i:						
Deiliad ecwiti'r rhiant-gwmni						933
Budd lleiafrifol						4

Mantolen y Grŵp ar 27 Mawrth 2005

	UK GAAP £m	Ailddosb-arthu £m	Pensiynau IAS 19 £m	Ewyllys da IFRS 3 £m	Asedau anniriaethol IAS 38 £m	Tâl gwyliau IAS 19 £m	Arian parod cyfatebol IAS 7 £m	Cymhellion prydles SIC 15 £m	IFRS £m
Asedau nad ydynt yn gyfredol									
Eiddo, offer a chyfarpar	1,591	-	-	-	-	-	-	-	1,591
Ewyllys da	-	129	-	8	(6)	-	-	-	131
Asedau anniriaethol	144	(129)	-	-	6	-	-	-	21
Asedau ariannol buddsoddiadau	135	(131)	-	3	-	-	-	-	7
Buddsoddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt drwy ddefnyddio'r dull ecwiti	-	131	-	-	-	-	-	-	131
Symiau derbyniadwy eraill	-	14	-	-	-	-	-	-	14
Asedau treth ohiriedig	-	16	318	-	-	-	-	-	334
	1,870	30	318	11	-	-	-	-	2,229
Asedau cyfredol									
Stocrestrau	27	-	-	-	-	-	-	-	27
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	1,955	(30)	(834)	-	-	-	-	-	1,091
Asedau ariannol - buddsoddiadau	1,141	-	-	-	-	-	(450)	-	691
Arian parod ac arian parod cyfatebol	890	-	-	-	-	-	450	-	1,340
	4,013	(30)	(834)	-	-	-	-	-	3,149
Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm yr asedau	5,883	-	(516)	11	-	-	-	-	5,378
Rhwymedigaethau cyfredol									
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	(2,684)	375	-	-	-	(42)	-	(1)	(2,352)
Treth incwm sy'n daladwy	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Gorddrafftiau a benthyciadau banc	-	(375)	-	-	-	-	-	-	(375)
Darpariaethau	-	(124)	-	-	-	-	-	-	(124)
	(2,684)	(124)	-	-	-	(42)	-	(1)	(2,851)
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol									
Rhwymedigaethau - benthyciadau sy'n dwyn llog	-	(506)	-	-	-	-	-	-	(506)
Rhwymedigaeth budd-dal ymddeol	-	-	(3,958)	-	-	-	-	-	(3,958)
Darpariaethau	(266)	218	-	-	-	-	-	-	(48)
Rhwymedigaethau treth ohiriedig	-	(94)	89	-	-	-	-	-	(5)
Symiau eraill sy'n daladwy	(548)	506	-	-	-	-	-	(6)	(48)
	(814)	124	(3,869)	-	-	-	-	(6)	(4,565)
Cyfanswm y rhwymedigaethau	(3,498)	-	(3,869)	-	-	(42)	-	(7)	(7,416)
Asedau/(rhwymedigaethau) net	2,385	-	(4,385)	11	-	(42)	-	(7)	(2,038)
Ecwiti									
Enillion argadwedig	1,346	(8)	(4,385)	11	-	(42)	-	(7)	(3,085)
Cronfa ragfantoli wrth gefn	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Trosi arian tramor	-	8	-	-	-	-	-	-	8
Cronfeydd wrth gefn eraill*	1,035	-	-	-	-	-	-	-	1,035
Ecwiti a briodolir i ddeiliaid ecwiti'r rhiant-gwmni	2,381	-	(4,385)	11	-	(42)	-	(7)	(2,042)
Budd lleiafrifol	4	-	-	-	-	-	-	-	4
Cyfanswm ecwiti	2,385	-	(4,385)	11	-	(42)	-	(7)	(2,038)

*Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfa wrth gefn Post £801m, cronfa wrth gefn y Rhwydwaith Gwledig £171m ac Arall £63m.

Datganiad llif arian parod y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005

	UK GAAP £m	Datganiadau llif arian parod IAS 7 £m	Pensiynau IAS 19 £m	Ewyllys da IFRS 3 £m	Cwmnïau cyswllt /Cyd-fentrau IAS 28/31 £m	Tâl gwyliau IAS 19 £m	Cymhellion prydles SIC 15 £m	Ailddatg-anwyd o dan IFRS £m
Llif arian parod o weithgareddau gweithredol								
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol*	**399**	-	(98)	11	(9)	(2)	1	**302**
Dibrisiad ac amorteiddiad	**156**	-	-	(8)	-	-	-	**148**
Symudiadau anariannol eraill (elw o gwmnïau cyswllt a chyd-fentrau)	**(34)**	-	-	(3)	9	-	-	**(28)**
	521	**-**	**(98)**	**-**	**-**	**(2)**	**1**	**422**
Newidiadau mewn cyfalaf gweithred	**(486)**	-	98	-	-	2	(1)	**(387)**
Taliadau arian parod mewn perthynas ag eitemau eithriadol	**(255)**	-	-	-	-	-	-	**(255)**
Arian parod a ddefnyddir mewn gweithrediadau	**(220)**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**(220)**
Treth incwm a adenillir	**13**	**-**						**13**
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi	**(207)**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**(207)**
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi								
Elw o waredu eiddo, offer a chyfarpar	**95**	-	-	-	-	-	-	**95**
Difidendau a dderbynnir gan gwmnïau cyswllt a chyd-fentrau	**19**	-	-	-	-	-	-	**19**
Incwm buddsoddi (llog) a dderbyniwyd	**52**	-	-	-	-	-	-	**52**
Eiddo, peiriannau ac offer a brynwyd	**(219)**	-	-	-	-	-	-	**(219)**
Talu ystyriaeth ohiriedig mewn perthynas â chaffaeliadau'r blynyddoedd blaenorol	**(2)**	-	-	-	-	-	-	**(2)**
Gwaredu busnes is-gwmni	**-**	-	-	-	-	-	-	**-**
Asedau ariannol eraill a brynwyd	**(142)**	134	-	-	-	-	-	**(8)**
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi	**(197)**	**134**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**(63)**
All-lif arian parod net o weithgareddau ariannu	**(404)**	**134**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**(270)**
Llifau arian parod o weithgareddau ariannu								
Talu dyledion prydles gyllidebol	**(34)**	-	-	-	-	-	-	**(34)**
Ad-dalu benthyciadau	**(4)**	-	-	-	-	-	-	**(4)**
Costau cyllid (llog) a dalwyd	**(42)**	-	-	-	-	-	-	**(42)**
Benthyciadau newydd	**325**	-	-	-	-	-	-	**325**
Mewnlif arian parod net o weithgareddau ariannu	**245**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**245**
Gostyngiad net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol	**(159)**	134	-	-	-	-	-	**(25)**
Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r cyfnod**	**1,049**	316	-	-	-	-	-	**1,365**
Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y cyfnod	**890**	**450**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**1,340**

*Mae'r elw gweithredol cyn eitemau eithriadol o £399m wedi'i gyfrifo ar ôl ystyried £34m o elw o gwmnïau cyswllt a chyd-fentrau. Rhaid ei gymharu ag elw gweithredol cyhoeddedig y Grŵp cyn eitemau eithriadol o £365m o dan UK GAAP, a gyfrifwyd cyn ystyried £34m o elw o gwmnïau cysylltiedig a chyd-fentrau.

**Diffinnir arian parod ac arian parod cyfatebol o dan UK GAAP fel arian parod ond, o dan IFRS, mae arian parod ac arian parod cyfatebol yn cynnwys buddsoddiadau ac iddynt ddyddiad aeddfedu lai na thri mis ar ôl y dyddiad caffael a chronfeydd arian y farchnad yn unol â'r polisi cyfrifyddu diwygiedig. Mae'r addasiad o £450m yn adlewyrchu ailddosbarthu'r buddsoddiadau byrdymor priodol yn arian parod cyfatebol.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Mantolen y Grŵp ar 28 Mawrth 2005

	IFRS £m	IAS 32 ac IAS 39 £m	Mantolen agoriadol £m
Asedau nad ydynt yn gyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	1,591	-	1,591
Ewyllys da	131	-	131
Asedau anniriaethol	21	-	21
Asedau ariannol - buddsoddiadau	7	-	7
Buddsoddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt drwy ddefnyddio'r dull ecwiti	131	-	131
Symiau derbyniadwy eraill	14	-	14
Asedau treth ohiriedig	334	-	334
	2,229	**-**	**2,229**
Asedau cyfredol			
Stocrestrau	27	-	27
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	1,091	(11)	1,080
Asedau ariannol - buddsoddiadau	691	(691)	-
Buddsoddiadau a ddelir i'w masnachu	-	134	134
Buddsoddiad a ddelir hyd nes ei fod yn aeddfedu	-	557	557
Arian parod ac arian parod cyfatebol	1,340	-	1,340
Deilliadau	-	9	9
	3,149	**(2)**	**3,147**
Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu	-	-	
Cyfanswm yr asedau	**5,378**	**(2)**	**5,376**
Rhwymedigaethau cyfredol			
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	(2,352)	-	(2,352)
Gorddrafftiau a benthyciadau banc	(375)	-	(375)
Darpariaethau	(124)	-	(124)
Deilliadau	-	(1)	(1)
	(2,851)	**(1)**	**(2,852)**
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol			
Rhwymedigaethau - benthyciadau sy'n dwyn llog	(506)	-	(506)
Rhwymedigaeth budd-dal ymddeol	(3,958)	-	(3,958)
Darpariaethau	(48)	-	(48)
Rhwymedigaethau treth ohiriedig	(5)	-	(5)
Symiau eraill sy'n daladwy	(48)	-	(48)
	(4,565)	**-**	**(4,565)**
Cyfanswm y rhwymedigaethau	**(7,416)**	**(1)**	**(7,417)**
Rhwymedigaethau net	**(2,038)**	**(3)**	**(2,041)**
Ecwiti			
Enillion argadwedig	(3,085)	(11)	(3,096)
Cronfa ragfantoli wrth gefn	-	8	8
Cronfa cyfnewid arian tramor wrth gefn	8	-	8
Cronfeydd wrth gefn eraill*	1,035	-	1,035
Ecwiti a briodolir i ddeiliaid ecwiti'r rhiant-gwmni	**(2,042)**	**(3)**	**(2,045)**
Budd lleiafrifol	4	-	4
Cyfanswm ecwiti	**(2,038)**	**(3)**	**(2,041)**

*Mae'r cronfeydd wrth gefn eraill yn cynnwys cronfa wrth gefn Post £801m, cronfa wrth gefn y Rhwydwaith Gwledig £171m ac Arall £63m.

Crynodeb pum mlynedd y Grŵp

	Paratowyd o dan UK GAAP			Paratowyd neu ailddatganwyd o dan IFRS	
Datganiad incwm	2002[1] £m	2003 £m	2004 £m	2005 £m	**2006 £m**
Refeniw	8,408	8,299	8,633	8,956	**9,056**
(Colled)/elw o weithrediadau	(318)	(197)	220	-	**-**
Ychwanegu budd/(tâl) pensiynau mewn perthynas â gwarged/(diffyg) pensiynau o dan SSAP 24	250	246	(132)	-	**-**
(Colled)/elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	(68)	49	88	302	**355**
Eitemau eithriadol gweithredol	(1,126)	(721)	(64)	(277)	**(210)**
(Colled)/elw gweithredol	(1,194)	(672)	24	25	**145**
Eitemau eithriadol anweithredol	14	26	64	67	**67**
(Colled)/elw cyn llog	(1,180)	(646)	88	92	**212**
Incwm a chostau cyllid	56	35	17	75	**100**
(Colled)/elw cyn treth	(1,124)	(611)	105	167	**312**
Trethiant	179	52	(98)	(16)	**83**
(Colled)/elw ar ôl treth	(945)	(559)	7	151	**395**

Mantolen	2002 £m	2003 £m	2004 £m	2005 £m	**2006 £m**
Ewyllys da ac asedau anniriaethol	146	156	123	152	**174**
Eiddo, offer a chyfarpar	1,783	1,648	1,550	1,591	**1,594**
Buddsoddiadau asedau sefydlog ac asedau eraill nad ydynt yn gyfredol	94	83	138	486	**528**
Asedau cyfredol net	1,987	1,785	1,445	298	**534**
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol	(1,405)	(1,584)	(1,118)	(4,565)	**(6,169)**
Asedau/(rhwymedigaethau) net	2,605	2,088	2,138	(2,038)	**(3,339)**

Llif arian parod	2002 £m	2003 £m	2004 £m	2005 £m	**2006 £m**
All-lif arian parod net cyn defnyddio adnoddau a chyllido hylif	(100)	(486)	(222)	(304)	**(163)**

Nodyn

[1] blwyddyn 53 wythnos. Mae pob blwyddyn arall yn flwyddyn 52 wythnos.

Paragraff 37 o Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 1 - mae mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i nodi'n glir wybodaeth a baratowyd o dan GAAP blaenorol. Mae'n ofynnol hefyd ddatgelu natur y prif addasiadau a fyddai'n angenrheidiol i gydymffurfio ag IFRS. Nid oes angen meintoli'r addasiadau hynny. Y prif addasiadau i gyfrifon y Grŵp ar adeg mabwysiadu IFRS yw:

- cynnwys rhwymedigaeth budd ymddeol ar wahân ar y fantolen;
- nid yw masnach a symiau derbyniadwy eraill yn cynnwys elfen o ragdaliad pensiwn mwyach;
- treth ohiriedig a godwyd i adlewyrchu cyflwyno rhwymedigaeth budd-dal ymddeol;
- mae tâl gwyliau a gronnwyd wedi'i gynnwys o dan fasnach a symiau eraill sy'n daladwy;
- mae'r datganiad incwm yn adlewyrchu nifer o fân newidiadau sy'n ymwneud â chyflwyniad yn bennaf ond newidiadau i'r tâl pensiwn a threthiant cysylltiedig yw'r prif newidiadau; ac
- mae'r datganiad llif arian parod wedi'i gynhyrchu bellach ar fformat IFRS, sy'n dangos gweithgareddau gweithredol, cyllidol a buddsoddi.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Cyfrifon y Rhiant-Gwmni

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â chyfrifon y rhiant-Gwmni

Mae cyfraith cwmni yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cwmni.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- nodi a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, ar yr amod bod unrhyw wyriadau perthnasol wedi'u datgelu a'u hesbonio yn y cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cwmni, ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 1985. Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod asedau'r Cwmni yn cael eu diogelu ac am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac afreoleidd-dra arall.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i aelodau'r Cwmni Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y rhiant-gwmni o Ddaliadau'r Post Brenhinol ccc am y flwyddyn a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 sy'n cynnwys y Fantolen a'r nodiadau 1 i 6 cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn am y rhiant-Gwmni o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr y dywedir iddo gael ei harchwilio.

Rydym wedi cyflwyno adroddiad ar wahân ar ddatganiadau ariannol y Grŵp o Ddaliadau'r Post Brenhinol ccc am y flwyddyn a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol ag Adran 235 o Ddeddf Cwmnïau 1985. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu aelodau'r Cwmni o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu ohonynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Cwmni ac aelodau'r Cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Priod gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr a'r archwilwyr

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr a datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â chyfraith berthnasol y DG a'r Safonau Cyfrifyddu (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol) fel y nodwyd yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr.

Ein cyfrifoldeb yw archwilio datganiadau ariannol y rhiant-Gwmni a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DG ac Iwerddon).

Nodwn, yn ein barn, a yw datganiadau ariannol y Grŵp yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw datganiadau ariannol y rhiant-Gwmni a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 1985.

Nodwn hefyd os, yn ein barn ni, nad yw Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn gyson â datganiadau ariannol y rhiant-Gwmni, os nad yw'r Cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, os nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol i'n harchwiliad, neu os na ddatgelir gwybodaeth a ragnodir o dan y gyfraith yngl□n â chydnabyddiaeth Cyfarwyddwr a thrafodion eraill.

Darllenwn y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac ystyriwn a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol y rhiant-Gwmni a archwiliwyd ai peidio. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys Datganiad y Cadeirydd, Datganiad y Prif Weithredwr, yr Adolygiad Blynyddol, yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y datganiad Llywodraethu Corfforaethol, y datganiad o Reolaeth Fewnol, rhan anarchwiliedig Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr a'r Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr yn unig. Ystyriwn y goblygiadau i'n hadroddiad os deuwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol yn natganiadau ariannol y rhiant-gwmni. Nid yw ein cyfrifoldebau yn cwmpasu unrhyw wybodaeth arall.

Sail y farn archwilio

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn natganiadau ariannol y rhiant-Gwmni a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wneir gan y Cyfarwyddwyr wrth baratoi datganiadau ariannol y rhiant-Gwmni, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Cwmni, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chyflawnwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oedd eu hangen yn ein barn ni er mwyn rhoi i ni ddigon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod datganiadau ariannol y rhiant-Gwmni a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr sydd i'w harchwilio yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio ein barn rydym hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn natganiadau ariannol y rhiant-Gwmni a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr sydd i'w harchwilio.

Barn

Yn ein barn ni:

- mae datganiadau ariannol y rhiant-Gwmni yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cwmni ar 26 Mawrth 2006, yn unol â'r Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol; ac
- paratowyd datganiadau ariannol y rhiant-Gwmni a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr sydd i'w harchwilio yn briodol yn unol â Deddf Cwmniau 1985.

Ernst & Young LLP
Archwilydd Cofrestredig
Llundain
17 Mai 2006

Mantolen y Rhiant-Gwmni

Ar 26 Mawrth 2006 a 27 Mawrth 2005

	Nodiadau	2006 £m	2005 fel yr ailddatganwyd £m
Asedau sefydlog			
Buddsoddiadau	4	**3,784**	3,784
Cyfanswm yr asedau net		**3,784**	3,784
Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn			
Cyfalaf cyfranddaliadau wedi'i alw	6	**-**	-
Cyfrif elw a cholled	5	**3,784**	3,784
Cronfeydd y cyfranddalwyr		**3,784**	3,784

Cymeradwywyd y cyfrifon ar dudalennau 105 i 106 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 17 Mai 2006 a'u llofnodi ar ei ran gan:

Allan Leighton **Adam Crozier**

Nodiadau i gyfrifon y rhiant-Gwmni

1. Polisïau cyfrifyddu'r Rhiant-Gwmni

Mae'r polisïau cyfrifyddu canlynol yn gymwys:

Y flwyddyn ariannol

Daw'r flwyddyn ariannol i ben ar y dydd Sul olaf ym mis Mawrth ac yn unol â hynny, paratoir y cyfrifon hyn hyd at y 52 wythnos a ddaeth i ben 26 Mawrth 2006 (52 wythnos a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005).

Sail y paratoi

Paratowyd y cyfrifon ar dudalennau 105 i 106 yn unol â'r safonau cyfrifyddu sy'n gymwys yn y Deyrnas Gyfunol, o dan y confensiwn cyfrifyddu cost hanesyddol a gofynion Deddf Cwmniau 1985.

Nid yw Daliadau'r Post Brenhinol ccc (y Cwmni) wedi cyflwyno ei gyfrif elw a cholled ei hun, fel y caniateir o dan a230 o'r Ddeddf Cwmniau (3). Fodd bynnag, datgelir canlyniadau'r Cwmni ar gyfer y flwyddyn yn nodyn 5 i'r cyfrifon.

Ni chyhoeddwyd Safonau Adrodd Ariannol newydd, sy'n effeithio ar y modd y cyflwynir y cyfrifon hyn gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu.

Buddsoddiadau asedau sefydlog

Datgenir buddsoddiadau mewn is-gwmnïau, cyd-fentrau a chwmniau cysylltiedig yng nghyfrifon y Cwmni ar gost llai unrhyw golledion lleihad mewn gwerth a gronnwyd. Mae gan y Cwmni un buddsoddiad: Grŵp y Post Brenhinol ccc, is-gwmni 100%

Newid yn y polisi cyfrifyddu

Newidiwyd polisi cyfrifyddu ar gyfer buddsoddiadau asedau sefydlog gan arwain at addasiad yn y cyfnod blaenorol (gweler nodiadau 4 a 5). O'r blaen, cydnabyddid buddsoddiadau mewn cwmniau a ffurfiwyd yn fewnol ar werth ased clir y cwmni a ffurfiwyd yn fewnol. Credir bod y polisi cyfrifyddu cyfredol, fel y'i datgelir uchod, yn fwy priodol, gan roi cyflwyniad mwy perthnasol a dibynadwy yn y cyfrifon. Byddai cymhwyso'r polisi cyfrifyddu cyfredol yn 2005 yn lleihau'r elw cofnodedig ar gyfer y flwyddyn o £184m i £dim.

2. Taliadau Cyfarwyddwyr

Nid yw'r Cwmni yn talu ffioedd i Gyfarwyddwyr y Cwmni am eu gwasanaethau fel Cyfarwyddwyr y Cwmni. Telir ffioedd i Gyfarwyddwyr y Cwmni gan gwmnïau eraill y Grŵp. Datgelwyd y taliadau hyn yng nghyfrifon y Grŵp.

3. Cydnabyddiaeth yr archwilwyr

Nid yw'r Cwmni yn talu ffioedd i Archwilwyr y Cwmni. Telir ffioedd i Archwilwyr y Cwmni gan gwmnïau eraill y Grŵp, Datgelir y gydnabyddiaeth hon yng nghyfrifon y Grŵp.

4. Buddsoddiadau asedau sefydlog

	£m
Fel y cofnodwyd ar 27 Mawrth 2005	2,330
Addasiad cyfnod blaenorol (gweler nodyn 1)	1,454
Fel yr ailddatganwyd ar 27 Mawrth 2005	3,784
Symudiad	-
Ar 26 Mawrth 2006	**3,784**

5. Cyfrif elw a cholled

	£m
Fel y cofnodwyd ar 27 Mawrth 2005	2,330
Addasiad cyfnod blaenorol (gweler nodyn 1)	1,454
Fel yr ailddatganwyd ar 27 Mawrth 2005	3,784
Elw/(colled) am y flwyddyn	-
Ar 26 Mawrth 2006	**3,784**

Yr elw/(colled) yr ymdriniwyd ag ef yng nghyfrifon y rhiant-gwmni oedd £dim (2005 £dim wedi'i ailddatgan). Mae'r Cwmni yn gwmni anfasnachol ac mae unrhyw elw/(colled) ar gyfer y flwyddyn ariannol yn codi o ganlyniad i'r polisi cyfrifyddu ar fuddsoddiadau asedau sefydlog. Noda hwn fod buddsoddiadau wedi'u datgan ar gost llai unrhyw golledion lleihad mewn gwerth a gronnwyd. Felly, mae elw'r Cwmni ar gyfer y flwyddyn ariannol wedi'i ddileu yng nghyfrifon y Grŵp ac felly nid yw'n rhan o ganlyniadau'r Grŵp.

6. Cyfalaf cyfranddaliadau

Datgelir manylion y cyfalaf cyfranddaliadau yng nghyfrifon y Grŵp ar dudalen 77.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiadau sy'n edrych i'r Dyfodol

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys datganiadau am fusnes y Grŵp, ei gyflwr ariannol, canlyniadau ei weithrediadau a rhai o gynlluniau, amcanion, tybiaethau, rhagamcanion, disgwyliadau neu safbwyntiau'r Grŵp mewn perthynas â'r eitemau hyn.

Rhybuddia'r Cwmni fod unrhyw ddatganiadau sy'n edrych i'r dyfodol yn y ddogfen hon yn gallu bod yn wahanol i'r canlyniadau gwirioneddol ac yn aml maent yn wahanol a gall gwahaniaethau rhwng y datganiadau hyn a chanlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol. Felly rhybuddir darllenwyr i beidio â rhoi dibyniaeth amhriodol ar ddatganiadau sy'n edrych i'r dyfodol. Nid yw'r Cwmni yn ymrwymo i gyhoeddi canlyniad unrhyw ddiwygiadau i'r datganiadau hyn sy'n edrych i'r dyfodol a wneir i adlewyrchu digwyddiadau neu amgylcheddau ar ôl dyddiad y ddogfen hon, gan gynnwys heb gyfyngiad, newidiadau yn strategaeth y Grŵp, neu adlewyrchu bod digwyddiadau nas rhagwelwyd wedi digwydd.

Yn ôl eu natur mae datganiadau sy'n edrych i'r dyfodol yn cynnwys risg ac ansicrwydd am eu bod yn ymwneud â digwyddiadau ac yn dibynnu ar amgylchiadau a fydd yn digwydd yn y dyfodol. Felly dylid ystyried datganiadau o'r fath sy'n edrych i'r dyfodol yng ngoleuni amryw ffactorau pwysig a allai beri i ganlyniadau a datblygiadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r hyn a fynegwyd neu a awgrymwyd gan y datganiadau hyn sy'n edrych i'r dyfodol. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill: effaith cynnyrch a phrisio cystadleuol; problemau gweithredol mawr yn digwydd; colled cwsmeriaid pwysig; cyfyngiadau a osodwyd gan ddyled y Grŵp; ymrwymiadau a gwarantau yn ymwneud â'r cronfeydd pensiwn; rhwymedigaethau amodol; risgiau ymgyfreitha a risgiau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau'r Grŵp tramor.

Gwybodaeth gorfforaethol

Swyddfa Gofrestredig a Phrif Swyddfa'r Grŵp

Daliadau'r Post Brenhinol ccc
148 Old Street
LLUNDAIN
EC1V 9HQ
020 7250 2888
Rhif Cofrestredig: 4074919

Mae Post Brenhinol, y Groesffurf, y lliw coch, Parcelforce Worldwide a logo Parcelforce Worldwide yn nodau masnach cofrestredig Grŵp y Post Brenhinol ccc. Mae Swyddfa'r Post a symbol Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Adroddiad a Chyfrifon 2006 (h) Grŵp y Post Brenhinol ccc 2006. Cedwir pob hawl.

Gwefan gorfforaethol

Gellir gweld gwybodaeth gorfforaethol ychwanegol a gwybodaeth arall ar y wefan ganlynol (www.royalmailgroup.com). Ni fwriedir i'r wybodaeth a roddir ar y wefan gael ei hystyried yn rhan o'r cyfrifon ac ni ddylid ystyried ei bod yn rhan o'r cyfrifon.

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gynnal gwefannau'r Grŵp a'u cywirdeb; nid yw'r gwaith a gynhaliwyd gan yr archwiliwyr yn yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno gyntaf ar y wefan.

Archwilwyr

Ernst & Young LLP
1 More London Place
LLUNDAIN
SE1 2AF

Actiwariaid

Watson Wyatt Limited
Watson House
London Road
Reigate
Surrey
RH2 9PQ

Cyfreithwyr

Slaughter and May
1 Bunhill Row
LLUNDAIN
EC1Y 8YY

Rheoleiddiwr (Postcomm)

Postal Services Commission
Hercules House
6 Hercules Road
LLUNDAIN
SE1 7DB

Y corff defnyddwyr

Postwatch
28 Grosvenor Gardens
LLUNDAIN
SW1W 0TT